# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2012
Tuesday, 31 January 2012

**Cynnwys**
**Contents**


| | |
|---|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister |
| 31 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement |
| 40 | Datganiad: Ardaloedd Menter<br>Statement: Enterprise Zones |
| 62 | Datganiad: Adolygiad o Effeithiolrwydd Datblygu Cynaliadwy<br>Statement: Sustainable Development Effectiveness Review |
| 75 | Datganiad: Cyhoeddi'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd<br>Statement: Publication of the Climate Change Risk Assessment |
| 86 | Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Fil y DU ynghylch Diogelu Rhyddidau<br>Legislative Consent Motion on the Protection of Freedoms Bill |
| 88 | Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2012<br>The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions) Order 2012 |
| 90 | Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol<br>The National Transport Plan |
| 118 | Y Strategaeth Microfusnesau<br>The Microbusiness Strategy |
| 140 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time |


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Adnoddau Ynni Ffosil

### Fossil Energy Resources

***1. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am archwilio ar gyfer adnoddau ynni ffosil yng Nghymru. OAQ(4)0337(FM)*

***1. William Graham:*** *Will the First Minister make a statement on the exploration for fossil energy resources in Wales. OAQ(4)0337(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** As with all types of energy extraction, there is a need to ensure that consideration of the potential impact on communities and the environment is at the heart of the consents process.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yn unol â phob math o ddulliau o echdynnu ynni, mae angen sicrhau bod ystyriaeth o'r effaith bosibl ar gymunedau a'r amgylchedd wrth wraidd y broses o roi caniatâd.

**William Graham:** Thank you very much for your reply, First Minister. You will know that Newport City Council has recently considered an application to test drill for oil or gas just off the Nash part of Newport. Bearing in mind what you have just said, do you think it is time now for a full statement to be issued by your Minister here, covering issues such as gas and oil, as well as fracking?

**William Graham:** Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Gwyddoch fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi ystyried cais yn ddiweddar i gynnal arbrawf ar gyfer drilio am olew neu nwy gerbron ardal Nash yng Nghasnewydd. Gan gadw mewn cof yr hyn rydych newydd ei ddweud, a ydych yn credu ei bod yn amser bellach i'ch Gweinidog wneud datganiad llawn yma, a hynny gan fynd i'r afael â materion fel nwy ac olew, yn ogystal â ffracio?

**The First Minister:** The licensing for onshore oil and gas is regulated by the Department for Energy and Climate Change, which has responsibility for that. In terms of other areas such as offshore oil, again, these are matters that are primarily within the purview of the UK Government. However, we take the view that it is important that where new sources of fuel are being examined and drilled for, a precautionary approach should be taken.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r broses drwyddedu ar gyfer olew a nwy ar y tir yn cael ei rheoleiddio gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, sy'n gyfrifol am y maes hwnnw. O ran meysydd eraill, fel olew ar y môr, unwaith eto, mae'r rhain yn faterion a ddaw o fewn cwmpas Llywodraeth y DU yn bennaf. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn bwysig mabwysiadu dull gweithredu rhagofalus wrth archwilio neu ddrilio am ffynonellau newydd o danwydd.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Onid yw'r ffaith bod adrannau o ddwy Lywodraeth yn ymwneud â phrosesau cynllunio ynni bron ymhob achos yn pwysleisio pwysigrwydd gwell cydweithrediad ynglŷn â fframwaith polisi? Onid yw hi'n bryd i ni gael rhywbeth

**Lord Elis-Thomas:** Does the fact that departments from two Governments are involved in dealing with the energy planning process in almost every case not emphasise the importance of better collaboration on a policy framework? Is it not time that we had

tebyg i TAN 8 yn ymwneud ag agweddau eraill ar ynni, nid dim ond ynni adnewyddadwy?

something similar to TAN 8 related to other aspects of energy, not just renewable energy?

**Y Prif Weinidog:** Heb i ni gael yr un pwerau â'r Alban, er enghraifft, ni fyddai llawer o bwynt gwneud hynny. Wedyn, wrth gwrs, byddai'n bosibl i Gymru edrych ar ddatblygu polisi cynhwysfawr. Nid yw'n bosibl gwneud hynny ar hyn o bryd gan fod y cyfrifoldeb wedi ei rannu.

**The First Minister:** There is very little point in doing that unless we get the same powers as Scotland, for example. Then, of course, it would be possible for Wales to look at developing a comprehensive policy. It is not possible to do that at the moment because the responsibility is shared.

**William Powell:** In the executive summary of its first annual report, the climate change commission says that, as a nation, Wales is living beyond its environmental limits, is over-reliant on fossil fuels and is emitting unsustainable levels of greenhouse gases. While accepting that the withdrawal of reliance on such fossil fuels is more of a process than an event, what concrete steps will the First Minister outline to advance this important agenda?

**William Powell:** Yng nghrynodeb gweithredol ei adroddiad blynyddol cyntaf, mae'r comisiwn newid hinsawdd yn dweud bod Cymru, fel cenedl, yn byw y tu hwnt i'w therfynau amgylcheddol, yn orddibynnol ar danwyddau ffosil ac yn gyfrifol am lefelau anghynaladwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gan dderbyn bod lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil o'r fath yn broses yn hytrach na digwyddiad, pa gamau pendant y bydd y Prif Weinidog yn eu hamlinellu i fwrw ymlaen â'r agenda pwysig hwn?

**The First Minister:** We have, of course, provided the framework for the development of onshore and offshore wind energy. We have helped to finance projects that look to develop further marine energy in Wales, and, in this way, we can reduce Wales's carbon footprint in the future.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, rydym wedi darparu fframwaith ar gyfer datblygu ynni gwynt ar y tir ac ar y môr. Rydym wedi helpu i ariannu prosiectau sy'n ceisio datblygu rhagor o ynni morol yng Nghymru. Yn y modd hwn, gallwn leihau ôl-troed carbon Cymru yn y dyfodol.

### Blaenoriaethau

### Priorities

*__2. Darren Millar__: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru yn 2012. OAQ(4)0332(FM)*

*__2. Darren Millar:__ Will the First Minister make a statement on his priorities for north Wales in 2012. OAQ(4)0332(FM)*

**The First Minister:** They are outlined in our programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Maent wedi'u hamlinellu yn ein rhaglen lywodraethu.

**Darren Millar:** Thank you very much for that answer, First Minister. A report produced by the Enterprise and Business Committee last week made it clear that many high streets across Wales are struggling in the current economic downturn, and that many town centres are in need of some quick support from the Welsh Government. Do you accept that our business rates policy to reduce business rates, and indeed scrap them for most small business in Wales, would be a huge benefit to those businesses that are struggling during the economic downturn,

**Darren Millar:** Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Mae adroddiad a luniwyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes yr wythnos diwethaf yn ei gwneud yn glir bod nifer o strydoedd mawr Cymru yn dioddef yn sgîl y dirywiad economaidd presennol, a bod angen cymorth ar frys ar nifer o ganol trefi gan Lywodraeth Cymru. A ydych yn derbyn y byddai ein polisi ar gyfer lleihau ardrethi busnes—ac, yn wir, eu diddymu mewn perthynas â'r rhan fwyaf o fusnesau bach yng Nghymru—o fudd mawr i'r busnesau hynny sy'n dioddef anawsterau yn ystod y dirywiad

and particularly help to reverse the trend of shop closures in our town centres? In town centres in north Wales for example, one in five shops are closed at this time.

economaidd, ac yn benodol yn helpu i wrthdroi'r tueddiad o weld siopau'n cau yng nghanol trefi? Yng nghanol trefi yng ngogledd Cymru, er enghraifft, mae un o bob pum siop ar gau ar hyn o bryd.

**The First Minister:** Of course, you would increase council tax in order to pay for that; that is the one thing that you omit. However, you are right to point out that we have seen a decline in town centres. What shops need are customers particularly; shops have lost a great deal of their customer base to online retailing. We have seen large retailers suffering as well. How do we deal with it? One way of doing that is to ensure that we look to regenerate our town centres, and we have done that in many parts of Wales. Rhyl is one example where money has helped to regenerate the town centre. Making town centres attractive places to shop will attract people in to shop and provide shops with the customers they need in order to be viable.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, byddech yn cynyddu'r dreth gyngor er mwyn talu am hynny; dyna'r manylyn rydych yn ei hepgor. Fodd bynnag, rydych yn gywir i dynnu sylw at y ffaith ein bod wedi gweld dirywiad yng nghanol trefi yng Nghymru. Yn benodol, yr hyn y mae ar siopau eu hangen yw cwsmeriaid; maent wedi colli llawer o'u cwsmeriaid craidd o ganlyniad i weithgareddau manwerthu ar-lein. Rydym wedi gweld manwerthwyr mawr yn dioddef hefyd. Sut ydym yn ymdrin â'r sefyllfa hon? Un ffordd o wneud hynny yw sicrhau ein bod yn ceisio adfywio canol trefi, ac rydym wedi gwneud hynny mewn sawl rhan o Gymru. Mae'r Rhyl yn un enghraifft lle mae arian wedi helpu i adfywio canol y dref. Bydd sicrhau bod canol trefi yn lleoliadau deniadol i siopa yn denu pobl, ac yn sicrhau bod gan siopau y cwsmeriaid sydd eu hangen arnynt i fod yn hyfyw.

**Kenneth Skates:** First Minister, the Welsh Government's aim is that all social housing in the country should achieve the Welsh housing quality standard by the end of 2012. However, a report by the Auditor General for Wales recently highlighted concerns over the progress that is being made in some areas, including Wrexham. This comes in a year when the local authority sought to uplift rents by around 5.5%, impacting on 11,500 households. What work are you doing with Wrexham County Borough Council to ensure that it puts in place an effective plan to meet the Welsh housing quality standard and bring local authority homes up to scratch?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol sy'n bodoli yn y wlad yn cyrraedd y safon ansawdd tai yng Nghymru erbyn diwedd 2012. Fodd bynnag, yn ddiweddar, nododd adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru bryderon ynghylch y cynnydd a wneir mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys Wrecsam. Daw hyn mewn blwyddyn pan geisiodd yr awdurdod lleol gynyddu costau rhent oddeutu 5.5%, gan effeithio ar 11,500 o gartrefi. Pa waith yr ydych yn ei wneud gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i sicrhau ei fod yn llunio cynllun effeithiol i gyrraedd y safon ansawdd tai yng Nghymru ac i adfer tai awdurdodau lleol i'r safon ddisgwyliedig?

**The First Minister:** Where local authority tenants have voted to retain their housing stock, as is the case in Wrexham, officials are working closely with the local authority to help it maximise its use of resources, improve its properties and work towards the standard.

**Y Prif Weinidog:** Mewn achosion lle mae tenantiaid awdurdodau lleol wedi pleidleisio i gadw eu stoc dai, fel y maent wedi'i wneud yn Wrecsam, mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol er mwyn cynorthwyo'r awdurdod i gynyddu ei ddefnydd o adnoddau, gwella ei eiddo a gweithio tuag at y safon honno.

**Alun Ffred Jones:** Cyfeiriodd y Papur Gwyrdd ar yr amgylchedd a gyhoeddwyd ddoe—papur da iawn—at greu un corff amgylcheddol i Gymru. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi'i leoli ym Mangor ar hyn o bryd. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i sicrhau y bydd polisi iaith blaengar Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn trosglwyddo i'r corff newydd, ac a wnaiff y Prif Weinidog hefyd ymrwymo i roi ystyriaeth lawn i'r posibilrwydd o leoli pencadlys y corff newydd yng ngogledd-orllewin Cymru?

**Alun Ffred Jones:** The Green Paper on the environment that was published yesterday—it was a very good paper—referred to the creation of a single environmental body for Wales. The Countryside Council for Wales is located in Bangor at the moment. Will the First Minister commit to ensuring that the Countryside Council for Wales's innovative Welsh language policy will be transferred to the new body, and will the First Minister also commit to giving full consideration to the possibility of locating the headquarters of this new body in north-west Wales?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf, wrth gwrs, yn deall diddordeb yr Aelod yn y pencadlys ym Mangor. Pan fydd y corff newydd yn cael ei sefydlu, bydd yn rhaid ystyried y lleoliad gorau ar gyfer ei bencadlys.

**The First Minister:** I, of course, understand the Member's interest in the headquarters in Bangor. When the new body is established, consideration must be given to the best location for its headquarters.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, one organisation that is doing exceptional work to improve the quality of care of young patients in north Wales is the North Wales Chrysalis Trust. This is the only organisation in north Wales that specialises in support and professional counselling for children and parents who have suffered the death of a child or young adult in the family. Does the First Minister share my view that the best way to safeguard this invaluable service would be for the Betsi Cadwaladr University Local Health Board to provide a service level agreement and core funding, so that Chrysalis can plan its operations for more than a single year at a time?

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, un sefydliad sy'n gwneud gwaith eithriadol o ran gwella ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion ifanc yng ngogledd Cymru yw Ymddiriedolaeth Chrysalis Gogledd Cymru. Dyma'r unig sefydliad yng ngogledd Cymru sy'n arbenigo mewn darparu cymorth a gwasanaethau cwnsela proffesiynol i blant a rhieni sydd wedi dioddef marwolaeth plentyn neu oedolyn ifanc yn y teulu. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai'r ffordd orau o ddiogelu'r gwasanaeth amhrisiadwy hwn fyddai drwy sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu cytundeb lefel gwasanaeth a chyllid craidd, fel y gall chrysalis gynllunio ei gweithrediadau am gyfnod o fwy na blwyddyn ar y tro?

**The First Minister:** These are issues between Chrysalis and the local health board. From what you say, Chrysalis provides a very important service—the kind of service that would be important in any part of Wales. In terms of how that service is provided, of course, it is ultimately a matter for the local health board.

**Y Prif Weinidog:** Materion i'w trafod gan chrysalis a'r bwrdd iechyd lleol yw'r rhain. O ystyried yr hyn a ddywedasoch, mae chrysalis yn darparu gwasanaeth pwysig iawn—y math o wasanaeth a fyddai'n bwysig yn unrhyw ran o Gymru. Mae'r mater o sut y dylid darparu'r gwasanaeth hwnnw, wrth gwrs, yn fater i'r bwrdd iechyd lleol yn y pen draw.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** First Minister, last week you published a document titled 'Delivering for

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf cyhoeddasoch y ddogfen 'Cyflawni dros

Wales'. In the document, you have a five-point plan for jobs. You cannot deliver on any of them because the relevant powers are reserved to Westminster. Why are they in the document at all?

Gymru'. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynllun pum pwynt ar gyfer creu swyddi. Ni allwch gyflawni'r un ohonynt gan fod y pwerau perthnasol yn rhai a gadwyd yn ôl yn San Steffan. Pam y cafodd y pwyntiau hyn eu cynnwys yn y ddogfen o gwbl?

**The First Minister:** I notice that the party opposite's plan for jobs is nothing whatsoever. We have seen nothing from that party. I note, of course, that the unemployment figures for Wales have come down compared with those for the rest of the UK, which have risen, and compared with the figures for Scotland, which have also risen. I know that that is only one figure and that there are many more in the months to come. However, this shows that the policies of this Government, in terms of creating jobs in Wales, are having an effect.

**Y Prif Weinidog:** Sylwaf nad oes gan y blaid gyferbyn unrhyw gynllun o gwbl ar gyfer creu swyddi. Ni welsom unrhyw beth gan y blaid honno. Nodaf, wrth gwrs, fod ffigurau diweithdra Cymru wedi gostwng o'u cymharu â gweddill y DU, lle maent wedi cynyddu, ac o'u cymharu â'r Alban, lle maent wedi cynyddu hefyd. Gwyddwn mai un ffigur yn unig yw hwn, a bod llawer o ffigurau eraill i ddod yn y misoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn dangos bod polisïau'r Llywodraeth hon, o ran creu swyddi yng Nghymru, yn cael effaith.

**Ieuan Wyn Jones:** I find it strange that you have a document whose title is 'Delivering for Wales', yet you cannot deliver on your five points. It says that you want to cut value added tax; you cannot do it. It says that you want to have a one-year national insurance tax break; you cannot do it. What is the point of having a document where you cannot deliver on most of the key issues?

**Ieuan Wyn Jones:** Teimlaf ei bod yn rhyfedd fod gennych ddogfen sydd â'r teitl 'Cyflawni dros Gymru', ond ni allwch gyflawni eich pum pwynt. Dywed y ddogfen eich bod am leihau treth ar werth; ni allwch wneud hynny. Dywed y ddogfen eich bod am gael seibiant o flwyddyn mewn taliadau treth yswiriant gwladol; ni allwch wneud hynny. Beth yw diben cael dogfen o'r fath os na allwch fynd i'r afael â mwyafrif o'r materion allweddol sydd wedi'u cynnwys ynddi?

Today, First Minister, we also heard the announcement that 20% of 11-year-olds in Wales are functionally illiterate. Is that not a damning indictment of your Government?

Heddiw, Brif Weinidog, clywsom gyhoeddiad bod 20% o ddisgyblion 11 oed yng Nghymru yn anllythrennog yn ymarferol. Onid yw hyn yn gyhuddiad damniol o'ch Llywodraeth?

**The First Minister:** You should bear in mind that you were in Government at the time when the report was dealing with this situation. Memories are short on the benches opposite. The reality is that the Government is putting in place national literacy and numeracy programmes, and we are confident that the figures that we saw up to July 2011 will be improved on in years to come.

**Y Prif Weinidog:** Dylech gadw mewn cof y ffaith ichi fod yn rhan o'r Llywodraeth ar yr adeg pan oedd yr adroddiad yn ymdrin â'r sefyllfa hon. Cof byr sydd gan yr Aelodau ar y meinciau gyferbyn. Y gwirionedd yw bod y Llywodraeth yn rhoi rhaglenni cenedlaethol llythrennedd a rhifedd ar waith, ac rydym yn hyderus y bydd y ffigurau a welsom hyd at fis Gorffennaf 2011 yn gwella yn y blynyddoedd i ddod.

**Ieuan Wyn Jones:** I find this all very interesting, First Minister. First of all, you have a document that includes things that you cannot deliver. You acknowledge that point. Secondly, you take no responsibility

**Ieuan Wyn Jones:** Mae hyn yn ddiddorol iawn imi, Brif Weinidog. Yn gyntaf oll, mae gennych ddogfen sy'n cynnwys pethau na allwch eu cyflawni. Rydych yn cydnabod y pwynt hwnnw. Yn ail, nid ydych yn cymryd

whatsoever for having a Labour Minister for education for the past 12 years: every single Minister for education has been a Labour Minister. However, rather than being a complacent, do-nothing Government, is it not time that you invested properly in education and skills, to bring forward—as Gerry Holtham has said—a substantial capital programme to stimulate the economy, and to assist small businesses through more help with business rates? Is that not what a credible Welsh Government would do in the current economic circumstances?

unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am gael Gweinidog Llafur dros addysg yn ystod y 12 mlynedd diwethaf: bu pob Gweinidog dros addysg yn Weinidog Llafur. Fodd bynnag, yn hytrach na bod yn Llywodraeth hunanfodlon sy'n gwneud dim, onid yw'n bryd ichi fuddsoddi mewn modd priodol mewn addysg a sgiliau, i gyflwyno—fel y dywedodd Gerry Holtham—rhaglen gyfalaf sylweddol i ysgogi'r economi, ac i gynorthwyo busnesau bach drwy ddarparu rhagor o gymorth mewn perthynas ag ardrethi busnes? Onid dyma'r hyn y byddai Llywodraeth Cymru gredadwy yn ei wneud o dan yr amgylchiadau economaidd presennol?

**The First Minister:** I congratulate the Leader of Plaid Cymru on the sudden recovery of his memory. I point out the £55 million spent on supporting business growth in Wales; the £38.9 million economic stimulus package; the £90 million of centrally retained capital funding to be spent on infrastructure; the £75 million in the Jobs Growth Wales scheme that will create 4,000 jobs a year for three years—his party wanted 1,000—and £30 million in the Skills Growth Wales scheme to support the creation of 3,000 jobs over the next three years. We are a Government of dynamism, as opposed to the do-nothing party opposite. [*Laughter*.] I look at the Members opposite and wonder whether all of Wales would have gone to sleep had we exhibited their dynamism.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn llongyfarch Arweinydd Plaid Cymru ar adfer ei gof yn sydyn. Nodaf y £55 miliwn a wariwyd ar gefnogi twf busnesau yng Nghymru; y pecyn £38.9 miliwn ar gyfer ysgogi'r economi; y £90 miliwn o gyllid cyfalaf a gedwir yn ganolog ac a gaiff ei wario ar seilwaith; y £75 miliwn sydd yn y cynllun Twf Swyddi Nghymru a fydd yn creu 4,000 o swyddi y flwyddyn am dair blynedd—roedd ei blaid am weld 1,000 o swyddi—a'r £30 miliwn sydd yn y cynllun Twf Sgiliau Cymru i gefnogi ymdrechion i greu 3,000 o swyddi dros y tair blynedd nesaf. Rydym yn Llywodraeth ddeinamig, yn hytrach na'n blaid sy'n gwneud dim, fel y blaid gyferbyn. [*Chwerthin.*] Rwyf yn edrych ar yr Aelodau gyferbyn ac yn pendroni a fyddai Cymru gyfan wedi mynd i gysgu pe byddem wedi bod mor ddeinameg â hwythau.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, would you agree that what is so depressing about the contents of Estyn's report today is not only the fact that 40% of our children entering secondary schools with a reading age below that of their chronological age, but that, a year ago, Estyn said exactly the same? When do you expect your Government to make progress on this figure?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, a fyddech yn cytuno mai'r hyn sydd mor siomedig am gynnwys adroddiad Estyn heddiw yw nid yn unig y ffaith bod gan 40% o'n plant sy'n mynd i ysgolion uwchradd oedran darllen sy'n is na'u hoedran cronolegol, ond y ffaith bod Estyn wedi dweud yn union yr un peth flwyddyn yn ôl? Pa bryd rydych yn disgwyl i'ch Llywodraeth sicrhau cynnydd o ran y ffigur hwn?

**The First Minister:** As I have already mentioned, national numeracy and literacy programmes are being produced. You have sold yourselves somewhat short, if I may put it that way; the pupil deprivation grant will, in my view, assist in helping many of those

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais eisoes, mae rhaglenni rhifedd a llythrennedd cenedlaethol yn cael eu llunio. Nid ydych yn dangos digon o hyder, os caf ddweud hynny; bydd y grant amddifadedd disgyblion, yn fy marn i, yn cynorthwyo nifer o'r disgyblion

pupils who have difficulty with reading to ensure that they reach the required standard.

hynny sy’n cael anhawster darllen er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol.

**Kirsty Williams:** The grant will do that, and that is why the Welsh Liberal Democrats were so determined to achieve it in the budget. Turning to another aspect of the report, you and your Minister for education have made great play of this particular intervention, but the report says that senior managers in local authorities do not generally monitor the work of school improvement officers rigorously enough to ensure that they challenge all schools in a consistent way. Your Minister for education has made great play of the role of regional consortia in tackling these problems. However, is it not the case that these consortia will be made up of the same services that Estyn has today identified as not currently providing the improvement that we need? What makes you think that this rebadging exercise will attack the existing problem and be good enough?

**Kirsty Williams:** Bydd y grant yn gwneud hynny, a dyna pam roedd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mor benderfynol o’i gynnwys yn y gyllideb. Gan droi at agwedd arall ar yr adroddiad, rydych chi a’ch Gweinidog dros addysg wedi rhoi pwyslais mawr ar yr ymyriad penodol hwn, ond mae’r adroddiad yn dweud nad yw uwch reolwyr awdurdodau lleol, yn gyffredinol, yn monitro gwaith swyddogion gwella ysgolion yn ddigon trylwyr i sicrhau eu bod yn herio pob ysgol mewn ffordd gyson. Mae eich Gweinidog addysg wedi rhoi pwyslais mawr ar rôl y consortia rhanbarthol wrth fynd i’r afael â’r problemau hyn. Fodd bynnag, onid yw hi’n wir y bydd y consortia yn cynnwys yr un gwasanaethau y mae Estyn wedi’u nodi heddiw nad ydynt ar hyn o bryd yn arwain at welliant sydd ei angen arnom? Beth sy’n gwneud i chi feddwl y bydd yr ymarfer ailenwi hwn yn ddigon da ac yn mynd i’r afael â’r broblem bresennol?

**The First Minister:** It is a reorganisation of the approach that is being taken. The reality is that the leader of the Welsh Liberal Democrats is guilty of failing to give the full picture regarding education in Wales, because the report also confirms that the foundation phase is a strength in the majority of schools, with boys and girls responding positively to stimulating activities and demonstrating that they are more independent, confident and creative. The Conservative Party opposed all of this, if you remember. Performance in four out of five primary schools and two out of three secondary schools inspected is mainly good. We have also seen encouraging developments in wellbeing, with nearly all saying that they feel safe in school. There needs to be improvement in some areas, but let us not suggest that somehow everything is difficult in terms of education in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ymgymryd â’r dasg o ad-drefnu’r dull gweithredu. Y gwirionedd yw bod arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn euog o fethu â rhoi darlun llawn o’r sefyllfa addysg yng Nghymru. Mae’r adroddiad hefyd yn cadarnhau bod y cyfnod sylfaen yn gryfder yn y mwyafrif o ysgolion, gyda bechgyn a merched yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau ysgogol, gan ddangos eu bod yn fwy annibynnol, hyderus a chreadigol. Byddwch yn cofio bod y Blaid Geidwadol wedi gwrthwynebu hyn i gyd. Roedd perfformiad mewn pedwar allan o bob pum ysgol gynradd a dwy allan o bob tair ysgol uwchradd a arolygwyd yn dda ar y cyfan. Rydym hefyd wedi gweld datblygiadau calonogol o ran lles, gyda bron pawb yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae angen gweld gwelliant mewn rhai meysydd, ond ni ddylem awgrymu bod popeth yn anodd o ran addysg yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** First Minister, this is serious. One in five children leaving primary school to enter secondary school cannot read and write properly; they have no hope of succeeding in secondary school because they cannot access the curriculum as they are

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, mae hwn yn fater difrifol. Ni all un allan o bob pum plentyn sy’n gadael yr ysgol gynradd i fynd i’r ysgol uwchradd ddarllen nac ysgrifennu’n gywir; nid oes ganddynt unrhyw obaith o lwyddo yn yr ysgol uwchradd oherwydd ni

unable to read and write. When I asked this question last year, you told me that everything was going to be okay because your Minister for education was about to make a speech. He made that speech, but where is the improvement? When hospitals fail, you tell the Chamber that it is the fault of the local health boards. When our schools fail, you try to blame it on the local authorities, the schools and the headteachers. You even tried to blame Ieuan Wyn Jones. You blame everybody but your Government. Another year has passed, and our children are still not succeeding. Will we be asking these questions the same time next year, or will we see an improvement?

allant fanteisio ar y cwricwlwm, gan nad ydynt yn gallu darllen nac ysgrifennu. Pan ofynnais y cwestiwn hwn y llynedd, dywedasoch wrthyf fod popeth yn mynd i fod yn iawn gan fod eich Gweinidog addysg ar fin gwneud araith. Gwnaeth y Gweinidog yr araith honno, ond ble mae'r gwelliant? Pan fydd ysbytai yn methu, rydych yn dweud wrth y Siambr mai bai'r byrddau iechyd lleol yw. Pan fydd ein hysgolion yn methu, byddwch yn ceisio beio awdurdodau lleol, ysgolion a phenaethiaid. Rydych hyd yn oed wedi ceisio rhoi'r bai ar Ieuan Wyn Jones. Rydych yn rhoi'r bai ar bawb ond eich Llywodraeth eich hun. Mae blwyddyn arall wedi mynd heibio, ac nid yw ein plant yn llwyddo. A fyddwn yn gofyn y cwestiynau hyn ar yr un adeg y flwyddyn nesaf, neu a fyddwn yn gweld gwelliant?

**The First Minister:** The difficulty with that argument is that if the leader of the Welsh Liberal Democrats is saying that it is too late by the time that children go to secondary schools, what is the point of the pupil deprivation grant? On that basis, she is arguing against her own policy. Bear in mind that the Minister has been proactive in identifying a 20-point plan. The national literacy programme will set out actions, and will explain how we intend to drive up standards and measure progress. Next year, I expect to see improvement.

**Y Prif Weinidog:** Yr anhawster gyda'r ddadl honno yw, os yw arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dweud ei bod yn rhy hwyr i ymyrryd pan fydd plant yn mynd i'r ysgol uwchradd, beth yw diben y grant amddifadedd disgyblion? Ar y sail honno, mae'n dadlau yn erbyn ei pholisi ei hun. Cofiwch fod y Gweinidog wedi bod yn rhagweithiol o ran nodi cynllun 20 pwynt. Bydd y rhaglen llythrennedd genedlaethol yn nodi camau gweithredu, a bydd yn egluro sut rydym yn bwriadu codi safonau a mesur cynnydd. Y flwyddyn nesaf, rwyf yn disgwyl gweld gwelliant.

1.45 p.m.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** David Stevens, the co-founder of Admiral, said that the right strategy for economic development was to try to find 25 Admirals. Regrettably, we have been waiting and waiting just for one strategy on enterprise zones, on which we will have a statement this afternoon. Do you not think that the Welsh Government has been slow to act in attracting businesses to Wales?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Dywedodd David Stevens, cyd-sylfaenydd Admiral, mai'r strategaeth gywir ar gyfer datblygu economaidd oedd ceisio dod o hyd i 25 Admiral arall. Yn anffodus, rydym wedi bod yn aros ac yn aros am un strategaeth yn unig ar ardaloedd menter, a byddwn yn clywed datganiad amdanynt y prynhawn yma. Onid ydych yn meddwl y bu Llywodraeth Cymru yn araf wrth weithredu i ddenu busnesau i Gymru?

**The First Minister:** No, I do not. I have just given you examples of what has been done in order to stimulate the economy through the various projects that we have introduced.

**Y Prif Weinidog:** Nac ydw. Rwyf newydd roi enghreifftiau ichi o'r hyn sydd wedi cael ei wneud i ysgogi'r economi drwy'r gwahanol brosiectau rydym wedi'u cyflwyno.

**Andrew R.T. Davies:** It is a fact, First Minister, that statistics from StatsWales show that we have the second lowest business start-up rate in the entire United Kingdom. Regrettably, there has been year-on-year decline in start-ups in Wales. Is it not a fact that your Government has failed to engage with businesses to allow new businesses to start and flourish in Wales in order to create the employment opportunities that our young people desperately need?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, mae'n ffaith bod ystadegau o StatsCymru yn dangos bod gennym y gyfradd dechrau busnes ail isaf yn y DU gyfan. Yn anffodus, bu cwymp flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y busnesau a ddechreuwyd yng Nghymru. Onid yw'n ffaith bod eich Llywodraeth wedi methu ag ymgysylltu â busnesau i alluogi busnesau newydd i ddechrau ac i ffynnu yng Nghymru er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth y mae eu hangen yn ddirfawr ar ein pobl ifanc?

**The First Minister:** Not at all; we are fighting against the tide of indifference from the UK Government. We have put in place the youth engagement and employment action plan and Jobs Growth Wales, as well as schemes such as Skills Growth Wales and the small and medium-sized enterprise economic growth fund. All of these projects have been put in place to counteract the inaction that we see from London.

**Y Prif Weinidog:** Dim o gwbl; rydym yn ymladd yn erbyn y llanw o ddifaterwch a ddaw o Lywodraeth y DU. Rydym wedi rhoi cynllun gweithredu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc ar waith a Twf Swyddi Cymru, yn ogystal â chynlluniau megis Sgiliau Twf Cymru a chronfa twf economaidd busnesau bach a chanolig. Mae pob un o'r prosiectau hyn wedi cael eu rhoi ar waith i weithio yn erbyn y diffyg gweithredu a welwn o Lundain.

**Andrew R.T. Davies:** You say inaction, First Minister, but over 0.5 million jobs have been created in the private sector. It is a fact that, in five of the last six years, start-up rates in Wales have gone backwards—figures up to 2010, not 2011. Start-up rates are now below what they were in 2002. I put it to you again, First Minister: is it not the case that your Government and Welsh Labour are unable to grasp the nettle of growing the private sector in Wales in order to increase the job opportunities that the country desperately needs to lift prosperity and attainment levels across our communities?

**Andrew R.T. Davies:** Rydych yn sôn am ddiffyg gweithredu, Brif Weinidog, ond mae dros 0.5 miliwn o swyddi wedi cael eu creu yn y sector preifat. Mae'n ffaith bod cyfraddau dechrau busnes wedi gostwng mewn pump o'r chwe blynedd diwethaf—ffigurau hyd at 2010 yw'r rheini, nid 2011. Mae'r cyfraddau hynny yn is nag yr oeddent yn 2002. Gofynnaf ichi eto, Brif Weinidog: onid yw'n wir nad yw eich Llywodraeth a Llafur Cymru yn gallu mynd i'r afael â thyfu'r sector preifat yng Nghymru, er mwyn cynyddu'r cyfleoedd am swyddi y mae eu hangen yn ddirfawr ar Gymru i godi lefelau ffyniant a chyrhaeddiad ar draws ein cymunedau?

**The First Minister:** If the Member could point to examples that his party is taking forward in London, I would love to see them. I have not seen a Government so intent on destroying jobs in the public and private sector in 20 years. You would swear, from listening to the party opposite, that jobs were being created by the thousand in the private sector; they are not. The party opposite wants to put people into poverty, introduce regional pay in order to entrench that poverty and ensure that people in Wales are denied the opportunity to get well-paid jobs. We will stand up for the people of Wales against the

**Y Prif Weinidog:** Pe gallai'r Aelod gyfeirio at enghreifftiau y mae ei blaid yn bwrw ymlaen â hwy yn Llundain, byddwn yn falch iawn o'u gweld. Nid wyf wedi gweld Llywodraeth sydd mor benderfynol o ddinistrio swyddi yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn 20 mlynedd. Byddech yn tyngu, o wrando ar y blaid gyferbyn, fod swyddi'n cael eu creu fesul mil yn y sector preifat; nid ydynt. Mae'r blaid gyferbyn eisiau rhoi pobl mewn tlodi, cyflwyno tâl rhanbarthol er mwyn gwreiddio'r tlodi hwnnw, a sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael swyddi

party opposite's attempt to reduce the pay of nurses, doctors, teachers and police officers in Wales. We will stand against that and ensure that people in Wales have well-paid jobs, as opposed to the kinds of jobs that the Tories want them to have—low-paid jobs that will ensure that our economy stays in the position that they want to see it stay in. We will provide optimism; they will provide decline.

sy'n talu'n dda. Byddwn yn sefyll cornel pobl Cymru yn erbyn ymgais y blaid gyferbyn i leihau cyflogau nyrsys, meddygon, athrawon a swyddogion yr heddlu yng Nghymru. Byddwn yn gwrthwynebu hynny ac yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru swyddi sy'n talu'n dda, yn hytrach na'r mathau o swyddi y mae'r Torïaid am iddynt eu cael—swyddi â chyflog isel a fydd yn sicrhau bod ein heconomi yn aros yn y sefyllfa y maent am i'r economi aros ynddi. Byddwn ni'n dod ag optimistiaeth; byddant hwy'n dod â dirywiad.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***3. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer de ddwyrain Cymru yn 2012. OAQ(4)0334(FM)*

***3. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for south-east Wales for 2012. OAQ(4)0334(FM)*

**The First Minister:** They are to be found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Maent i'w cael yn y rhaglen lywodraethu.

**Lynne Neagle:** Were any reminder needed, the row over Stephen Hester's bonus is a real demonstration of just how out of touch bankers are with the real world. Therefore, we should not, perhaps, be surprised that HSBC—the self-proclaimed world local bank—has decided to close its last branch in Blaenavon. It is a decision that has caused immense worry and anger among local people, and we know that it is part of a wider trend of bank closures in small towns and villages across Wales. Would you agree, First Minister, that it is disgraceful for banks to cut and run from communities in this way and that they should, instead, be looking at all options that could see services retained, including shared banking facilities and mobile services?

**Lynne Neagle:** Er nad oes angen eich atgoffa, mae'r ffrae ynghylch bonws Stephen Hester yn arwydd gwirioneddol o ba mor ddieithr yw'r byd go iawn i'r bancwyr. Felly, ni ddylem synnu efallai o weld bod banc HSBC—sy'n datgan mai banc lleol y byd yw—wedi penderfynu cau ei gangen olaf ym Mlaenafon. Mae'n benderfyniad sydd wedi peri pryder a dicter mawr ymhlith pobl leol, ac rydym yn gwybod bod hynny'n rhan o duedd ehangach o gau banciau mewn trefi a phentrefi bychain ledled Cymru. A fyddech yn cytuno, Brif Weinidog, ei bod yn warthus bod banciau yn troi eu cefnau ar gymunedau yn y ffordd hon ac y dylent, yn lle hynny, fod yn ystyried yr holl opsiynau a allai olygu bod gwasanaethau'n cael eu cadw, gan gynnwys cyfleusterau bancio a rennir a gwasanaethau symudol?

**First Minister:** Yes; there are serious questions to be asked about the provision of financial services in communities that lose their banks. We have seen this in other parts of Wales. I regret the decision by HSBC to close its branch in Blaenavon. You raise an important point: at a time when bankers are receiving bonuses in the millions of pounds, financial services are being denied to so many people across Wales and the UK. That is why, as a party, we have always said that it

**Y Prif Weinidog:** Byddwn; mae angen gofyn cwestiynau pwysig am sut y darperir gwasanaethau ariannol mewn cymunedau sy'n colli eu banciau. Rydym wedi gweld hyn mewn rhannau eraill o Gymru. Rwyf yn gresynu wrth benderfyniad HSBC i gau ei gangen ym Mlaenafon. Rydych yn codi pwynt pwysig: ar adeg pan fo bancwyr yn cael bonysau gwerth miliynau o bunnoedd, gwrthodir gwasanaethau ariannol i gymaint o bobl ledled Cymru a'r DU. Dyna pam rydym

was wrong that a bonus of £1 million was going to be paid to Stephen Hester, while the party opposite wanted to give it to him. It is alright for the Tories: they think that it is right to give £1 million to those who already have money while cutting benefits for those who do not.

ni fel plaid bob amser wedi dweud nad oedd yn iawn i fonws o £1 filiwn gael ei dalu i Stephen Hester, tra bo'r blaid gyferbyn yn dymuno ei roi iddo. Mae'n iawn i'r Torïaid: maent yn credu ei bod yn iawn rhoi £1 filiwn i'r rheini sydd eisoes ag arian, tra eu bod yn torri budd-daliadau ar gyfer y rhai nad oes ganddynt arian.

**Mohammad Asghar:** I asked the Minister for Finance and Leader of the House how the consequential for the Olympics would be spent across Wales and how the people of South Wales East would benefit. Her written reply was that the £8.9 million consequential has been added to reserves in the current year, as is normal practice, and that the Welsh Government would determine its views in line with its strategic priorities. First Minister, could you kindly clarify how these consequentials will directly benefit the residents of South Wales East during the upcoming 2012 Olympics, rather than just sitting in the Welsh Government reserves gathering dust?

**Mohammad Asghar:** Gofynnais i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ sut y byddai'r swm canlyniadol ar gyfer y Gemau Olympaidd yn cael ei wario ledled Cymru a sut y byddai pobl Dwyrain De Cymru yn elwa. Ei hateb ysgrifenedig oedd bod y swm canlyniadol, sef £8.9 miliwn, wedi ei ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn gyfredol, fel sy'n arferol, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar ei barn yn unol â'i blaenoriaethau strategol. Brif Weinidog, a fyddech mor garedig ag egluro sut y bydd y symiau canlyniadol hyn o fudd uniongyrchol i drigolion Dwyrain De Cymru yn ystod Gemau Olympaidd 2012 sydd ar ddod, yn hytrach na bod y symiau hynny'n eistedd yng nghronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru yn casglu llwch?

**The First Minister:** I find it astonishing that, at a time when the Conservatives have cut funding to the Welsh Government by 7.5%, he says that this is money gathering dust. This money will be used for the benefit of the people of Wales in order to fill, in a small way, the gap that his party created.

**Y Prif Weinidog:** Ar adeg pan fo'r Ceidwadwyr wedi torri cyllid i Lywodraeth Cymru 7.5%, rwyf yn ei chael yn rhyfeddol ei fod ef yn dweud bod yr arian hwn yn casglu llwch. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd pobl Cymru i wneud cyfraniad bach tuag at lenwi'r bwlch a greodd ei blaid ef.

### Cynghorau Iechyd Cymuned

### Community Health Councils

***4. Lindsay Whittle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am waith y cynghorau iechyd cymuned o ran monitro ansawdd gofal i gleifion mewn ysbytai yng Nghymru. OAQ(4)0329(FM)*

***4. Lindsay Whittle:*** *Will the First Minister make a statement on the work of community health councils in monitoring the quality of patient care in hospitals in Wales. OAQ(4)0329(FM)*

**The First Minister:** They have an important role. We recognise the valuable and important contribution that they make in the development of local health services.

**Y Prif Weinidog:** Mae ganddynt rôl bwysig. Rydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a phwysig y maent yn ei wneud at ddatblygu gwasanaethau iechyd lleol.

**Lindsay Whittle:** Thank you for your reply, First Minister. Since community health councils are expected to play this vital role in acting as advocates for patients and other service users, can we be assured that their

**Lindsay Whittle:** Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Gan y disgwylir i gynghorau iechyd cymuned chwarae'r rôl hanfodol hon o ran gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth eraill, a

budgets will be favourably reviewed, in view of the fact that their budgets were reduced at the time of the NHS reorganisation?

allwn fod yn sicr y bydd eu cyllidebau yn cael eu hadolygu yn ffafriol, yn wyneb y ffaith y gostyngwyd eu cyllidebau pan ad-drefnwyd y GIG?

**The First Minister:** We will look to provide community health councils with the appropriate budget, bearing in mind the financial cuts that we are seeing over the next three years.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ceisio darparu cynghorau iechyd cymuned gyda'r gyllideb briodol, gan gadw mewn cof y toriadau ariannol y byddwn yn eu gweld dros y tair blynedd nesaf.

**Jenny Rathbone:** Community health councils do excellent reports of visits to general practitioner surgeries. In what ways can community health councils enable patients to get appointments—whether they are out of hours, early in the morning or last thing at night—in line with our manifesto commitment?

**Jenny Rathbone:** Mae cynghorau iechyd cymuned yn llunio adroddiadau ardderchog ar ymweliadau â meddygfeydd. Ym mha ffyrdd y gall cynghorau iechyd cymuned alluogi cleifion i gael apwyntiadau—pa un ai a ydynt y tu allan i'r oriau arferol, yn gynnar yn y bore neu'n hwyr iawn yn y nos—yn unol â'n hymrwymiad maniffesto?

**The First Minister:** Community health councils now have the authority to include establishments such as GP practices as places where they can visit, and they are certainly able to represent the interests of patients by doing so. CHC members have undertaken visits, through what are called 'mystery shopper exercises', GP access surveys and GP contract verification visits, which can help to improve the services that GPs provide to the general public.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan gynghorau iechyd cymuned yr hawl erbyn hyn i ymweld â sefydliadau megis meddygfeydd, ac maent yn sicr yn gallu cynrychioli buddiannau cleifion drwy wneud hynny. Mae aelodau cynghorau iechyd cymuned wedi cynnal ymweliadau drwy gyfrwng yr hyn a elwir yn 'ymarferiadau'r cwsmer cudd', arolygon ynghylch mynediad at feddygon, ac ymweliadau i wirio contractau meddygon, a all helpu i wella'r gwasanaethau y mae meddygon yn eu darparu i'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Darren Millar:** My party has warmly welcomed the dignity spot checks that will be undertaken by Healthcare Inspectorate Wales in Welsh hospitals. What role do you see for community health councils in undertaking unannounced visits and checks in our hospitals, particularly with regard to the dignity in care issue and hospital cleanliness, which is, of course, at the forefront of people's minds?

**Darren Millar:** Mae fy mhlaid wedi rhoi croeso cynnes i'r gwiriadau dirybudd ynghylch urddas a fydd yn cael eu cynnal gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ysbytai Cymru. Pa rôl a fydd gan gynghorau iechyd cymuned yn eich tyb chi o ran cynnal ymweliadau a gwiriadau dirybudd yn ein hysbytai, yn enwedig mewn perthynas ag urddas mewn gofal a glendid mewn ysbytai, sydd, wrth gwrs, yn flaenllaw ym meddyliau pobl?

**The First Minister:** It is important that community health councils are able to visit hospitals as often as possible to ensure that dignity is maintained, particularly, but not exclusively, for elderly patients, and to provide the public with the assurances that they need that hospitals are delivering the services that they expect.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod cynghorau iechyd cymuned yn gallu ymweld ag ysbytai mor aml ag y bo modd er mwyn sicrhau bod urddas yn cael ei gynnal, yn enwedig ar gyfer cleifion oedrannus, ac i roi i'r cyhoedd y sicrwydd sydd ei angen arnynt fod ysbytai'n darparu'r gwasanaethau y maent yn disgwyl eu cael.

**Camddefnyddio Sylweddau**

***5. Mark Isherwood:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. OAQ(4)0339(FM)*

**The First Minister:** We continue to invest over £50 million to implement the actions within the 10-year substance misuse strategy for Wales.

**Mark Isherwood:** A GP in north Wales running a substance misuse clinic told me that, if medication is taken as prescribed, the benefits of harm reduction can be huge, if it stops someone from dying or committing a crime, but added that we need a model with tight rules, provided on the basis of abstinence. How do you respond to the call by the Welsh Council on Alcohol and Other Drugs to move from a medical model to a recovery model? Instead of the state enabling substance misusers in their sickness, the goal is to provide ongoing psychosocial support and peer-based recovery with abstinence.

require to continue running the Swansea-Cork route. Noel Murphy, the chairman of the West Cork Tourism Co-operative Society Ltd, which owns Fastnet, has claimed that an end to the service could mean the loss of some 60,000 tourists to the Munster region as well as €30 million to the local economy. Have you done any sort of scoping exercise as to how much the Welsh economy could lose if this particular service no longer goes ahead?

arno i barhau i redeg y llwybr rhwng Abertawe a Cork. Mae Noel Murphy, cadeirydd West Cork Tourism Co-operative Society Cyf, sy’n berchen ar Fastnet, wedi honni y gallai rhoi terfyn ar y gwasanaeth olygu y byddai rhanbarth Munster yn colli oddeutu 60,000 o dwristiaid , yn ogystal â cholli €30 miliwn o’r economi leol. A ydych wedi cynnal unrhyw fath o ymarfer cwmpasu i ganfod faint y gallai economi Cymru ei golli os na fydd y gwasanaeth penodol hwn yn mynd yn ei flaen?

**The First Minister:** I have to say that our understanding is that more than €500,000 would now be required to secure the service. The figure has increased over the last few days, which again gives us cause for concern, because it is important that we understand that the service is viable and that the figures are robust. We continue to work with the company and with the authorities in Ireland to ensure that that is the case.

**Y Prif Weinidog:** Mae’n rhaid imi ddweud, yn ôl a ddeallwn, y byddai angen mwy na €500,000 erbyn hyn i sicrhau’r gwasanaeth. Mae’r ffigur wedi cynyddu dros y dyddiau diwethaf, aac mae hynny’n peri pryder inni eto, gan ei bod yn bwysig ein bod yn deall bod y gwasanaeth yn hyfyw a bod y ffigurau’n gadarn. Rydym yn parhau i weithio gyda’r cwmni a chyda’r awdurdodau yn Iwerddon er mwyn sicrhau bod hynny’n digwydd.

**Peter Black:** I accept that your Government wants to do everything possible to maintain this ferry service, which brings millions of pounds into the Swansea area and to west Wales as a result of tourists and other people disembarking from it. What sort of detailed engagement have the Government and your officials had with the company itself, and with the relevant courts and authorities in Ireland, in terms of finding a solution not only in terms of establishing the viability of this company, but also re-establishing this service in the near future?

**Peter Black:** Rwy’n derbyn bod eich Llywodraeth yn awyddus i wneud popeth o fewn ei gallu i gynnal y gwasanaeth fferi hwn, sy’n dod â miliynau o bunnau i ardal Abertawe ac i’r gorllewin, o ganlyniad i’r twristiaid a’r bobl eraill sy’n dod oddi arni. Pa fath o gyswllt manwl y mae’r Llywodraeth a’ch swyddogion wedi ei gynnal â’r cwmni, y llysoedd a’r awdurdodau perthnasol yn Iwerddon i ddod o hyd i ateb, nid yn unig o ran sefydlu hyfywedd y cwmni hwn, ond hefyd ailsefydlu’r gwasanaeth hwn yn y dyfodol agos?

**The First Minister:** There have been substantial discussions between officials on both sides of the Irish sea. There have been communications with the examiner, as the administrator is known in the Republic of Ireland, and indeed there have been discussions between representatives of the company and the Welsh Government. These are all issues that are being looked at in some detail.

**Y Prif Weinidog:** Mae trafodaethau sylweddol wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion ar y ddwy ochr i fôr Iwerddon. Bu cyfathrebu â’r archwiliwr, fel yr adwaenir y gweinyddwr yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac yn wir cafwyd trafodaethau rhwng cynrychiolwyr y cwmni a Llywodraeth Cymru. Mae’r rhain i gyd yn faterion sy’n cael eu hystyried yn fanwl.

### Targedau Ailgylchu

### Recycling Targets

***14. Vaughan Gething:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a yw targedau ailgylchu a bennwyd gan*

***14. Vaughan Gething:*** *Will the First Minister make a statement on whether recycling targets set by the Welsh*

*Lywodraeth Cymru yn cael eu cyrraedd ai peidio. OAQ(4)0336(FM)*

*Government are being met. OAQ(4)0336(FM)*

**The First Minister:** Most local authorities in Wales are on course to meet the first statutory recovery target of 52% in 2012-13.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed adennill statudol cyntaf, sef ailgylchu 52% yn 2012-13.

**Vaughan Gething:** Thank you for that response, First Minister. Recently I have been contacted by a range of constituents about a visible mountain of green recycling bags left outside the Lamby Way site in Rumney in my constituency. Apart from those visible on the site, there are several hundred other tonnes that have been collected over the Christmas period and have been outside for over three weeks, and have spoiled, and are no longer fit to be processed properly. A number of those will actually be returned to landfill. Could you confirm how those recycling targets are currently met? Is it just a matter of collection, and if so, would you consider a secondary target for the amount of recycling that is processed, so that this sort of incompetence is not missed by the general public in the future?

**Vaughan Gething:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn ddiweddar, mae amryw o etholwyr wedi cysylltu â mi ynghylch mynydd o fagiau ailgylchu gwyrdd sydd wedi cael eu gadael y tu allan i safle Lamby Way yn Nhredelerch, yn fy etholaeth. Ar wahân i'r rhai a welir ar y safle, mae cannoedd o dunelli eraill o fagiau sydd wedi cael eu casglu dros y Nadolig ac sydd wedi bod y tu allan am dros dair wythnos, ac wedi difetha, ac nid ydynt bellach yn addas i gael eu prosesu'n iawn. Yn wir, bydd nifer o'r rheini yn cael eu dychwelyd i safleoedd tirlenwi. A allech gadarnhau sut y mae'r targedau ailgylchu hynny'n cael eu cyrraedd ar hyn o bryd? A yw'n ymwneud â chasglu yn unig, ac os felly, a fyddech yn ystyried pennu targed eilaidd ar gyfer faint o wastraff ailgylchu sy'n cael ei brosesu, fel na fydd y cyhoedd yn methu â gweld blerwch fel hyn y dyfodol?

**The First Minister:** Any material that is deposited in the Lamby Way landfill site rather than being separated and sent on for recycling will not count towards Cardiff Council's recycling target.

**Y Prif Weinidog:** Ni fydd unrhyw wastraff sy'n cael ei adael yn safle tirlenwi Lamby Way yn hytrach na chael ei wahanu a'i anfon ymlaen i'w ailgylchu yn cyfrif tuag at darged ailgylchu Cyngor Caerdydd.

**Russell George:** First Minister, I note your answer that most local authorities are on target and are moving in the right direction with regard to their recycling targets. However, Powys County Council, for example, is one authority that has not progressed and whose performance has stalled. As sustainable development is supposed to be the central organising principle of your Government, how does the Welsh Government plan to further enable local authorities like Powys County Council to push beyond their current ceilings to achieve the Government's target of 70% by 2025?

**Russell George:** Brif Weinidog, rwy'n nodi eich ateb bod y mwyafrif o awdurdodau lleol ar y trywydd iawn ac yn symud i'r cyfeiriad iawn o ran eu targedau ailgylchu. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Powys, er enghraifft, yn un o'r awdurdodau nad ydynt wedi symud ymlaen, ac mae ei berfformiad wedi arafu. Gan mai datblygu cynaliadwy a ddylai fod yn brif egwyddor drefniadol eich Llywodraeth, sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu galluogi awdurdodau lleol fel Cyngor Sir Powys i fynd y tu hwnt i'w lefelau uchaf ar hyn o bryd a chyrraedd targed y Llywodraeth, sef ailgylchu 70% erbyn 2025?

**The First Minister:** We are working with these authorities through the collaborative change programme to help them to improve.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau hyn drwy'r rhaglen newid gydweithredol er mwyn eu helpu i

wella.

**Rhwydwaith y Grid Cenedlaethol**

***15. Aled Roberts:*** *Pa argymhellion a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ynglŷn â gwella Rhwydwaith y Grid Cenedlaethol ledled gogledd Cymru. OAQ(4)0340(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar faterion sy'n ymwneud ag ynni a chysylltiadau grid.

**Aled Roberts:** Fel rhan o'r trafodaethau rhwng Llywodraeth yr Alban a'r adran, darparwyd adroddiad i'r Llywodraeth ynglŷn â'r gwahanol dechnolegau sydd ar gael. A yw'r gwaith hwnnw wedi cael ei wneud yng Nghymru, o ystyried yr holl drafferth a gafwyd yn sir Drefaldwyn haf diwethaf?

**Y Prif Weinidog:** Wrth sôn am dechnoleg newydd, credaf eich bod yn sôn am y pyst siâp T, sef y pyst newydd fydd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol i gludo trydan. Rydym am sicrhau bydd y pyst hynny'n cael eu defnyddio yng Nghymru, lle mae hynny'n berthnasol, yn lle'r peilonau mawr.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, many people in rural communities are understandably concerned at the ability of the Welsh Labour Government to protect their interests during the planned upgrades to the electricity grid, particularly given that there is no record of Wales advocating the need to place underground new high-voltage cables either in the minutes of the energy network strategy group meetings or the previous One Wales Government's submission to Ofgem's Project Transmit consultation, which was sent more than two weeks after the consultation had closed. Will you outline what steps you and your Government will take to support the placement of these cables underground and offshore during the National Grid's forthcoming consultation on additional capacity in north Wales?

**The First Minister:** The new generation

**National Grid Network**

***15. Aled Roberts:*** *What recommendations did the Welsh Government make to the Energy and Climate Change Department regarding improving the National Grid Network throughout north Wales. OAQ(4)0340(FM)*

**The First Minister:** The Government has regular discussions with the Department of Energy and Climate Change on matters relating to energy and grid connections.

**Aled Roberts:** As part of the discussions between the Scottish Government and the department, a report was provided to the Government detailing the different technologies available. Has that work been done in Wales, bearing in mind the difficulties experienced in Montgomeryshire last summer?

**The First Minister:** I assume that, when you refer to new technology, you are talking about T-pylons, namely the new posts that will be used in future to transport electricity. We are keen to ensure that those posts are used in Wales, where possible, instead of the large pylons.

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, mae llawer o bobl mewn cymunedau gwledig yn pryderu am allu Llywodraeth Llafur Cymru i ddiogelu eu buddiannau yn ystod y gwaith arfaethedig o uwchraddio'r grid trydan, yn enwedig o ystyried nad oes dim cofnod bod Cymru wedi argymell bod angen gosod ceblau foltedd uchel newydd o dan y ddaear naill ai yng nghofnodion cyfarfodydd grŵp strategaeth y rhwydwaith ynni nac yn y ddogfen a gyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru'n Un i ymgynghoriad Ofgem ar brosiect Transmit, a anfonwyd fwy na phythefnos ar ôl i'r ymgynghoriad gau. A wnewch amlinellu pa gamau y byddwch chi a'ch Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi lleoli'r ceblau hynny o dan y ddaear ac oddi ar yr arfordir yn yr ymgynghoriad sydd ar y gweill gan y Grid Cenedlaethol ynghylch capasiti ychwanegol yng ngogledd Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Bydd y genhedlaeth

capability in nuclear and offshore wind energy will mean that an upgrade of the network is necessary. It is important that National Grid looks to carry the electricity in a way that is as environmentally friendly as possible, but also cost-effective.

newydd o allu o ran ynni niwclear ac ynni gwynt ar y môr yn golygu y bydd angen uwchraddio'r rhwydwaith. Mae'n bwysig bod y Grid Cenedlaethol yn ceisio cludo'r trydan mewn modd sydd mor eco-gyfeillgar â phosibl, ond sydd hefyd yn gosteffeithiol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Un o'r opsiynau mwyaf cynhyrfus sy'n cael ei ystyried yw cysylltu gogledd Cymru—yn arbennig yr Wylfa yr ydym yn gobeithio bydd yn safle i'r datblygiad niwclear newydd gan Horizon—â de-orllewin Cymru a Phenfro. Rwy'n sicr bod buddsoddiad ymchwil wedi ei wneud yn y prosiect hwn, ond a fyddai'r Prif Weinidog yn datgan yma heddiw ei gefnogaeth i'r hyn a fyddai, mewn gwirionedd, yn creu grid cenedlaethol i Gymru?

**Lord Elis-Thomas:** One of the most exciting options being considered is to connect north Wales—particularly Wylfa, which we hope will be the site of a new nuclear development by Horizon—to south-west Wales and Pembrokeshire. I am certain that there has been research investment in this project, but would the First Minister declare his support here today for something that would, in effect, create a national grid for Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae cryfhau'r grid yn bwysig dros ben. Mae sawl rhan o Gymru lle mae'r grid yn wan ac mae'n rhaid ei gryfhau o achos hynny. Mae 600 o swyddi yn Wylfa B ac nid wyf yn derbyn felly ei fod yn dderbyniol i beidio â chael y swyddi ar Ynys Môn oherwydd y grid. Mae'n bwysig dros ben ei bod yn bosibl i'r grid gludo'r trydan o Ynys Môn er mwyn sicrhau bod 600 o bobl yn cael bywoliaeth yn y dyfodol.

**The First Minister:** Strengthening the grid is extremely important. There are many parts of Wales where the grid is weak and needs to be strengthened because of that. There are 600 jobs at Wylfa B and I do not therefore accept that it is acceptable not to have the jobs on Anglesey because of the grid. It is extremely important for it to be possible for the grid to transport electricity from Anglesey to ensure that 600 people can earn a living in the future.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** There are no changes to report to this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid a Arweinydd y Ty (Jane Hutt):** Nid oes newidiadau i'w cyhoeddi ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael ar ffurf electronig i'r Aelodau.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement today. Could we have a reasoned statement from the Minister with responsibility for transport on the substantial cut in the bus service operators grant? The Minister will know that this grant has existed since 1965 and has contributed 30% of the cost of the fuel used by buses. A substantial reduction in this grant will have enormous consequences in increased fares, a

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad heddiw. A allem gael datganiad rhesymegol gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth am y toriad sylweddol yn y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau? Bydd y Gweinidog yn gwybod bod y grant hwn wedi bodoli ers 1965 a'i fod wedi cyfrannu 30% o gost y tanwydd a ddefnyddir gan fysiau. Bydd goblygiadau mawr i ostyngiad sylweddol yn

reduction in service levels, reduced investment in green energy and increased pressure on local authorities, as the reduction in support makes it more expensive for local authorities to support socially necessary bus services and school services. We appreciate that local authorities are facing cuts, but this will make things more difficult for them in terms of the reduction in employment following a reduction in the number of bus services, but more particularly in terms of the impact on local communities. This is an important statement, Leader of the House, and I ask you to ask your colleague to make it as soon as possible.

y grant hwn, gan gynnwys prisiau uwch, gostyngiad mewn lefelau gwasanaeth, llai o fuddsoddi mewn ynni gwyrdd a mwy o bwysau ar awdurdodau lleol, gan fod y gostyngiad yn y cymorth yn ei gwneud yn fwy costus i awdurdodau lleol gefnogi bysiau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, a gwasanaethau ysgol. Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn wynebu toriadau, ond bydd hyn yn gwneud pethau'n anos iddynt o ran y gostyngiad mewn cyflogaeth a fydd yn dilyn gostyngiad yn nifer y gwasanaethau bysiau, ond, yn fwy penodol, o ran yr effaith ar gymunedau lleol. Mae hwn yn ddatganiad pwysig, Arweinydd y Tŷ, a gofynnaf ichi ofyn i'ch cyd-Aelod wneud y datganiad hwn mor fuan ag y bo modd.

**Jane Hutt:** I thank William Graham for that question. To put this in context, since 2009, operators in Wales have enjoyed more generous bus service operators grant rates for standard diesel than they have in England, for example. The current rate is higher compared with the English rate per litre. Next year, the rates for standard diesel in Wales will be set at 35.28p per litre, which is still above the equivalent rate per litre in England. Of course, we expect local authorities and operators to work together closely, but following the cuts made by your Government, we have sought to protect this grant. We are also making £213 million available for the bus industry for our mandatory concessionary fare scheme.

**Jane Hutt:** Diolch i William Graham am y cwestiwn hwnnw. O roi hyn yn ei gyd-destun, ers 2009, mae gweithredwyr bysiau yng Nghymru wedi elwa o gyfraddau ar gyfer disel safonol yn y grant gweithredwyr bysiau sy'n fwy hael nag ydynt yn Lloegr, er enghraifft. Mae'r gyfradd bresennol yn uwch o'i chymharu â'r gyfradd y litr yn Lloegr . Y flwyddyn nesaf, bydd y cyfraddau a bennir ar gyfer disel safonol yng Nghymru yn 35.28c y litr, sydd yn dal yn uwch na'r gyfradd gyfatebol y litr yn Lloegr. Wrth gwrs, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol a gweithredwyr gydweithio'n agos, ond yn dilyn y toriadau a wnaed gan eich Llywodraeth, rydym wedi ceisio amddiffyn y grant hwn. Rydym hefyd yn sicrhau bod £213 miliwn ar gael i'r diwydiant bysiau ar gyfer ein cynllun teithio rhatach gorfodol.

**Bethan Jenkins:** Minister, could we have an update on the investigation into the situation at the All Wales Ethnic Minority Association, and when will you be able to shed some light on what your Government is doing in this regard? Dame Gillian Morgan provided evidence to the Public Accounts Committee this week where she said that it was clear that we have not necessarily been robust in making sure that organisations have all the standards that we would expect in Wales; I think that that is quite a damning indictment of this situation. Due to the fact that AWEMA is based in Swansea, many people in Swansea have contacted me with clear concerns regarding this issue. So, I urge you to make a statement on it sooner rather than

**Bethan Jenkins:** Weinidog, a allem gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad i'r sefyllfa yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, neu AWEMA, a phryd y byddwch yn gallu bwrw goleuni ar yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud yn hyn o beth? Cyflwynodd y Fonesig Gillian Morgan dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr wythnos hon, lle y dywedodd ei bod yn amlwg nad ydym o reidrwydd wedi bod yn gadarn wrth sicrhau bod sefydliadau â'r holl safonau y byddem yn eu disgwyl yng Nghymru; mae hynny'n feirniadaeth go ddamniol o'r sefyllfa, yn fy marn i. Gan fod AWEMA wedi'i lleoli yn Abertawe, mae llawer o bobl yn Abertawe wedi cysylltu â mi i fynegi pryderon amlwg ynghylch y mater

later.

hwn. Felly, rwy'n eich annog i wneud datganiad amdano yn fuan.

**Jane Hutt:** As I have said previously in response to questions in the Chamber as Leader of the House, this case raises issues of propriety and the proper stewardship of public funds, which are the responsibility of the Permanent Secretary as the principal accounting officer. However, I assure Bethan Jenkins that the fieldwork has been completed and that an analysis and assessment are being made of the investigation at the moment. Officials are aiming to finalise a report in agreement with the Big Lottery Fund, which is also engaged in the investigation, during the week commencing 6 February.

**Jane Hutt:** Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen mewn ymateb i gwestiynau yn y Siambr fel Arweinydd y Tŷ, mae'r achos hwn yn codi materion ynghylch priodoldeb ac ynghylch stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus, y mae'r Ysgrifennydd Parhaol, fel y prif swyddog cyfrifyddu, yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau Bethan Jenkins fod y gwaith maes wedi'i gwblhau a bod dadansoddiad ac asesiad o'r ymchwiliad yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae swyddogion yn anelu at gwblhau adroddiad gyda chytundeb y Gronfa Loteri Fawr, sydd hefyd yn cymryd rhan yn yr ymchwiliad, yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 6 Chwefror.

**Rebecca Evans:** The Welsh Government's integrated family support service offers a multi-agency model to support families with particularly complex needs, such as where there is an increased likelihood that the child will suffer from emotional, physical or social development problems. The first phase has concentrated on families where there is substance misuse. Could we have a statement on the progress of that initiative and an analysis of the outcomes for the children and parents? I would also welcome an update on when we can expect the programme to be rolled out to include families where the parent has a learning disability, or to families where there are mental health problems.

**Rebecca Evans:** Mae gwasanaeth cymorth integredig Llywodraeth Cymru i deuluoedd yn cynnig model amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sydd ag anghenion arbennig o gymhleth, megis pan fydd tebygolrwydd uwch y bydd y plentyn yn dioddef problemau emosiynol, corfforol neu broblemau o ran datblygiad cymdeithasol. Canolbwyntiodd y cam cyntaf ar deuluoedd lle y caiff sylweddau eu camddefnyddio. A allem gael datganiad am gynnydd y fenter honno ynghyd â dadansoddiad o'r canlyniadau ar gyfer y plant a'r rhieni? Byddwn hefyd yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y gallwn ddisgwyl i'r rhaglen gynnwys teuluoedd lle y mae gan riant anabledd dysgu, neu deuluoedd lle y mae problemau iechyd meddwl.

**Jane Hutt:** I thank Rebecca Evans for that important question, as it gives me an opportunity to give an provide an update on the Welsh Government's integrated family support services, which is a key priority in the programme for government and 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action'. We heard from the Deputy Minister for Social Services last week about the social services Bill, which will address the way in which we can take forward all these important matters. We have a clear expansion plan for IFSS: by the end of March, it will be available to families across 10 local authority areas, working in partnership with their local health boards. The aim is to ensure that every area in Wales

**Jane Hutt:** Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn pwysig hwnnw, gan ei fod yn rhoi cyfle imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cymorth integredig Llywodraeth Cymru i deuluoedd, sy'n flaenoriaeth allweddol yn y rhaglen lywodraethu ac yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'. Clywsom gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf am y Bil gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn ymdrin â'r ffordd y gallwn fwrw ymlaen â'r holl faterion pwysig hyn. Mae gennym gynllun clir ar gyfer ehangu'r gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd: erbyn diwedd mis Mawrth, bydd ar gael i deuluoedd ar draws 10 ardal awdurdod lleol,

has an integrated family support service by 2014 in the area of substance misuse. I will look at the issue with the Deputy Minister in terms of children with a learning disability.

gan weithio mewn partneriaeth â'u byrddau iechyd lleol. Y nod yw sicrhau bod gan bob ardal yng Nghymru wasanaeth integredig cymorth i deuluoedd erbyn 2014 ym maes camddefnyddio sylweddau. Byddaf yn ystyried y mater ynghylch plant ag anabledd dysgu gyda'r Dirprwy Weinidog.

**Kirsty Williams:** Leader of the House, community mediation can be a useful and effective intervention in order to sort out local disputes that could potentially lead to anti-social behaviour. Is it possible for the Minister for Local Government and Communities to make a statement on the value that the Welsh Government places on community mediation services and the support that the Welsh Government may be in a position to provide for such services across Wales?

**Kirsty Williams:** Arweinydd y Tŷ, gall cyfryngu cymunedol fod yn ymyriad defnyddiol ac effeithiol er mwyn datrys anghydfodau lleol a allai arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol. A all y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wneud datganiad am y gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar wasanaethau cyfryngu cymunedol, a'r cymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i wasanaethau o'r fath ledled Cymru?

**Jane Hutt:** I will certainly ask the Minister for Local Government and Communities for advice on that matter in terms of providing an update on funding streams and support. I am aware that community mediation schemes have been very valuable, particularly in relation to issues such as tenant and community disputes.

**Jane Hutt:** Byddaf yn sicr yn gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gael cyngor ar y mater o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffrydiau ariannu a chymorth. Rwy'n gwybod bod cynlluniau cyfryngu cymunedol wedi bod yn werthfawr iawn, yn enwedig mewn perthynas â materion fel anghydfod tenantiaid ac anghydfod yn y gymuned.

2.30 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, is it possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to organ donation? I understand that the consultation closes today, but the regulatory body that oversees organ donation across the United Kingdom yesterday published a serious report that highlighted inconsistencies in the service provided in many hospitals and in the supply of information that allows many organs that people have already volunteered to donate to go to waste, for want of a better word. It would be very unfortunate, after someone had made the decision to offer the opportunity of life to another individual and possibly enhance that person's life expectancy, that organs were then not taken.

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a fydd yn bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â rhoi organau? Rwy'n deall bod yr ymgynghoriad yn cau heddiw, ond ddoe, cyhoeddodd y corff rheoleiddio sy'n arolygu'r broses o roi organau ledled y Deyrnas Unedig adroddiad difrifol sy'n nodi anghysondebau yn y gwasanaeth a ddarperir mewn nifer o ysbytai ac yn y modd y caiff gwybodaeth ei ddarparu, sy'n golygu bod llawer o organau y mae pobl eisoes wedi'u rhoi yn cael eu gwastraffu, fel petai. Byddai'n anffodus iawn pe na bai organau'n cael eu defnyddio ar ôl i rywun benderfynu cynnig bywyd i unigolyn arall a gwella disgwyliad oes y person hwnnw, o bosibl.

**Jane Hutt:** This is clearly a matter of great concern to the Minister for Health and Social Services. As you say, our consultation on the

**Jane Hutt:** Mae hyn yn amlwg yn peri cryn bryder i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel y dywedwch, mae ein

forthcoming important legislation is now closed, but, in terms of the operation of the current system, I know that the Minister is looking at that report very carefully.

hymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth arfaethedig bellach wedi cau, ond, o ran y modd y caiff y system bresennol ei gweithredu, gwn fod y Gweinidog yn edrych ar yr adroddiad hwnnw yn ofalus iawn.

**Simon Thomas:** Leader of the House, we have had a very interesting day today with the publication of the Estyn report, and we have heard a lot about national reading tests and the 20-point plan for improving literacy. When we have had a chance to read the Estyn report in the next week or so, would it not be appropriate for the Government to table a debate, in Government time, so that we can all have an opportunity to ask the Minister about the actions he has taken in response to that report, and examine the First Minister's promise that there will be improvements in a year's time?

**Simon Thomas:** Arweinydd y Tŷ, rydym wedi cael diwrnod diddorol iawn heddiw o ganlyniad i gyhoeddi adroddiad Estyn, ac rydym wedi clywed llawer am brofion darllen cenedlaethol a'r cynllun 20 pwynt ar gyfer gwella llythrennedd. Pan fyddwn wedi cael cyfle i ddarllen adroddiad Estyn o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf, oni fyddai'n briodol i'r Llywodraeth gyflwyno dadl, yn amser y Llywodraeth, fel y gallwn i gyd gael cyfle i holi'r Gweinidog am y camau a gymerwyd ganddo mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw ac am addewid y Prif Weinidog y bydd gwelliannau ymhen blwyddyn?

**Jane Hutt:** As you are aware, Simon Thomas, there is a well-established procedure in place to respond to Estyn's annual report, and the Minister for Education and Skills has a debate scheduled for 20 March. This, and all the other findings of the report, will be fully discussed by Assembly Members on that occasion.

**Jane Hutt:** Fel y gwyddoch, Simon Thomas, mae gweithdrefn wedi'i sefydlu ar gyfer ymateb i adroddiad blynyddol Estyn, a bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cynnal dadl ar 20 Mawrth. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn trafod y mater hwn, a holl ganfyddiadau eraill yr adroddiad, yn llawn bryd hynny.

**Mark Isherwood:** I call for a Welsh Government statement on the provision of bereavement counselling in Wales. At the last meeting of the cross-party group on funerals and bereavement, which I chair, we had an excellent presentation from Cruse Bereavement Care Cymru, which, as you will know, provides high-quality support for people following bereavement. At a future meeting, we hope to have a presentation from the North Wales Chrysalis Trust, which, for the past 10 years, has worked out of Glan Clwyd Hospital providing free, professional counselling and support to families who have a child diagnosed with a life-threatening or terminal illness, and specialist bereavement counselling to parents and siblings after the sad loss of a child.

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar ddarparu cwnsela profedigaeth yng Nghymru. Yng nghyfarfod diwethaf y grŵp trawsbleidiol ar angladdau a phrofedigaeth rwyf yn ei gadeirio, cawsom gyflwyniad ardderchog gan Cruse Bereavement Care Cymru, sydd, fel y gwyddoch, yn darparu cymorth o ansawdd uchel i bobl yn dilyn profedigaeth. Mewn cyfarfod yn y dyfodol, rydym yn gobeithio cael cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Chrysalis Gogledd Cymru, sydd, dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi gweithio o'i chanolfan yn Ysbyty Glan Clwyd i ddarparu gwasanaeth cwnsela a chefnogaeth broffesiynol am ddim i deuluoedd sydd â phlentyn sydd wedi cael diagnosis o salwch terfynol neu sy'n bygwth bywyd, a chwnsela profedigaeth arbenigol i rieni, brodyr a chwiorydd ar ôl cael y profiad trist o golli plentyn.

At last year's Institute of Fundraising Cymru conference, which I spoke at, both

Siaradais yng nghynhadledd Sefydliad Codi Arian Cymru y llynedd. Yn y gynhadledd

organisations highlighted concerns about sustainable funding, but a health board spokesperson, who said he was the commissioner, described them as competitors for funding. Now, the Chrysalis trust advises that is has been notified that funding from the board will not be available to support future charitable funding over the next financial year, which threatens its very continuation. Minister, can we please have a Welsh Government statement not only in the context of the need for this provision across Wales, but on the role that the Welsh Government can play directly in ensuring that the trust continues, without simply saying that it is a matter for the health boards rather than Government?

honno, mynegodd y ddau sefydliad bryderon ynghylch ariannu cynaliadwy, ond dywedodd llefarydd o'r bwrdd iechyd, a ddywedodd mai ef oedd y comisiynydd, eu bod yn cystadlu am arian. Nawr, mae ymddiriedolaeth Chrysalis yn dweud ei bod wedi cael gwybod na fydd cyllid ar gael gan y bwrdd i gefnogi cyllid elusennol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n bygwth parhad yr ymddiriedolaeth. Weinidog, a allwn gael datganiad gan Lywodraeth Cymru nid yn unig yng nghyd-destun yr angen am y ddarpariaeth hon ledled Cymru, ond am y rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae yn uniongyrchol i sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn parhau, heb ddweud yn unig mai mater ar gyfer y byrddau iechyd yw yn hytrach na'r Llywodraeth?

**Jane Hutt:** Mark Isherwood raises an important point in terms of the availability and delivery of specialist bereavement counselling across Wales, and there is third sector expertise in this respect, as well as the provision through our local health boards. This is clearly something that is cross-governmental, and I will look to ensure that this is being addressed appropriately.

**Jane Hutt:** Mae Mark Isherwood yn codi pwynt pwysig o ran argaeledd a darparu cwnsela profedigaeth arbenigol ledled Cymru, ac mae arbenigedd yn y trydydd sector yn y cyswllt hwn, yn ogystal â'r ddarpariaeth drwy ein byrddau iechyd lleol. Mae hyn yn amlwg yn fater trawslywodraethol, a byddaf yn ceisio sicrhau bod hyn yn cael y sylw priodol.

**Peter Black:** Further to Bethan Jenkins's question on the All Wales Ethnic Minority Association, you have given assurances in the past that you are looking at how the partner organisations are being protected, particularly in terms of the European funding and those organisations that rely on AWEMA funding to deliver services. Will you give an undertaking and some detail as to how those organisations are being protected, and perhaps issue a written statement on that subject? Secondly, given that the Permanent Secretary told the Public Accounts Committee this morning that AWEMA should have been classified as high risk, will you give an undertaking to publish the 2003 report on AWEMA so that we can judge for ourselves what the Government knew and when it knew it?

**Peter Black:** Yn dilyn cwestiwn Bethan Jenkins am Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, rydych wedi rhoi sicrwydd yn y gorffennol eich bod yn ystyried sut y mae'r sefydliadau partner yn cael eu diogelu, yn enwedig o ran yr arian Ewropeaidd a'r sefydliadau hynny sy'n dibynnu ar gyllid AWEMA i ddarparu gwasanaethau. A wnewch ymrwymo i roi manylion ynghylch sut y mae sefydliadau'n cael eu diogelu? Efallai y gallwch gyhoeddi datganiad ysgrifenedig am hynny. Yn ail, o ystyried y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma y dylai AWEMA fod wedi cael ei nodi'n sefydliad risg uchel, a wnewch roi ymrwymiad i gyhoeddi'r adroddiad ar AWEMA a luniwyd yn 2003, fel y gallwn benderfynu drosom ein hunain beth oedd y Llywodraeth yn gwybod a phryd roedd yn gwybod hynny?

**Jane Hutt:** I can certainly assure Peter Black that we are doing all that we can to ensure that the projects and bodies that are delivered through EU funding via AWEMA are

**Jane Hutt:** Yn sicr, gallaf sicrhau Peter Black ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y bydd y prosiectau a'r cyrff sy'n cael eu cynnal gan arian yr UE drwy

protected from the consequences of suspending payments to that organisation. We have received information from AWEMA on the potential impact of suspension of funding on those bodies. We are taking that into account in our response. I have requested all evidence and reports in relation to this organisation to ensure that we are clear when it comes to the investigation into the safeguarding of public funds. I am sure that that will form part of the final report.

AWEMA yn cael eu diogelu rhag canlyniadau atal taliadau i'r sefydliad hwnnw. Rydym wedi cael gwybodaeth gan AWEMA ar effaith bosibl atal cyllid dros dro ar y cyrff hynny. Rydym yn ystyried hynny yn ein hymateb. Rwyf wedi gofyn am yr holl dystiolaeth a phob adroddiad mewn perthynas â'r sefydliad hwn er mwyn sicrhau ein bod yn sicr mewn perthynas â'r ymchwiliad i ddiogelu arian cyhoeddus. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n rhan o'r adroddiad terfynol.

**Darren Millar:** I call for a statement from the Minister for Environment and Sustainable Development on flood-risk management in Wales. The Minister will be aware of reports that the Association of British Insurers is warning that the current agreement between the UK Government and that organisation to ensure that there is affordable insurance for people in the high-risk areas might not be in place beyond 2013. I am not aware of the discussions the Welsh Government is having with the Association of British Insurers, but I am anxious that affordable insurance remains accessible to the 20,000 or so homes and businesses in north Wales, and the 7,000 odd in my constituency. I would appreciate a statement on that subject.

**Darren Millar:** Galwaf am ddatganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar reoli perygl llifogydd yng Nghymru. Bydd y Gweinidog yn gwybod am adroddiadau bod Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn rhybuddio ei bod yn bosibl na fydd y cytundeb presennol rhwng Llywodraeth y DU a'r sefydliad hwnnw i sicrhau bod yswiriant fforddiadwy ar gael i bobl yn yr ardaloedd risg uchel ar waith y tu hwnt i 2013. Nid wyf yn gwybod am y trafodaethau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cael â Chymdeithas Yswirwyr Prydain, ond rwy'n awyddus bod yswiriant fforddiadwy yn parhau i fod ar gael i'r oddeutu 20,000 o gartrefi a busnesau yng ngogledd Cymru, a'r oddeutu 7,000 yn fy etholaeth. Byddwn yn gwerthfawrogi datganiad ar y pwnc hwnnw.

I also call for a statement from the Minister for Housing, Regeneration and Heritage on how Wales plans to commemorate the hundredth anniversary of the start of the first world war. You will be aware that a ministerial task group has been set up in the past to commemorate such great events. I wonder whether the Minister would bring forward a statement on whether he plans to establish such a task group for this anniversary.

Rwyf hefyd yn galw am ddatganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth am sut y mae Cymru'n bwriadu nodi 100 mlynedd ers dechrau'r rhyfel byd cyntaf. Byddwch yn gwybod bod tasglu gweinidogol wedi cael ei sefydlu yn y gorffennol i goffáu digwyddiadau o'r fath. Tybed a fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad ynghylch a yw'n bwriadu sefydlu tasglu o'r fath ar gyfer y canmlwyddiant hwn?

Finally, I ask for a statement from the Minister for Local Government and Communities on support for veterans in Wales. It is timely that we should have an update on this particular issue. There is a conference to be held in Cardiff this week on veteran-related issues. However, there is some concern in north Wales that there is not a sufficiently joined up approach to support for veterans within the region, and I wonder whether a statement might be appropriate.

Yn olaf, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau am gymorth i gyn-filwyr yng Nghymru. Mae'n bryd inni gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn. Cynhelir cynhadledd yng Nghaerdydd yr wythnos hon ar faterion yn ymwneud â chyn-filwyr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder yng ngogledd Cymru nad oes dull digon cydgysylltiedig o gefnogi cyn-filwyr yn y rhanbarth, felly tybed a fyddai datganiad yn

briodol?

**Jane Hutt:** I thank Darren Millar for those questions. If we look at flood and coastal erosion, the Flood and Water Management Act 2010 supports significant change in the way we manage flooding and coastal erosion, and the Minister launched the national strategy last November, which shows how we will deliver the new risk-management approach.

**Jane Hutt:** Diolch i Darren Millar am y cwestiynau hynny. O ran llifogydd ac erydu arfordirol, mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cefnogi newid sylweddol yn y modd rydym yn rheoli llifogydd ac erydu arfordirol, a lansiodd y Gweinidog y strategaeth genedlaethol fis Tachwedd diwethaf, sy’n dangos sut y byddwn yn darparu’r dull newydd o reoli peryglon.

In terms of the point about insurance, the Minister is working closely with the insurance industry and the other UK administrations to ensure that flood insurance remains widely available after the current agreement expires in 2013.

O ran y pwynt am yswiriant, mae’r Gweinidog yn gweithio’n agos gyda’r diwydiant yswiriant a gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod yswiriant llifogydd yn parhau i fod ar gael yn eang ar ôl i’r cytundeb presennol ddod i ben yn 2013.

I will discuss events to commemorate the first world war with the relevant Minister in terms of the previous arrangements we had across Government. I will also look at our work to support veterans, which is, again, a cross-governmental issue.

Byddaf yn trafod digwyddiadau i goffáu’r rhyfel byd cyntaf â’r Gweinidog perthnasol o ran y trefniadau blaenorol a oedd gennym ar draws y Llywodraeth. Byddaf hefyd yn ystyried ein gwaith i gefnogi cyn-filwyr, sydd hefyd yn fater trawslywodraethol.

**Suzy Davies:** I am sure that Members will be enjoying the latest television advertisement campaign in which Vinnie Jones exhorts us all to learn how to administer CPR by pressing on the gold sovereign to the beat of ‘Staying Alive’. In response to my short debate on 19 October last year, in which I argued, with cross-party support, that teaching emergency lifesaving skills should be mandatory in schools, the Deputy Minister for Skills kindly committed to considering the need to teach emergency lifesaving skills on a statutory basis when we next review the curriculum. With the advertising campaign so fresh in people’s minds, now would be an ideal time for the Deputy Minister to capitalise on the mood and announce when a review of this particular part of the curriculum will take place. Will the Leader of the House invite either the Deputy Minister or the Minister for education to make a statement to that effect?

**Suzy Davies:** Rwy’n siŵr bod yr Aelodau’n mwynhau’r ymgyrch hysbysebu diweddaraf ar y teledu lle y mae Vinnie Jones yn annog pob un ohonom i ddysgu sut i roi CPR drwy bwyso ar y sofren aur i guriad ‘Staying Alive’. Mewn ymateb i’m dadl fer ar 19 Hydref y llynedd, pan ddadleuais, gyda chefnogaeth drawsbleidiol, y dylai dysgu sgiliau achub bywyd mewn argyfwng fod yn orfodol mewn ysgolion, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau i ystyried yr angen i ddysgu sgiliau achub bywyd brys ar sail statudol pan fyddwn yn adolygu’r cwricwlwm nesaf. Gan fod yr ymgyrch hysbysebu mor ffres ym meddyliau pobl, byddai nawr yn amser delfrydol i’r Dirprwy Weinidog fanteisio ar y sefyllfa a chyhoeddi pryd y bydd adolygiad o’r rhan hon o’r cwricwlwm yn cael ei gynnal. A fydd Arweinydd y Tŷ yn gwahodd y Dirprwy Weinidog neu’r Gweinidog addysg i wneud datganiad i’r perwyl hwnnw?

**Jane Hutt:** I am sure that the Deputy Minister will have recalled his commitment in relation to the opportunities in the curriculum that will be forthcoming, in order to ensure that emergency lifesaving skills are learned by our children. I share your

**Jane Hutt:** Rwy’n siŵr bod y Dirprwy Weinidog yn cofio ei ymrwymiad o ran y cyfleoedd sydd i ddod yn y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod ein plant yn dysgu sgiliau achub bywyd mewn argyfwng. Rwyf hefyd yn croesawu’r modd y mae hyn wedi cael ei

welcome of the way in which this has been promoted on our television screens. I am sure that young people are taking an interest in that.

hyrwyddo ar ein sgriniau teledu. Rwy'n siŵr bod pobl ifanc yn ymddiddori yn hynny.

**Mohammad Asghar:** Minister, I wish to raise the safety and security of religious places. The security of religious places, where people get together and pray, is the responsibility of the Home Office, which is 200 miles from here. In Newport, just before Christmas, the police, local government officials and I were heckled by some extremists in the mosque. So, I have seen it with my own eyes. A similar thing happened in Cardiff later on. My point is that these mosques have been taken over by people with influence—

**Mohammad Asghar:** Weinidog, rwy'n dymuno gofyn am ddiogelwch mannau crefyddol. Y Swyddfa Gartref, sydd wedi'i lleoli 200 milltir o fan hyn, sy'n gyfrifol am ddiogelwch mannau crefyddol lle y mae pobl yn dod at ei gilydd ac yn gweddïo. Yng Nghasnewydd, ychydig cyn y Nadolig, cafodd yr heddlu, swyddogion llywodraeth leol a minnau ein heclo gan eithafwyr yn y mosg. Felly, rwyf wedi gweld hyn gyda'm llygaid fy hun. Digwyddodd rhywbeth tebyg yn nes ymlaen yng Nghaerdydd. Fy mhwynt yw bod y mosgiau hyn wedi cael eu cymryd drosodd gan bobl sydd â dylanwad—

**The Presiding Officer:** Order. I am sorry, but are you requesting a statement?

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond a ydych yn gofyn am ddatganiad?

**Mohammad Asghar:** I am coming to the statement.

**Mohammad Asghar:** Rwy'n dod at y datganiad.

**The Presiding Officer:** Come to it quite quickly then, please.

**Y Llywydd:** Dewch ato'n gyflym, os gwelwch yn dda.

**Mohammad Asghar:** We need this to be done pretty quickly before it is out of our hands to protect our religious institutions here from extremists.

**Mohammad Asghar:** Mae angen gwneud hyn yn weddol gyflym cyn i bethau fynd allan o'n rheolaeth, er mwyn diogelu ein sefydliadau crefyddol rhag eithafwyr.

**The Presiding Officer:** I am sorry, but are you requesting anything, such as a statement?

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf, ond a ydych yn gofyn am unrhyw beth, fel datganiad?

**Mohammad Asghar:** I am requesting the Minister to take some action please.

**Mohammad Asghar:** Rwy'n gofyn i'r Gweinidog gymryd camau.

**Jane Hutt:** Mohammad Asghar makes an important point. It is relevant to report that the interfaith forum, chaired by the First Minister, and of which I am the vice-chair, is undertaking some research on this matter. Money has been made available through community cohesion funding, which comes under the Minister with responsibility for community safety, and he has been looking at this as part of the Prevent initiatives.

**Jane Hutt:** Mae Mohammad Asghar yn gwneud pwynt pwysig. Mae'n berthnasol adrodd bod y fforwm rhyng-grefyddol, o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog—fi yw'r is-gadeirydd—yn ymchwilio i'r mater hwn. Mae arian wedi cael ei ddarparu drwy gyllid cydlyniant cymunedol, sy'n rhan o bortffolio'r Gweinidog sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol, ac mae'r Gweinidog wedi bod yn edrych ar hyn fel rhan o fentrau rhaglen Prevent.

## Datganiad: Ardaloedd Menter
## Statement: Enterprise Zones

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** When I wrote to Members last month about enterprise zones, I promised to provide a further update. My aim in developing enterprise zones is to strengthen the competitiveness of the Welsh economy. The proposals need to reflect conditions in Wales and, where policy levers are devolved, we will be as innovative as we can. Where levers are not devolved, the UK funding is extremely limited, which is why we are having to work harder and be smarter in using our own interventions.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Pan ysgrifennais at yr Aelodau fis diwethaf am ardaloedd menter, addewais ddarparu rhagor o wybodaeth. Fy nod wrth ddatblygu ardaloedd menter yw cryfhau cystadleurwydd economi Cymru. Mae angen i'r cynigion adlewyrchu amgylchiadau Cymru, a, lle y mae dulliau o weithredu polisi wedi'u datganoli, byddwn mor arloesol ag y gallwn fod. Lle nad yw'r dulliau hynny wedi'u datganoli, mae cyllid y DU yn brin iawn. Dyna pam rydym yn gorfod gweithio'n galetach ac mewn modd mwy craff wrth ddefnyddio ein hymyriadau ein hunain.

Last September, I announced five preferred locations and significant progress has been made working with stakeholders at each of these locations. On boundaries, details will be placed on the Welsh Government's website. In most cases, an outer boundary has been identified that covers the wider area being considered for development. In some of the zones, we have extended our initial proposals and I will outline these today. Interim governance arrangements are being put in place. As in England, the approach will be to allow a degree of local discretion. In the interim, I have put a chair in place for each of the five zones until the end of May to maintain momentum. The boards can use this time to make their own arrangements following best practice guidelines.

Fis Medi diwethaf, cyhoeddais bum lleoliad a ffefrir ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithio gyda rhanddeiliaid ym mhob un o'r lleoliadau hyn. O ran y ffiniau, bydd manylion yn cael eu rhoi ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym wedi nodi ffin allanol sy'n cynnwys yr ardal ehangach sy'n cael ei hystyried ar gyfer datblygiad. Mewn rhai o'r ardaloedd, rydym wedi ymestyn ein cynigion cychwynnol a byddaf yn amlinellu hyn heddiw. Mae trefniadau llywodraethu dros dro yn cael eu gweithredu. Fel yn Lloegr, byddwn yn caniatáu rhywfaint o ddisgresiwn lleol. Yn y cyfamser, rwyf wedi penodi cadeirydd ar gyfer pob un o'r pum ardal tan ddiwedd mis Mai er mwyn cynnal momentwm. Gall y byrddau ddefnyddio'r amser hwn i wneud eu trefniadau eu hunain gan ddilyn canllawiau arfer gorau.

For Anglesey, the outer boundary of the enterprise zone is identified as the whole of Ynys Môn. A number of strategic sites across the island are being considered for more detailed interventions, in alignment with the energy and environment sector's view and the Energy Island initiative. The aim is to provide further impetus to help grow the Anglesey economy and make a major contribution to the low-carbon economy in Wales. Significant interest has been shown by the private sector. Alex Aldridge, one of the commissioners, will chair the enterprise zone board in an interim capacity.

Yn Ynys Môn, ffin allanol yr ardal fenter yw arfordir yr ynys. Rydym yn ystyried nifer o safleoedd strategol ledled yr ynys ar gyfer ymyriadau mwy manwl, sy'n cyd-fynd â barn y sector ynni a'r amgylchedd a menter Ynys Ynni. Y nod yw rhoi hwb pellach i helpu economi Ynys Môn i dyfu a gwneud cyfraniad pwysig i'r economi carbon isel yng Nghymru. Mae'r sector preifat wedi dangos diddordeb sylweddol. Bydd Alex Aldridge, un o'r comisiynwyr, yn cadeirio bwrdd yr ardal fenter dros dro.

For Cardiff, the enterprise zone boundary is aligned to the Cardiff central business district improvement zone. This aims to establish an internationally competitive destination for financial and professional services. Chris Nott, chair of the financial and professional services sector panel, will chair this enterprise zone board in an interim capacity. For Deeside, we have listened to stakeholder feedback and defined the enterprise zone's outer boundary as the whole of the proposed Deeside growth zone, as well as including the Airbus facility at Broughton. Within this area, specific sites will be identified for targeted interventions. The aim is to build on the reputation of the location and develop an internationally recognised hub for advanced manufacturing. There is significant private sector interest, which is being taken forward by my officials, working closely with the local authority and others. Askar Sheibani, one of the Welsh Government's business entrepreneurship champions, will chair this enterprise zone board in an interim capacity.

Yng Nghaerdydd, mae ffin yr ardal fenter yn cyd-fynd ag ardal gwella ardal fusnes canol Caerdydd. Y nod yw sefydlu lleoliad sy'n gystadleuol yn rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Bydd Chris Nott, cadeirydd panel y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, yn cadeirio bwrdd yr ardal fenter hon dros dro. O ran Glannau Dyfrdwy, rydym wedi gwrando ar adborth gan randdeiliaid ac wedi nodi y bydd yr ardal fenter yn cynnwys y cyfan o ardal twf arfaethedig Glannau Dyfrdwy, yn ogystal â gwaith Airbus ym Mrychdyn. O fewn yr ardal hon, byddwn yn nodi safleoedd penodol ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu. Y nod yw adeiladu ar enw da'r lleoliad a datblygu canolfan a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gweithgynhyrchu uwch. Mae'r sector preifat wedi dangos diddordeb sylweddol ac mae fy swyddogion yn datblygu hyn, gan weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol ac eraill. Bydd Askar Sheibani, un o eiriolwyr entrepreneuriaeth busnes Llywodraeth Cymru, yn cadeirio bwrdd yr ardal fenter hon dros dro.

For the Ebbw Vale area, the proposal also builds on the existing standing of the area in attracting innovative UK and international manufacturing companies, due to the quality of the local workforce with the relevant skills and experience. Again, there is significant interest from the private sector. Gareth Jenkins, chair of the advanced manufacturing and materials sector panel, will chair this enterprise zone board in an interim capacity.

Yn ardal Glyn Ebwy, mae'r cynnig hefyd yn adeiladu ar enw da yr ardal o ran denu cwmnïau gweithgynhyrchu arloesol rhyngwladol ac o'r DU, oherwydd ansawdd y gweithlu lleol, sydd â'r sgiliau a'r profiad perthnasol. Eto, mae gan y sector preifat ddiddordeb mawr. Gareth Jenkins, cadeirydd panel y sector uwch ddeunyddiau a gweithgynhyrchu, fydd yn cadeirio bwrdd yr ardal fenter hon dros dro.

For the St Athan area, feedback from stakeholders has extended the original focus on the St Athan site to include Cardiff Airport and other key employment sites and development proposals in the immediate vicinity. These build upon the excellent foundations already in place to create an aerospace sector enterprise zone proposition in Wales, with investment in aircraft maintenance facilities, international travel and route development, high-quality business accommodation and links to academia. Again, there is significant private sector interest, and Professor Garel Rhys, chair of the economic research and advisory panel, will chair the enterprise zone board in an

O ran ardal Sain Tathan, mae adborth gan randdeiliaid yn golygu ein bod wedi ymestyn ffocws gwreiddiol safle Sain Tathan i gynnwys Maes Awyr Caerdydd a safleoedd cyflogaeth pwysig a chynigion datblygu eraill yn y cyffiniau agos. Mae'r rhain yn adeiladu ar y sylfeini rhagorol sydd eisoes wedi'u sefydlu i greu cynnig ar gyfer ardal fenter y sector awyrofod yng Nghymru, gyda buddsoddiad mewn cyfleusterau cynnal a chadw awyrennau, teithio rhyngwladol a datblygu llwybrau, adeiladau busnes o ansawdd uchel a chysylltiadau â'r byd academaidd. Unwaith eto, mae diddordeb sylweddol yn y sector preifat, a bydd yr Athro Garel Rhys, cadeirydd y panel

interim capacity.

ymchwil a chynghori economaidd, yn cadeirio'r bwrdd ardal menter dros dro.

2.45 p.m.

When I announced these five preferred locations in September, I allowed time for other proposals to be submitted. I have had to be very focused in considering these, given the low level of funding from the UK Government; it has not only been a case of how proposals measure up to a set of criteria.

Pan gyhoeddais y pum lleoliad dewisol ym mis Medi, caniateais amser ar gyfer cyflwyno cynigion eraill. Bu'n rhaid imi ganolbwyntio'n ddifrifol wrth ystyried y rhain, o ystyried y lefel isel o gyllid sy'n dod o Lywodraeth y DU; nid yw wedi bod yn fater yn unig o ystyried sut y bydd cynigion yn bodloni set o feini prawf.

I have decided to pursue active development of enterprise zone proposals in two other areas. I have chosen them because of their strategic importance in Wales and their uniqueness and distinctiveness even at a UK level. The first is Trawsfynydd, Gwynedd, which will focus on the energy and the environment and the ICT sectors, and will form part of the wider strategy to rejuvenate the site, which is a unique asset for Wales. The second is Haven waterway, Pembrokeshire, which is an interesting proposal in a strategically important location. As it includes a Crown port, discussions are needed with the UK Government. Once I have clarification on this, I will confirm, or otherwise, its status.

Rwyf wedi penderfynu cymryd camau gweithredol i ddatblygu cynigion ar gyfer ardaloedd menter mewn dwy ardal arall. Rwyf wedi dewis yr ardaloedd hyn oherwydd eu pwysigrwydd strategol yng Nghymru a'u natur unigryw a hynod ar lefel y DU hyd yn oed. Y cyntaf yw Trawsfynydd, yng Ngwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar y sectorau ynni, yr amgylchedd a TGCh. Bydd yn rhan o strategaeth ehangach i adfywio'r safle, sydd yn ased unigryw i Gymru. Yr ail yw harbwr Aberdaugleddau, yn sir Benfro, sy'n gynnig diddorol mewn lleoliad strategol pwysig. Gan ei fod yn cynnwys un o borthladdoedd y Goron, mae angen cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU. Unwaith y caf eglurdeb ar y mater hwn, byddaf yn cadarnhau ei statws, y naill ffordd neu'r llall.

Not all the proposals that I received were suitable as enterprise zones; not all made bids for enterprise zone status. Many of them, however, contained good ideas, which might be brought forward in other ways. The proposal from Powys is particularly innovative. I have had preliminary discussions and am setting up a short-term task and finish group, involving local partners, to explore proposals in Newtown, Llandrindod Wells and Brecon. I want a focus on smaller businesses and am interested in the specific issues that relate to retail in these areas. I am delighted that Sue Balsom, a member of the microbusiness task and finish group, will be part of the group, giving her help and experience.

Nid yw pob un o'r cynigion yn addas fel ardaloedd menter; ni wnaeth pawb gais am statws ardal fenter. Roedd llawer ohonynt, fodd bynnag, yn cynnwys syniadau da, a allai gael eu cyflwyno mewn ffyrdd eraill. Mae'r cynnig o Bowys yn arbennig o arloesol. Rwyf wedi cael trafodaethau rhagarweiniol ac rwy'n sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen yn y tymor byr, a fydd yn cynnwys partneriaid lleol, er mwyn archwilio cynigion yn y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu. Rwyf am ganolbwyntio ar fusnesau llai, ac mae gennyf ddiddordeb mewn materion penodol sy'n ymwneud â manwerthu yn yr ardaloedd hyn. Rwyf wrth fy modd y bydd Sue Balsom, sy'n aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau, yn rhan o'r grŵp, gan roi cymorth iddo a rhannu ei phrofiad.

For the proposals that I will not be taking forward for enterprise zone status, I will consider further any specific opportunities

O ran y cynigion na fyddaf yn eu datblygu fel ardaloedd menter, byddaf yn ystyried ymhellach unrhyw gyfleoedd penodol

within them that demonstrate significant economic impact. We have been pressing the Treasury for flexibility on the number of zones attracting enhanced capital allowances, the size of projects and the overall funding ceiling. The Barnett formula is not the appropriate mechanism. Enhanced capital allowances should be based on the potential for an enterprise zone to deliver economic growth, not a formula based on population distribution. Proposals will now be worked up to submit to the Treasury for the flexible use of enhanced capital allowances across a number of our enterprise zones.

ynddynt sy'n dangos y byddent yn gallu cael effaith sylweddol economaidd. Rydym wedi bod yn pwyso ar y Trysorlys i fod yn hyblyg o ran nifer yr ardaloedd a fydd yn denu lwfansau cyfalaf uwch, maint y prosiectau ac uchafswm y cyllid cyffredinol. Nid fformiwla Barnett yw'r mecanwaith priodol. Dylai lwfansau cyfalaf uwch fod yn seiliedig ar botensial ardal fenter i greu twf economaidd, nid ar fformiwla sy'n seiliedig ar ddosbarthiad y boblogaeth. Bydd cynigion yn cael eu paratoi ar gyfer defnyddio lwfansau cyfalaf uwch yn hyblyg ar draws nifer o'n hardaloedd menter; bydd y cynigion hynny wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Trysorlys.

On business rates, we will receive a modest £10 million from the UK Government, but it is over a five-year period. This will not allow for wholesale provision of business rate relief across all the zones, nor would it be appropriate for every sector. The independent advisory group, chaired by Professor Brian Morgan, is considering the options.

O ran ardrethi busnes, byddwn yn derbyn swm cymedrol o £10 miliwn gan Lywodraeth y DU, ond bydd hynny dros gyfnod o bum mlynedd. Ni fydd hyn yn caniatáu inni ddarparu rhyddhad ardrethi busnes ar draws yr ardaloedd menter i gyd, ac ni fyddai hyn yn briodol ar gyfer pob sector. Mae'r grŵp cynghori annibynnol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Brian Morgan, yn ystyried y dewisiadau.

Good communications infrastructure will be the key to the success and competitiveness of businesses in the enterprise zones. The Welsh Government's next-generation broadband project will roll out high-speed broadband in enterprise zones, as required, to provide a strong foundation and remove connectivity barriers.

Bydd seilwaith cyfathrebu da yn allweddol i lwyddiant a chystadleurwydd busnesau yn yr ardaloedd menter. Bydd prosiect Llywodraeth Cymru ynghylch band eang y genhedlaeth nesaf yn cyflwyno band eang cyflym mewn ardaloedd menter, yn ôl yr angen, i ddarparu sylfaen gadarn ac i ddileu rhwystrau cysylltedd.

As a Government, we are working together to ensure that other programmes support enterprise zones to maximum effect. For example, we are working to ensure that specific transport requirements for enterprise zones, over and above those identified in the prioritised national transport plan, are appropriately considered. We are also working on the £3.5 million commitment within the economic stimulus package to deliver necessary road enhancements at our proposed enterprise zones. There is a joint approach with the Department for Education and Skills to work with businesses within the enterprise zones that wish to offer apprenticeships, provide support for workforce development actions and secure job opportunities for young people. The secondary legislation that enables local

Fel Llywodraeth, rydym yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod rhaglenni eraill yn cefnogi ardaloedd menter i'r eithaf. Er enghraifft, rydym yn gweithio i sicrhau bod gofynion trafnidiaeth penodol ar gyfer ardaloedd menter, uwchlaw'r rheini a nodwyd yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a oedd yn pennu'r blaenoriaethau, yn cael eu hystyried mewn modd priodol. Rydym hefyd yn gweithio ar yr ymrwymiad o £3.5 miliwn o fewn y pecyn ysgogiad economaidd er mwyn darparu gwelliannau angenrheidiol i ffyrdd o fewn ein hardaloedd menter arfaethedig. Defnyddir dull o weithredu ar y cyd â'r Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer gweithio gyda busnesau o fewn yr ardaloedd menter sy'n dymuno cynnig prentisiaethau, darparu cymorth ar gyfer camau i ddatblygu'r gweithlu a sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc gael

planning authorities to prepare local development orders, thereby simplifying the planning process that could support enterprise zones, is targeted to come into force during March 2012.

swyddi diogel. Bydd yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i baratoi gorchmynion datblygu lleol, gan symleiddio'r broses gynllunio a allai fod o gymorth i ardaloedd menter, yn dod i rym yn ystod mis Mawrth 2012, yn ôl y targed a bennwyd.

A high level of partnership working is required to ensure that these proposals become operational. I am grateful for the commitment and enthusiasm shown so far. I am determined to match the timetable being followed in England, and will give a further updated statement in March.

Mae angen lefel uchel o weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y cynigion hyn yn dod yn weithredol. Rwy'n ddiolchgar am yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd a ddangoswyd hyd yn hyn. Rwy'n benderfynol o lynu wrth yr amserlen a ddilynir yn Lloegr, a byddaf yn gwneud datganiad pellach a fydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Mawrth.

**Nick Ramsay:** I am grateful for the Minister's statement. I warmly welcome many of the things that she has said. I know that the Minister has come under some criticism from some quarters recently over a perceived lack of pace. Hopefully, today will be the day when the ball starts to roll on enterprise zones in Wales.

**Nick Ramsay:** Rwy'n ddiolchgar am ddatganiad y Gweinidog. Croesawaf yn fawr lawer o'r pethau a ddywedwyd ganddi. Gwn fod y Gweinidog wedi bod yn destun rhywfaint o feirniadaeth yn ddiweddar gan rai yn sgil canfyddiad o ddiffyg brys ar ei rhan. Y gobaith yw mai heddiw yw'r dydd pan fydd y cwch yn cael ei wthio i'r dŵr mewn perthynas ag ardaloedd menter yng Nghymru.

Minister, I welcome your engagement with stakeholders. I have had some feedback from stakeholders and they were pleased with the way that the process has gone. The key to this statement is the inclusion of the development of new enterprise zones in the Haven waterway in Pembrokeshire and Trawsfynydd in Gwynedd. The Haven, as you said, is a particularly interesting proposal; it is of strategic importance to Pembrokeshire, Wales and the UK. Anyone who has visited the place, as I have in the last months, knows the exciting potential that the area has regarding the port, which you mentioned, and new energy technologies. I also welcome the inclusion of Trawsfynydd and appreciate that, given the history of the site, there is a skill-base there that should be utilised.

Weinidog, croesawaf eich ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Rwyf wedi cael rhywfaint o adborth gan randdeiliaid ac roeddent yn hapus gyda'r ffordd y mae'r broses wedi datblygu. Yr elfen allweddol o'r datganiad hwn yw'r ffaith eich bod wedi cynnwys datblygu ardaloedd menter newydd yn harbwr Aberdaugleddau yn sir Benfro ac yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd. Mae harbwr Aberdaugleddau, fel y dywedasoch, yn gynnig arbennig o ddiddorol, gan ei fod o bwysigrwydd strategol i sir Benfro, i Gymru ac i'r DU. Gŵyr unrhyw un sydd wedi ymweld â'r lle, fel yr wyf innau wedi gwneud yn ystod y misoedd diwethaf, am botensial cyffrous yr ardal mewn perthynas â'r porthladd, fel y soniasoch, a thechnolegau ynni newydd. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod wedi cynnwys Trawsfynydd; o ystyried hanes y safle, rwy'n cydnabod bod sylfaen sgiliau yno y dylid ei defnyddio.

We have seen the inclusion of those bids, but a number of other bids have been turned down. It would be interesting to hear on what basis Newport and Swansea, for instance, were rejected, given the number of

Cafodd y ceisiadau hynny eu cynnwys, ond gwrthodwyd nifer o geisiadau eraill. Byddai'n ddiddorol clywed ar ba sail y gwrthodwyd ceisiadau Abertawe a Chasnewydd, er enghraifft, o ystyried nifer y

representations that you have received from those areas over recent months on their inclusion in the enterprise zone strategy. You will know that in Newport and in my constituency there is great concern about the enterprise zone in Herefordshire, just over the border, and what that will do to competitiveness in places like Newport. If you are not going to give enterprise zone status to those areas, I would be grateful to hear what you are proposing to do to ensure that they do not lose out to England.

sylwadau yr ydych wedi eu derbyn gan yr ardaloedd hynny dros y misoedd diwethaf mewn perthynas â bod yn rhan o'r strategaeth ardaloedd menter. Gwyddoch fod pryder yng Nghasnewydd ac yn fy etholaeth i ynghylch yr ardal fenter yn swydd Henffordd, sydd ychydig dros y ffin, a sut y bydd yr ardal fenter honno'n effeithio ar gystadleurwydd mewn llefydd fel Casnewydd. Os nad ydych yn mynd i roi statws ardal fenter i'r ardaloedd hynny, byddwn yn ddiolchgar o glywed yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud er mwyn sicrhau nad ydynt ar eu colled o gymharu â Lloegr.

I warmly welcome the part of your statement that refers to how you are proceeding with regard to Deeside. I am pleased by the breadth of the zone that has been announced, and the fact that it includes the Airbus facility at Broughton. As I said before, I have heard positive feedback from the Minister for Local Government and the Communities and from the stakeholders involved. I know that a great team, involving Councillor Matt Wright and others, made representations to you, and I am pleased that you listened to some of those. You mentioned targeted intervention from now on with regard to how that Deeside enterprise zone will develop. Therefore, will you undertake to continue to liaise with the local team and local stakeholders to determine exactly how that development will take place?

Croesawaf yn fawr y rhan honno o'ch datganiad a gyfeiriodd at sut rydych yn symud ymlaen mewn perthynas â Glannau Dyfrdwy. Rwy'n falch o weld pa mor eang yw'r ardal a gyhoeddwyd, a'r ffaith ei bod yn cynnwys gwaith Airbus ym Mrychdyn. Fel y dywedais o'r blaen, cefais adborth cadarnhaol gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a chan y rhanddeiliaid dan sylw. Gwn fod tîm gwych, a oedd yn cynnwys y Cynghorydd Matt Wright ac eraill, wedi cyflwyno sylwadau ichi, ac rwy'n falch eich bod wedi gwrando ar rai ohonynt. O ran datblygu'r ardal fenter yng Nglannau Dyfrdwy, soniasoch y byddai ymyriadau'n cael eu targedu o hyn ymlaen. Felly, a wnewch chi ymrwymo i barhau i gysylltu â'r tîm lleol a rhanddeiliaid lleol i benderfynu'n union ar sut y bydd y datblygiad hwnnw'n digwydd?

You say that Barnett is not the mechanism by which to provide funding, and I take on board what you say when you talk about the inadequacy of a population-based formula for providing that funding for enterprise zones. However, an update on your discussions with the UK Government on capital allowances would be welcome. What we do not want is for us to fall behind in Wales, and for the timetable that you set out today to fall behind, on the basis of a side argument about capital allowances vis-à-vis the Barnett formula. Therefore, I would welcome it if you could report back to Plenary on where you are with regard to those discussions with the UK Government.

Dywedasoch nad Barnett yw'r mecanwaith ar gyfer darparu cyllid, ac rwy'n derbyn yr hyn a ddywedasoch wrth sôn am annigonolrwydd fformiwla sy'n seiliedig ar boblogaeth ar gyfer darparu arian i ardaloedd menter. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich trafodaethau â Llywodraeth y DU ar lwfansau cyfalaf. Nid ydym am weld Cymru ar ei hôl hi, ac nid ydym yn dymuno gweld bod yr amserlen rydych wedi'i hamlinellu heddiw ar ei hôl hi ychwaith, o ganlyniad i ddadl ymylol ynghylch lwfansau cyfalaf mewn perthynas â fformiwla Barnett. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn am y sefyllfa o ran eich trafodaethau â Llywodraeth y DU.

I, like you, welcome the £10 million from the

Rwyf i, fel chithau, yn croesawu'r £10

UK Government. You have said that business rate relief would not be appropriate for every sector; you may be right about that. However, you mentioned Professor Brian Morgan's current review into the whole area of business rates, and I know, from chairing the Enterprise and Business Committee, that he is advanced in considering his options. Will you give an undertaking to the Chamber today that his recommendations with regard to business rates will be taken on board by you and the Government as a whole, so that the enterprise zone policy, which you have set out today, can be progressed as all of us in this Chamber would like it to be?

miliwn gan Lywodraeth y DU. Rydych wedi dweud na fyddai rhyddhad ardrethi busnes yn briodol ar gyfer pob sector; efallai eich bod yn iawn am hynny. Fodd bynnag, soniasoch am adolygiad cyfredol yr Athro Brian Morgan o'r maes ardrethi busnes yn ei gyfanrwydd, a chan fy mod yn cadeirio'r Pwyllgor Menter a Busnes, gwn fod ei waith o ran ystyried y dewisiadau bron wedi'i gwblhau. A wnewch chi addo i'r Siambr heddiw y byddwch chi a'r Llywodraeth yn ystyried ei argymhellion o ran ardrethi busnes, fel y gall y polisi ardaloedd menter, y gwnaethoch ei amlinellu heddiw, gael ei ddatblygu mewn modd a fydd yn bodloni pob un ohonom yn y Siambr hon?

Finally, I welcome the announcement on St Athan and the inclusion of Cardiff Airport. That makes sense. You have announced a clear timetable today, and we will have another statement from you in March. I am sure that you agree that it is important for Wales that the enterprise zone strategy is progressed as quickly as possible and that Wales does not fall behind England in this regard.

Yn olaf, croesawaf y cyhoeddiad ar Sain Tathan a'r ffaith bod Maes Awyr Caerdydd wedi'i gynnwys. Mae hynny'n gwneud synnwyr. Rydych wedi cyhoeddi amserlen glir heddiw, a byddwn yn cael datganiad arall gennych ym mis Mawrth. Rwy'n sicr eich bod yn cytuno ei bod yn bwysig i Gymru bod y strategaeth ardaloedd menter yn cael ei datblygu cyn gynted â phosibl, ac nad yw Cymru ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr yn hynny o beth.

**Edwina Hart:** We have not fallen behind England, because its enterprise zones will not be live either until April 2012—exactly the same as ours. You say that I have taken some flak recently, but it has not been from the people who matter—people in business. I have taken the flak from elsewhere. That flak needs to be put into perspective.

**Edwina Hart:** Nid ydym ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr, gan na fydd ardaloedd menter Lloegr yn weithredol tan fis Ebrill 2012—yn union fel ein hardaloedd ni. Dywedasoch fy mod wedi cael fy meirniadu'n ddiweddar, ond nid gan y bobl sy'n cyfrif—pobl fusnes. Rwyf wedi cael fy meirniadu o gyfeiriadau eraill. Mae angen rhoi'r feirniadaeth honno yn ei chyd-destun.

I want to comment on some of the points that you made. I have welcomed very much your support for enterprise zones across the piece with regard to how we want to deliver on extra jobs in the economy. I was sympathetic to looking at the Newport and Swansea positions in particular. We only have to look at the Centre for Cities report that indicated the vulnerability of those cities with regard to their location, economic developments and everything else. Swansea has some ambitious proposals for innovation and research and development, and I intend to look at those positively, with the City and County of Swansea, even though we have rejected its enterprise zone bid. My officials should

Rwyf am wneud sylwadau ar rai o'r pwyntiau a godwyd gennych. Rwyf wedi croesawu'n fawr eich cefnogaeth gyffredinol i ardaloedd menter, o ran sut rydym am greu swyddi ychwanegol yn yr economi. Cydymdeimlais â cheisiadau Casnewydd ac Abertawe yn arbennig. Nid oes ond rhaid inni edrych ar yr adroddiad gan Centre for Cities a nododd pa mor fregus yw'r dinasoedd hynny o ran eu lleoliad, datblygiadau economaidd a phopeth arall. Mae gan Abertawe gynigion uchelgeisiol o ran arloesi ac ymchwil a datblygu, ac rwy'n bwriadu ystyried y cynigion hynny yn gadarnhaol gyda Dinas a Sir Abertawe, er ein bod wedi gwrthod cais y ddinas i fod yn ardal fenter. Dylai fy

already be on the phones with regard to Newport. I am particularly concerned to look at some of the issues around the city centre, the business improvement district and all of those other issues. We will be discussing with those two local authorities how we can help with regard to their regeneration.

swyddogion fod ar y ffôn yn barod mewn perthynas â Chasnewydd. Rwy’n arbennig o awyddus i edrych ar rai materion sy’n ymwneud â chanol y ddinas, yr ardal gwella busnes a’r holl faterion eraill hynny. Byddwn yn cynnal trafodaethau â’r ddau awdurdod lleol hynny ar sut y gallwn helpu eu hymdrechion o ran adfywio.

There is another city involved in this—Wrexham—in north Wales. There are issues with regard to the fact that its bid was rejected, but we intend to work with Wrexham on a site that we own, and on whether we should reclaim that entire site and make it fit for purpose as a site for investment. That is the approach that I will be taking to those areas where bids have been rejected. It is quite a proactive approach in terms of what the department can undertake to do.

Mae dinas arall yn rhan o’r broses hon, sef Wrecsam, yng ngogledd Cymru. Mae materion yn bodoli ynglŷn â’r ffaith bod ei chais wedi cael ei wrthod, ond rydym yn bwriadu gweithio gyda Wrecsam ar safle sy’n eiddo i ni, gan ystyried a ddylem adennill y safle cyfan a’i wneud yn addas at ddibenion buddsoddi. Dyna’r dull gweithredu y byddaf yn ei fabwysiadu yn yr ardaloedd hynny lle y gwrthodwyd cynigion. Mae hon yn ymagwedd eithaf rhagweithiol o ran yr hyn y gall yr adran ymrwymo i’w wneud.

With regard to Deeside, I was very much taken with the representations on extending the zone, which indicated that there had been a lot of discussion between partners there. We have listened to that discussion. It was a good team, based on the responses that we had from individuals, companies and all concerned. Therefore, it will be important for the new chairs of the zones to take these discussions forward. I do not want there to be too much governance. I want a light touch on this, because I want how they work to be up for local discussion. This will give us the opportunity to do so. That is particularly true of targeted interventions. We might look at targeted interventions in relation to where we might put capital allowances in certain parts of the zones. That is the discussion that we are having.

O ran Glannau Dyfrdwy, roedd y sylwadau a wnaed ynghylch ymestyn yr ardal yn apelio’n fawr ataf; roedd y sylwadau hyn yn awgrymu y bu llawer o drafod rhwng partneriaid yno. Rydym wedi gwrando ar y drafodaeth honno. Roedd yn dîm da, a oedd yn seiliedig ar yr ymatebion a gawsom gan unigolion, gan gwmnïau a chan bawb dan sylw. Felly, bydd yn bwysig i gadeiryddion newydd yr ardaloedd menter ddatblygu’r trafodaethau hyn. Nid wyf am weld gormod o lywodraethu. Rwyf am weld agwedd lawysgafn ar hyn, gan fy mod am weld trafodaeth leol ar sut y maent yn gweithio. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni wneud hynny. Mae hynny’n arbennig o wir yn achos ymyriadau wedi’u targedu. Efallai y byddwn yn ystyried ymyriadau wedi’u targedu o ran ble y gallwn roi lwfansau cyfalaf mewn rhannau penodol o’r ardaloedd menter. Dyna’r drafodaeth rydym yn ei chael.

We have been having very positive meetings since the Minister for Finance had an excellent meeting with Danny Alexander on these issues. We think that there will be a degree of flexibility. We are not arguing about Barnett; we are discussing the real issues of where capital allowances could go, based on the flexibility that we have. I am sure that we will be able to resolve that.

Rydym wedi cael cyfarfodydd cadarnhaol iawn ers i’r Gweinidog Cyllid gael cyfarfod ardderchog â Danny Alexander ar y materion hyn. Credwn y bydd rhywfaint o hyblygrwydd. Nid ydym yn dadlau am Barnett; rydym yn trafod y materion gwirioneddol o ran i ble y gallai lwfansau cyfalaf fynd, yn seiliedig ar yr hyblygrwydd sydd gennym. Yr wyf yn sicr y byddwn yn gallu datrys y mater hwnnw.

With regard to business rates, it would be nice to say that I will accept every proposal that comes in from a working party report. I cannot honestly say that, can I? However, I can tell you, with regard to timescales, that when Brian Morgan's report comes in, I will be able to take it into account before the final package for enterprise zones is looked at.

O ran ardrethi busnes, byddai'n braf cael dweud y byddaf yn derbyn pob cynnig sy'n cael ei gyflwyno mewn adroddiad gweithgor. Onid yw'n amhosibl imi ddweud hynny'n onest? Fodd bynnag, gallaf ddweud hyn: o ran amserlenni, pan fydd adroddiad Brian Morgan yn cael ei gyflwyno, byddaf yn gallu ei ystyried cyn edrych ar y pecyn terfynol ar gyfer yr ardaloedd menter.

It is important that we continue the momentum on this, particularly with regard to the airport in St Athan. We have listened to representations from the local authorities and so on in that area. You also alluded to the two new zones. The Haven enterprise zone is very exciting, but I will have to look at the arrangements there, because there is a national interest in this, as it is a national energy site for the UK Government. I want to discuss possible governance arrangements and everything that involves the port and those types of issues. With regard to Trawsfynydd, we have to recognise that there is an enormously skilled workforce up there that is ready and able to work. I have to pay a compliment and thank Lord Elis-Thomas for arranging meetings for me up there. The co-operation with Gwynedd, as regards putting its bid forward, has been first class.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau â'r momentwm yn hyn o beth, yn enwedig mewn perthynas â'r maes awyr yn Sain Tathan. Rydym wedi gwrando ar sylwadau gan yr awdurdodau lleol ac ati yn yr ardal honno. Cyfeiriasoch hefyd at y ddwy ardal newydd. Mae ardal fenter harbwr Aberdaugleddau yn gyffrous iawn, ond bydd yn rhaid imi edrych ar y trefniadau yno, gan fod diddordeb cenedlaethol ynddo oherwydd ei fod yn safle ynni cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth y DU. Rwyf am drafod trefniadau llywodraethu posibl a phopeth sy'n ymwneud â'r porthladd, a'r mathau hynny o faterion. O ran Trawsfynydd, mae'n rhaid inni gydnabod bod gweithlu hynod fedrus yno sydd â'r gallu a'r parodrwydd i weithio. Rhaid imi ganmol yr Arglwydd Elis-Thomas a diolch iddo am drefnu cyfarfodydd imi yno. Mae cydweithio gyda Gwynedd, o ran cyflwyno ei chais, wedi bod yn brofiad o'r radd flaenaf.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwyf i hefyd yn croesawu'r datganiad, sy'n rhoi ychydig yn fwy o wybodaeth inni am yr ardaloedd menter. Rwy'n croesawu'r ffaith y cafwyd eglurder ynghylch ffiniau'r pum ardal arfaethedig. Mae'r Gweinidog hefyd wedi cyhoeddi'r posibilrwydd o gael dwy ardal ychwanegol—yn Nhrawsfynydd, a groesewir yn y gogledd-orllewin, ac yn sir Benfro, er bod mwy o waith i'w wneud yno cyn cadarnhau'r trefniant.

**Ieuan Wyn Jones:** I also welcome the statement, which gives us slightly more information about the enterprise zones. I welcome the fact that we have had clarity about the boundaries of the five proposed zones. The Minister has also announced the possibility of two additional zones—in Trawsfynydd, which is welcomed in the north-west, and in Pembrokeshire, although there is more work to be done there before the arrangement can be confirmed.

Bydd hefyd yn ymwybodol fy mod wedi cefnogi'r ffordd y mae wedi dod at y pwnc hwn, yn yr ystyr nad yw wedi cefnogi popeth yn yr ardaloedd menter: mae wedi canolbwyntio ar y sectorau twf, sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Pwynt arall rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol ohono yw hwn: er bod galw mawr am ardaloedd menter mewn nifer o leoliadau yng Nghymru, y ffaith amdani yw mai dim ond nifer fach y mae'n bosibl eu

She will also be aware that I have been supportive of the way in which she has approached this subject, in the sense that she has not supported everything in the enterprise zones: she has focused on the growth sectors, which will make the best use of the resources available. Another point that I am sure the Minister will be aware of is that although there is great demand for enterprise zones in many locations in Wales, the fact of the matter is that it is only possible to include a

cynnwys. Ni allwch gael arbenigedd mewn llawer o ganolfannau, ac mae adnoddau'n cael eu gwanhau os ydych yn gwneud hynny. Croesawaf y ffordd mae wedi dod at y pwnc hwn ac, yn sicr, caiff ein cefnogaeth ni wrth i hynny ddatblygu.

small number. You cannot have expertise in many centres and resources would be diluted if you were to try to do so. I welcome the way she has approached this subject and she will certainly receive our support as that develops.

Fodd bynnag, er fy mod yn croesawu'r ffaith bod mwy o wybodaeth wedi'i chyhoeddi heddiw, rydym yn dal i aros am lawer o bethau o ran rhoi mwy o gig ar yr esgyrn. Mae wedi cyfeirio at nifer o bethau—lwfansau cyfalaf, ardrethi busnes, newidiadau i fuddsoddi mewn gwella ffyrdd, datblygu prentisiaid, cefnogi pobl ifanc a newidiadau cynllunio. Rwy'n derbyn mai mater lleol yw hwn mewn nifer o enghreifftiau, ond rwy'n credu y byddai o gymorth i Aelodau pe bai'n gallu egluro, yn y dyfodol, pa un o'r ymyriadau hynny sy'n bodoli yn y gwahanol ardaloedd. Rwy'n siŵr y bydd yn dweud na fyddant yn bosibl ym mhob un, ond gellid eu blaenoriaethu. Er enghraifft, o safbwynt pwerau cynllunio, a yw hynny'n golygu ym mhob ardal ynteu yn rhai ohonynt?

However, although I welcome the fact that more information has been published today, we are still awaiting a number of things in terms of putting more flesh on the bones. She has referred to a number of things—capital allowances, business rates, changes to investments in road improvements, the development of apprentices, support for young people and changes to planning. I accept that this is a local matter in many cases, but I believe that it would be of assistance to Members if she were able to explain, at some point in the future, which of those interventions exists in the various zones. I am sure that she will say that they will not be possible in each one, but they can be prioritised. For example, in terms of planning powers, does that mean in each zone or in some of them?

3.00 p.m.

Mae gennyf i un ple arall. Mae hi'n dweud ein bod yn sôn am ddatblygu band eang cenhedlaeth newydd yn nifer o'r parthau hyn. A fydd hi hefyd yn fodlon edrych ar y buddsoddiad sydd ei angen i wella'r dechnoleg symudol mewn rhai ardaloedd? Bydd hi'n gwybod am y diffyg o ran technoleg symudol yn rhannau o ogledd-orllewin Cymru, ac rwy'n siŵr bod hynny hefyd yn wir am y canolbarth. A oes modd cynnwys hynny fel rhan o'r flaenoriaeth ar gyfer y parthau?

I have one other plea. She says that we are talking about developing new generation broadband in a number of these zones. Will she also be willing to look at the investment required to improve mobile technology in some areas? She will know about the deficiencies in mobile technology in parts of north-west Wales, and I am sure that that is also the case in mid Wales. Can that be included as part of the priority for the zones?

**Edwina Hart:** I thank the Member for that contribution. We have tried to focus on the growth areas in the discussions on enterprise zones. I have been helpfully advised on some of those areas by the panels that you set up. They have been keen to say, 'These are your growth areas, don't mess about, and don't give in to the pressures on some of these issues'. One of those panels is the creative industries panel. That panel does not wish to have a creative industries enterprise zone, because creative industries can be anywhere. That is useful to know in the context of these

**Edwina Hart:** Diolch i'r Aelod am y cyfraniad hwnnw. Rydym wedi ceisio canolbwyntio ar y meysydd lle y mae twf wrth drafod yr ardaloedd menter. Mae'r paneli y gwnaethoch eu sefydlu wedi rhoi cyngor defnyddiol imi ar rai o'r meysydd hynny. Maent wedi bod yn awyddus i ddweud, 'Dyma eich meysydd lle y mae twf, peidiwch â gwastraffu amser, a pheidiwch ag ildio i'r pwysau ar rai o'r materion hyn'. Un o'r paneli hynny yw'r panel diwydiannau creadigol. Nid yw'r panel hwnnw'n dymuno cael ardal fenter ar gyfer diwydiannau

discussions. You made a good point about jam being spread too thinly. We have to be conscious of what resources are available and mix and match resources from the UK Government and from ourselves.

creadigol, oherwydd gall diwydiannau creadigol fod yn unrhyw le. Mae'n ddefnyddiol gwybod hynny yng nghyd-destun y trafodaethau hyn. Rydych yn gwneud pwynt da am daenu'r jam yn rhy denau. Mae'n rhaid inni gofio pa adnoddau sydd ar gael a dewis a dethol adnoddau Llywodraeth y DU a'n hadnoddau ni.

In terms of planning changes, you are right that it will be interesting to see how they work out and what to do. With regard to interventions, I am happy to cover that in my March statement when further details will be available. On your comment about new generation broadband, that is taken as read, but I should perhaps have put in my statement our commitment to look at mobile phone technology as well. That will be key for some of the zones that are emerging—not just the enterprise zones, but also some of the local zones that we anticipate dealing with in Powys. Thank you for your contribution. I will try to pick up on all those points in my March statement in more detail.

O ran newidiadau cynllunio, rydych yn gywir y bydd yn ddiddorol gweld sut y byddant yn cael eu trin a'r hyn y dylid ei wneud. O ran ymyriadau, rwyf yn hapus i sôn am hynny yn fy natganiad ym mis Mawrth pan fydd rhagor o fanylion ar gael. Ynghylch eich sylwadau am fand eang y genhedlaeth newydd, afraid dweud hynny, ond efallai y dylwn fod wedi cynnwys yn fy natganiad ein hymrwymiad i ystyried technoleg ffonau symudol hefyd. Bydd hynny'n allweddol ar gyfer rhai o'r ardaloedd sy'n dod i'r amlwg—nid yr ardaloedd menter yn unig, ond hefyd rhai o'r ardaloedd lleol rydym yn rhagweld y byddwn yn delio â hwy ym Mhowys. Diolch ichi am eich cyfraniad. Byddaf yn ceisio ymhelaethu'n fanylach ar yr holl bwyntiau hynny yn fy natganiad ym mis Mawrth.

**Eluned Parrott:** I thank the Minister for this eagerly awaited update. Minister, it is two months since you deferred this statement. I am grateful for the information that it contains, but I still have some questions. While I am sure that any flak that I give you today will not matter either, I hope that you will be able to fill in some of the details.

**Eluned Parrott:** Diolch i'r Gweinidog am y diweddariad hwn y bu disgwyl mawr amdano. Weinidog, bu ichi ohirio'r datganiad hwn ddeufis yn ôl. Rwyf yn ddiolchgar am y wybodaeth y mae'n ei gynnwys, ond mae gennyf rywfaint o gwestiynau o hyd. Er fy mod yn siŵr na fydd unrhyw feirniadaeth a wnaf i yn gwneud gwahaniaeth ychwaith, rwyf yn gobeithio y byddwch yn gallu rhoi rhagor o fanylion inni.

With regard to the announcement of the second tranche of enterprise zones, I put on record my congratulations to Gwynedd, Pembrokeshire and Powys on their success today. However, I imagine that there are councillors all over Wales with their heads in their hands wondering what on earth they did wrong. Someone recently described choosing bidders for initiatives such as this as like judging a beautiful baby competition, because for every happy mother there are at least another dozen very unhappy mothers. I imagine that choosing enterprise zones has been very much like that. You cannot make everyone happy, but I am surprised that you

O ran y cyhoeddiad am ail grŵp yr ardaloedd menter, hoffwn gofnodi fy llongyfarchiadau i Wynedd, Sir Benfro a Phowys ar eu llwyddiant heddiw. Fodd bynnag, rwyf yn dychmygu bod yna gynghorwyr ar hyd a lled Cymru sy'n anobeithio, gan feddwl tybed beth ar y ddaear a wnaethant o'i le. Dywedodd rhywun yn ddiweddar fod dewis cynigwyr ar gyfer mentrau fel hyn yn debyg i feirniadu mewn cystadleuaeth babanod del, oherwydd fesul pob mam hapus mae o leiaf ddwsin o famau eraill sy'n anhapus iawn. Rwyf yn dychmygu bod dewis yr ardaloedd menter wedi bod yn debyg iawn i hynny. Ni allwch wneud pawb yn hapus, ond rwyf yn

have contrived to make so many people unhappy. I do not intend to argue the pros and cons of individual cases here, but there will be constituency AMs in the Chamber today who will be very disappointed.

synnu eich bod wedi llwyddo i wneud cymaint o bobl yn anhapus. Nid wyf yn bwriadu dadlau ynghylch manteision ac anfanteision achosion unigol yma, ond mae Aelodau etholaethau yn y Siambr heddiw a fydd yn siomedig iawn.

It surely lessens the blow for those who have been unsuccessful if they believe that they have been part of a consistent selection process and understand why others were deemed stronger than they were. Two weeks ago, I asked you about the process and you said:

Siawns nad yw'n lleihau'r ergyd i'r rheini sydd wedi bod yn aflwyddiannus os ydynt yn credu eu bod wedi bod yn rhan o broses ddethol gyson a'u bod yn deall pam mae pobl eraill yn cael eu hystyried yn gryfach nag yr oeddent hwy. Bythefnos yn ôl, gofynnais ichi am y broses, a dywedasoch:

'It will be fair, transparent and open, because that is what I am like as a Minister.'

'Bydd y broses yn deg, yn dryloyw ac yn agored, oherwydd dyna fy nod fel Gweinidog.'

Transparent means to be able to look in at something from the outside, but you have turned down a freedom of information request from me on this subject on two occasions. I have yet to see published anywhere the details of the selection criteria, the process, or the panel who chose the enterprise zones today. In your statement, you said that:

Mae 'tryloyw' yn golygu gallu edrych i mewn ar rywbeth o'r tu allan, ond rydych wedi gwrthod cais rhyddid gwybodaeth gennyf fi ynghylch y pwnc hwn ar ddau achlysur. Nid wyf eto wedi gweld a gyhoeddwyd yn unrhyw le fanylion am y meini prawf ar gyfer dethol, y broses, nac am y panel a ddewisodd yr ardaloedd menter heddiw. Yn eich datganiad, gwnaethoch ddatgan nad oedd

'it has not only been a case of how proposals measure up to a set of criteria.'

wedi bod yn fater yn unig o ystyried sut y bydd cynigion yn bodloni set o feini prawf.

Not only, perhaps, but surely at least partially. Those who have been unsuccessful will want to know what they were judged against. Those bidders deserve detailed individual feedback. If transparency really is important to you, this Chamber deserves more details on the process. Will the Minister tell us whether economic potential or economic need were among the criteria, and, if so, how were those weighted against each other? What other factors were considered? Can you give us an idea so that we can go back to those very disappointed councils and try to console them at least a little bit?

Nid yn unig, efallai, ond yn sicr yn rhannol o leiaf. Bydd y rheini nad oeddent yn llwyddiannus yn dymuno gwybod yn ôl pa feini prawf y'u barnwyd. Mae'r cynigwyr hynny'n haeddu cael adborth unigol manwl. Os yw tryloywder yn wir yn bwysig i chi, mae'r Siambr hon yn haeddu cael rhagor o fanylion am y broses. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym a oedd potensial economaidd neu angen economaidd ymhlith y meini prawf, ac, os felly, sut yr oeddent yn cael eu pwysoli yn erbyn ei gilydd? Pa ffactorau eraill a gafodd eu hystyried? A allwch roi syniad inni er mwyn inni allu mynd yn ôl at y cynghorau hynny sydd wedi'u siomi'n fawr a cheisio rhoi rhywfaint o gysur iddynt?

In terms of detail on the existing enterprise zones, I thank the Minister for clarifying some of the intended policy interventions that will be used. I very much welcome the fact

O ran manylion am yr ardaloedd menter sy'n bodoli eisoes, diolch i'r Gweinidog am egluro rhai o'r ymyriadau polisi y bwriedir eu defnyddio. Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith

that you have chosen to mirror the policy of the UK Government and to lead with interventions on business rates, broadband provision and the simplification of planning procedures. I am glad that the importance of transport infrastructure has been recognised and look forward to seeing specific details in due course on how that pans out across the different zones. However, I would like clarification on issues to do with specialisation of the enterprise zones. I imagine that the aim in establishing specialist zones rather than generalist ones is that you are hoping to secure anchor businesses in the zones and then support and develop their associated supply chains. I recognise that there will be issues of confidentiality that will need to be maintained, but I would like to know when you might be able to announce some of those anchor businesses. I would also like some more detail on how far down the supply chain the benefits of the enterprise zones will go. For example, in relation to the aviation enterprise zone in St Athan and around the airport, will ancillary businesses such as aircraft handling companies be able to apply, will people providing food for flights be able to apply, and will stationers supplying these businesses be able to apply? We need a little more understanding of that.

eich bod wedi dewis adlewyrchu polisi Llywodraeth y DU gan ddechrau gydag ymyriadau ynghylch ardrethi busnes, darparu band eang a symleiddio'r gweithdrefnau cynllunio. Rwyf yn falch bod pwysigrwydd y seilwaith trafnidiaeth wedi cael ei gydnabod, ac edrychaf ymlaen at weld manylion penodol maes o law ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio ar draws y gwahanol ardaloedd. Fodd bynnag, hoffwn eglurhad ar faterion sy'n ymwneud ag arbenigedd yr ardaloedd menter. Rwyf yn cymryd mai'r nod wrth sefydlu ardaloedd arbenigol yn hytrach na rhai cyffredinol yw eich bod yn gobeithio denu busnesau angor i'r ardaloedd, gan gefnogi a datblygu eu cadwyni cyflenwi cysylltiedig wedyn. Rwyf yn cydnabod y materion cyfrinachedd y bydd angen eu cynnal, ond hoffwn wybod pryd y byddwch yn gallu gwneud cyhoeddiad am rai o'r busnesau angor hynny. Hefyd, hoffwn ragor o fanylion am ba mor bell ar hyd y gadwyn gyflenwi y bydd manteision yr ardaloedd menter yn ymestyn. Er enghraifft, mewn perthynas â'r ardal fenter awyrennau yn Sain Tathan ac o amgylch y maes awyr, a fydd busnesau ategol megis cwmnïau trin awyrennau yn gallu gwneud cais, a fydd y rheini sy'n darparu bwyd ar gyfer teithiau awyr yn gallu gwneud cais, ac a fydd cwmnïau sy'n darparu deunydd ysgrifennu i'r busnesau hyn yn gallu gwneud cais? Mae angen inni ddeall ychydig mwy am hynny.

Finally, I have some specific questions about the management of all the zones in principle. Now that you know the policy, have you set some measurable targets to define what success will look like? If so, what particular measures will you use? Also, I have a question on the management of the enterprise zones, which is important, given some of the news recently about appointed quangos and so on. Will membership of the enterprise zone boards be advertised openly once the initial period is over, or will members be appointed by the Government in the longer term? In principle, this is a policy that I support wholeheartedly, but, while I recognise the importance of the commercial confidentiality that you have to operate under, we must be able to see the processes that you have followed if we as a Chamber are to be able to scrutinise this policy properly and help you to make it a success.

Yn olaf, mae gennyf rai cwestiynau penodol am reoli'r holl ardaloedd mewn egwyddor. Gan eich bod yn awr yn gwybod beth yw'r polisi, a ydych wedi pennu targedau mesuradwy i ddiffinio nodweddion llwyddiant? Os felly, pa fesurau penodol y byddwch yn eu defnyddio? Hefyd, mae gennyf gwestiwn am reoli'r ardaloedd menter, sy'n bwysig, o ystyried rhywfaint o'r newyddion diweddar am y cwangos a benodwyd ac yn y blaen. A fydd aelodaeth byrddau'r ardaloedd menter yn cael ei hysbysebu yn agored ar ôl i'r cyfnod cychwynnol ddod i ben, neu a fydd aelodau'n cael eu penodi gan y Llywodraeth yn y tymor hwy? Mewn egwyddor, mae hwn yn bolisi rwyf yn ei gefnogi'n llwyr. Fodd bynnag, er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd y cyfrinachedd masnachol y mae'n rhaid ichi ei fabwysiadu wrth ichi weithredu, mae'n rhaid inni allu gweld y prosesau rydych wedi'u

Every party in the Chamber wants this to succeed, but what we also want from you, Minister, is a little of that transparency that you promised us.

dilyn fel y gallwn ni fel Siambr graffu ar y polisi hwn yn gywir a'ch helpu i sicrhau ei fod yn llwyddo. Mae pob plaid yn y Siambr am i hyn lwyddo, ond yr hyn rydym hefyd am ei gael gennych chi, Weinidog, yw ychydig o'r tryloywder hwnnw y gwnaethoch ei addo inni.

**Edwina Hart:** I am absolutely transparent about the criteria and everything that we are looking at in terms of the enterprise zones. I feel that people sometimes want to get caught up in the detail. It is almost like a trick question. Instead, they should be looking at the overall benefits that I hope that these enterprise zones will bring to business. Some of the criteria were about implementation, economic growth factors and added value for money. We also had to look at whether they were fundable, and that was the point that Ieuan Wyn Jones made earlier; you cannot spread the jam too thinly.

**Edwina Hart:** Rwyf yn hollol dryloyw ynghylch y meini prawf a phopeth yr ydym yn edrych arno o ran yr ardaloedd menter. Rwyf yn teimlo weithiau fod pobl am ganolbwyntio gormod ar y manylion. Mae bron fel cwestiwn i faglu rhywun. Yn hytrach, dylent fod yn edrych ar y manteision cyffredinol yr wyf yn gobeithio y bydd yr ardaloedd menter yn eu creu i fusnesau. Roedd rhai o'r meini prawf yn ymwneud â gweithredu, ffactorau twf economaidd a gwerth ychwanegol am arian. Roedd yn rhaid inni ystyried hefyd a ellid eu cyllido, a dyna'r pwynt a wnaeth Ieuan Wyn Jones yn gynharach; ni allwch daenu'r jam yn rhy denau.

You talk about all these disappointed local authorities. Some of my officials are trying to console them this afternoon, but I have given a commitment to the Chamber that some of the good ideas that have emerged will be discussed with some of these authorities, and that might turn out to be better for them than enterprise zones in the long run. I have given that commitment; I can do no more than that. Let me be quite clear: with some of the proposals that came in it was as if the authorities had gone to the bottom drawer of the chest, taken out a report, dusted it down, put a different title on it and added updated data. That is not the basis that we use to develop enterprise zones. We have to be brutally honest about some of this. At the end of the day, we have had a consistent process.

Rydych yn siarad am yr holl awdurdodau lleol siomedig hyn. Mae rhai o'm swyddogion yn ceisio'u cysuro hwy y prynhawn yma, ond rwyf wedi datgan fy ymrwymiad yn y Siambr y bydd rhai o'r syniadau da sydd wedi dod i'r amlwg yn cael eu trafod â rhai o'r awdurdodau hyn, ac efallai y bydd hynny'n well iddynt na'r ardaloedd menter yn y tymor hir. Rwyf wedi rhoi'r ymrwymiad hwnnw; ni allaf wneud dim mwy na hynny. Gadewch imi fod yn hollol glir: roedd rhai o'r cynigion a gyflwynwyd yn ymddangos fel pe bai'r awdurdod wedi mynd i ddrôr waelod y gist, wedi tynnu adroddiad allan ohoni, wedi chwythu'r llwch oddiarno, wedi rhoi teitl gwahanol arno ac wedi ychwanegu data mwy diweddar. Nid dyna'r sail yr ydym yn ei defnyddio i ddatblygu ardaloedd menter. Mae'n rhaid inni fod yn gwbl onest am hyn. Yn y pen draw, mae'r broses wedi bod yn gyson.

You asked me for information about the companies that are interested. There is a lot of commercial confidentiality about these discussions, and I very much hope that I will be able to advise Members when we have had some success in attracting some companies in. However, you were correct in what you

Gwnaethoch ofyn imi am wybodaeth am y cwmnïau sydd â diddordeb. Mae llawer o gyfrinachedd masnachol ynghlwm wrth y trafodaethau hyn, ac rwyf yn mawr obeithio y byddaf yn gallu rhoi cyngor i Aelodau pan fyddwn wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran denu rhai cwmnïau. Fodd bynnag,

said: I would like to attract some anchor businesses to some areas and then look at the supply chain issues. In the context of north Wales, because Conwy and Denbighshire were very interested in having an association with the enterprise zone in Deeside, we will work with the zone in Deeside to see what arrangements can be made in that area for supply chains so that the benefits of that zone can come to those local authority areas. Therefore, these things have not been forgotten.

roeddech yn gywir yn yr hyn a ddywedasoch: hoffwn ddenu rhai busnesau angor i rai ardaloedd ac yna ystyried y materion ynghylch y gadwyn gyflenwi. Yng nghyd-destun y gogledd, gan fod Conwy a Sir Ddinbych â diddordeb mawr mewn cael cysylltiad â'r ardal fenter yng Nglannau Dyfrdwy, byddwn yn gweithio gyda'r ardal yng Nglannau Dyfrdwy i weld pa drefniadau y gellir eu gwneud yn yr ardal honno ar gyfer cadwyni cyflenwi fel y gall ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny elwa o fanteision yr ardal fenter. Felly, nid yw'r pethau hyn wedi mynd yn angof.

You also asked me about the management of the zones, and this brings us to the issue of chairs. We must have good governance and proper partnership. The UK Government is encouraging local discretion in its zones, and, for some Welsh enterprise zones, the governance arrangements arise out of existing initiatives. I will follow the practice in England of looking at what is required locally and at whether there is something that we can use locally. In some cases, the local authority will take the lead in terms of the officials that work for it, but, as I indicated, we might have to look at a slightly different proposition in relation to the Haven, because we have a Crown port there, for how we would like that to be run as an enterprise zone. I have asked the interim chairs to look at these issues, because each zone has to look at what type of momentum it wants and what type of arrangements it wants to undertake. If we have satisfactory arrangements in those areas that we can utilise for this purpose, as is happening in England, rather than setting up new organisational structures, we will use the ones that we have on the ground. I hope that my statement in March will enlighten you further.

Gwnaethoch ofyn imi hefyd am sut y rheolir yr ardaloedd, ac mae hyn yn dod â ni at fater cadeiryddion. Rhaid inni gael llywodraethu da a phartneriaeth briodol. Mae Llywodraeth y DU yn annog disgresiwn lleol yn ei hardaloedd, ac mae trefniadau llywodraethu rhai ardaloedd menter yng Nghymru yn deillio o fentrau sy'n bodoli eisoes. Byddaf yn dilyn yr arfer yn Lloegr o ystyried yr hyn sydd ei angen yn lleol ac a oes rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio yn lleol. Mewn rhai achosion, bydd yr awdurdod lleol yn arwain o ran y swyddogion sy'n gweithio iddo. Fodd bynnag, fel y nodais, efallai y bydd yn rhaid inni ystyried cynnig ychydig yn wahanol o ran harbwr Aberdaugleddau, gan fod gennym borthladd y Goron yno, ynghylch sut y byddem yn dymuno i hynny gael ei redeg fel ardal fenter. Rwyf wedi gofyn i'r cadeiryddion dros dro roi sylw i'r materion hyn, oherwydd mae'n rhaid i bob ardal ystyried y math o fomentwm y mae ei eisiau a'r math o drefniadau y mae am eu gwneud. Os oes gennym drefniadau boddhaol yn yr ardaloedd hynny y gallwn eu defnyddio at y diben hwn, fel sy'n digwydd yn Lloegr, yn hytrach na sefydlu strwythurau sefydliadol newydd, byddwn yn defnyddio'r rhai sydd gennym ar lawr gwlad. Rwyf yn gobeithio y bydd fy natganiad ym mis Mawrth yn rhoi rhagor o oleuni ichi.

**Mike Hedges:** As the Minister is aware, I represent the largest of the 1980s enterprise zones, which became another name for an out-of-town shopping centre.

**Mike Hedges:** Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, rwyf yn cynrychioli'r ardal fenter fwyaf ymhlith ardaloedd menter y 1980au, a ddaeth yn enw arall am ganolfan siopa y tu allan i'r dref.

How will you ensure that we do not have only local relocations into the enterprise

Sut y byddwch yn sicrhau nad adleoliadau lleol i'r ardaloedd menter a geir yn unig, a sut

zones, and how will you ensure that any financial help that you give will not be negated by rent increases in the zones?

y byddwch yn sicrhau na fydd unrhyw gymorth ariannol a roddwch yn cael ei negyddu gan godiadau rhent yn yr ardaloedd?

In answer to Nick Ramsay earlier, you mentioned Swansea. Can you outline your proposals for Swansea outside the enterprise zone?

Wrth ateb Nick Ramsay yn gynharach, gwnaethoch grybwyll Abertawe. A allwch amlinellu eich cynigion ar gyfer Abertawe y tu allan i'r ardal fenter?

**Edwina Hart:** I obviously do not want to go into the detail of the private conversations that I had earlier today with the leader of the City and County of Swansea, when I gave him advance notice of my intentions regarding the enterprise zone. However, we have had constructive dialogue on projects that we might be able to assist with in the Swansea area.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, nid wyf yn dymuno trafod manylion y sgyrsiau preifat a gefais yn gynharach heddiw ag arweinydd Dinas a Sir Abertawe, pan roddais rybudd ymlaen llaw iddo ynghylch yr hyn yr oeddwn yn bwriadu ei wneud o ran yr ardal fenter. Fodd bynnag, rydym wedi cael trafodaethau adeiladol ar brosiectau y gallem eu cynorthwyo yn ardal Abertawe.

Your other points were well made and they will be taken into consideration by the new boards of the new enterprise zones to ensure that we do not lose out with regard to businesses hopping over—unless they are hopping over the border from England, of course; that would be a different matter. However, we do not want to see them hopping over into the zones from across Wales and causing the difficulties indicated in the history of the old enterprise zones.

Roedd eich pwyntiau eraill wedi'u mynegi'n dda, a byddant yn cael eu hystyried gan fyrddau newydd yr ardaloedd menter newydd i sicrhau nad ydym ar ein colled o ran busnesau'n hopian iddynt—oni bai eu bod yn camu dros y ffin o Loegr, wrth gwrs; byddai hynny'n fater gwahanol. Fodd bynnag, nid ydym am eu gweld yn camu i'r ardaloedd o weddill Cymru gan achosi'r anawsterau a nodwyd yn hanes yr hen ardaloedd menter.

**The Presiding Officer:** We have had the lead speakers from each party, so I ask Members to stick to questions, because I still have a long list of speakers.

**Y Llywydd:** Rydym wedi clywed prif siaradwyr pob plaid; felly, gofynnaf i'r Aelodau gadw at eu cwestiynau, gan fod gennyf restr hir o siaradwyr o hyd.

**William Graham:** The Minister will know of my regret with regard to Newport's bid, which was widely supported across the Chamber. I have heard what the Minister has said today, and I hope that her officials will be able to engage in positive comments with Newport City Council. Would she consider publishing those comments in due course, where appropriate?

**William Graham:** Bydd y Gweinidog yn gwybod am fy siom o ran cais Casnewydd, a gefnogwyd yn eang ar draws y Siambr. Rwyf wedi clywed yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud heddiw, ac rwyf yn gobeithio y bydd ei swyddogion yn gallu trafod â Chyngor Dinas Casnewydd gan roi sylwadau cadarnhaol iddo. A wna'r Gweinidog ystyried cyhoeddi'r sylwadau hynny maes o law, lle y bo'n briodol?

**Edwina Hart:** Of course I will, William. I will also keep Members up to date about our discussions with the local authorities. We own sites in certain areas, and so there might be more that we could do. We could also look at different partnership arrangements and support for other things. A key issue that has been brought to my attention is Newport city

**Edwina Hart:** Gwnaf, wrth gwrs, William. Byddaf hefyd yn sicrhau fy mod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ein trafodaethau â'r awdurdodau lleol. Rydym yn berchen ar safleoedd mewn ardaloedd penodol, ac, felly, efallai y byddem yn gallu gwneud rhagor. Gallem hefyd ystyried trefniadau partneriaeth gwahanol a chymorth

centre and what needs to be done there. However, Newport has a good record on jobs; you only have to look at the Admiral announcement. It is also strategically well-placed to take in new jobs and so on. It is a matter of what we can do to enhance the working arrangements on the ground. I would be happy to give what assistance I can give within the limitations of finance in my portfolio.

ar gyfer pethau eraill. Mater allweddol a ddygwyd i'm sylw yw canol dinas Casnewydd a'r hyn sydd angen ei wneud yno. Fodd bynnag, mae gan Gasnewydd hanes da o ran swyddi; nid oes rhaid ichi ond edrych ar gyhoeddiad Admiral. Mae hefyd mewn lle da yn strategol i gymryd swyddi newydd ac yn y blaen. Yr hyn sy'n bwysig yw'r hyn y gallwn ni ei wneud i wella'r trefniadau gweithio ar lawr gwlad. Byddwn yn hapus i roi pa gymorth bynnag y gallaf o fewn cyfyngiadau cyllid fy mhortffolio.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Fel cadeirydd Bwrdd Trosolwg Trawsfynydd ar datgomisiynu'r safle niwclear, mae'n bleser gennyf ddiolch i'r Gweinidog ar ran gweithlu'r ardal a'r gogledd orllewin yn ehangach. Diolchaf iddi am ei hymweliad arbennig â ni, ac am ei phenderfyniad ynglŷn â'r mater hwn. A gaf gadarnhad y bydd y berthynas dda sydd wedi bod rhwng ei swyddogion a swyddogion Cyngor Gwynedd—diolch iddi am ei geiriau am Wynedd yn ogystal—yn parhau wrth inni chwilio am ddatblygwyr a datblygiadau a fydd yn addas yn y maes eang hwn sydd o'n blaenau, sef maes ynni, technoleg gwybodaeth a'r amgylchedd, yng nghanol parc cenedlaethol Eryri? Rwyf wrth fy modd, Weinidog.

**Lord Elis-Thomas:** As chair of the Trawsfynydd Overview Board for the decommissioning of the nuclear site, it is my pleasure to thank the Minister on behalf of the workforce of the area and north-west Wales more widely. I thank her for special visit to us, and for her decision on this issue. May I have confirmation that the good relationship that has existed between her officials and Gwynedd council officials—I also thank her for her kind words about Gwynedd—will continue as we seek developers and developments that will be appropriate to this broad area that we are covering, namely energy, information technology and the environment, in the heart of Snowdonia national park? I am delighted, Minister.

**Edwina Hart:** Thank you very much; we enjoy an excellent relationship with Gwynedd, which will continue. We have certain challenges in terms of developing the site in Trawsfynydd. There are some who would like the site to become totally green, with no enterprise and industry on it, but, with a highly skilled workforce there, we have to recognise that it is important that we utilise the site properly and try to get jobs. As you will already be aware, there is private sector interest in the site.

**Edwina Hart:** Diolch yn fawr iawn; mae gennym berthynas ardderchog â Gwynedd, a fydd yn parhau. Mae gennym heriau penodol o ran datblygu'r safle yn Nhrawsfynydd. Mae rhai a fyddai'n hoffi i'r safle fod yn gwbl wyrdd, heb unrhyw fenter na diwydiant arno, ond, gan fod gweithlu medrus iawn yno, mae'n rhaid inni gydnabod ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio'r safle mewn modd priodol ac yn ceisio cael swyddi. Fel y byddwch eisoes yn gwybod, mae gan y sector preifat ddiddordeb yn y safle.

**Kirsty Williams:** Minister, I thank you for the mention of Powys in your statement. You will be aware that the submission made by Powys County Council explained that the traditional enterprise model would not fit the Powys economy particularly well. I am delighted to hear mention of Brecon, Llandrindod Wells and Newtown this afternoon. Could you give the Chamber further details on the length of time that you

**Kirsty Williams:** Weinidog, diolch ichi am sôn am Bowys yn eich datganiad. Byddwch yn gwybod bod y cais a gyflwynodd Cyngor Sir Powys yn egluro na fyddai model traddodiadol yr ardaloedd menter yn addas iawn i economi Powys. Rwyf wrth fy modd eich bod wedi sôn am Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd y prynhawn yma. A allech roi rhagor o fanylion i'r Siambr ynghylch am ba hyd yr ydych yn

expect the task and finish group that is looking at this particular project to exist? Could you outline who will be the partners that you mentioned on the task and finish group? Could you explain to the Chamber what the crossover would be between this task and finish group and your group looking at business rates, which is a crucial element for businesses in my constituency of Brecon and Radnorshire? While you mentioned assistance for retail, in Brecon and Llandrindod Wells we also have manufacturing companies and, of course, huge tourism potential in that most beautiful part of Wales, so could you outline whether you will be looking at those particular sectors as well?

disgwyl y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar y prosiect penodol hwn yn bodoli? A allech amlinellu pwy fydd y partneriaid ar y grŵp gorchwyl a gorffen y gwnaethoch sôn amdanynt? A allech esbonio i'r Siambr sut y mae'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn a'ch grŵp sy'n ystyried cyfraddau busnes yn gorgyffwrdd, sydd yn elfen hanfodol i fusnesau yn fy etholaeth i, sef Brycheiniog a Sir Faesyfed? Er y gwnaethoch grybwyll cymorth ar gyfer manwerthu, mae gennym hefyd gwmnïau gweithgynhyrchu yn Aberhonddu a Llandrindod ac, wrth gwrs, botensial enfawr o ran twristiaeth yn ardal fwyaf prydferth Cymru. Felly, a allech roi gwybod a fyddwch yn ystyried y sectorau penodol hynny hefyd?

3.15 p.m.

**Edwina Hart:** Currently, we have an open book with regard to how we will deal with the issue of partners. We have a good relationship with the appropriate officers in Powys in terms of the ideas that are coming forward. We will be seeking their advice in the first instance about what partners to include. I would like somebody from manufacturing to be part of the group giving advice, and I have suggested Sue Balsom for external advice because she was on the microbusiness task force. It will be important to have representation from tourism as well. I will also say that it is not about retail, but the wider image of towns and areas, and what services should be there—for example, whether doctors' surgeries and vets should be part of the core of the high street to attract more people to live there—or whether we should do regeneration through housing. It is quite a wide subject area. I would suggest that we give an initial timescale of four weeks to the group to do its interim report, because there will be further work undertaken. I will also arrange for Professor Brian Morgan to attend the first group meeting to pick up any points that might be raised on business rates.

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd, mae sut y byddwn yn ymdrin â mater partneriaid yn benagored. Mae gennym berthynas dda â'r swyddogion priodol ym Mhowys o ran y syniadau sy'n cael eu cynnig. Byddwn yn gofyn am eu cyngor yn y lle cyntaf am ba bartneriaid i'w cynnwys. Hoffwn fod rhywun o'r sector gweithgynhyrchu yn rhan o'r grŵp sy'n rhoi cyngor, ac rwyf wedi awgrymu y gallai Sue Balsom gynnig cyngor allanol am ei bod ar y tasglu microfusnes. Bydd yn bwysig cael cynrychiolaeth o'r sector twristiaeth hefyd. Nid yw'n ymwneud â manwerthu; mae'n ymwneud â'r ddelwedd ehangach o drefi ac ardaloedd, a pha wasanaethau a ddylai fod yno—er enghraifft, a ddylai meddygfeydd a milfeddygon fod yn rhan greiddiol o'r stryd fawr i ddenu mwy o bobl i fyw yno—neu a ddylem adfywio drwy dai. Mae'n faes pwnc eithaf eang. Byddwn yn awgrymu ein bod yn rhoi amserlen gychwynnol o bedair wythnos i'r grŵp i baratoi ei adroddiad interim, oherwydd y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud. Byddaf hefyd yn trefnu bod yr Athro Brian Morgan yn mynd i'r cyfarfod grŵp cyntaf i ymdrin ag unrhyw bwyntiau a allai gael eu codi mewn perthynas â'r dreth fusnes.

I thank you, on a personal level, for the discussions that we have had on these matters.

Diolch ichi, ar lefel bersonol, am y trafodaethau yr ydym wedi'u cael ar y materion hyn.

**Julie James:** Minister, I also very much welcome what we have in front of us here

**Julie James:** Weinidog, rwyf innau yn croesawu'n fawr yr hyn sydd gennym o'n

today. I particularly welcome the extension of the St Athan area to cover Cardiff Airport, which a number of Members have expressed concern about, and which the committee that I serve on is currently having a quick look at. That is particularly welcome in terms of levers into the economy. You mentioned links to academia and I hope that you will ensure that that links to wider academia, not just very local universities.

blaenau heddiw. Croesawaf yn arbennig y gwaith i ymestyn ardal Sain Tathan i gwmpasu Maes Awyr Caerdydd, sy'n fater y mae nifer o Aelodau wedi mynegi pryder yn ei gylch, ac y mae'r pwyllgor rwy'n rhan ohono yn edrych arno yn fras ar hyn o bryd. Mae hynny i'w groesawu'n arbennig o ran ysgogi'r economi. Gwnaethoch sôn am gysylltiadau â'r byd academaidd, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn sicrhau bod hynny'n cysylltu â'r byd academaidd ehangach, ac nid prifysgolion lleol iawn yn unig.

I also very much welcome the conversation that you have just been having about Powys, and the innovation there around taking the concept of enterprise zones a little wider. I recommend that you have that group look at the report that has just been issued by the committee on town-centre regeneration, which very much echoes the sentiments that you have set out there. Finally, I fully understand your comments about some of the other zones that have been left out today. I welcome your answer to William Graham's question; it would be good to have further details and comments on that. It would be really helpful if you could give details in the Chamber of some of the zones that we might not be so familiar with, so that in assisting constituents we could direct them to those areas.

Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr y sgwrs rydych newydd fod yn ei chael am Bowys, a'r arloesedd yno wrth edrych ar y cysyniad o ardaloedd menter mewn ffordd ehangach. Rwyf yn argymell eich bod yn gofyn i'r grŵp edrych ar yr adroddiad sydd newydd ei gyhoeddi gan y pwyllgor ar adfywio canol trefi, sy'n adleisio'r teimladau a nodwyd gennych yn hynny o beth. Yn olaf, rwy'n deall yn llawn eich sylwadau am rai o'r ardaloedd eraill nad ydynt wedi'u cynnwys heddiw. Croesawaf eich ateb i William Graham; byddai'n dda cael rhagor o fanylion a sylwadau ar hynny. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech roi manylion inni yn y Siambr ynghylch rhai o'r ardaloedd nad ydym mor gyfarwydd â hwy, efallai, i'n galluogi, wrth gynorthwyo etholwyr, i'w cyfeirio at yr ardaloedd hynny.

**Edwina Hart:** Thank you for those comments. The proposal to include the airport is quite correct, and the reference to academia is important. It does mean academia generally and the skills that it can offer to enhance anything that might be going on in a particular zone. I am pleased that we had suggestions from Powys on the local zones, because that has enabled us to look at that within the Powys context. That work can be replicated in future outside Powys and it will help a lot of rural areas, and possibly deprived Valleys areas and their towns, if we were to look at this strategically. I would certainly be happy to refer my group to the report undertaken by the committee that you serve on, which is very important. On enterprise zones, I would be more than happy to give more detail as it emerges about the ones that were successful, and to keep you updated on the people that we are talking to where bids were not successful.

**Edwina Hart:** Diolch ichi am y sylwadau hynny. Mae'r cynnig i gynnwys y maes awyr yn hollol gywir, ac mae'r cyfeiriad at y byd academaidd yn bwysig. Mae'n golygu'r byd academaidd yn gyffredinol a'r sgiliau y gall eu cynnig i wella unrhyw beth a allai fod yn digwydd mewn ardal fenter arbennig. Rwy'n falch ein bod wedi cael awgrymiadau o Bowys ynghylch yr ardaloedd lleol, oherwydd mae hynny wedi ein galluogi i ystyried hynny yng nghyd-destun Powys. Bydd y gwaith hwnnw'n gallu cael ei ailadrodd y tu allan i Bowys yn y dyfodol, a bydd yn helpu llawer o ardaloedd gwledig, ac o bosibl ardaloedd difreintiedig yn y Cymoedd a'u trefi, pe baem yn edrych ar hyn yn strategol. Byddwn yn sicr yn fwy na pharod i gyfeirio fy ngrŵp at adroddiad eich pwyllgor, sy'n bwysig iawn. O ran yr ardaloedd menter, byddwn yn fwy na pharod i roi rhagor o fanylion, wrth iddynt ddod i'r amlwg, am y rhai a oedd yn llwyddiannus, ac

i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y bobl rydym yn siarad â hwy lle na fu ceisiadau yn llwyddiannus.

**Paul Davies:** I also thank the Minister for her statement today. I am pleased that she and the Government are looking at the Haven, part of which is in my constituency, as an enterprise zone, given its strategic importance to the energy sector in Wales and indeed to the UK. I note from the statement that the Government will only pursue the active development of enterprise zone proposals in the Haven area; it is not yet definitely an enterprise zone, for the reasons that the Minister has given. Could I therefore clarify with the Minister that the Haven area will go ahead as an enterprise zone, providing that she has positive discussions with other key stakeholders? If the enterprise zone does go ahead, could the Minister tell us what benefits she envisages for the local economy as a result of the Haven area zone being implemented, with regard to issues such as workforce development and employment support?

**Paul Davies:** Rwyf innau hefyd yn diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Rwy'n falch ei bod hi a'r Llywodraeth yn ystyried harbwr Aberdaugleddau, y mae rhan ohono yn fy etholaeth i, fel ardal fenter, o ystyried ei bwysigrwydd strategol i'r sector ynni yng Nghymru ac, yn wir, i'r DU. Nodaf o'r datganiad na fydd y Llywodraeth ond yn cymryd camau gweithredol i ddatblygu cynigion ar gyfer ardal fenter yn ardal harbwr Aberdaugleddau; nid yw'n bendant yn ardal fenter eto, am y rhesymau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi. A allwn, felly, gael cadarnhad gan y Gweinidog y bydd ardal harbwr Aberdaugleddau yn ardal fenter, ar yr amod ei bod hi'n cael trafodaethau cadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol eraill? Os bydd yr ardal fenter yn mynd yn ei blaen, a allai'r Gweinidog ddweud wrthym ba fuddion y mae'n eu rhagweld ar gyfer yr economi leol o ganlyniad i roi ardal fenter harbwr Aberdaugleddau ar waith, o ran materion fel datblygu'r gweithlu a chefnogi cyflogaeth?

**Edwina Hart:** If discussions with the UK Government and others are successfully concluded—and it is only right and proper that I discuss these proposals with the UK Government, because it is a Crown port, and they are not devolved to us—I might have to look at another mechanism for managing that enterprise zone to make sure that we get it right. The potential developments in Milford Haven are not just for the benefit of Wales, but the whole of the UK. In terms of the workforce, we have excellent relationships with some of the existing companies within the Haven, and we intend to build on those. They are most helpful in terms of workforce, training and other issues. They have a good relationship with my sector officials and the First Minister's energy team, and we would hope to build on their success. Perhaps they will be looking at what they can do with their businesses. More work will also be undertaken on the local supply chain and other things that might come into the area. We have only to look at the proposals for the Atlantic Array to see that there is a range of things from which enterprise zones could

**Edwina Hart:** Os bydd trafodaethau â Llywodraeth y DU ac eraill yn dod i gasgliad llwyddiannus—mae'n briodol fy mod yn trafod y cynigion hyn â Llywodraeth y DU, gan ei fod yn borthladd y Goron, ac nid ydynt wedi'u datganoli i ni—efallai y bydd yn rhaid imi edrych ar ddull arall o reoli'r ardal fenter honno i sicrhau ein bod yn ei chael yn iawn. Nid yw'r datblygiadau posibl yn Aberdaugleddau er lles Cymru'n unig, ond ar gyfer y DU gyfan. O ran y gweithlu, mae gennym berthynas ardderchog â rhai o'r cwmnïau sy'n bodoli eisoes yn harbwr Aberdaugleddau, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar hynny. Maent yn gynorthwyol iawn o ran y gweithlu, hyfforddiant a materion eraill. Mae ganddynt berthynas dda â'm swyddogion sector a thîm sector ynni'r Prif Weinidog, a gobeithiwn y gallwn adeiladu ar eu llwyddiant. Efallai y byddant yn edrych ar yr hyn y gallant ei wneud gyda'u busnesau. Bydd rhagor o waith hefyd yn cael ei wneud ar y gadwyn gyflenwi leol a phethau eraill a allai ddod i mewn i'r ardal. Nid oes ond rhaid inni edrych ar y cynigion ar gyfer yr Atlantic Array i weld bod

benefit.

amrywiaeth o bethau y gallai'r ardaloedd menter elwa arnynt.

**Angela Burns:** Minister, I, too, welcome your statement today. You have partially responded to my question in your answer to Paul Davies, because I was going to ask you whether, if you were to have an adverse reaction from the Westminster Government in terms of the Crown port, you would be able to look at this in another way. I appreciate that the energy sector, which is incredibly important to the UK, will have a part to play, but 60% of £324 million of added value that comes into the Pembrokeshire economy every year comes from the energy sector there, and there are consequent benefits to the Welsh economy.

**Angela Burns:** Weinidog, rwyf innau yn croesawu eich datganiad heddiw. Rydych wedi ateb fy nghwestiwn yn rhannol yn eich ymateb i Paul Davies, oherwydd roeddwn yn bwriadu gofyn ichi a fyddech yn gallu ystyried hyn mewn ffordd arall pe baech yn cael ymateb anffafriol gan Lywodraeth San Steffan o ran porthladd y Goron. Rwy'n sylweddoli y bydd gan y sector ynni, sy'n hynod bwysig i'r DU, ran i'w chwarae, ond mae 60% o'r £324 miliwn o werth ychwanegol sy'n dod i economi sir Benfro bob blwyddyn yn dod o'r sector ynni yno, ac mae buddion canlyniadol i economi Cymru.

The Milford Haven Port Authority is very supportive of the idea of being part of an enterprise zone. Will it be able to be a part of any discussions that you may have with the UK Government to ensure that it can be a part of the whole enterprise zone? If it cannot, can we seek your assurance that you will look at another way of delivering an enterprise zone in that particular area? Finally, Minister, when you look at that enterprise zone, I ask you to bear in mind that more oil, gas and energy companies wish to come there, but the planning, transport and red-tape issues are of enormous significance. We saw such a situation with Pembroke power station. Will you address those issues as well, no matter what the outcome of your negotiations with Westminster, because those will be key to the economy of Pembrokeshire and that of Wales?

Mae Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau yn gefnogol iawn i'r syniad o fod yn rhan o ardal fenter. A fydd yn gallu bod yn rhan o unrhyw drafodaethau y byddwch yn eu cael â Llywodraeth y DU i sicrhau y gall fod yn rhan o'r ardal fenter gyfan? Os na all wneud hynny, a wnewch chi roi sicrhad y byddwch yn edrych ar ffordd arall o sefydlu ardal fenter yn yr ardal benodol honno? Yn olaf, Weinidog, pan fyddwch yn edrych ar yr ardal fenter honno, gofynnaf ichi gadw mewn cof fod rhagor o gwmnïau olew, nwy ac ynni yn dymuno dod yno, ond mae'r materion cynllunio, cludiant a biwrocratiaeth yn bwysig dros ben. Gwelsom sefyllfa o'r fath mewn perthynas â gorsaf bŵer Penfro. A fyddwch yn mynd i'r afael â'r materion hynny hefyd, ni waeth beth fo canlyniad eich trafodaethau â San Steffan, gan y bydd hynny yn allweddol i economi sir Benfro ac economi Cymru?

**Edwina Hart:** The points that you made about planning and other issues are matters that companies have already raised with me in terms of the Haven. These matters will have to be resolved irrespective of an enterprise zone, if we are to encourage further development and job opportunities in Pembrokeshire. There are also issues regarding energy security and the importance of Milford Haven in that regard. However, the Minister for Environment and Sustainable Development is already aware of these issues, and discussions are ongoing.

**Edwina Hart:** Mae cwmnïau eisoes wedi cysylltu â mi ynghylch y pwyntiau a wnaethoch am gynllunio a materion eraill sy'n gysylltiedig â harbwr Aberdaugleddau. Bydd yn rhaid datrys y materion hyn, beth bynnag sy'n digwydd mewn perthynas â'r ardal fenter, os ydym am annog rhagor o ddatblygiad a chyfleoedd swyddi yn sir Benfro. Mae yna hefyd faterion yn ymwneud â diogelwch ynni a phwysigrwydd Aberdaugleddau yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy eisoes yn ymwybodol o'r materion hyn, ac mae trafodaethau'n

parhau.

I do not think that we will have any difficulties with the UK Government. It is out of courtesy that I discuss with the UK Government how I deal with the management of that enterprise zone, because a port authority is involved there. We will discuss with it what the balance of the board should be and who should sit on it, and so on. We will therefore undertake those discussions and I will report back. I do not anticipate any difficulties. I am sure that the UK Government, like us, will be delighted to see enterprise zone policy being developed.

Nid wyf yn meddwl y byddwn yn cael unrhyw anawsterau gyda Llywodraeth y DU. Mater o gwrteisi ydyw fy mod yn trafod â Llywodraeth y DU sut y byddaf yn ymdrin â'r gwaith o reoli'r ardal fenter honno, oherwydd bod awdurdod porthladd yn gysylltiedig â'r ardal. Byddwn yn trafod sut y dylid cydbwyso'r bwrdd a phwy ddylai eistedd arno, ac yn y blaen. Felly, byddwn yn cynnal y trafodaethau hynny a byddaf yn adrodd yn ôl. Nid wyf yn rhagweld unrhyw anawsterau. Rwy'n siŵr y bydd Llywodraeth y DU, fel ni, wrth ei bodd o weld polisi ardaloedd menter yn cael ei ddatblygu.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, I welcome your statement on enterprise zones this afternoon. I would like to refer specifically to the inclusion of Cardiff Airport in the Vale of Glamorgan enterprise zone, which I welcome. In your statement, you alluded to other areas around the airport and, I presume, St Athan; are you in a position today to be a bit more descriptive as to which other areas are included? I think that you also referred to academia in your statement; does that mean Barry College or Cardiff University, for example? I would be grateful if you could give more information on that today.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, rwy'n croesawu eich datganiad am ardaloedd menter y prynhawn yma. Hoffwn gyfeirio yn benodol at y ffaith y bydd Maes Awyr Caerdydd yn cael ei gynnwys yn ardal fenter Bro Morgannwg, ac rwy'n croesawu hynny. Yn eich datganiad, gwnaethoch gyfeirio at ardaloedd eraill o amgylch y maes awyr ac, rwy'n cymryd, Sain Tathan; a ydych mewn sefyllfa heddiw i fod ychydig yn fwy disgrifiadol ynghylch pa ardaloedd eraill fydd yn cael eu cynnwys? Rwy'n credu y gwnaethoch hefyd gyfeirio at y byd academaidd yn eich datganiad; a yw hynny'n golygu Coleg y Barri neu Brifysgol Caerdydd, er enghraifft? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth am hynny heddiw.

**Edwina Hart:** We will put information regarding the boundaries of the site on our website. I think that it is the Hines site that will be included, as will British Airways Maintenance Cardiff. Academic links are all about the relationships that we have to build up the enterprise zone, which include Cardiff University, Barry College and anyone that has an interest in aerospace. I would be delighted to send you the full details of this, and I welcome your support for the extension to the airport, which I think is enormously important with regard to the way in which we deliver on St Athan, which is an extremely valuable site for Wales. I hope that, very soon, we will resolve the matter sufficiently with the Ministry of Defence so that we can maximise the use of that site.

**Edwina Hart:** Byddwn yn rhoi gwybodaeth am ffiniau'r safle ar ein gwefan. Rwy'n credu mai safle Hines fydd yn cael ei gynnwys, yn ogystal â British Airways Maintenance Cardiff. Mae cysylltiadau academaidd yn ymwneud â'r perthnasau sydd gennym i adeiladu'r ardal fenter, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Coleg y Barri ac unrhyw un sydd â diddordeb ym maes awyrofod. Byddwn yn hapus i anfon manylion llawn atoch am hyn, ac rwy'n croesawu eich cefnogaeth i'r estyniad i'r maes awyr. Rwy'n credu bod hynny'n hynod bwysig o ran y ffordd yr ydym yn cyflawni mewn perthynas â Sain Tathan, sydd yn safle hynod werthfawr i Gymru. Rwy'n gobeithio, yn fuan iawn, y byddwn yn datrys y mater gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ddigonol er mwyn inni wneud y defnydd gorau o'r safle

hwnnw.

## Datganiad: Adolygiad o Effeithiolrwydd Datblygu Cynaliadwy
## Statement: Sustainable Development Effectiveness Review

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** In line with my duty under section 79 of the Government of Wales Act 2006, I am pleased to lay before the National Assembly for Wales a copy of the review of the effectiveness of our sustainable development scheme, 'One Wales: One Planet'. I agreed last year that this should be an independent review. Following a procurement exercise, it has been undertaken by PricewaterhouseCoopers, which included Will Day, the previous chair of the UK Sustainable Development Commission, as part of its team.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Yn unol â'm dyletswydd o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n bleser gennyf osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gopi o'r adolygiad o effeithiolrwydd ein cynllun datblygu cynaliadwy, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. Cytunais y llynedd y dylai fod yn adolygiad annibynnol. Yn dilyn ymarfer caffael, cynhaliwyd yr adolygiad gan PricewaterhouseCoopers, ac roedd Will Day, cadeirydd blaenorol Comisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU, yn rhan o'i dîm.

As part of this review, over 30 stakeholders attended a workshop last September to give PwC their views on how effective we have been in promoting sustainable development. I would like to thank all the stakeholders who contributed views, which I know have informed the conclusions of this review. PricewaterhouseCoopers also reviewed a number of other reports. These included our statutory sustainable development annual report and our sustainable development indicators. It also considered the 2010 report by the Wales Audit Office on embedding sustainable development in our business decision-making, and a report produced last year by WWF Cymru containing its views on how well our policies are moving us to a one planet Wales. PwC also examined a number of our policies and programmes across ministerial portfolios.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, aeth dros 30 o randdeiliaid i weithdy fis Medi diwethaf er mwyn mynegi eu barn i PwC ynghylch pa mor effeithiol rydym wedi bod o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Hoffwn ddiolch i'r holl randdeiliaid a gyfrannodd eu barn, a gwn fod hynny wedi cyfrannu at gasgliadau'r adolygiad. Mae PricewaterhouseCoopers hefyd wedi adolygu nifer o adroddiadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys ein hadroddiad blynyddol statudol ar ddatblygu cynaliadwy a'n dangosyddion datblygu cynaliadwy. Bu hefyd yn ystyried yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 ar ymgorffori datblygu cynaliadwy yn ein gwaith o wneud penderfyniadau ar fusnes, ac adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd gan WWF Cymru a nododd ei farn ar ba mor effeithiol yw ein polisïau o ran ein symud tuag at Gymru un blaned. Bu PwC hefyd yn edrych ar nifer o'n polisïau a rhaglenni ar draws portffolios y Gweinidogion.

I therefore regard its report as providing an authoritative assessment of the effectiveness of our sustainable development scheme in promoting sustainable development. The overall conclusions of the review are as follows:

Felly, rwy'n ystyried bod ei adroddiad yn darparu asesiad awdurdodol o effeithiolrwydd ein cynllun datblygu cynaliadwy o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae casgliadau cyffredinol yr adolygiad fel a ganlyn:

'This review recognises the positive progress made by Welsh Government to date, but highlights that there is more to do if its SD

Mae'r adolygiad hwn yn cydnabod y cynnydd cadarnhaol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma, ond mae'n

ambitions and all of its SD scheme objectives are to be fully realised. On the whole, Welsh Government is aware of its progress and achievements on its SD journey, and of the barriers and challenges that exist, and appears confident that it is already taking steps to address these. In particular there has been positive progress around the understanding and embedding of Sustainable Development (SD) in Wales. This is in no small part due to the political and operational leadership shown by Ministers and civil servants within Welsh Government.'

tynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy er mwyn i'w dyheadau datblygu cynaliadwy a holl amcanion y cynllun datblygu cynaliadwy gael eu gwireddu'n llawn. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'i chynnydd a'i chyflawniadau ar ei thaith datblygu cynaliadwy, ac o'r rhwystrau a'r heriau sy'n bodoli, ac mae'n ymddangos yn hyderus ei bod eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Yn arbennig, bu cynnydd cadarnhaol o ran deall ac ymgorffori datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd yr arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol a ddangoswyd gan Weinidogion a gweision sifil o fewn Llywodraeth Cymru.

I am pleased that the report recognises the progress that we have made in embedding sustainable development as our central organising principle. It refers to how our policies and programmes reflect joined-up Government and long-term thinking. In particular, the report cites our climate change strategy and our strategic energy performance investment programme, Arbed; our economic renewal programme; our strategic approach to health, 'Our Healthy Future'; our twenty-first century schools programme; our child poverty strategy; and our food strategy for Wales. That is fairly strong evidence of how we have embedded sustainable development as our central organising principle across all ministerial portfolios. PricewaterhouseCoopers states that there is good evidence to show that where SD is embedded in policy and decision-making, the results are better and there are more effective outcomes and that, often, these also often lead to efficiencies. We are therefore confident that our approach will improve the quality of life of people and communities in Wales, now and into the future.

Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cydnabod y cynnydd a wnaed gennym o ran ymgorffori datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol inni. Mae'n cyfeirio at sut y mae ein polisïau a'n rhaglenni yn adlewyrchu Llywodraeth gydgysylltiedig a meddylfryd hirdymor. Yn arbennig, mae'r adroddiad yn dyfynnu ein strategaeth newid yn yr hinsawdd a'n rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni, sef Arbed; ein rhaglen adnewyddu economaidd; ein cynllun strategol ar gyfer iechyd, 'Ein Dyfodol Iach'; ein rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain; ein strategaeth tlodi plant; a'n strategaeth bwyd ar gyfer Cymru. Mae hynny'n dystiolaeth eithaf cadarn o sut rydym wedi ymgorffori datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol ar draws yr holl bortffolios gweinidogol. Mae PricewaterhouseCoopers yn datgan bod tystiolaeth dda bod canlyniadau gwell a mwy effeithiol i'w cael pan fo datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o bolisi a'r broses o wneud penderfyniadau, a'u bod yn aml yn arwain at enillion effeithlonrwydd hefyd. Felly, rydym yn hyderus y bydd ein dull gweithredu yn gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol.

The report also recognises that we have engaged positively with our external stakeholders in encouraging them to adopt sustainable development as their central organising principle. It notes our sustainable development charter, which has been signed by over 100 organisations, and which has set up a network of organisations that share

Mae'r adroddiad yn cydnabod hefyd ein bod wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'n rhanddeiliaid allanol, drwy eu hannog i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Mae'n nodi ein siarter datblygu cynaliadwy, a lofnodwyd gan dros 100 o sefydliadau, ac sydd wedi sefydlu rhwydwaith o sefydliadau sy'n rhannu dysgu

learning and best practice on sustainable development.

ac arfer gorau mewn perthynas â datblygu cynaliadwy.

The report also acknowledges the positive changes in our internal operations, such as the achievement of the highest Green Dragon level 5 environmental management standard across the Welsh Government's administrative estate.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod y newidiadau cadarnhaol yn ein gweithrediadau mewnol, fel llwyddo i gyrraedd lefel uchaf—lefel 5—safon rheoli amgylcheddol y Ddraig Werdd, ar draws ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru.

The report is clear when it states that embedding sustainable development as the central organising principle should not be viewed as an event, but rather as part of a much longer journey for Wales and the Welsh Government. The report therefore recognises that there is more to do as part of this journey. A number of next steps that we can take have been recommended. I have accepted these next steps, and my officials are already following them up. We shall include a report on what we have done in relation to these in our next sustainable development annual report.

Mae'r adroddiad yn glir pan fo'n datgan na ddylid ystyried ymgorffori datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i fod yn ddigwyddiad, ond yn hytrach fel rhan o daith lawer hwy ar gyfer Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad, felly, yn cydnabod bod rhagor i'w wneud fel rhan o'r daith hon. Mae nifer o gamau y gallwn eu cymryd nesaf wedi'u hargymell. Rwyf wedi derbyn y camau nesaf hyn, ac mae fy swyddogion eisoes yn ymgymryd â hwy. Byddwn yn cynnwys adroddiad ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud mewn perthynas â'r camau hynny yn ein hadroddiad blynyddol nesaf ar ddatblygu cynaliadwy.

Our commitment to sustainable development as that central organising principle dates from May 2009, when we published our sustainable development scheme, 'One Wales: One Planet'. This statutory review leads me to conclude that the approach that we have set out in that scheme remains a strong statement of purpose that confirms our intent to make Wales a sustainable nation. This independent review recognises that that approach leads to better long-term outcomes that will improve the quality of life of the people of Wales.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol yn dyddio o fis Mai 2009, pan wnaethom gyhoeddi ein cynllun datblygu cynaliadwy, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. Mae'r adolygiad statudol hwn yn fy arwain i'r casgliad bod y dull yr ydym wedi'i nodi yn y cynllun hwnnw yn parhau i fod yn ddatganiad cryf o bwrpas sy'n cadarnhau ein bwriad i wneud Cymru yn genedl gynaliadwy. Mae'r adolygiad annibynnol hwn yn cydnabod bod y dull hwnnw'n arwain at ganlyniadau gwell yn y tymor hir a fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl Cymru.

3.30 p.m.

Llywydd, I can therefore confirm that we will maintain our commitment to sustainable development as our central organising principle, as set out in 'One Wales: One Planet'. This is fully in line with our commitment in our programme for government. Sustainability lies at the heart of the Welsh Government's agenda for Wales. Taken as a whole, our approach to sustainable development will promote

Felly, Lywydd, gallaf gadarnhau y byddwn yn cadw at ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog, fel y nodir yn y cynllun 'Cymru Un Blaned'. Mae hyn yn gwbl unol â'n hymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru i Gymru. Yn ei gyfanrwydd, bydd ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy yn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac

economic, social and environmental wellbeing and enhance quality of life in Wales. It is about defining the long-term development path for our nation. It means healthy productive people; vibrant inclusive communities; a diverse and resilient environment; and an advanced, innovative and low carbon economy. This statutory review of the effectiveness of our approach to sustainable development confirms that we are on track. We will maintain this commitment, and we will strengthen our approach to embedding sustainable development as that central organising principle through following up on the next steps that have been suggested to us by this review.

amgylcheddol, ac yn gwella ansawdd bywyd yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â diffinio llwybr datblygu ein cenedl yn y tymor hir. Mae'n golygu pobl gynhyrchiol ac iach; cymunedau cynhwysol a bywiog; amgylchedd amrywiol a gwydn; ac economi datblygedig, arloesol a charbon isel. Mae'r adolygiad statudol o effeithiolrwydd ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy yn cadarnhau ein bod ar y trywydd iawn. Byddwn yn cadw at yr ymrwymiad hwn, a byddwn yn cryfhau ein dull o sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ymwreiddio fel ein hegwyddor drefnu ganolog drwy wneud gwaith dilynol ar y camau nesaf a awgrymwyd gan yr adolygiad hwn.

**Russell George:** I thank the Minister for his statement on the effectiveness review. Since I have had the privilege of being the opposition spokesperson on the environment and sustainable development, we have debated the fundamental issues of sustainability in this Chamber and a number of recurring themes have emerged. The fact of the matter is that while some progress has been made, the Welsh Government has still not fully mainstreamed sustainable development in the way that it works and develops policy. This is reflected in Peter Davies's comment that there is still a long way to go before we can truly claim that sustainable development is effective as a central organising principle. That comment was recently re-emphasised by Dr Calvin Jones from the Cardiff Business School. Leadership has to be the key to mainstreaming. All Ministers, their departments and statutory bodies must be clear on what sustainable development actually means, where their duties lie with regard to achieving sustainable development goals, and how to go about implementing and delivering on those goals. That has to come from the top and from one person.

**Russell George:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad ar yr adolygiad effeithiolrwydd. Ers i mi gael y fraint o fod yn llefarydd yr wrthblaid ar yr amgylchedd a datblygiad cynaliadwy, rydym wedi trafod materion sylfaenol cynaliadwyedd yn y Siambr hon, ac mae nifer o themâu cylchol wedi dod i'r amlwg. Y ffaith amdani yw, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae Llywodraeth Cymru yn dal heb brif ffrydio datblygu cynaliadwy yn ei gwaith ac yn y modd y mae'n datblygu polisi. Adlewyrchir hyn mewn sylw a wnaed gan Peter Davies, sef bod llawer o ffordd i fynd cyn y gallwn wir honni bod datblygu cynaliadwy yn effeithiol fel egwyddor drefnu ganolog. Cafodd y sylw hwnnw ei ail-bwysleisio'n ddiweddar gan Dr Calvin Jones o Ysgol Fusnes Caerdydd. Rhaid i arweinyddiaeth fod yn allweddol i brif ffrydio. Rhaid i bob Gweinidog, eu hadrannau a chyrff statudol fod yn glir ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy, beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â chyflawni amcanion datblygu cynaliadwy, a sut i fynd ati i weithredu a chyflawni'r amcanion hynny. Mae'n rhaid i hynny ddod o'r brig ac oddi wrth un person.

A classic example of inconsistency of both leadership and message came in the summer in relation to energy policy on TAN 8. The First Minister said one thing and then you, Minister, said something different a few weeks later. Given these issues, Minister, will you confirm that the Government remains committed to the aim of Wales living within its fair share of the earth's resources, and do you agree that consistency of this vision is

Cawsom enghraifft glasurol yn yr haf o arweinyddiaeth a neges anghyson mewn perthynas â pholisi ynni a Nodyn Cyngor Technegol 8. Dywedodd y Prif Weinidog un peth, ac yna, rhai wythnosau'n ddiweddarach, fe ddywedasoch chi, Weinidog,rywbeth gwahanol. O ystyried y materion hyn, Weinidog, a allwch chi gadarnhau bod y Llywodraeth yn dal wedi ymrwymo i'r nod o sicrhau bod Cymru'n byw o fewn ei chyfran

vital for investor confidence into the future? Will the Minister concede that, in going forward, the only way to ensure full Government buy-in for sustainable development, and full accountability for delivery, is for the First Minister to reaffirm the Government's commitment to those goals, and for his office to be charged with ensuring that it delivers on key policies like its 2020 greenhouse gas targets and its footprint reduction targets?

deg o adnoddau'r ddaear, ac a ydych yn cytuno bod cysondeb o ran y weledigaeth hon yn hanfodol ar gyfer hyder buddsoddwyr yn y dyfodol? A wnaiff y Gweinidog gyfaddef, wrth symud ymlaen, mai'r unig ffordd i sicrhau ymrwymiad llawn y Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy, ac atebolrwydd llawn dros gyflawni, yw i'r Prif Weinidog ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth i'r amcanion hynny, ac i'w swyddfa fod yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn cyflawni ar bolisïau allweddol, fel ei thargedau nwyon tŷ gwydr ar gyfer 2020 a'i thargedau lleihau ôl-troed carbon?

Finally, how will you ensure that progress is effectively measured and monitored, and will you be setting out a formal roadmap to drive delivery?

Yn olaf, sut y byddwch yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fesur a'i fonitro'n effeithiol, ac a fyddwch yn llunio map ffurfiol ar gyfer gyrru'r broses o gyflawni?

**John Griffiths:** I thank Russell George for that contribution and for those questions. Inevitably, we are not yet in the position that we would like to be in terms of climate change, but progress has been made in adapting to climate change and managing the issues and risks involved. The globe is not in that position, nor is any Government anywhere. However, what is important is that we understand the challenges and are taking forward policies that are effective in responding. What this review states is that we have made considerable and significant progress, but inevitably, there is quite a lot yet to do, and we entirely accept that.

**John Griffiths:** Diolch i Russell George am y cyfraniad hwnnw, ac am y cwestiynau hynny. Yn amlwg, nid ydym eto yn y sefyllfa yr hoffem fod ynddi o ran newid hinsawdd, ond fe wnaed cynnydd o ran addasu i newid hinsawdd a rheoli'r materion a'r risgiau o dan sylw. Nid yw'r byd yn y sefyllfa honno, ac nid yw unrhyw Lywodraeth yn unrhyw le. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn deall yr heriau ac yn cyflwyno polisïau sy'n effeithiol wrth ymateb. Mae'r adolygiad hwn yn datgan ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ac arwyddocaol, ond yn anochel, mae cryn dipyn eto i'w wneud, ac rydym yn derbyn hynny'n llwyr.

In terms of leadership, it is clear from the top down, from the First Minister to all Ministers and officials in the Welsh Government, that sustainable development is that central organising principle, and that is reflected across policies and programmes. There are examples in this review of such policies and programmes right across the Government, embedding sustainable development principles. Therefore, we have made important progress in embedding sustainable development, and the lead from the top is strong. The First Minister has certainly set out his own commitment to this agenda, and all the other Ministers take their lead from that strong commitment.

O ran arweinyddiaeth, mae'n amlwg o'r brig i lawr, o'r Prif Weinidog i holl Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog, a chaiff hynny ei adlewyrchu ar draws polisïau a rhaglenni. Ceir enghreifftiau yn yr adolygiad hwn o bolisïau a rhaglenni o'r fath ar draws y Llywodraeth, lle mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi ymwreiddio. Felly, rydym wedi gwneud cynnydd pwysig wrth sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ymwreiddio, ac mae'r arweinyddiaeth o'r brig yn gryf. Yn sicr, mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu ei ymrwymiad ei hun i'r agenda hon, ac mae'r holl Weinidogion eraill yn cael eu harwain gan yr ymrwymiad cryf hwnnw.

It is important that we effectively monitor

Mae'n bwysig ein bod yn monitro a

and evaluate. That is an important part of the progress that must be made, as noted in this review. We will be setting out further details on the way forward, on that front, in due course.

gwerthuso mewn modd effeithiol. Mae hynny'n rhan bwysig o'r cynnydd y mae'n rhaid inni ei wneud, fel y nodwyd yn yr adolygiad hwn. Byddwn yn nodi manylion pellach ynglŷn â'r ffordd ymlaen, yn y cyd-destun hwnnw, maes o law.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar wythnos mor ddiddorol a chanolog ei sylw i newid yn yr hinsawdd ac i faterion cynaliadwy. Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd heddiw, cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd ddoe, a'r prynhawn yma mae datganiad arall i ddod ar faterion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd ar yr ochr negyddol. Ond, mae cyfle yma, gyda'r adroddiad hwn, i fesur effeithlonrwydd y Llywodraeth wrth weithredu'r egwyddor sydd wedi ei gosod yng nghyfansoddiad Cymru.

**Lord Elis-Thomas:** I congratulate the Minister on having such an interesting week, with such a central focus on the issue of climate change and sustainability. The first annual report of the Climate Change Commission for Wales was published today, the Green Paper was published yesterday, and this afternoon we have another statement on climate change issues on the negative side. However, with this report, we have an opportunity to assess the effectiveness of the Government in implementing the principle set out in the Welsh constitution.

A yw'r Gweinidog yn cytuno, wrth ystyried deddfu ar ddatblygu cynaliadwy, ein bod ni wedi dod yn bell iawn o'r man lle y bu i ni gychwyn gyda Deddf Llywodraeth Cymru 1998? Gwnaeth y ddeddf honno ryw fath o alwad am gynllun, ond mae'r cynllun wedi troi yn gyrhaeddiad ar draws y Llywodraeth. Mae hynny i'w ganmol. Fodd bynnag, y ddogfen bwysicaf—a byddwn yn dweud hyn wrth y bobl ar y dde i mi, nad ydynt yma ar y funud fel mae'n digwydd—ac un o lwyddiannau mwyaf Llywodraeth Cymru'n Un oedd 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', ac mae'r adroddiad rydym yn eu hasesu heddiw yn dod yn uniongyrchol o'r cynllun hwnnw. Mae'n dda gennyf weld bod y Llywodraeth hon yn parhau i weithio yn sgîl y cynllun hwnnw—

Does the Minister agree that, in considering legislation on sustainable development, we have come a long way from our starting point in the Government of Wales Act 1998? That Act included some kind of demand for a scheme, but the scheme has now become an aspiration that cuts across all Government departments. That is laudable. However, the most important document—and I would say that to the people to my right, who are not here at the moment, unfortunately—and one of the greatest successes of the One Wales Government was 'One Wales: One Planet', and the report that we are assessing today emerges directly from that scheme. I am pleased that this Government is still working to the objectives of that scheme—

**Bethan Jenkins** *a gododd*

**Bethan Jenkins** *rose*

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Nid oes hawl gennyt i ymyrryd; datganiad yw hwn. Rwy'n gofyn cwestiwn i'r Gweinidog.

**Lord Elis-Thomas:** You cannot intervene; this is a statement. I am questioning the Minister.

**Presiding Officer:** Order. Thank you for that**,** previous Presiding Officer, but I will decide whether it is an intervention or not. Please carry on. [*Laughter*.]

**Y Llywydd:** Trefn. Diolch am hynny, cyn-Lywydd, ond byddaf i'n penderfynu a yw'n ymyriad neu beidio. Ewch ymlaen, os gwelwch yn dda. [*Chwerthin.*]

**Lord Elis-Thomas:** Old habits die hard, Presiding Officer, and I do apologise. I must

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Anodd yw colli hen arfer, Lywydd, ac rwyf yn ymddiheuro.

transform myself into something else perhaps. [*Laughter.*]

Efallai bydd yn rhaid imi drawsnewid fy hun i mewn i rywbeth arall. [*Chwerthin.*]

Sut fydd y Gweinidog yn parhau ag asesiad o'r math hwn? A yw'n fwriad ganddo i sicrhau y bydd yn asesiad blynyddol, fel y dylai fod? A fydd yn sicrhau bod y gwersi sydd wedi eu dysgu yn yr adroddiad hwn gan PricewaterhouseCoopers yn parhau i ddylanwadu'n gyson ar weithgarwch y Llywodraeth?

How will the Minister continue with this assessment technique? Is it his intention to do this annually, as should be done? Will he ensure that the lessons learned in this PricewaterhouseCoopers report continue to consistently influence the activities of Government?

**John Griffiths:** Thank you very much for those remarks and questions. It is undoubtedly true that we have come a long way since devolution started in terms of establishing an effective scheme in 'One Wales: One Planet' for sustainable development and embedding that central, organising principle across Government. That is evidenced in this review. As part of the Government of Wales Act 2006, we are committed to reviewing the effectiveness of the sustainable development scheme following Assembly elections, and that is what has happened with this particular exercise. It is a valuable exercise and it shows where we have made progress and identifies next steps, which I entirely accept and will be acting upon.

**John Griffiths:** Diolch yn fawr iawn am y sylwadau a'r cwestiynau hynny. Yn sicr, mae'n wir ein bod wedi dod yn bell ers dechrau datganoli o ran sefydlu cynllun effeithiol ar gyfer datblygu cynaliadwy, sef cynllun 'Cymru Un Blaned', a sicrhau bod yr egwyddor drefnu ganolog honno wedi ymwreiddio ar draws y Llywodraeth. Mae tystiolaeth o hynny yn yr adolygiad hwn. Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rydym wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy yn dilyn etholiadau'r Cynulliad, a dyna'r hyn sydd wedi digwydd gyda'r ymarfer penodol hwn. Mae hwn yn ymarfer gwerthfawr sy'n dangos lle rydym wedi gwneud cynnydd ac yn nodi'r camau nesaf i'w cymryd. Rwyf yn derbyn y camau hynny'n llwyr a byddaf yn gweithredu arnynt.

A lot has happened around sustainable development and climate change this week. It was important that we launched our natural environment framework at the beginning of the week. We have also seen the important report from our sustainable development commission, and Peter Davies, our commissioner, today. It was an important commitment to have that commissioner and commission in Wales, following the abolition of the UK body. Therefore, those developments and these statements today show that there is a great deal happening on climate change and sustainable development.

Mae llawer wedi digwydd ynghylch datblygu cynaliadwy a newid hinsawdd yr wythnos hon. Roedd yn bwysig inni lansio ein fframwaith amgylchedd naturiol ar ddechrau'r wythnos. Rydym hefyd wedi gweld yr adroddiad pwysig heddiw gan ein comisiwn ddatblygu cynaliadwy, a Peter Davies, ein comisiynydd. Yn dilyn diddymiad corff y DU, roedd sefydlu comisiwn a chomisiynydd yng Nghymru yn ymrwymiad pwysig. Felly, mae'r datblygiadau hynny a'r datganiadau a gafwyd heddiw yn dangos bod llawer yn digwydd o ran newid hinsawdd a datblygu cynaliadwy.

The Welsh Government is very much playing its part and fulfilling its role in responding to the many challenges involved. It is also true to say that quite a strong consensus has developed in the Chamber and, indeed, in Wales on the importance of Wales's taking the lead on these very important issues for the

O ran ymateb i'r heriau niferus sy'n gysylltiedig â'r maes hwn, mae Llywodraeth Cymru yn sicr yn chwarae ei rhan ac yn cyflawni rôl briodol. Mae hefyd yn wir i ddweud bod consensws cryf wedi datblygu yn y Siambr—ac, yn wir, yng Nghymru—ar bwysigrwydd y ffaith bod Cymru'n arwain ar

whole planet. It is important that we continue to review and monitor our schemes, as I mentioned in answering Russell George. With regard to this review, we will continue to fulfil the requirements of the legislation.

faterion sy’n bwysig iawn i’r blaned gyfan. Mae’n bwysig ein bod yn parhau i adolygu a monitro ein cynlluniau, fel y soniais wrth ateb Russell George. O ran yr adolygiad hwn, byddwn yn parhau i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

**William Powell:** Minister, I would like to thank you very much for making this important statement today and for sending through the supporting documents in good time, at the end of last week. As you have already said, the essential need to embed sustainable development in all we do is one of the relatively few things that genuinely unites everyone in the Chamber. We should celebrate that. Reviews such as today’s are always going to be a key part of any effective management strategy, and I welcome the opportunity to respond briefly to the statement. I have a couple of questions I would like to ask. Many of the key issues have already been raised. The review makes several references to the inconsistent implementation practices across Government departments. What personal intervention do you plan to make in this area so as to assure us that such inconsistent implementation does not continue unnecessarily into the future.

**William Powell:** Weinidog, hoffwn ddiolch yn fawr iawn ichi am wneud y datganiad pwysig hwn heddiw, ac am anfon y dogfennau ategol atom mewn da bryd ar ddiwedd yr wythnos diwethaf. Fel rydych eisoes wedi dweud, mae’r angen hanfodol i sicrhau bod datblygu cynaliadwy wedi ymwreiddio ym mhopeth a wnawn yn un o’r ychydig bethau sydd wir yn uno pawb yn y Siambr. Dylem ddathlu hynny. Mae adolygiad o’r math a gawsom heddiw bob amser yn mynd i fod yn rhan allweddol o unrhyw strategaeth ar gyfer rheoli’n effeithiol, a chroesawaf y cyfle i ymateb yn fyr i’r datganiad. Mae gennyf ychydig o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn. Codwyd llawer o’r materion allweddol eisoes. Mae’r adolygiad yn gwneud sawl cyfeiriad at arferion gweithredu anghyson ar draws adrannau’r Llywodraeth. Pa ymyriadau personol yr ydych chi’n bwriadu eu gwneud yn y maes hwn er mwyn ein sicrhau nad yw gweithredu anghyson o’r fath yn parhau yn ddiangen yn y dyfodol?

Could you expand on the method you propose to use to implement the legal sustainable development assessment, as outlined in the document? The review talks about new mechanisms to assist people and Government in making hard choices when it comes to sustainable development. Which particular areas of Government do you feel have been somewhat lacking up to this point in realising the potential we must realise in order for us to make the necessary progress in this area? Finally, what do you envisage any new sustainable development body doing in its interaction with the single environmental body, the business case for which our committee is currently scrutinising?

A allech ymhelaethu ar y dull yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i weithredu’r asesiad cyfreithiol o ddatblygu cynaliadwy, fel yr amlinellir yn y ddogfen? Mae’r adolygiad yn sôn am ddulliau newydd o gynorthwyo pobl a’r Llywodraeth wrth iddynt wneud dewisiadau anodd ynghylch datblygu cynaliadwy. Pa rannau penodol o’r Llywodraeth, yn eich barn chi, sydd wedi bod braidd yn ddiffygiol hyd yn hyn wrth geisio gwireddu’r lefel o botensial y mae’n rhaid inni ei wireddu er mwyn gwneud y cynnydd sydd ei angen yn y maes hwn? Yn olaf, beth yr ydych yn ei ragweld y bydd unrhyw gorff datblygu cynaliadwy newydd yn ei wneud wrth ryngweithio gyda’r corff amgylcheddol unigol, sef y corff sy’n gysylltiedig â’r achos busnes y mae ein pwyllgor yn craffu arno ar hyn o bryd?

**John Griffiths:** I thank William Powell very much for his reinforcement of the consensus I think exists. It is very important that we

**John Griffiths:** Diolch yn fawr i William Powell am atgyfnerthu’r consensws y credaf sy’n bodoli. Mae’n bwysig iawn ein bod yn

continue to work in the Welsh Government to embed sustainable development as that central organising principle. There are issues to do with training and Public Service Management Wales and the skills that can bring with regard to managers and leaders in organisations. There is much to do to embed training on sustainable development more firmly in our senior management leadership programmes. Of course, there are also mechanisms such as the First Minister's delivery unit, which are very important, as well as the policy gateway. There are a number of internal mechanisms we can use to ensure that we make further progress with the necessary embedding of sustainable development.

Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ymwreiddio fel egwyddor drefnu ganolog. Mae yna faterion sy'n ymwneud â hyfforddi a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, a'r sgiliau a all ddeillio o hynny o safbwynt rheolwyr ac arweinwyr mewn sefydliadau. Mae llawer i'w wneud i sicrhau bod hyfforddiant ar ddatblygu cynaliadwy yn ymwreiddio'n fwy cadarn yn ein rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer uwch reolwyr. Wrth gwrs, mae yna ddulliau fel uned gyflawni'r Prif Weinidog hefyd, sy'n bwysig iawn, yn ogystal â'r porth i bolisïau. Mae nifer o ddulliau mewnol y gallwn eu defnyddio i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd pellach ar y gwaith angenrheidiol o ymwreiddio datblygu cynaliadwy.

We take all the views of the departments into account with regard to sustainable development issues. It is always necessary to look right across every department to ensure that we are consistently applying the principle right across Government, because that is what joined-up Government is all about. Therefore, I would not single out any particular areas as being of any greater significance because it has to apply right across Government. Whatever area of work it is—whether it is to do with the single environmental body, as William Powell mentioned, or anything else—we have to ensure that we stick to these crucial principles.

Rydym yn cymryd yr holl safbwyntiau sy'n cael eu mynegi gan yr adrannau i ystyriaeth mewn perthynas â materion datblygu cynaliadwy. Mae bob amser yn angenrheidiol edrych ar draws pob adran i sicrhau ein bod yn gyson wrth gymhwyso'r egwyddor hon ar draws y Llywodraeth, gan mai dyna beth yw ystyr Lywodraeth gydgysylltiedig. Felly, nid wyf am gyfeirio'n arbennig at unrhyw rannau penodol fel rhai sydd ag arwyddocâd arbennig, gan fod yn rhaid cymhwyso'r egwyddor hon ar draws y Llywodraeth. Beth bynnag yw'r maes gwaith—pa un a yw'n ymwneud â'r un corff amgylcheddol, fel y soniodd William Powell, neu unrhyw beth arall—mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cadw at yr egwyddorion hanfodol hyn.

**Rebecca Evans:** I also thank the Minister for his statement today. I have a few questions on each of the document's key headings of leadership, embedding sustainable development within Government and enabling others. Under the leadership heading, the document acknowledges that the Welsh Government has shown strong political leadership and set the right tone from the top in relation to sustainable development and that, in doing so, it has set a positive context for sustainable development in Wales. One example is maintaining the independent challenge through the appointment of the commissioner for sustainable futures, despite the UK Government's decision to withdraw funding from the UK Sustainable Development

**Rebecca Evans:** Hoffwn innau ddiolch hefyd i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae gennyf ychydig o gwestiynau ar bob un o benawdau allweddol y ddogfen, sef arweinyddiaeth, sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ymwreiddio o fewn y Llywodraeth, a galluogi eraill. O dan y pennawd arweinyddiaeth, mae'r ddogfen yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi dangos arweinyddiaeth wleidyddol gref ac yn creu'r naws cywir o'r brig mewn perthynas â datblygu cynaliadwy ac, wrth wneud hynny, mae'r Llywodraeth wedi gosod cyd-destun cadarnhaol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Un enghraifft yw cynnal yr her annibynnol drwy benodi comisiynydd dyfodol cynaliadwy, er gwaethaf penderfyniad Llywodraeth y DU i roi'r gorau

Commission.

i ariannu Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU.

3.45 p.m.

The report also identifies some challenges and further opportunities. Therefore, Minister, do you agree that the sustainable development Bill will provide an opportunity to formalise the structures and processes, to help address some of those challenges and help us achieve our sustainability ambitions? How will you ensure that the consultation and policy development process for the Bill will maximise participation and awareness among the public, civic society and commercial organisations? What action will you take to ensure that sustainable development leadership is consistent across Government departments?

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhai heriau a rhagor o gyfleoedd. Felly, Weinidog, a ydych yn cytuno y bydd y Bil datblygu cynaliadwy yn rhoi cyfle i ffurfioli'r strwythurau a'r prosesau, er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau ac i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau o ran cynaliadwyedd? Sut y byddwch yn sicrhau y bydd y broses ymgynghori a datblygu polisi ar gyfer y Bil yn gwneud y gorau o gyfranogiad y cyhoedd, cymdeithas ddinesig a sefydliadau masnachol ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod arweinyddiaeth datblygu cynaliadwy yn gyson ar draws adrannau'r Llywodraeth?

As you have said, the report acknowledges that there is good evidence to show that, where sustainable development is embedded in policy and decision making, the results are better and there are more effective outcomes, which also lead to efficiencies. Good cross-departmental work is particularly important with regard to cross-departmental funding. The Arbed scheme and community food growing plans were also mentioned in the report. How do you seek, Minister, to expand on this good practice of cross-departmental funding to ensure that those benefits continue into the future? What are your views on formalising the role of the sustainable development advocates in Government?

Fel rydych wedi'i ddweud, mae'r adroddiad yn cydnabod bod tystiolaeth dda fod canlyniadau gwell a mwy effeithiol pan fydd datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r broses o lunio polisi a gwneud penderfyniadau, a bod hyn hefyd yn arwain at effeithlonrwydd. Mae gwaith trawsadrannol da yn arbennig o bwysig o ran arian trawsadrannol. Mae cynllun Arbed a chynlluniau tyfu bwyd cymunedol hefyd yn cael eu crybwyll yn yr adroddiad. Weinidog, sut y byddwch yn ceisio ehangu ar arfer da ariannu trawsadrannol i sicrhau bod y manteision hynny'n parhau yn y dyfodol? Beth yw eich barn ar ffurfioli rôl yr eiriolwyr datblygu cynaliadwy yn y Llywodraeth?

I understand that the Government is considering improvements to the policy gateway. What role do you hope to carve out for sustainable development within that? Unlike many of the legal duties, such as equalities or those on the Welsh language, there is no formal requirement to complete a sustainable development assessment. I am pleased that this is something that the Government is currently looking at. Perhaps you will be able to provide us with an update on that work.

Rwy'n deall bod y Llywodraeth yn ystyried gwelliannau i'r porth i bolisïau. Pa rôl rydych yn gobeithio ei roi i ddatblygu cynaliadwy o fewn hynny? Yn wahanol i lawer o'r dyletswyddau cyfreithiol, fel rheini sy'n ymwneud â chydraddoldeb neu'r iaith Gymraeg, nid oes gofyniad ffurfiol i gwblhau asesiad datblygu cynaliadwy. Rwy'n falch bod y Llywodraeth yn ystyried hyn ar hyn o bryd. Efallai y byddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith hwnnw.

Finally, the report acknowledges that there are many positive examples of the Welsh Government enabling others, including Communities First through the sustainable

Yn olaf, mae'r adroddiad yn cydnabod bod llawer o enghreifftiau cadarnhaol o Lywodraeth Cymru'n galluogi pobl eraill, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf drwy'r

development charter. However, the report says that sustainable development is still widely seen as a green issue. How will you seek to challenge this perception? How will the Welsh Government continue to develop its sustainable development dialogue with the private sector?

siarter datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dweud bod datblygu cynaliadwy yn dal i gael ei weld yn fater gwyrdd. Sut y byddwch yn ceisio herio'r canfyddiad hwn? Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu ei deialog datblygu cynaliadwy gyda'r sector preifat?

Minister, we have come a long way in furthering sustainable development. Your leadership and the programme for government give me great cause for optimism in addressing these concerns in the future.

Weinidog, rydym wedi cyflawni llawer o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae eich arweinyddiaeth a'r rhaglen lywodraethu yn fy ngwneud yn obeithiol iawn o ran mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y dyfodol.

**John Griffiths:** I thank the Member for those comments and questions. It is vitally important that we keep working at it with regard to sustainable development and getting the message across as to its incredible importance for the future and the here and now in Wales. It is not easy, and the Government must keep working at it with our key stakeholders and partners in the private, public and third sector, but there are various mechanisms around. As the Member mentioned, the charter on sustainable development is important, because it incorporates a number of sectors, including the private sector. It is a development tool for organisations and it is about spreading good practice. Therefore, signing up to the charter is an important step for any organisation in Wales to take as far as sustainable development is concerned. There are real benefits for business and other organisations in doing so.

**John Griffiths:** Diolch i'r Aelod am y sylwadau a'r cwestiynau hynny. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio ar ddatblygu cynaliadwy a chyfleu'r neges ynghylch pa mor hollbwysig ydyw ar gyfer y presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Nid yw'n hawdd, a rhaid i'r Llywodraeth barhau i weithio gyda'n prif randdeiliaid a phartneriaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ond mae nifer o fecanweithiau ar gael. Fel y crybwyllwyd gan yr Aelod, mae'r siarter ar ddatblygu cynaliadwy yn bwysig, oherwydd ei bod yn ymgorffori nifer o sectorau, gan gynnwys y sector preifat. Mae'n offeryn datblygu ar gyfer sefydliadau ac mae'n ymwneud â lledaenu arfer da. Felly, mae ymuno â'r siarter yn gam pwysig i unrhyw sefydliad yng Nghymru o ran datblygu cynaliadwy. Mae manteision gwirioneddol i fusnesau a chyrff eraill wrth wneud hynny.

Much of what Rebecca Evans has mentioned is to do with our sustainable development Bill, and there are many opportunities to address many of the issues that she mentioned. I hope that we will get a wide and in-depth feeding in of views as part of the process leading up to the legislation. We will have a White Paper, and there will be many opportunities and events for stakeholders to help shape the legislation. It is important with regard to the balance because, to some extent, it can be about a fairly high-level declaratory principle around sustainable development, which is very important, but it can also be about some more practical ways of ensuring that sustainable development is delivered on the ground. Therefore, I very much welcome all of the issues that the Member mentioned

Mae llawer o'r hyn a ddywedodd Rebecca Evans yn ymwneud â'n Bil datblygu cynaliadwy, ac mae nifer o gyfleoedd i fynd i'r afael â llawer o'r materion y soniodd amdanynt. Rwy'n gobeithio y byddwn yn cael ystod eang o sylwadau manwl fel rhan o'r broses sy'n arwain at y ddeddfwriaeth. Bydd gennym Bapur Gwyn, a bydd llawer o gyfleoedd a digwyddiadau er mwyn i randdeiliaid helpu i lunio'r ddeddfwriaeth. Mae'r cydbwysedd yn bwysig oherwydd, i ryw raddau, gall fod yn ymwneud ag egwyddor eithaf lefel uchel am ddatblygu cynaliadwy, sy'n bwysig iawn, ond gall hefyd fod yn ymwneud â ffyrdd mwy ymarferol o sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad. Felly, byddaf yn croesawu gweld yr holl faterion y

featuring in the widespread and, I hope, very expansive consultation process.

soniodd yr Aelod amdanynt yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori a fydd, rwy'n gobeithio, yn eang iawn.

**Antoinette Sandbach:** I thank you, Minister, for your statement this afternoon. The review makes for interesting reading, highlighting some areas in which the Welsh Labour Government is making progress, especially its continued focus on sustainable development in Government and in attempting to lead by example on its own estate. However, there are also clear indicators in the report that a great deal of work still needs to be done. The Wales Audit Office report from 2010 noted that sustainable development was seen as one of a number of competing priorities. It is, therefore, concerning that this effectiveness review notes the way in which the sustainable development team is still seen as marginal to the core activities of Government, that leadership is inconsistent and that many officials find it difficult to explain what sustainable development means in practice within their own departments. Paragraph 11 of the report states that,

'despite this improvement there was a consensus that there was still a lack of clarity around the interpretation of SD and how this translated into the Central Organising Principle. Our review highlighted that there is still a gap between understanding the concept and this being consistently applied in practice.'

I was grateful to hear from the Minister earlier today that he is to take forward the recommendation in paragraph 26, that the First Minister's delivery unit could do more with regard to embedding sustainable development. Are you also considering including the recommendation that there should continue to be external scrutiny from the sustainable futures commissioner? I notice that, in this report, very little comes forward about the cost of sustainable development in the way that it is defined and how that impacts on the consumer. That is an area of concern, where much tougher regulations, or more regulations, can lead to vastly increased costs for consumers. How do you propose to address that?

**Antoinette Sandbach:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma. Mae'r adolygiad yn ddeunydd darllen diddorol gan ei fod yn nodi rhai meysydd lle y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gwneud cynnydd, yn enwedig ei ffocws parhaus ar ddatblygu cynaliadwy yn y Llywodraeth ac wrth geisio arwain drwy esiampl ar ei hystâd ei hun. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn dangos yn glir bod llawer o waith i'w wneud o hyd. Nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 fod datblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried yn un o nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu. Felly, mae'n peri pryder bod yr adolygiad effeithlonrwydd hwn yn nodi bod y tîm datblygu cynaliadwy yn dal i gael ei ystyried yn ymylol i weithgareddau craidd y Llywodraeth, bod arweinyddiaeth yn anghyson a bod nifer o swyddogion yn ei chael yn anodd egluro'r hyn y mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu yn ymarferol yn eu hadrannau. Mae paragraff 11 o'r adroddiad yn nodi:

Er gwaethaf y gwelliant hwn, roedd consensws bod diffyg eglurder o hyd o ran dehongli datblygu cynaliadwy a sut roedd hyn yn trosi i'r brif egwyddor drefniadol. Amlygodd ein hadolygiad bod bwlch yn dal i fod rhwng deall y cysyniad a rhoi hynny ar waith yn gyson ac yn ymarferol.

Roeddwn yn falch o glywed gan y Gweinidog yn gynharach heddiw y bydd yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad ym mharagraff 26, sy'n nodi y gallai uned gyflawni'r Prif Weinidog wneud mwy o ran ymgorffori datblygu cynaliadwy. A ydych hefyd yn ystyried cynnwys yr argymhelliad y dylai craffu allanol barhau drwy'r comisiynydd dyfodol cynaliadwy? Rwy'n sylwi, yn yr adroddiad hwn, mai ychydig iawn o fanylion sydd am gost datblygu cynaliadwy fel y'i diffinnir a sut y mae hynny'n effeithio ar y defnyddiwr. Mae hwnnw'n faes sy'n peri pryder, lle y gall rheoliadau llymach, neu ragor o reoliadau, arwain at gostau llawer uwch i ddefnyddwyr. Sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael hynny?

I am sure that you will agree that, if sustainable development is going to be the principle that shapes the way that the Welsh Labour Government operates, it needs to be integrated across Government and not simply treated as a box to tick. Indeed, it sounded a bit like that box-ticking exercise in Rebecca Evans's contribution just now. Therefore, why did the Welsh Government spend so much money—£147,000—on the sustainability survey 2011, to find answers to questions such as whether people support policies that improve the wellbeing and quality of life for all, now and for future generations? Who exactly does the Minister imagine would object to sustainable development when it is defined in that way? There are many other questions in the survey that were perhaps interesting ones to ask.

Os datblygu cynaliadwy fydd yr egwyddor sy'n llywio modd gweithredu Llywodraeth Lafur Cymru, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod angen iddo gael ei integreiddio ar draws y Llywodraeth ac nid ei drin fel blwch i'w dicio yn unig. Yn wir, roedd yn swnio ychydig fel ymarfer ticio blychau yng nghyfraniad Rebecca Evans. Felly, pam wnaeth Llywodraeth Cymru wario cymaint o arian—£147,000—ar arolwg cynaliadwyedd 2011, i gael atebion i gwestiynau fel a yw pobl yn cefnogi polisïau sy'n gwella lles ac ansawdd bywyd pawb, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol? Pwy yn union y mae'r Gweinidog yn dychmygu fyddai'n gwrthwynebu datblygu cynaliadwy pan gaiff ei ddiffinio yn y modd hwnnw? Mae llawer o gwestiynau eraill yn yr arolwg a oedd yn ddiddorol efallai.

I note that the survey results indicate that where consumers or members of the public were asked, in effect, to pay for the policies, there was a great deal of concern about that, and that answers tend to be radically different when consequences of some changes are explained to them with regard to their impacts. You will have seen that from your survey's answers in relation to the use of cars. Will you confirm whether your Government is genuinely willing to engage with the substance of sustainable development and explain what it means for communities, which includes bad news as well as the good with regard to cost—not to hide that from people—and any impacts, positive and negative, on the Welsh economy? Will you also confirm that it is not simply going to be treated as window dressing for business as usual in Government?

Nodaf fod canlyniadau'r arolwg yn dangos y bu llawer iawn o bryder ymysg defnyddwyr ac aelodau'r cyhoedd pan ofynnwyd iddynt dalu am y polisïau, i bob pwrpas, a bod atebion yn tueddu i fod yn wahanol iawn pan fo canlyniadau'r newidiadau yn cael eu hesbonio iddynt o ran eu heffeithiau. Byddwch wedi gweld hynny o ddarllen atebion eich arolwg mewn perthynas â'r defnydd o geir. A wnewch gadarnhau a yw eich Llywodraeth yn wirioneddol fodlon mynd i wraidd datblygu cynaliadwy ac esbonio'r hyn y mae'n ei olygu i gymunedau, sy'n cynnwys y newyddion drwg yn ogystal â'r newyddion da o ran cost—gan beidio â chelu hynny rhag pobl—ac unrhyw effeithiau, cadarnhaol a negyddol, ar economi Cymru? A wnewch gadarnhau hefyd na fydd datblygu cynaliadwy yn cael ei drin fel sioe ar gyfer yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud beth bynnag?

**John Griffiths:** I thank Antoinette Sandbach for those comments. It is clearly the case that this review recognises that a lot of progress has been made and that it is no matter of mere window dressing as far as the Welsh Government or, indeed, many of our key partners, are concerned. Real progress has been made. It is always important to ensure that we put our own house in order and show a good example and leadership to others, which is why we will act on the key next steps identified by the review. I have mentioned a number of those with regard to

**John Griffiths:** Diolch i Antoinette Sandbach am y sylwadau hynny. Mae'n amlwg bod yr adolygiad hwn yn cydnabod bod llawer o gynnydd wedi'i wneud ac nid yw'n cael ei drin fel sioe cyn belled ag y mae Llywodraeth Cymru neu, yn wir, nifer o'n prif bartneriaid, yn y cwestiwn. Rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol. Mae bob amser yn bwysig sicrhau ein bod yn cael trefn ar ein busnes ein hunain ac yn dangos esiampl ac arweiniad i bobl eraill. Dyna pam y byddwn yn gweithredu ar y prif gamau nesaf a nodwyd yn yr adolygiad. Rwyf wedi

internal organisation in answering questions from Members.

sôn am nifer o'r rheini o ran trefniadaeth fewnol wrth ateb cwestiynau gan Aelodau.

In addition to some of the matters that I mentioned, the strategic delivery and performance board and other boards are significant, as are their terms of reference. I also mentioned the First Minister's delivery unit earlier. There is much that we can strengthen in our internal workings as regards sustainable development. We have made significant progress but, as always, there is much yet to do.

Yn ogystal â rhai o'r materion y soniais amdanynt, mae'r bwrdd cyflawni strategol a pherfformiad a byrddau eraill yn bwysig, fel y mae'r cylch gorchwyl. Soniais hefyd am uned gyflawni'r Prif Weinidog yn gynharach. Mae llawer y gallwn ei gryfhau yn ein gwaith mewnol o ran datblygu cynaliadwy. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ond, fel bob amser, mae llawer eto i'w wneud.

When it comes to engaging with communities around Wales, it is important that we should do that through surveys and otherwise. Essentially, sustainable development is about people's wellbeing. When you look at it in the round, from an economic, environmental and social perspective, that must be the case. It is about overall quality of life for communities, and it is right that we should engage with those communities, seek their views and act upon them.

O ran ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru, mae'n bwysig y dylem wneud hynny drwy ddefnyddio arolygon a dulliau eraill. Yn y bôn, mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â lles pobl. Pan fyddwch yn edrych arno yn ei grynswth, o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, rhaid i hynny fod yn wir. Mae'n ymwneud ag ansawdd cyffredinol bywyd cymunedau, a dylem ymgysylltu â'r cymunedau hynny, a cheisio eu sylwadau a gweithredu arnynt.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.56 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.56 p.m.*

## Datganiad: Cyhoeddi'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd
## Statement: Publication of the Climate Change Risk Assessment

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Bydd pob Aelod o'r Siambr hon yn gyfarwydd â thywydd eithafol sy'n effeithio ar etholwyr—o eira, glaw trwm a llifogydd i sychder a phrinder dŵr. Mae'n amlwg bod tywydd garw yn gallu cael effaith sylweddol ar ein heconomi, ein cymdeithas a'n hamgylchedd.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** Each Member of this Chamber will be familiar with extreme weather events affecting constituents–from snow, heavy rain and flooding to droughts and water shortages. It is clear that adverse weather can have significant effects on our economy, our society and our environment.

The UK climate change risk assessment, which was co-funded by the Welsh Government and published on 25 January, is a significant, independent research project that analyses the key risks and opportunities that the whole of the UK faces as a result of a changing climate, and it paves the way for discussion and prioritised action in such areas as infrastructure investment and build, health, biodiversity management and the delivery of core services. The climate change risk assessment includes a specific report for

Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU, a ariannwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr, yn brosiect ymchwil sylweddol ac annibynnol sy'n dadansoddi'r prif risgiau a chyfleoedd y mae'r DU gyfan yn eu hwynebu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd , ac mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer trafodaeth a chamau gweithredu wedi'u blaenoriaethu mewn meysydd fel buddsoddi mewn seilwaith ac adeiladu, iechyd, rheoli bioamrywiaeth a darparu gwasanaethau craidd. Mae'r asesiad

Wales that presents a wide-reaching assessment of the potential risks arising from climate change for the next 80 years. We have worked in partnership with the other UK administrations to deliver that project, and the publication of the CCRA fulfils one of the key actions identified in our climate change strategy. We have actively engaged interested communities and experts across Wales, and the CCRA reports have been extensively peer-reviewed.

o risgiau newid hinsawdd yn cynnwys adroddiad penodol ar Gymru sy'n cyflwyno asesiad pellgyrhaeddol o'r risgiau a allai ddeillio o'r newid yn yr hinsawdd dros y 80 mlynedd nesaf. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â gweinyddiaethau eraill y DU i gyflawni'r prosiect hwnnw, ac mae cyhoeddi'r asesiad yn cyflawni un o'r prif gamau gweithredu a nodwyd yn ein strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi ymgysylltu â chymunedau sydd â diddordeb ac arbenigwyr ledled Cymru, ac mae adroddiadau'r asesiadau wedi cael eu hadolygu'n helaeth gan gymheiriaid.

For Wales, the risk assessment identifies some opportunities that are likely to emerge as a result of a changing climate, but the findings indicate that these will be vastly outweighed by the costs of managing adverse impacts. The key threats for Wales include increased flooding, both on the coast and inland, lower river flows and reduced water availability in summer. In addition, the risk assessment concludes that, in future decades, Wales may experience higher death rates during summer months as a result of very hot days. We may also see changes in soil conditions and biodiversity as a result of warmer, drier summers, as well as changes in species and habitats, and an increased risk of pests and diseases affecting agriculture and forestry.

O ran Cymru, mae'r asesiad risg yn nodi rhai cyfleoedd sy'n debygol o ddod i'r amlwg o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, ond mae'r canfyddiadau hyn yn dangos y bydd y rhain yn cael eu gorbwyso'n aruthrol gan gostau rheoli effeithiau andwyol. Mae'r prif fygythiadau i Gymru yn cynnwys mwy o lifogydd arfordirol a mewndirol, llifoedd afon is, a bygythiad y bydd llai o ddŵr ar gael yn yr haf. Yn ogystal, mae'r asesiad risg yn dod i'r casgliad y gellid gweld cyfraddau marwolaeth uwch yng Nghymru yn ystod degawdau yn y dyfodol o ganlyniad i ddyddiau poeth iawn. Efallai y byddwn hefyd yn gweld newidiadau mewn amodau pridd a bioamrywiaeth o ganlyniad i hafau cynhesach a sychach, yn ogystal â newidiadau i rywogaethau a chynefinoedd, a mwy o risg o blâu ac afiechydon yn effeithio ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.

The main opportunities for Wales identified in the CCRA relate to an extended tourist season and the potential to increase visitor numbers, increased crop yields, and a likely fall in winter deaths as a result of milder temperatures. Each of these opportunities comes with caveats, however—for example, crop yields will increase provided that the availability of water and soil nutrients is sufficient. In many areas, we have already made good progress in managing and reducing the risks. Last year, we published our national strategy for flood and coastal erosion risk management to raise awareness of the risks and reduce the consequences. We also tested our new and improved response arrangements during Exercise Watermark, one of the UK's largest ever civil emergency exercises.

Mae'r prif gyfleoedd ar gyfer Cymru a nodir yn yr asesiad risg yn ymwneud â thymor twristiaeth estynedig a'r potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr, cynyddu cynnyrch cnydau, a gostyngiad tebygol yn nifer y marwolaethau gaeaf o ganlyniad i dymheredd mwynach. Mae cafeatau i bob un o'r cyfleoedd hyn, fodd bynnag—er enghraifft, bydd cynnyrch cnydau yn cynyddu ar yr amod bod y maetholion sydd ar gael yn y dŵr a'r pridd yn ddigonol. Mewn sawl ardal, rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth reoli a lleihau'r risgiau. Y llynedd, cyhoeddwyd ein strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r peryglon ac i leihau'r canlyniadau. Rydym hefyd wedi profi ein trefniadau ymateb newydd a gwell yn ystod Ymarfer

Watermark, un o’r ymarferion argyfwng sifil mwyaf yn y DU erioed.

4.00 p.m.

‘Planning Policy Wales’ and various technical advice notes are helping to embed climate change adaptation into the built environment by requiring the impacts of climate change, such as flood risk or coastal erosion, to be assessed and mitigated for the lifetime of new developments. The Welsh Government’s climate change and health working group has produced a comprehensive plan to tackle the public health implications of climate change, which led to the ‘Heatwave Plan for Wales’, published in 2010. In managing our environment, we expect our Glastir scheme to deliver better water management, reduced flood risk and enhanced biodiversity. Glastir also features a grant for woodland creation, which will improve local resilience to the impacts of climate change. Work is under way to integrate climate change into our emerging natural environment framework. We can, of course, also tackle the problem at source. Reducing our emissions is even more important now that the climate change risk assessment helps us to understand the consequences of not doing so. That is why this Government remains committed to reducing Welsh emissions.

Mae ‘Polisi Cynllunio Cymru’ a nodiadau cyngor technegol amrywiol yn helpu i sefydlu addasiadau i newid yn yr hinsawdd yn yr amgylchedd adeiledig gan ei gwneud yn ofynnol i asesu a lliniaru ar effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel perygl llifogydd neu erydu arfordirol, ar gyfer oes datblygiadau newydd. Mae gweithgor newid yn yr hinsawdd ac iechyd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cynllun cynhwysfawr i fynd i’r afael â goblygiadau newid yn yr hinsawdd i iechyd y cyhoedd, ac arweiniodd hynny at y ‘Cynllun Tywydd Poeth i Gymru’, a gyhoeddwyd yn 2010. Wrth reoli ein hamgylchedd, rydym yn disgwyl i’n cynllun Glastir sicrhau system rheoli dŵr well, llai o berygl llifogydd a chynnydd mewn bioamrywiaeth. Mae Glastir hefyd yn cynnwys grant ar gyfer creu coetiroedd, a fydd yn gwella gallu lleol i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gwaith ar y gweill i integreiddio newid yn yr hinsawdd yn ein fframwaith amgylchedd naturiol, sy’n datblygu. Gallwn, wrth gwrs, hefyd fynd i’r afael â’r hyn sydd wrth wraidd y broblem. Mae lleihau ein hallyriadau hyd yn oed yn bwysicach nawr, wrth i’r asesiad o risgiau newid yn yr hinsawdd ein helpu i ddeall canlyniadau peidio â gwneud hynny. Dyna pam mae’r Llywodraeth hon yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau allyriadau yng Nghymru.

Newid yn yr hinsawdd yw’r her amgylcheddol fwyaf sy’n ein hwynebu. Mae asesiad risg y Deyrnas Unedig yn rhan o’r dystiolaeth gynyddol sy’n ei gwneud hi’n bosibl i ni lunio ein polisïau a’n cynlluniau. Mae paratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn hanfodol os ydym am sicrhau bod Cymru yn lle deniadol i fyw a gwneud busnes yn ystod yr unfed ganrif ar hugain a thu hwnt.

Climate change is the greatest environmental challenge that we face. The UK risk assessment is part of the growing body of evidence that makes it possible for us to shape our policies and plans. Preparing for climate change is vital if we are to ensure that Wales is an attractive place in which to live and to do business during the twenty-first century and beyond.

**Russell George:** I thank the Minister for his statement and for delivering such a large part of it in Welsh, which he did very well, because I could hear it being translated very well in my earpiece. It is clear that the report leaves us with little doubt about the potential scale and seriousness of the implications for

**Russell George:** Diolch i’r Gweinidog am ei ddatganiad ac am gyflwyno cymaint ohono yn Gymraeg; gwnaeth hynny yn dda iawn, oherwydd gallwn glywed ei fod yn cael ei gyfieithu yn dda iawn drwy’r teclyn yn fy nghlust. Mae’n amlwg nad yw’r adroddiad yn gadael fawr o amheuaeth ynghylch graddfa a

the natural environment and biodiversity of Wales of projected climate change. I was pleased that you specifically mentioned water availability in your statement. That is an area of particular concern for humans and wildlife in Wales, with the risk of a supply deficit as early as the 2020s. River basins are projected to move from surplus to deficit over the next 20 years, especially in the summer months, while heavier winter rainfall is likely to lead to increased flooding and waterlogging of agricultural land, with implications for wildlife and humans alike. The report is unambiguous in stating that climate change could have serious and far-reaching impacts on the natural environment, as well as on our agricultural and forestry sectors. Minister, given that your Government failed to meet the 2010 targets on halting biodiversity loss, will you give an assurance that the serious implications for the Welsh natural environment set out in the report will be fully addressed as the Government develops its new framework for the environment? As it is essential that we mitigate the effects of our actions now to reduce the long-term impact on nature and ecosystems, will you also commit to referring the report for consideration by the independent Climate Change Commission for Wales and its climate change and land use sub-group? On flood defences, a key issue arises on the back of the Association of British Insurers' report today. While the overall responsibility for funding must rest with the Government, how do you believe that we should proceed with regard to the issue of sharing risk with local authorities and individual households and businesses? Are you confident that there are sufficient Government resources to mitigate the impact in the potentially worst affected areas, such as the Vale of Clwyd?

difrifoldeb posibl goblygiadau newid yn yr hinsawdd a ragwelir i'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yng Nghymru. Roeddwn yn falch y gwnaethoch nodi argaeledd dŵr yn benodol yn eich datganiad. Dyna achos pryder arbennig am bobl a bywyd gwyllt yng Nghymru, gyda risg o ddiffyg cyflenwad mor gynnar â'r 2020au. Rhagwelir y bydd basnau afon yn symud o ormodedd i ddiffyg dros yr 20 mlynedd nesaf, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, tra bydd glaw trymach yn y gaeaf yn debygol o arwain at fwy o lifogydd a thir amaethyddol dwrlawn, gyda goblygiadau ar gyfer bywyd gwyllt a phobl fel ei gilydd. Noda'r adroddiad yn ddiamwys y gallai newid yn yr hinsawdd gael effeithiau difrifol a phellgyrhaeddol ar yr amgylchedd naturiol, yn ogystal ag ar ein sectorau amaeth a choedwigaeth. Weinidog, o gofio y methodd eich Llywodraeth â chyrraedd targedau 2010 ar atal colli bioamrywiaeth, a wnewch chi ein sicrhau y byddwch yn mynd i'r afael yn llawn â'r goblygiadau difrifol i amgylchedd naturiol Cymru a amlinellir yn yr adroddiad wrth i'r Llywodraeth ddatblygu ei fframwaith amgylcheddol newydd? Gan fod yn rhaid inni liniaru effeithiau ein gweithredoedd yn awr er mwyn lleihau'r effaith hirdymor ar natur ac ecosystemau, a wnewch chi ymrwymo hefyd i gyfeirio'r adroddiad at Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, sy'n annibynnol, a'i is-grŵp newid yn yr hinsawdd a defnydd tir, gan ofyn iddynt ei ystyried? O ran amddiffynfeydd rhag llifogydd, mae mater allweddol yn codi yn sgîl adroddiad Cymdeithas Yswirwyr Prydain heddiw. Er bod cyfrifoldeb cyffredinol am ariannu yn gorfod perthyn i'r Llywodraeth, sut ydych yn credu y dylem fynd ati o ran rhannu risg gydag awdurdodau lleol a chartrefi a busnesau unigol? A ydych yn hyderus bod digon o adnoddau gan y Llywodraeth i liniaru'r effaith yn yr ardaloedd a allai gael eu heffeithio waethaf, fel Dyffryn Clwyd?

**John Griffiths:** I thank Russell George for that contribution and those questions. Water availability is a big issue when we look at projected climate change. In Wales, we are fortunate, in many ways, to have a good water resource. However, we want to ensure that it is managed and developed properly for the future. There are major challenges with that. Our natural environment framework will

**John Griffiths:** Diolch i Russell George am ei gyfraniad a'i gwestiynau. Mae argaeledd dŵr yn broblem fawr pan edrychwn ar y newid yn yr hinsawdd a ragwelir. Yng Nghymru, rydym yn ffodus, mewn sawl ffordd, i gael adnoddau dŵr da. Fodd bynnag, rydym am sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u datblygu yn briodol ar gyfer y dyfodol. Mae heriau mawr yn hynny. Bydd ein

be an important part of addressing those challenges, and the introduction of the single environment body will also be an important development. Those developments go together effectively in terms of looking at these challenges and meeting them. I am keen for our commission and commissioner Peter Davies to look at the findings of this risk assessment. I know that he is also keen to do that, and I expect our future response to these challenges to be guided, as is everything else around climate change and sustainable development, by our commission and commissioner. That is why we created them following the demise of the UK body.

fframwaith ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn rhan bwysig o'r broses o fynd i'r afael â'r heriau hynny, a bydd sefydlu'r corff amgylcheddol unigol hefyd yn ddatblygiad pwysig. Mae'r datblygiadau hynny'n cydfynd yn effeithiol o ran edrych ar yr heriau hyn a'u cwrdd. Rwy'n awyddus i'n comisiwn a'r comisiynydd Peter Davies edrych ar ganfyddiadau'r asesiad risg hwn. Rwy'n gwybod ei fod ef hefyd yn awyddus i wneud hynny, a disgwyliaf y bydd ein hymateb yn y dyfodol i'r heriau hyn yn cael eu harwain, fel y mae popeth arall o gwmpas newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy, gan ein comisiwn a chomisiynydd. Dyna pam y gwnaethom eu creu yn dilyn diddymu'r corff ar gyfer y DU.

Our national strategy on flooding was launched at the end of last year and that sets out the way forward to address all of the issues around flooding, including managing the risks, communicating effectively with communities, businesses and others, and ensuring that there is awareness and appropriate action. Our adaptation plan for climate change is also highly significant in terms of the actions that we will take. There are questions with regard to the insurance industry, and we intend to address them along with other UK administrations, because they are very important for individuals and businesses.

Lansiwyd ein strategaeth genedlaethol ar lifogydd ddiwedd y llynedd, ac mae'n nodi'r ffordd ymlaen wrth fynd i'r afael â phob mater sy'n ymwneud â llifogydd, gan gynnwys rheoli'r risgiau, cyfathrebu'n effeithiol gyda chymunedau, busnesau ac eraill, a sicrhau ymwybyddiaeth a chamau priodol. Mae ein cynllun addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd hefyd yn arwyddocaol iawn o ran y camau y byddwn yn eu cymryd. Mae cwestiynau o ran y diwydiant yswiriant, ac rydym, ynghyd â Llywodraethau eraill y DU, yn bwriadu mynd i'r afael â hwy, oherwydd eu bod yn bwysig iawn i unigolion a busnesau.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Hoffwn ofyn yn arbennig, yn dilyn yr adroddiad hwn, am frawddeg yn y datganiad sydd yn sôn am y gwaith sydd ar y gweill i integreiddio newid hinsawdd i mewn i fframwaith yr amgylchedd naturiol, a gyhoeddwyd ar ffurf Papur Gwyrdd ddoe ac sydd yn parhau i fod yn waith sy'n datblygu. Mae'n fy nharo ei fod yn hanfodol ein bod yn gallu defnyddio'r fframweithiau rydym yn eu sefydlu o safbwynt delio â'r amgylchedd yn weithredol ac yn bositif a'u cymhathu gyda'r effeithiau negyddol newid hinsawdd. Mae cyfle gwych yn y fan hon i integreiddio, os yw'r Gweinidog yn cytuno, gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â risg llifogydd—gwaith rwyf wedi ei weld yn ymarferol yn Nwyfor Meirionnydd mewn ardaloedd fel Pwllheli—gyda gwaith mwy eang ar natur, cefn gwlad ac ar weld gwerth gwasanaethau ecosystemaidd yn yr ystyr ehangaf. Os

**Lord Elis-Thomas:** I would like to ask in particular, following this report, about a sentence in the statement that talks about the work that is in the pipeline to integrate climate change into the natural environment framework, which was published in the form of a Green Paper yesterday and which continues to be a work in progress. It seems to me that it is crucial that we are able to use the frameworks that we are establishing to deal with the environment in an active and positive way and assimilate them with the negative impacts of climate change. There is an excellent opportunity here to integrate, if the Minister agrees, the work of the Environment Agency on flood risk—work that I have seen in practice in Dwyfor Meirionnydd in areas such as Pwllheli—with broader work on nature, rural areas and on seeing the value of ecosystem services in the broadest sense. If we can get this new body to

gallwn gael y corff newydd hwn i gymryd at y risgiau hynny, mae modd iddo ddatblygu yn gorff a fydd yn gallu delio ag agweddau negyddol newid hinsawdd yn ogystal â'r agweddau positif. A yw'r Gweinidog yn cytuno?

take on those risks, it could develop into a body that will be able to deal with the negative aspects of climate change as well as the positive aspects. Does the Minister agree?

**John Griffiths:** I am pleased to say that I agree entirely with Dafydd Elis-Thomas on that. The natural environment framework is all about integration, ecosystem services and understanding everything that goes with that. It brings major opportunities for joining up Government and all our key partners, and the single environment body, similarly, is about moving in that direction of integration and joining up. Bringing the three organisations together will allow that work around flood risk that the Environment Agency carries out to be integrated with the wider biodiversity work and natural environment work done by the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission in Wales. By bringing the two developments together, that is, the natural environment framework and the single environment body, there is great potential to make much progress on these important matters.

**John Griffiths:** Rwy'n falch o ddweud fy mod yn cytuno yn llwyr â Dafydd Elis-Thomas ar hynny. Mae fframwaith yr amgylchedd naturiol yn ymwneud ag integreiddio, gwasanaethau ecosystemau a dealltwriaeth o bopeth o amgylch hynny. Mae'n dod â chyfleoedd mawr i gydgysylltu'r Llywodraeth a'n holl bartneriaid allweddol, ac mae'r corff amgylcheddol unigol, yn yr un modd, yn ymwneud â symud i'r cyfeiriad hwnnw o integreiddio a chydgysylltu. Bydd dod â'r tri sefydliad at ei gilydd yn caniatáu i waith Asiantaeth yr Amgylchedd ar berygl llifogydd gael ei integreiddio gyda'r gwaith bioamrywiaeth ehangach a'r gwaith ar yr amgylchedd naturiol a wneir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Drwy ddwyn y ddau ddatblygiad ynghyd, sef fframwaith yr amgylchedd naturiol a'r corff amgylcheddol unigol, mae potensial mawr i wneud llawer o gynnydd ar y materion pwysig hyn.

**William Powell:** Minister, thank you once again for making this statement on the important risk assessment that has just been published. It outlines, as you have said, the serious threats that both humans and the natural environment face from climate change during our century. I welcome the fact that such a report exists in Wales so that we can build a genuine cross-party approach again to this issue and tackle the issues that threaten our very future. As we all understand, the undeniable realities of climate change are compounding long-standing threats to the natural world, and that creates knock-on effects for our health and wellbeing. That means that it is essential that we ensure that any new environmental framework delivers for our future, for our needs and the needs of biodiversity. As the assessment highlights, we face a number of barriers. These barriers further raise the need for enhanced environmental management of the wider countryside, and they also highlight the importance of programmes such as the

**William Powell:** Weinidog, diolch ichi unwaith eto am wneud y datganiad hwn ar yr asesiad risg pwysig sydd newydd gael ei gyhoeddi. Fel y gwnaethoch ddweud, mae'n amlinellu'r bygythiadau difrifol y mae pobl a'r amgylchedd naturiol yn eu hwynebu yn sgîl newid yn yr hinsawdd yn ystod ein canrif. Rwy'n croesawu'r ffaith bod adroddiad o'r fath yn bodoli yng Nghymru, fel y gallwn feithrin agwedd wirioneddol drawsbleidiol unwaith eto at y mater hwn a mynd i'r afael â'r materion sy'n bygwth ein dyfodol. Fel rydym i gyd yn deall, mae realiti diamheuol newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu bygythiadau sydd wedi bodoli ers tro i'r byd naturiol, gan greu sgîl-effeithiau o ran ein hiechyd a'n lles. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau y bydd fframwaith amgylcheddol newydd yn darparu ar gyfer ein dyfodol, ein hanghenion ac anghenion bioamrywiaeth. Fel mae'r asesiad yn dangos yn glir, rydym yn wynebu nifer o rwystrau. Mae'r rhwystrau hyn yn cynyddu'r angen am well reolaeth amgylcheddol o gefn

common agricultural policy—both pillar 1 and pillar 2 activities—for our sustainable future. The Welsh Government must continue to work hard to engage with stakeholders to secure that future.

gwlad, ac maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhaglenni fel y polisi amaethyddol cyffredin—gweithgareddau piler 1 a 2 fel ei gilydd—ar gyfer ein dyfodol cynaliadwy. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio'n galed i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau'r dyfodol hwnnw.

I have a number of specific questions about the assessment. First, the alarming predictions contained in the report give us cause for real concern. Will the Minister be bringing elements of that assessment to the attention of his Cabinet colleagues so that they can continue to assess and review impacts in their areas of service delivery?

Mae gennyf sawl cwestiwn penodol am yr asesiad. Yn gyntaf, mae'r proffwydoliaethau brawychus a gynhwysir yn yr adroddiad yn achosi pryder go iawn. A wnaiff y Gweinidog dynnu elfennau o'r asesiad hwnnw at sylw ei gyd-Weinidogion yn y Cabinet er mwyn iddynt barhau i asesu ac adolygu effeithiau yn eu meysydd darparu gwasanaethau hwy o?

Secondly, while acknowledging the advances that have been made in local flooding schemes and sea defences—I am thinking in particular of examples that I visited recently in Borth, and I am aware of examples in Welshpool and in my own immediate locality of Talgarth—we nonetheless need to build on that and to try to identify additional sources of funding to really develop a strategy to take this forward more urgently than has hitherto been the case.

Yn ail, er fy mod yn cydnabod y datblygiadau a wnaed mewn cynlluniau llifogydd lleol ac amddiffynfeydd môr—rwy'n meddwl yn arbennig am enghreifftiau yr ymwelais â hwy yn ddiweddar yn y Borth, ac rwy'n ymwybodol o enghreifftiau yn y Trallwng ac yn fy milltir sgwâr i yn Nhalgarth—serch hynny, mae angen inni adeiladu ar hynny a cheisio canfod ffynonellau ychwanegol o arian er mwyn gallu datblygu strategaeth i fwrw ymlaen â hyn gyda mwy o frys nag sydd wedi digwydd hyd yn hyn.

Thirdly, will the Minister please make a commitment to undertake a study of the heightened fire risk that may arise from increasing mean summer temperatures? That has implications not only for community safety, but for potential biodiversity loss.

Yn drydydd, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i gynnal astudiaeth o'r risg uwch o dân a allai ddigwydd yn sgîl cynnydd yn nhymheredd cymedrig yr haf? Mae gan hynny oblygiadau nid yn unig ar gyfer diogelwch cymunedol, ond ar gyfer colli bioamrywiaeth.

Finally, will the Minister assure us that he is in regular contact with the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, given the close working necessary to ensure that these matters are dealt with in the revised Glastir proposals?

Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog ein sicrhau ei fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o ystyried yr angen am weithio agos i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hymdrin â hwy yn y cynigion diwygiedig ar gyfer Glastir?

**John Griffiths:** I thank William Powell for that contribution and those questions. It is very important that we work across Government on climate change risks, and that is very much what we do in terms of having sustainable development as the central

**John Griffiths:** Diolch i William Powell am y cyfraniad hwnnw a'r cwestiynau hynny. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio ar draws y Llywodraeth ar beryglon newid yn yr hinsawdd, a dyna'r hyn yr ydym yn ei wneud drwy wneud datblygu cynaliadwy yn brif

organising principle for the Welsh Government. So, I will indeed be discussing the risk assessment with ministerial colleagues, particularly in relation to matters that are within their responsibilities.

egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru. Felly, byddaf yn trafod yr asesiad risg gyda'm cyd-Weinidogion, yn enwedig mewn perthynas â'r materion y maent yn gyfrifol amdanynt.

When it comes to flood risk, William Powell is absolutely right to say that we have to build on the work that we have already done to improve our defences. We have £100 million available at the moment, £50 million of which is European funding. We are therefore ensuring that we lever in moneys in addition to Welsh Government capital to tackle the scale of the challenge. However, we are always looking to add to that funding and to that work, and we recently had central provision from the Minister for finance to enable further work to be carried out. We are always striving to increase that investment and to build those defences. The flood risk strategy that I launched at the end of last year is very much about that, and about much else besides, with regard to communities and businesses understanding the risks of flooding and what they can do for themselves to adapt and to manage the risks involved.

O ran risg llifogydd, mae William Powell yn hollol gywir i ddweud bod yn rhaid inni adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud eisoes i wella ein hamddiffynfeydd. Mae gennym £100 miliwn ar gael ar hyn o bryd, ac arian Ewropeaidd yw £50 miliwn ohono. Rydym felly yn sicrhau ein bod yn denu arian yn ogystal â chyfalaf Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â maint yr her. Fodd bynnag, rydym bob amser yn ceisio ychwanegu at y cyllid hwnnw a'r gwaith hwnnw, a chawsom ddarpariaeth ganolog gan y Gweinidog cyllid yn ddiweddar er mwyn galluogi gwneud gwaith pellach. Rydym bob amser yn ymdrechu i gynyddu'r buddsoddiad hwnnw ac i adeiladu'r amddiffynfeydd hynny. Mae'r strategaeth peryglon llifogydd a lansiais ddiwedd y llynedd yn ymwneud yn fawr iawn â hynny, a llawer o bethau yn ychwanegol, mewn perthynas â dealltwriaeth cymunedau a busnesau o beryglon llifogydd a'r hyn y gallant ei wneud drostynt eu hunain i addasu a rheoli'r risgiau o dan sylw.

I would be very happy to take up the issues relating to fire risk highlighted by the Member. Finally, I confirm that, in meeting ministerial colleagues, as I mentioned earlier, I meet regularly with Alun Davies, given the overlap between our responsibilities. We will discuss these issues, among much else.

Buaswn yn hapus iawn i ystyried y materion sy'n ymwneud â pheryglon tân y tynnodd yr Aelod sylw atynt. Yn olaf, rwy'n cadarnhau, wrth gyfarfod â chyd-Weinidogion, fel y soniais yn gynharach, fy mod yn cwrdd yn rheolaidd ag Alun Davies, o ystyried bod ein cyfrifoldebau yn gorgyffwrdd. Byddwn yn trafod y materion hyn, ymysg llawer o bethau eraill.

**Rebecca Evans:** Thank you for your statement today, Minister. The climate change risk assessment certainly provides challenging and concerning reading. It hammers home the magnitude of the threat that climate change presents us with in powerful and detailed terms. It is too important a document, in my view, to sit on a shelf. So, my first question is: what next for the document? The report is essential reading for anyone with an interest in the future of the natural environment, agriculture, industry, business, buildings, infrastructure and health and wellbeing in Wales. How have you been raising awareness of this report and

**Rebecca Evans:** Diolch ichi am eich datganiad heddiw, Weinidog. Mae darllen yr asesiad risg ar newid yn yr hinsawdd yn sicr yn brofiad heriol ac yn achosi pryder. Mae'n cyfleu yn glir cymaint yw maint bygythiad newid yn yr hinsawdd inni mewn termau pwerus a manwl. Mae'n ddogfen rhy bwysig, yn fy marn i, i eistedd ar silff. Felly, fy nghwestiwn cyntaf yw: beth yw'r cam nesaf ar gyfer y ddogfen hon? Dylai unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol yr amgylchedd naturiol, amaethyddiaeth, diwydiant, busnes, adeiladau, isadeiledd, iechyd a lles yng Nghymru ddarllen yr

engaging interested parties with it? Are there Government policies or guidance that you think will need to be reviewed in the light of this report?

adroddiad. Sut y buoch yn codi ymwybyddiaeth o'r adroddiad hwn ac yn ymgysylltu pobl sydd â diddordeb â'r adroddiad? A oes gan y Llywodraeth bolisïau neu ganllawiau y credwch y bydd angen eu hadolygu yn sgîl cyhoeddi'r adroddiad hwn?

4.15 p.m.

The report is quite upfront in its acknowledgement that there are some big gaps in the available evidence. Some of this is already being addressed by academics internationally or at a UK level, such as understanding the effects of ocean certification on species and ecosystems, or understanding the potential impact of climate change on the financial sector. How is the Welsh Government monitoring and engaging with UK or international research in this field with a view to developing policy for Wales?

Mae'r adroddiad yn cydnabod yn eithaf agored fod rhai bylchau mawr yn y dystiolaeth sydd ar gael. Mae rhywfaint o hyn eisoes yn cael sylw gan academyddion rhyngwladol neu ar lefel y DU, fel datblygu dealltwriaeth o effeithiau ardystio morol ar rywogaethau ac ecosystemau, neu effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar y sector ariannol. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro gwaith ymchwil rhyngwladol neu ar lefel y DU yn y maes hwn, ac yn ymgysylltu ag ef, gyda'r bwriad o ddatblygu polisi ar gyfer Cymru?

Other gaps in knowledge identified in the report can only be addressed at Wales level, and these include the risks floods pose to health centres, floods and erosion pose to Welsh heritage sites, and the potential for coastal erosion to disrupt transport links. What are your plans to address the long list of specific gaps in knowledge that have been identified in the report? How are you prioritising this work? How are you working alongside the third sector to address the gaps? How are you leading and co-ordinating the work of the statutory agencies so that we can plug these gaps in knowledge before the report is revised again in 2017?

Dim ond ar lefel Cymru y gall y bylchau eraill mewn gwybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad gael sylw, ac mae'r rhain yn cynnwys y peryglon y mae llifogydd yn eu peri i ganolfannau iechyd; y peryglon y mae llifogydd ac erydiad yn peri i safleoedd treftadaeth Cymru; a photensial erydu arfordirol i amharu ar gysylltiadau trafnidiaeth. Beth yw eich cynlluniau i fynd i'r afael â'r rhestr hir o fylchau penodol mewn gwybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad? Sut ydych chi'n blaenoriaethu'r gwaith hwn? Sut ydych chi'n gweithio ochr yn ochr â'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r bylchau mewn gwybodaeth? Sut ydych chi'n arwain a chydlynu gwaith yr asiantaethau statudol er mwyn inni lenwi'r bylchau hyn mewn gwybodaeth cyn i'r adroddiad gael ei adolygu eto yn 2017?

The report does not view climate change risks in the international context, but there are international risks that cannot be ignored. It is acknowledged that the effects of climate change have already played a part in causing civil unrest and war in some countries and the conflict in Darfour provides us with one example that began as an ecological crisis. What consideration is the Government giving to the potential impact on Wales of civil

Nid yw'r adroddiad yn edrych ar beryglon newid yn yr hinsawdd yn y cyd-destun rhyngwladol, ond mae risgiau rhyngwladol na ellir eu hanwybyddu. Cydnabyddir bod effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes wedi chwarae rhan mewn achosi aflonyddwch sifil a rhyfeloedd mewn rhai gwledydd ac mae'r gwrthdaro yn Darfour yn un enghraifft o sefyllfa a ddechreuodd fel argyfwng ecolegol. Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi

unrest in other countries on things like oil prices and supply chains for industry, or access to raw materials that can only be sourced in certain parts of the world?

i effaith bosibl aflonyddwch sifil mewn gwledydd eraill ar Gymru o ran materion fel prisiau olew a chadwyni cyflenwi ar gyfer diwydiant, neu fynediad at ddeunyddiau crai y gellir dim ond cael gafael arnynt mewn rhai rhannau o'r byd?

**John Griffiths:** I thank Rebecca Evans for those questions and comments, which touch on some very important issues. The first thing to say is that, in many areas, we are already working to manage and reduce the impacts identified in this risk assessment, and that will stand us in good stead in taking forward further work. I will formally respond to the findings in our annual climate change report to the National Assembly for Wales in March of this year, and that will be a good opportunity for Members to make further points and for us to have further dialogue. However, we will also be using the evidence from this risk assessment in any event to inform our revision of our adaptation delivery plan actions on climate change. That is very much about increasing Wales's resilience to a change in climate, which touches on many of the matters that the Member mentioned.

**John Griffiths:** Diolchaf i Rebecca Evans am ei chwestiynau a'i sylwadau, sy'n cyffwrdd ar rai materion pwysig iawn. Y peth cyntaf y dylwn ei ddweud yw ein bod, mewn sawl ardal, eisoes yn gweithio i reoli a lleihau'r effeithiau a nodwyd yn yr asesiad risg, a bydd hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa dda wrth inni ymgymryd â gwaith pellach. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'r canfyddiadau yn ein hadroddiad blynyddol ar newid yn yr hinsawdd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth eleni. Bydd yn gyfle da i Aelodau wneud pwyntiau pellach ac inni gael trafodaeth bellach. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn defnyddio'r dystiolaeth o'r asesiad risg i lywio ein gwaith o ddiwygio'r camau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn ein cynllun cyflawni ar gyfer ymaddasu. Mae hynny'n ymwneud â chynyddu gallu Cymru i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, sy'n cyffwrdd ar lawer o'r materion a grybwyllwyd gan yr Aelod.

It is also important that further research and work goes on locally and regionally in Wales among some of our key partners to ensure that they, too, contribute to understanding the risks and taking forward necessary actions. Alongside some of our partners around the CCRA we are working on an economic analysis that will estimate the price tag, as it were, of adaptation overall, and outline further options for adapting to the most pressing risks. So, there is a lot of work going on. The methodology developed by this risk assessment puts the UK at the forefront of international thinking around research and work on risk from climate change. We will look internationally, but the work that is going on the UK is an important part of the world picture, as is the work going on in Wales. Rebecca Evans mentioned that academia in Wales has some significant strengths as well. We will look at what is happening internationally, but we will make sure that we contribute significantly from a UK and Wales level as well.

Mae hefyd yn bwysig bod gwaith ymchwil pellach yn digwydd yn lleol ac yn rhanbarthol yng Nghymru ymysg rhai o'n partneriaid allweddol er mwyn sicrhau eu bod hwy, hefyd, yn cyfrannu at ddeall y risgiau ac yn mynd â'r camau gweithredu angenrheidiol yn eu blaenau. Ochr yn ochr â rhai o'n partneriaid sy'n gysylltiedig â'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, rydym yn gweithio ar ddadansoddiad economaidd a fydd yn amcangyfrif cyfanswm y pris o addasu, ac yn amlinellu opsiynau pellach ar gyfer addasu'r risgiau pennaf. Felly, mae llawer o waith yn mynd rhagddo. Mae'r fethodoleg a ddatblygwyd gan yr asesiad risg yn gosod y DU ar flaen y gad o ran ystyriaeth ryngwladol o waith ymchwil a gwaith ar risgiau newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn edrych ar y lefel ryngwladol, ond mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y DU yn rhan bwysig o'r darlun byd-eang, ac mae'r un peth yn wir o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru. Dywedodd Rebecca Evans fod gan y byd academaidd yng Nghymru rai cryfderau sylweddol hefyd. Byddwn yn

edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar y lefel ryngwladol, ond byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfrannu yn sylweddol o lefel y DU a Chymru hefyd.

**Antoinette Sandbach:** Thank you for publishing this risk assessment, which highlights the many dangers as well as opportunities that we face in respect of climate change in Wales. Flooding, of course, represents the most immediate risk to most communities, with one in every six properties directly at risk in one way or another and many more that could be affected as a result of damage to critical energy and transport infrastructure. It is therefore welcome news that you are levering in further funds from Europe and looking at those issues.

**Antoinette Sandbach:** Diolch ichi am gyhoeddi'r asesiad risg hwn, sy'n tynnu sylw at y peryglon niferus yn ogystal â'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae llifogydd, wrth gwrs, yn cynrychioli'r risg mwyaf enbyd i'r rhan fwyaf o gymunedau, gydag un o bob chwe eiddo yn wynebu perygl uniongyrchol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ac mae llawer mwy o eiddo y gallai difrod i seilwaith ynni a thrafnidiaeth hanfodol effeithio arnynt. Felly, mae'n newyddion i'w groesawu eich bod yn denu rhagor o arian o Ewrop ac yn edrych ar y materion hynny.

Wales does not exist in isolation, and there is every likelihood that other areas of the UK will also face serious pressures on their water supplies in the decades ahead. Will you provide an update on the discussions that you and your officials have had with your UK counterparts, particularly given past controversial developments in Wales, as these are issues that should be in the public domain and should be subject to a full public debate in the Assembly?

Nid yw Cymru'n bodoli ar wahân, ac mae'n debygol iawn y bydd ardaloedd eraill yn y DU hefyd yn wynebu pwysau difrifol ar eu cyflenwadau dŵr yn y degawdau i ddod. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'u cael gyda'ch cymheiriaid yn y DU, yn enwedig o ystyried datblygiadau dadleuol yng Nghymru yn y gorffennol, gan eu bod yn faterion a ddylai fod yn gyhoeddus, ac a ddylai fod yn destun trafodaeth gyhoeddus lawn yn y Cynulliad?

The risk assessment also highlights the implications for agriculture in terms of grassland productivity, as well as the growing risk of flooding. Can you provide confirmation that the findings of this risk assessment will be used to inform the Glastir agri-environment scheme in order to ensure that works to improve farmland habitats and forestry planting adequately take account of the consequences of a changing climate in the decades ahead, and that the most is made of every opportunity to mitigate dangers, particularly those that arise from flash flooding?

Mae'r asesiad risg hefyd yn tynnu sylw at y goblygiadau ar gyfer amaethyddiaeth yn nhermau cynhyrchiant glaswelltir, yn ogystal â'r perygl cynyddol o lifogydd. Allwch chi gynnig cadarnhad y bydd canfyddiadau'r asesiad risg hwn yn cael eu defnyddio i lywio'r cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir er mwyn sicrhau bod y gwaith i wella cynefinoedd tir ffermio a phlannu coedwigoedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ganlyniadau newid yn yr hinsawdd yn y degawdau i ddod, a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o bob cyfle i osgoi peryglon, yn enwedig y rhai sy'n deillio o lifogydd sydyn?

Finally, the risk assessment highlights the threat of new pests and diseases, which is something that the rural community is already familiar with as a result of incidents of bluetongue, the Schmallenberg virus as

Yn olaf, mae'r asesiad risg yn tynnu sylw at y bygythiad o blâu a chlefydau newydd, sy'n rhywbeth y mae'r gymuned wledig eisoes yn gyfarwydd ag ef o ganlyniad i achosion o'r tafod glas, y firws Schmallenberg yn ogystal

well as the Phytophthora ramorum disease in woodland. Will you confirm what changes your Government will be making to its policies to eradicate invasive, non-native species and monitor threats to animal and plant health as a result of these findings?

â'r clefyd Phytophthora ramorum mewn coetir. A wnewch chi gadarnhau pa newidiadau y bydd eich Llywodraeth yn eu gwneud i'w pholisïau i ddileu rhywogaethau ymledol, anfrodorol a monitro bygythiadau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn?

**John Griffiths:** I thank Antoinette Sandbach for those comments. It is obviously very important, as I mentioned earlier, that I discuss the findings of this risk assessment with all ministerial colleagues, and those discussions will touch on all of the risks raised in the assessment, which will include pests and plant diseases, water policy, and the agri-environment schemes. I recognise the importance of all of those. I said earlier that we are very fortunate in Wales to have a very good water resource, but we have to understand the projections in terms of maintaining those advantages.

**John Griffiths:** Diolchaf i Antoinette Sandbach am ei sylwadau. Mae'n amlwg yn bwysig iawn, fel y soniais yn gynharach, fy mod yn trafod canfyddiadau'r asesiad risg hwn â phob un o fy nghyd-Weinidogion, a bydd y trafodaethau hynny'n cyffwrdd ar bob un o'r risgiau a godwyd yn yr asesiad, a fydd yn cynnwys plâu a chlefydau planhigion, polisi dŵr a'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw pob un ohonynt. Dywedais yn gynharach ein bod yn ffodus iawn yng Nghymru i gael adnoddau dŵr da iawn, ond mae'n rhaid inni ddeall y rhagamcanion o ran cynnal y manteision hynny.

A lot of work has been done by the water companies in Wales to prepare for the impact of climate change. Water companies are required to prepare water resource management plans that look 25 years ahead and show how they intend to secure that sustainable balance between supply and demand, factoring in the effects of climate change. We have a position statement on water policy and we are consulting to inform a strategic policy direction for water policy in Wales, which will look at the advantages that we have. Water will become an increasingly valuable resource and the policy will consider how Wales can maximise the value derived from that resource.

Mae llawer o waith wedi ei wneud gan y cwmnïau dwr yng Nghymru i baratoi ar gyfer effaith newid yn yr hinsawdd. Mae'n ofynnol bod cwmnïau dŵr yn paratoi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr sy'n edrych 25 mlynedd i'r dyfodol ac yn dangos sut y maent yn bwriadu sicrhau bod cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw, gan roi ystyriaeth i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gennym ddatganiad sefyllfa ar bolisi dŵr ac rydym yn ymgynghori i lywio cyfeiriad polisi strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru, a fydd yn edrych ar y manteision sydd gennym. Bydd dŵr yn dod yn adnodd cynyddol werthfawr a bydd y polisi yn ystyried sut y gall Cymru wneud y gorau o'r gwerth sy'n deillio o'r adnodd hwnnw.

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Fil y DU ynghylch Diogelu Rhyddidau
## Legislative Consent Motion on the Protection of Freedoms Bill

*Cynnig NDM4854 Carwyn Jones*

*Motion NDM4854 Carwyn Jones*

*Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt yn NDM4680, y darpariaethau pellach hynny a ddygwyd gerbron yn Bil y DU ynghylch*

*That the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that, in addition to the provisions referred to in motion NDM4680, those further provisions which have been brought forward in the Protection of Freedoms Bill relating to*

*Diogelu Rhyddidau sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth a diogelu data, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*freedom of information and data protection, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The First Minister:** I move the motion.

**Y Prif Weinidog:** Cynigiaf y cynnig.

I would like to begin by thanking the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering this issue and reporting on it in advance of today's debate. The supplementary motion is required because of the UK Government's amendments to clause 100 of the Protection of Freedoms Bill. Clause 100 seeks to amend the Freedom of Information Act 2000 by requiring public authorities to release data sets in an electronic, reusable format and also to proactively publish data sets in certain circumstances. The particular provisions giving rise to this motion are concerned with the specific issue of charging, and the amendments preserve any existing statutory powers that public authorities have to charge for making copyright works available for reuse, and they set out the procedures that are to be followed in such circumstances.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y mater hwn ac adrodd arno cyn y ddadl heddiw. Mae'r cynnig atodol yn ofynnol oherwydd gwelliannau Llywodraeth y DU i gymal 100 o'r Bil Amddiffyn Rhyddid. Mae cymal 100 yn ceisio diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ryddhau setiau data mewn fformat electronig y gellir ei ailddefnyddio a hefyd i gyhoeddi'r setiau data yn rhagweithiol o dan rhai amgylchiadau. Mae'r darpariaethau arbennig sy'n arwain at y cynnig hwn yn ymwneud â'r mater penodol o godi tâl, ac mae'r gwelliannau'n cadw unrhyw bwerau statudol presennol sydd gan awdurdodau cyhoeddus i godi tâl am sicrhau bod gwaith hawlfraint ar gael i'w ailddefnyddio, ac maent yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn o dan amgylchiadau o'r fath.

In accordance with Part 4 and Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, the Assembly has now acquired legislative competence in the subject area of access to information. It is considered that the UK Government amendments fall within the legislative competence of the Assembly and therefore must be the subject of a legislative consent motion if they are to proceed. The amendments are necessary and sensible in order to ensure that important funding streams for Welsh public authorities are preserved. Without these amendments, the Bill will eliminate the possibility of public authorities being able to charge for any data sets.

Yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi, mae'r Cynulliad bellach wedi cael cymhwysedd deddfwriaethol ym maes pwnc mynediad at wybodaeth. Ystyrir bod gwelliannau Llywodraeth y DU yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac felly rhaid iddynt fod yn destun cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyn y gellir symud ymlaen â hwy. Mae'r gwelliannau'n angenrheidiol ac yn synhwyrol er mwyn sicrhau bod ffrydiau ariannu pwysig ar gyfer awdurdodau cyhoeddus Cymru yn cael eu cadw. Heb y gwelliannau hyn, bydd y Bil yn cael gwared ar y posibilrwydd o roi'r gallu i awdurdodau cyhoeddus godi tâl am unrhyw setiau data.

There are considerable advantages in dealing with these provisions in a UK Bill, as it represents the most appropriate and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in Wales at the earliest possible opportunity. There are currently no plans to introduce a Welsh Bill

Mae manteision sylweddol wrth ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil y DU, gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i'w gwneud yn bosibl i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys yng Nghymru ar y cyfle cyntaf posibl. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i

relating to access to information matters. As the UK Government amendments deal with the specific issue of charging, it is sensible that the issue is dealt with in the same Bill that sets out the actual duties to which the charging provisions relate. Therefore, the motion is placed before the Assembly for approval.

gyflwyno Bil yng Nghymru sy'n ymwneud â mynediad at wybodaeth. Gan fod gwelliannau Llywodraeth y DU yn ymdrin â'r mater penodol o godi tâl, mae'n synhwyrol i ymdrin â'r mater yn y Bil sy'n nodi'r dyletswyddau y mae'r darpariaethau codi tâl yn berthnasol iddynt. Felly, gosodir y cynnig gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2012
## The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions) Order 2012

*Cynnig NDM4901 Carl Sargeant*

*Motion NDM4901 Carl Sargeant*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau etc) 2012 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2012.*

*Agrees that the Secretary of State should make The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions, Etc.) Order 2012, in accordance with the draft laid in Table Office on 24 January 2012.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

**Janet Finch-Saunders:** I welcome the Minister's mention of the Order. The UK Government has set localism, efficiency and the improvement of the regulatory regime at the centre of its programme for Government, and we welcome this Order.

**Janet Finch-Saunders:** Rwy'n croesawu'r ffaith i'r Gweinidog sôn am y Gorchymyn. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod lleoliaeth, effeithlonrwydd a gwella'r gyfundrefn reoleiddio wrth wraidd ei rhaglen llywodraethu, ac rydym yn croesawu'r Gorchymyn hwn.

In the case of the Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions, Etc.) Order 2011, the current situation arguably fails to conform to these key principles, and might be considered as a cumbersome and unaccountable body that

Yn achos Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2011, gellid dadlau bod y sefyllfa bresennol yn methu â chydymffurfio â'r egwyddorion allweddol hyn, a gellid ystyried y corff i fod yn un beichus ac

stifles rather than promotes business and economic growth. Transferring the powers of this faceless and unaccountable bureaucratic body back into the hands of democratically elected figures is something that we should welcome in this case.

anatebol, sy'n atal yn hytrach nag yn hyrwyddo busnes a thwf economaidd. Mae trosglwyddo pwerau'r corff di-wyneb ac anatebol hwn i ddwylo corff biwrocrataidd a etholwyd yn ddemocrataidd yn rhywbeth y dylem ei groesawu yn yr achos hwn.

The transfer of the powers to Ministers as outlined in the Order, if used well, should help to improve Wales's regulatory regime. Taking the economy as our overall priority, the Order can be used to make regulation more focused on supporting economic growth, and less focused on perpetuating the culture of tick-box regulation.

Dylai'r broses o drosglwyddo pwerau i Weinidogion fel yr amlinellir yn y Gorchymyn, os caiff ei defnyddio'n dda, helpu i wella cyfundrefn reoleiddio Cymru. Gan gymryd yr economi fel ein prif flaenoriaeth, gellir defnyddio'r Gorchymyn i sicrhau bod y broses reoleiddio yn canolbwyntio mwy ar gefnogi twf economaidd, ac yn canolbwyntio llai ar sicrhau parhad y diwylliant o reoleiddio drwy dicio blychau.

The outcome of the public consultation on the Order showed stakeholders to be broadly in support, and reflected the fact that the proposals are generally about a change in organisational status and arrangement, rather than a wholesale overhaul of policy. I trust that the Minister will work collaboratively with the UK Government to ensure the effective transfer of these powers and a smooth transition to the new regulatory and enforcement framework. In that regard, he has my full support. Above all, the Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions, Etc.) Order 2012 is a positive and sensible move and for these reasons we should welcome this Order. I call upon my fellow Members to support the motion.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gorchymyn yn dangos bod rhanddeiliaid yn ei gefnogi yn gyffredinol, ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y cynigion yn ymwneud yn gyffredinol â newid mewn trefniant a statws sefydliadol, yn hytrach nag ailwampio polisi yn gyfan gwbl. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol a bod y broses o newid i'r fframwaith rheoleiddio a gorfodi newydd yn digwydd yn ddidrafferth. Yn hynny o beth, rwy'n ei gefnogi'n llawn. Yn fwy na dim, mae Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2012 yn gam cadarnhaol a synhwyrol ac am y rhesymau hyn dylem groesawu'r Gorchymyn hwn. Rwy'n galw ar fy nghyd-Aelodau i gefnogi'r cynnig.

**Carl Sargeant:** I welcome the Member's contribution and I thank her for the support.

**Carl Sargeant:** Rwy'n croesawu cyfraniad yr Aelod a hoffwn ddiolch iddi am ei chefnogaeth.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol
## The National Transport Plan

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham, amendments 3 and 4 in the name of Jocelyn Davies and amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham, gwelliannau 3 a 4 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

*NDM4902 Jane Hutt*

*NDM4902 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol sydd wedi'i flaenoriaethu. Yn y cynllun hwn ad-drefnwyd y gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2010, er mwyn canolbwyntio ar wneud i'r system drafnidiaeth weithio'n well i helpu i fynd i'r afael â thlodi, gwella lles a hybu twf economaidd.*

*Notes the prioritised National Transport Plan, which has rescheduled delivery of the National Transport Plan published in 2010 to focus on making the transport system work better to help tackle poverty, increase well-being and assist economic growth.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

Thank you, Deputy Presiding Officer, for giving me the opportunity to provide you and Members with more information, following my announcement of the prioritised national transport plan last December.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, am roi'r cyfle imi roi rhagor o wybodaeth i chi a'r Aelodau, yn dilyn fy nghyhoeddiad ynghylch y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol sydd wedi'i flaenoriaethu fis Rhagfyr diwethaf.

This debate will give us the chance to discuss this plan in more detail. The prioritisation of the national transport plan, from hereon referred to as the NTP, has brought forward investment that will make the transport system in Wales work better to help tackle poverty, increase wellbeing and assist economic growth. The prioritisation is now complete, which is why I ask you to oppose amendment 2, which calls for the NTP to be renewed.

Bydd y ddadl hon yn rhoi cyfle inni drafod y cynllun hwn yn fwy manwl. Mae pennu blaenoriaethau'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol wedi arwain at fuddsoddi a fydd yn gwneud i'r system drafnidiaeth yng Nghymru weithio'n fwy effeithiol i helpu i fynd i'r afael â thlodi, cynyddu lles a chynorthwyo twf economaidd. Mae'r broses o bennu blaenoriaethau bellach wedi'i chwblhau, a dyna pam rwy'n gofyn ichi wrthwynebu gwelliant 2, sy'n galw am adnewyddu'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

Our focus is on improving mobility and connectivity so that people can access the things that they need, such as jobs, healthcare, education, childcare, friends and family. The prioritised NTP sets out a clear vision for improving connectivity in Wales, which is why I ask you to oppose amendment

Rydym yn canolbwyntio ar wella symudedd a chysylltedd fel y gall pobl gael mynediad at y pethau sydd eu hangen arnynt, megis swyddi, gofal iechyd, addysg, gofal plant, ffrindiau a theulu. Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol sydd wedi'i flaenoriaethu yn cyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer gwella

1, which claims there is no clear vision for improving connectivity.

cysylltedd yng Nghymru, a dyna pam rwy'n gofyn i chi wrthwynebu gwelliant 1, sy'n honni nad oes gweledigaeth glir ar gyfer gwella cysylltedd.

4.30 p.m.

I said last May that I would be prioritising the 2010 national transport plan, and that is what I have done. The NTP has been rescheduled to focus on the delivery of this Government's agenda within budget. Transport enables many things, and an effective transport system is a prerequisite to sustainable economic growth, which is why we are putting down our resources where they will make the most difference to people's lives. This prioritisation is in the context of continued financial constraints. Therefore, I ask you to support amendment 4, which notes the effects of the cuts imposed on us.

Dywedais fis Mai diwethaf y byddwn yn blaenoriaethu cynllun trafnidiaeth cenedlaethol 2010, a dyna beth rwyf wedi ei wneud. Mae'r CTC wedi cael ei ad-drefnu i ganolbwyntio ar gyflawni agenda'r Llywodraeth hon o fewn y gyllideb. Mae trafnidiaeth yn galluogi llawer o bethau, ac mae system drafnidiaeth effeithiol yn hanfodol i dwf economaidd cynaliadwy, a dyna pam ein bod yn dosbarthu ein hadnoddau lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl. Mae'r blaenoriaethu hwn yn cael ei wneud yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol parhaus. Felly, rwy'n gofyn ichi gefnogi gwelliant 4, sy'n nodi effaith y toriadau a osodir arnom.

I want the mobility issues faced by people living in poverty and deprived communities to be addressed in order to improve access to employment, services and facilities. I want to see the transport network in Wales operate more effectively and efficiently. I want to see urban congestion tackled and reduced, unlocking sustainable growth. I also want to see improved access to our key sites and settlements, particularly in rural areas, with emphasis on improving the quality and provision of healthy and more sustainable travel choices. I want the capacity and resilience of the main east-west strategic trans-European corridors in Wales improved. We need to focus more on how we in Wales are linked to the markets in Europe, America and beyond.

Rwyf am i'r problemau symudedd a wynebir gan bobl sy'n byw mewn tlodi a chymunedau difreintiedig gael eu datrys er mwyn gwella mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. Rwyf am weld y rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru yn gweithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon. Rwyf am eich gweld yn mynd i'r afael â thagfeydd trefol a'u lleihau er mwyn caniatáu twf cynaliadwy. Rwyf hefyd am weld gwell mynediad at ein safleoedd ac aneddiadau allweddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gyda phwyslais ar wella ansawdd dewisiadau teithio iach a mwy cynaliadwy a'r ddarpariaeth ohonynt. Rwyf am weld gwelliant o ran capasiti a gwytnwch y prif goridorau strategol traws-Ewropeaidd o'r dwyrain i'r gorllewin yng Nghymru. Mae angen inni yng Nghymru ganolbwyntio mwy ar ein cysylltiad â'r marchnadoedd yn Ewrop, America a thu hwnt.

**Andrew R.T. Davies:** Will you take an intervention?

**Andrew R.T. Davies:** A wnewch chi ildio?

**Carl Sargeant:** Yes, in one second.

**Carl Sargeant:** Gwnaf, mewn un eiliad.

Wales is critical to east-west flows into, and out of, these markets. We are already in discussion with the UK Government on the future of the trans-European network, which

Mae Cymru yn hanfodol i'r llif o'r dwyrain i'r gorllewin i mewn ac allan o'r marchnadoedd hyn. Rydym eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

is why I ask, again, for you to oppose amendment 2.

ar ddyfodol y rhwydwaith traws-Ewropeaidd, a dyma pam rwy’n gofyn, unwaith eto, ichi wrthwynebu gwelliant 2.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for taking an intervention. You touched on North America, Europe, and other world destinations. Sadly, aviation is completely absent in this plan, and yet we have the key asset of Cardiff Airport. Can you explain why that is missing from the transport plan?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am ildio. Bu ichi sôn am Ogledd America, Ewrop, a lleoedd eraill yn y byd. Yn anffodus, mae hedfan yn gwbl absennol o’r cynllun hwn, er bod gennym Faes Awyr Caerdydd, sy’n ased allweddol. A allwch esbonio pam fod hwnnw ar goll o’r cynllun trafnidiaeth?

**Carl Sargeant:** As the Member will be aware, the transport plan is about reprioritisation. You cannot include new projects in the plan or take any out, so I have not done that. I have reprioritised the interventions. You are right to raise the importance of Cardiff Airport, as this is something that I work closely on with the Minister for business in order to plan in detail how we can enhance support for the use of the airport in the market that you mentioned.

**Carl Sargeant:** Fel y bydd yr Aelod yn ymwybodol, mae’r cynllun trafnidiaeth yn ymwneud ag ail-flaenoriaethu. Ni allwch gynnwys prosiectau newydd yn y cynllun neu ddileu unrhyw brosiectau, felly nid wyf wedi gwneud hynny. Rwyf wedi ail-flaenoriaethu’r ymyriadau. Rydych yn gywir i nodi pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd, gan fy mod yn gweithio’n agos gyda’r Gweinidog busnes er mwyn cynllunio’n fanwl sut y gallwn wella’r cymorth i annog defnydd ehangach o’r maes awyr yn y farchnad a grybwyllwyd gennych.

Wales needs to ensure that it has properly improved connectivity around the important corridors, as I mentioned earlier. People in Brynmawr need to feel the benefits of the improvements to the A465, as do many other communities. I have also a role in ensuring that we maximise the benefits to Welsh businesses from these important links, so that we do not just watch the business drive through Wales.

Mae angen i Gymru sicrhau ei bod wedi gwella cysylltedd o gwmpas y coridorau pwysig, fel y soniais yn gynharach. Mae angen i bobl ym Mrynmawr deimlo manteision y gwelliannau a wnaethpwyd i’r A465, fel y gwna nifer o gymunedau eraill. Mae gennyf hefyd rôl o ran sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o’r manteision i fusnesau yng Nghymru sy’n deillio o’r cysylltiadau pwysig hyn, fel nad ydym ond yn gweld y busnes yn gyrru drwy Gymru.

Public transport, in all its forms—bus, rail, walking and cycling—is fundamental to the reprioritised NTP. I have made funding available to delivering our walking and cycling action plan, and I will continue to increase the amount of funding available for walking and cycling schemes through our funding to sustainable travel centres and our safe routes in communities programme, which will contribute to a healthier and safer environment. I will also ensure that the legislative framework further supports the delivery of the walking and cycling schemes when I introduce the highways and transport Bill next year.

Mae cludiant cyhoeddus, yn ei holl ffurfiau—bysiau, rheilffyrdd, cerdded a beicio—yn hanfodol i flaenoriaethau newydd y CTC. Rwyf wedi sicrhau bod arian ar gael i roi ein cynllun gweithredu cerdded a beicio ar waith, a byddaf yn parhau i gynyddu’r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau cerdded a beicio drwy’r cyllid rydym yn ei ddarparu ar gyfer canolfannau teithio cynaliadwy a’r rhaglen llwybrau diogel mewn cymunedau, a fydd yn cyfrannu at amgylchedd iachach a mwy diogel. Byddaf hefyd yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi’r cynlluniau cerdded a beicio pan fyddaf yn cyflwyno’r Bil priffyrdd a thrafnidiaeth flwyddyn nesaf.

Innovation is important in delivering better public services, which is why I prioritised the delivery of smart ticketing. We are trialling the Welsh transport entitlement card, which will mean that people will be able to use one card on any mode and with any provider of public transport in Wales. Community transport helps to meet the travel and social needs of people who would otherwise be denied, providing accessibility, reliability and affordable transport to achieve social inclusion.

Mae arloesedd yn bwysig o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, a dyna pam rwyf wedi blaenoriaethu cyflwyno tocynnau call. Rydym yn treialu cerdyn hawliau teithio Cymru, a fydd yn golygu y gall pobl ddefnyddio un cerdyn ar gyfer teithio mewn unrhyw ffordd a chydag unrhyw ddarparwr trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae trafnidiaeth gymunedol yn helpu i gwrdd ag anghenion teithio a chymdeithasol pobl a fyddai fel arall yn cael eu gwrthod, gan ddarparu trafnidiaeth hygyrch, dibynadwy a fforddiadwy i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol.

We are now considering innovative and more affordable ways to support the community transport sector, which is why I ask you to support amendment 6. I want to see modern, integrated and more efficient rail systems in Wales. Construction will start on the redoubling of the railway between Gowerton and Loughor this year, and work will continue on the detailed design to redouble the section of the railway between Saltney and Wrexham. This is part of our commitment to speed up journey times between north and south Wales. Therefore, I ask you to support amendment 3. Redoubling enables better reliability for the current train services, and, in future, I will look at additional services on these lines. Overcrowding of trains is something we are familiar with. I am not content with the capacity of the current rail system. Therefore, I have prioritised improvements across the south Wales Valleys, such as extra services at peak times on the Pontypridd, Caerphilly and Cardiff lines. These build on Network Rail’s important signalling renewal in the Cardiff area.

Rydym yn awr yn ystyried ffyrdd arloesol a mwy fforddiadwy o gefnogi’r sector trafnidiaeth gymunedol, a dyna pam rwy’n gofyn ichi gefnogi gwelliant 6. Rwyf am weld systemau rheilffyrdd modern, integredig a mwy effeithlon yng Nghymru. Bydd y gwaith ar ddyblu’r rheilffordd rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr yn dechrau eleni, a bydd gwaith yn parhau ar y cynllun manwl i ailddyblu’r rheilffordd rhwng Saltney a Wrecsam. Mae hwn yn rhan o’n hymrwymiad i gyflymu amseroedd teithio rhwng y gogledd a’r de. Felly, rwy’n gofyn ichi gefnogi gwelliant 3. Mae ailddyblu yn caniatáu gwell dibynadwyedd ar gyfer y gwasanaethau trên presennol, ac, yn y dyfodol, byddaf yn ystyried gwasanaethau ychwanegol ar y llinellau hyn. Rydym yn ymwybodol y gall trenau fod yn orlawn. Nid wyf yn fodlon â chapasiti’r system reilffyrdd bresennol. Felly, rwyf wedi blaenoriaethu gwelliannau ledled Cymoedd de Cymru, fel y gwasanaethau ychwanegol ar yr adegau prysuraf ar y llinellau drwy Bontypridd, Caerffili a Chaerdydd. Mae’r rhain yn ychwanegu at y gwaith pwysig a wnaethpwyd gan Network Rail i adnewyddu signalau yn ardal Caerdydd.

**Gwyn R. Price:** I have asked before about an update on the Ebbw Vale line. Is there any more information on this line?

**Gwyn R. Price:** Rwyf wedi gofyn o’r blaen am y wybodaeth ddiweddaraf am linell Glyn Ebwy. A oes unrhyw wybodaeth bellach am y llinell hon?

**Carl Sargeant:** The Member raises this with me often in the Chamber and privately. I would be very pleased to meet with the Member in future to discuss the Ebbw Vale line specifically in further detail if that would be helpful.

**Carl Sargeant:** Mae’r Aelod yn codi hyn gyda mi yn aml yn y Siambr ac yn breifat. Byddwn yn falch iawn o gyfarfod â’r Aelod yn y dyfodol i drafod llinell Glyn Ebwy yn benodol yn fwy manwl, pe byddai hynny o gymorth.

Looking to the future, we have presented the business case for the electrification of the Valley lines and Great Western main line to the Department for Transport. It is robust and, in my meeting with the Secretary of State for Transport earlier this month, he recognised how effectively our officials have been working with the department to produce this. We will continue to work on this so that Wales has a greater say in the decisions that affect us.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi cyflwyno achos busnes i'r Adran Drafnidiaeth ar drydaneiddio llinellau'r Cymoedd a phrif linell Great Western. Mae'n achos cadarn ac, yn fy nghyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn gynharach y mis hwn, bu iddo gydnabod pa mor effeithiol y bu ein swyddogion yn gweithio gyda'r adran i'w gynhyrchu. Byddwn yn parhau i weithio ar hwn fel bod gan Gymru mwy o lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnom.

I have a statutory duty to maintain, improve and update our trunk road network, and I want to maximise reliability and improve journey times and safety on all our roads. In the next two months, work will commence on three schemes: the A477 St Clears to Red Roses, the A470 and phase 2 of the M4 steelworks access road to improve resilience on the M4 around Newport. The M4 around Newport is vital to the economy of south Wales and enhancing the infrastructure is crucial. We held stakeholder workshops last year. I know that some of you attended those. Soon, there will be a full public consultation on the M4 corridor enhancement measures, so take the time to engage in this process. It is critical that we pursue every option open to us if we are to ensure that the important sections of our transport network are enhanced. We are also negotiating with the UK Government on borrowing powers to enable us to deliver more, so I also ask you to support amendment 4.

Mae gennyf ddyletswydd statudol i gynnal, gwella a diweddaru ein rhwydwaith cefnffyrdd, ac rwyf am sicrhau ei fod mor ddibynadwy â phosibl a gwella amseroedd teithio a diogelwch ar bob un o'n ffyrdd. Yn ystod y ddeufis nesaf, bydd gwaith yn dechrau ar dri chynllun: yr A477 o Sanclêr i Ros-goch, yr A470 a cham 2 o'r ffordd fynediad ar gyfer y gweithfeydd dur ar yr M4 er mwyn gwella'r M4 o amgylch Casnewydd. Mae'r M4 yn ardal Casnewydd yn hanfodol i economi de Cymru ac mae gwella'r seilwaith yn hanfodol. Bu inni gynnal gweithdai i randdeiliaid y llynedd. Gwn fod rhai ohonoch wedi mynychu'r rheiny. Cyn bo hir, bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y mesurau i wella coridor yr M4, felly cymerwch yr amser i gymryd rhan yn y broses hon. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd ar drywydd pob opsiwn sy'n agored i ni os ydym am sicrhau bod y rhannau pwysig o'n rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu gwella. Rydym hefyd yn trafod pwerau benthyca gyda Llywodraeth y DU er mwyn ein galluogi i ddarparu mwy, felly rwyf hefyd yn gofyn ichi gefnogi gwelliant 4.

In north Wales, we are reviewing the options to increase capacity on the A55 across the Menai, and we plan to engage stakeholders on the study on connectivity in north-east Wales later this year. In mid Wales, we will soon be appointing contractors for the Newtown bypass. All of the projects just mentioned are large-scale projects, but I have prioritised smaller local schemes that will deliver safety improvements as well as economic benefits and social improvement; most importantly, they make a difference to everyday life. One example is the dedicated lane off the M4 at the Coryton interchange on

Yn y gogledd, rydym yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu capasiti yr A55 ar draws y Fenai, ac rydym yn bwriadu ymgysylltu rhanddeiliaid ar yr astudiaeth ar gysylltedd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn ddiweddarach eleni. Yng nghanolbarth Cymru, byddwn yn penodi contractwyr ar gyfer ffordd osgoi'r Drenewydd cyn bo hir. Mae pob un o'r prosiectau hyn yn brosiectau mawr, ond rwyf wedi blaenoriaethu cynlluniau lleol llai a fydd yn cyflwyno gwelliannau diogelwch yn ogystal â manteision economaidd a gwelliant cymdeithasol; yn bwysicaf oll, maent yn

the A470 northbound.

gwneud gwahaniaeth i fywyd bob dydd. Un enghraifft yw'r lôn benodedig i adael yr M4 yng nghyfnewidfa Coryton tua'r gogledd ar yr A470.

I have been asked why schemes such as the Dyfi bridge are not included in the prioritised national transport plan. As I said earlier, prioritisation rescheduled only the work that was already in the NTP 2010 edition. However, we will continue to look at important issues such as the Dyfi bridge, something that many Members raise with me. I ask you to oppose amendment 5 as we continue to support the intra-Wales air service as a fast and vital connection between north and south Wales. However, I am working with my colleague the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to develop a strategic approach to aviation so that we can maximise our connectivity to overseas markets, as I mentioned to the Member earlier.

Mae pobl wedi gofyn imi pam na chafodd cynlluniau fel pont Dyfi eu cynnwys ym mlaenoriaethau'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Fel y dywedais yn gynharach, bu i'r blaenoriaethu ail-drefnu'r gwaith a oedd eisoes yn CTC 2010 yn unig. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i edrych ar faterion pwysig fel pont Dyfi, sy'n bwnc y mae nifer o Aelodau yn ei godi gyda mi. Gofynnaf ichi wrthwynebu gwelliant 5 gan ein bod yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth awyr o fewn Cymru fel cysylltiad cyflym a hanfodol rhwng gogledd a de Cymru. Fodd bynnag, rwy'n gweithio gyda fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer hedfan fel y gallwn wneud y gorau o'n cysylltedd â marchnadoedd tramor, fel y soniais wrth yr Aelod yn gynharach.

**Russell George:** I thank the Minister for prioritising the Newtown bypass. It is a huge bottleneck in Newtown and the whole region is suffering as a result of the traffic problems there. The fact that you have included that in your prioritised programme should be commended. Thank you for that, Minister. My job now is just to challenge you to ensure that there is no slippage in that plan and that the construction starts in 2014.

**Russell George:** Rwy'n diolch i'r Gweinidog am flaenoriaethu ffordd osgoi y Drenewydd. Mae'n dagfa enfawr yn y Drenewydd ac mae'r rhanbarth cyfan yn dioddef o ganlyniad i'r problemau traffig yno. Dylid canmol y ffaith eich bod wedi cynnwys hynny yn eich rhaglen flaenoriaethau. Diolch am hynny, Weinidog. Fy ngwaith i yn awr yw eich herio i sicrhau nad oes unrhyw oedi o ran y cynllun hwnnw a bod y gwaith adeiladu yn cychwyn yn 2014.

**Carl Sargeant:** Praise from opposition Members is always welcome and will, I hope, be continued. Transport is entering a transformational period with a host of possibilities that really can make a difference to the transport network in Wales. I have given you a flavour of the Government's intended actions over the next three years and beyond. Of course, I will listen with interest to the concerns and thoughts of Members today. I hope to be able to address those in a little while.

**Carl Sargeant:** Mae clod gan Aelodau'r gwrthbleidiau yn cael croeso bob amser a gobeithiaf y bydd yn parhau. Mae trafnidiaeth yn dechrau ar gyfnod trawsnewidiol gyda llu o bosibiliadau a all wneud gwir wahaniaeth i'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru. Rwyf wedi rhoi blas ichi o'r hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Wrth gwrs, byddaf yn gwrando gyda diddordeb ar bryderon a syniadau Aelodau heddiw. Rwy'n gobeithio y gallaf ymateb i'r rheiny ymhen ychydig.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y*

*Add as new point at end of motion:*

*cynnig:*

*Yn gresynu nad oes gan y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol weledigaeth glir ar gyfer cysylltu Cymru nac i leihau'r broblem gynyddol gyda thagfeydd ar goridor yr M4.*

*Regrets that the National Transport Plan has no clear vision for connecting Wales or reducing the growing problem of congestion on the M4 corridor.*

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu ei Chynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, gan gydgysylltu â Llywodraeth y DU, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael drwy'r rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd.*

*Calls on the Welsh Government to renew its National Transport Plan, coordinating with the UK Government, to take full advantage of the funding available through the Trans-European Transport network.*

**Byron Davies:** I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

**Byron Davies:** Cynigiaf gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

Transport in Wales is an issue that creates enormous debate. There are many issues, but I want to concentrate on two areas within the debate. In the first instance, there is the issue of the complete lack of vision in the original document and the prioritised plan. We need to start thinking far more strategically as a legislature. We represent a relatively small nation geographically, but we have completely failed to bring all four corners together in terms of the transport infrastructure. There are two areas that are relatively well served, although they are congested and completely inadequate to deal with any form of growth. Those are the M4 corridor and the A55. Other areas of Wales have been left and forgotten strategically. I can see that there are some excellent schemes within your plan, such as the Newtown bypass—a long overdue improvement for which we have argued for many years—and the reintroduction of dual lines on the Gowerton-Loughor line, which is a major link for east-west travel in south-west Wales. I believe that it is essential for you to commission a far more strategic report and work alongside the UK Government to ensure that we maximise use of all funding resources. We clearly do not have the competence within the National Assembly for Wales to deliver a national transport plan without our EU and UK partners, and this

Mae trafnidiaeth yng Nghymru yn fater sy'n sbarduno cryn drafodaeth. Mae nifer o faterion i'w trafod, ond rwyf am ganolbwyntio ar ddau faes o fewn y drafodaeth. Yn y lle cyntaf, mae diffyg gweledigaeth lwyr yn y ddogfen wreiddiol a'r cynllun blaenoriaethau. Mae angen i ni ddechrau meddwl yn llawer mwy strategol fel deddfwrfa. Rydym yn cynrychioli gwlad sy'n gymharol fach yn ddaearyddol, ond rydym wedi methu yn llwyr â dod â'r pedwar ban at ei gilydd o ran y seilwaith trafnidiaeth. Mae gan ddwy ardal wasanaethau sy'n gymharol dda, er bod tagfeydd yno ac maent yn gwbl annigonol i ddelio ag unrhyw fath o dwf. Coridor yr M4 a'r A55 yw'r rheiny. Mae ardaloedd eraill o Gymru wedi eu gadael a'u hanghofio yn strategol. Gallaf weld fod rhai cynlluniau rhagorol yn eich cynllun, fel ffordd osgoi y Drenewydd—ac mae'n hen bryd i'r gwelliant hwnnw gael ei wneud gan ein bod wedi dadlau dros ei gael ers nifer o flynyddoedd—ac ailgyflwyno llinellau dwbl ar y llinell rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr, sydd yn gyswllt pwysig i'r rhai sy'n teithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn ne-orllewin Cymru. Credaf ei fod yn hanfodol ichi gomisiynu adroddiad llawer mwy strategol a gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau cyllid. Mae'n amlwg nad oes gennym y cymhwysedd o fewn Cynulliad

should be represented in the plan.

Cenedlaethol Cymru i gyflwyno cynllun trafnidiaeth cenedlaethol heb ein partneriaid o'r UE a'r DU, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y cynllun.

In plain language, since having been elected here last May, I have been astonished at the missed opportunity in securing a connected Wales. While we recognise the need to support the enterprise zones, we must not forget those areas outside of these zones. We need to set how, over the next 10, 20, 30, and 50 years, we will connect Wales through trunk roads, motorways and railway investment. We then need to start working on delivering this a bypass at a time, or a road-dualling project at a time, and all towards the essential goal of connecting Wales.

Yn syml, ers imi gael fy ethol fis Mai diwethaf, rwyf wedi bod yn rhyfeddu at y cyfle a gollwyd o ran sicrhau Cymru gysylltiedig. Er ein bod yn cydnabod bod angen cefnogi'r ardaloedd menter, rhaid i ni beidio ag anghofio'r lleoedd hynny sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn. Mae angen i ni bennu sut, dros y 10, 20, 30, a 50 mlynedd nesaf, y byddwn yn cysylltu Cymru drwy fuddsoddi mewn cefnffyrdd, traffyrdd a rheilffyrdd. Yna, mae angen dechrau gweithio ar hwn fesul ffordd osgoi neu fesul prosiect dyblu, er mwyn gweithio tuag at y nod hanfodol o gysylltu Cymru.

Secondly, I want to touch on the sustainable transport element to your plan, which we hear about frequently. I want to tease out some of the detail because it becomes apparent that, aside from the aspirations and hot air, there is very little commitment to delivering your goals. For example, the prioritised national transport plan recommits the Labour Government to delivering our walking and cycling action plan targets, which is reference 11, with additional funding being made available for this. You mentioned this issue in your introduction, Minister. Your annual progress report on the walking and cycling action plan, published last September, confirmed that you are not on course to meet the targets. Looking into even more detail, there is a target to triple the percentage of adults whose main mode of travel to work is cycling by next year from a baseline of 1.4%. The progress report noted that, in 2010, the figure stood at just 1.6%, an increase of only 0.2%. A further target is to increase the number of people who walk for recreation to 50% from a baseline of 40%. The latest available data show that the proportion of adults who have done any walking over two miles has fallen to 34% in 2008-09 from the baseline of 40%. Given that your plan is so badly behind at the moment, do you realistically expect to meet your targets by 2013? We have always supported this target, and I am aware that it has all-party support. The evidence is that you cannot and will not meet the target, and this plan is already

Yn ail, rwyf am sôn am elfen drafnidiaeth gynaliadwy eich cynllun, yr ydym yn clywed amdano'n aml. Rwyf am geisio cael gwybod rhai o'r manylion am ei fod yn dod yn amlwg nad oes ymrwymiad cadarn iawn i gyflawni eich hamcanion, ar wahân i'r dyheadau ac aer poeth. Er enghraifft, mae'r blaenoriaethau yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol unwaith eto yn ymrwymo'r Llywodraeth Lafur i gyrraedd targedau ein cynllun gweithredu cerdded a beicio, sef cyfeirnod 11, gydag arian ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn. Bu ichi sôn am y mater hwn yn eich cyflwyniad, Weinidog. Mae eich adroddiad cynnydd blynyddol ar y cynllun gweithredu cerdded a beicio, a gyhoeddwyd fis Medi diwethaf, yn cadarnhau nad ydych ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau. Wrth edrych hyd yn oed yn fwy manwl, mae targed i dreblu canran yr oedolion sy'n defnyddio beic fel eu prif ddull o deithio i'r gwaith erbyn y flwyddyn nesaf o linell sylfaen o 1.4%. Mae'r adroddiad cynnydd yn nodi mai 1.6% yn unig oedd y ffigur yn 2010, sef cynnydd o 0.2% yn unig. Mae targed pellach i gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded yn eu hamser hamdden i 50% o linell sylfaen o 40%. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod cyfran yr oedolion sydd wedi cerdded dros ddwy filltir ar y tro wedi gostwng i 34% yn 2008-09 o linell sylfaen o 40%. O ystyried bod eich cynllun mor bell y tu ôl iddi ar hyn o bryd, a ydych yn disgwyl cyrraedd eich targedau erbyn 2013? Rydym wedi cefnogi'r targed hwn erioed, ac rwyf yn

faltering.

ymwybodol ei fod wedi cael cefnogaeth pob plaid. Mae’r dystiolaeth yn dangos nad ydych yn gallu cyrraedd y targed ac na fyddwch yn gwneud hynny, ac mae’r cynllun hwn eisoes yn pallu.

Looking at the sustainable travel centres initiative, your prioritised plan commits to making available £5 million over three years to maximise investment in sustainable travel centres. There are five sustainable travel centres, which are in Cardiff, Môn a Menai, Harverfordwest, Carmarthen and Aberystwyth. The announcement roughly amounts to a third of a million pounds each per year. Is that not spreading the funding too thinly? The evidence clearly demonstrated from the English sustainable travel towns was that concentrated investment in a location, underpinned by targets and highly motivated local authorities, could produce cuts in car use of around 10%. I have asked you this before: why do the Welsh STCs not have targets? You should never spend significant amounts of money without key factors and targets for success; that is basic business sense. You must rethink this element of your plan and publish new targets.

O edrych ar y fenter canolfannau teithio cynaliadwy, mae eich cynllun blaenoriaethau yn ymrwymo i ddarparu £5 miliwn dros dair blynedd i wneud y gorau o’r buddsoddiad mewn canolfannau teithio cynaliadwy. Mae pum canolfan teithio cynaliadwy: Caerdydd, Môn a Menai, Hwlffordd, Caerfyrddin ac Aberystwyth. Mae’r cyhoeddiad yn fras yn golygu y bydd traean o filiwn o bunnoedd y flwyddyn yr un ar gael. Onid yw hynny’n golygu bod y cyllid yn cael ei rannu rhwng gormod o ganolfannau? Mae’r dystiolaeth o’r trefi teithio cynaliadwy yn Lloegr yn dangos yn glir bod buddsoddi llawer o arian mewn lleoliad, gyda thargedau ac awdurdodau lleol brwdfrydig, yn gallu lleihau’r defnydd o geir tua 10%. Rwyf wedi gofyn hyn ichi o’r blaen: pam nad oes targedau ar gyfer y canolfannau yng Nghymru? Ni ddylech fyth wario symiau sylweddol o arian heb ffactorau allweddol a thargedau ar gyfer llwyddiant; synnwyr busnes sylfaenol yw hynny. Mae’n rhaid ichi ailfeddwl am yr elfen hon o’ch cynllun a chyhoeddi targedau newydd.

I will finish my contribution by pointing to the direction of the clear evidence that we noted in the Enterprise and Business Committee report on the regeneration of town centres. We recommend that you should establish a rigorous performance monitoring framework and commission a detailed independent evaluation of the sustainable travel centre scheme. I would suggest that this must be done. Planning more strategically, delivering on your plans rather than relaunching them every few months, and ensuring that you get the details right is essential. I regret having to be so scathing of this report and the Labour Government’s approach, but if you continue along your path, we will witness another £1 billion wasted through ill-advised and poorly prepared transport projects, sadly much like we have witnessed in the past five years.

Gorffennaf fy nghyfraniad drwy gyfeirio at y dystiolaeth glir a nodwyd gennym yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi. Rydym yn argymell y dylech sefydlu fframwaith monitro perfformiad trylwyr a chomisiynu gwerthusiad annibynnol manwl o’r cynllun canolfan teithio cynaliadwy. Byddwn yn awgrymu bod yn rhaid gwneud hyn. Mae’n hanfodol eich bod yn cynllunio’n fwy strategol ac yn cyflawni eich cynlluniau yn hytrach na’u hail-lansio bob ychydig fisoedd, a sicrhau eich bod yn cael y manylion yn iawn. Rwyf yn gresynu bod yn rhaid imi fod mor feirniadol am yr adroddiad hwn a dull gweithredu’r Llywodraeth Lafur, ond os byddwch yn parhau ar hyd y llwybr hwn, byddwn yn gweld £1 biliwn arall yn cael ei wastraffu ar brosiectau trafnidiaeth annoeth a baratowyd yn wael, sydd, yn anffodus, yn debyg iawn i’r hyn yr ydym wedi ei weld dros y pum mlynedd diwethaf.

*Gwelliant 3 Jocelyn Davies*

*Amendment 3 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu bod y cysylltiadau strategol rhwng y gogledd a'r de, a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un, yn cael eu cadw yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar ei newydd wedd.*

*Welcomes the retention of the strategic north-south links, planned by the One Wales Government, in the re-profiled National Transport Plan.*

*Gwelliant 4 Jocelyn Davies*

*Amendment 4 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi effaith y toriadau difrifol yng ngwariant cyfalaf Cymru ar brosiectau trafnidiaeth a'r angen i Lywodraeth Cymru nodi ffynonellau ychwanegol o gyfalaf at y diben hwn.*

*Notes the effect of severe cuts in Welsh capital spending on transport projects and the need for additional sources of capital to be identified by the Welsh Government for this purpose.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliannau 3 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

**Aled Ffred Jones:** I move amendments 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Croesawaf y ffaith bod y cysylltiadau strategol rhwng y gogledd a'r de, a gynlluniwyd dan Lywodraeth Cymru'n Un, yn cael eu cadw o fewn y rhaglen ehangach sy'n cynnwys y llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin sydd mor bwysig i'r economi ac amryw o gymunedau difreintiedig.

I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. I welcome the fact that the strategic links between north and south Wales, which were planned by the One Wales Government, are maintained within this wider programme, which also includes the east-west corridors that are so important for the economy and many disadvantaged communities.

Yr ydym hefyd yn nodi'r angen i gael ffynonellau eraill o gyfalaf ar frys er lles ein cysylltiadau trafnidiaeth a'n cwmnïau adeiladu a pheirianyddol yng Nghymru.

We also note the need to find additional sources of capital urgently for the benefit of our transport links and our construction and engineering companies in Wales.

4.45 p.m.

Mae'r cynllun wedi ail-flaenoriaethu rhai o'r cynlluniau, ac mae rhai cynlluniau wedi'u gwthio y tu hwnt i 2015. Fodd bynnag, mae corff rhaglen 2010 wedi'i gadw, gan gynnwys y ffordd osgoi i Bontnewydd a Chaernarfon yn fy etholaeth i—rwy'n falch iawn o gael dweud—a byddwn yn pwyso ar y Gweinidog i wneud cyhoeddiad ar y ffordd honno'n fuan, am resymau amlwg.

The plan has reprioritised some of the schemes, and some schemes have been pushed beyond 2015. However, the main body of the 2010 programme has been maintained, including the by-pass for Bontnewydd and Caernarfon in my constituency—I am very pleased to say—and I will be pressing the Minister to make an announcement on that road soon, for obvious reasons.

Cynllun trafnidiaeth 2010 oedd y cyntaf ers dechrau datganoli i greu strategaeth genedlaethol gynhwysfawr. Tra'n croesawu'r

The 2010 transport plan was the first since the beginning of devolution to promote a comprehensive national strategy. Although

cynlluniau sydd wedi'u cadw, byddwn yn galw ar y Gweinidog i addo y bydd y cynlluniau sydd wedi'u gohirio yn mynd rhagddynt pan ddaw arian i'r fei.

we welcome the schemes that have been kept, we call on the Minister to promise that the schemes that have been postponed will go ahead when the money is available.

O ran yr arian cyfalaf sydd ei angen i gyflawni rhai o'r cynlluniau hyn, rydym yn cydnabod bod gwasgfa ar yr arian cyfalaf hwnnw sydd gan y Gweinidog i gyflawni ei ddymuniadau. Fel y gŵyr pawb, ac fel sydd wedi ei ddweud yma drosodd a throsodd gan Blaid Cymru, arf uniongyrchol gorau'r Llywodraeth i greu a chynnal swyddi yw'r cynlluniau cyfalaf hyn. Maent yn creu gwaith yn y sector adeiladu ac i fasnachwyr adeiladu, ac yn ôl adroddiad diweddar, mae pob £1 sy'n cael ei gwario ar gynlluniau cyfalaf trafnidiaeth yn cynyddu GDP gan £2.84; hefyd, mae pob £1 a fuddsoddir mewn cynlluniau o'r fath yn creu treth o 56c. Fel y gŵyr pawb sydd wedi teithio yng Nghymru, mae'r strwythurau trafnidiaeth yn ddiffygiol iawn o hyd, er nodaf fod y gwelliannau i'r gogledd o Lanelwedd wedi'u croesawu'n frwd iawn gan bobl sy'n teithio'n gyson rhwng y de a'r gogledd.

On the capital funding that is needed to complete some of these schemes, we acknowledge that there is pressure on the capital funding available to the Minister to fulfil his ambitions. As everyone knows, and as has been said here time and again by Plaid Cymru, these capital schemes are the Government's best direct tools to create and support jobs. They create work in the construction industry and for building merchants, and according to a recent report, every £1 spent on capital transport schemes increases GDP by £2.84; also, every £1 invested in such schemes raises 56p in tax revenue. As everyone who has travelled in Wales knows, there are deficiencies in the transport infrastructure, although I note that the improvements to the north of Builth Wells have been warmly welcomed by those who travel regularly between north and south.

Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn nodi bod rhaid chwilio am ffynonellau y tu hwnt i'r grant sylfaenol i gyflawni rhywfaint o'r flaenraglen. Ychydig a wyddom am yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn y cyfeiriad hwn. Cyfeiriodd Gerry Holtham at allu awdurdodau lleol i fenthyg fel un ffynhonnell bosibl, a byddem yn cefnogi hynny. Felly, galwaf ar y Gweinidog i adrodd wrth y Cynulliad pa mor bell y mae'r trafodaethau wedi mynd a lle mae wedi cyrraedd yn y drafodaeth hon gydag awdurdodau lleol.

The national transport plan notes that we need to look for sources of funding beyond the basic grant to fulfil some of the forward work programme. We do not know much about what the Government is doing in this regard. Gerry Holtham referred to local authorities' ability to borrow as one potential source, and we would support that. Therefore, I call on the Minister to report to the Assembly how far the discussions have progressed and where he is in terms of his discussions with the local authorities.

Mae'r Torïaid hyd yn oed wedi cefnu ar gynlluniau trychinebus menter cyllid preifat y cyn Lywodraeth Lafur yn Llundain. Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi cynnig un model posibl, sef cwmni Adeiladu dros Gymru, er mwyn ariannu rhai cynlluniau cyfalaf. Er bod y Llywodraeth hon wedi datgan diddordeb yn y model, nid ydym wedi cael eglurhad o lle'n union y mae'n bwriadu cael gafael ar gyllid cyfalaf ychwanegol.

Even the Tories have turned their backs on the disastrous private finance initiatives of the former Labour Government in London. We in Plaid Cymru have proposed one possible model, namely the Build for Wales company, to fund some capital schemes. Although this Government has expressed an interest in the model, we have not had an explanation as to where exactly it intends to access additional capital funding.

Mae Llafur a Phlaid Cymru yn cytuno bod y toriadau presennol wedi bod yn rhy llym ac yn rhy gyflym, a dyna bellach yw barn Banc

Labour and Plaid Cymru agree that the current cuts have been too deep and too fast, and that is now the opinion of the World

y Byd a bron pawb arall sy'n edrych ar y sefyllfa hon yn Ewrop. Fodd bynnag, os yw Cymru i dorri ei chwys ei hun a phrofi bod datganoli yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau ar hyd a lled ein gwlad, rhaid i'r Llywodraeth hon ddangos ar fyrder bod ganddi syniadau ymarferol i ariannu cynlluniau trafnidiaeth y tu hwnt i'r grant bloc a chynlluniau PFI.

Bank and almost everyone else who is looking at the situation in Europe. However, if Wales is to forge its own path and to prove that devolution makes a real difference to lives across the length and breadth of our country, this Government must demonstrate that it has practical ideas to fund transport schemes outwith the block grant and PFI schemes.

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gwrthwynebu'r bwriad yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i 'gynyddu capasiti'r gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru' ar ôl 2015 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth hedfan ehangach ar gyfer Cymru.*

*Opposes the intention in the National Transport Plan to 'increase the capacity of the intra-Wales air service' beyond 2015 and calls on the Welsh Government to develop a broader aviation strategy for Wales.*

*Gwelliant 6 Peter Black*

*Amendment 6 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr darparwyr gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r trefniadau cyllido ar ôl mis Mawrth 2012 fel mater o frys.*

*Recognises the valuable contribution of community transport service providers and calls on the Welsh Government to outline funding arrangements post-March 2012 as a matter of urgency.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

I thank the Government for bringing this debate today and for giving us the chance to discuss the important role of transport in driving not only economic development but also social mobility in Wales. I am glad that these two drivers underpin the Minister's plans. There is much that I agree with, and I will focus on a couple of specific areas.

Diolch i'r Llywodraeth am ddod â'r ddadl hon ger ein bron heddiw ac am roi cyfle inni drafod rôl bwysig trafnidiaeth o ran ysgogi nid yn unig datblygu economaidd ond hefyd symudedd cymdeithasol yng Nghymru. Rwy'n falch bod y ddau ohonynt yn sail i gynlluniau'r Gweinidog. Mae llawer rwy'n cytuno ag ef, a byddaf yn canolbwyntio ar un neu ddau o feysydd penodol.

In amendment 5, we call for a broader strategic approach to aviation in Wales, looking not only at the internal flights that have already been committed to, but also at international and regional passenger services, and the infrastructure for air freight and its role in supporting Wales's economic development in the longer term. There are plans to increase the capacity for the intra-

Yng ngwelliant 5, rydym yn galw am ymagwedd strategol ehangach ar gyfer hedfan yng Nghymru, gan edrych nid yn unig ar y teithiau mewnol yr ymrwymwyd iddynt eisoes, ond hefyd ar wasanaethau teithwyr rhyngwladol a rhanbarthol, a'r seilwaith ar gyfer cludo nwyddau yn yr awyr a'i rôl o ran cefnogi datblygu economaidd Cymru yn y tymor hwy. Mae cynlluniau i gynyddu

Wales air service after 2015. However, I note that the Minister has stated in committee that he recognises the primary importance of east-west routes, particularly for economic development. This north-south policy, however, has already cost the taxpayer £4 million in public subsidy, and after the most recently renewal, that subsidy has rocketed from £800,000 a year to £1.2 million a year, taking the total bill to something like £8 million. That is an incredible cost of £84 per passenger, according to figures released by the Government, compared with just £6.30 for the equivalent rail journey. In the challenging financial environment in which you find yourself, Minister, I have to query the high cost of that link, particularly in the absence of an evidenced, broader strategy for aviation as a whole to put it into some context. I think that the subsidy is unsustainable, both financially and environmentally, compared with other forms of transport. If we are to use subsidies, they should be used for pump-priming, not for subsidising routes on a long-term basis. There is also some evidence that, if airlines believe that we are in the business of subsidising routes, they will demand subsidies before bringing routes to Wales. That practice acts against the interests of our airports and Wales as a whole. Instead, I would ask the Government to focus north-south links on improving rail transport, which I note is in the plan, and developing a strategy for Cardiff Airport, investing in the infrastructure needed to make it more viable as a prospect for airlines.

capasiti’r gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru ar ôl 2015. Fodd bynnag, nodaf fod y Gweinidog wedi datgan yn y pwyllgor ei fod yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol llwybrau o’r dwyrain i’r gorllewin, yn enwedig ar gyfer datblygu economaidd. Mae’r polisi o’r gogledd i’r de hwn, fodd bynnag, eisoes wedi costio £4 miliwn i’r trethdalwr mewn cymhorthdal cyhoeddus, ac ar ôl yr adnewyddiad diweddaraf, mae’r cymhorthdal hwnnw wedi cynyddu’n aruthrol o £800,000 y flwyddyn i £1.2 filiwn y flwyddyn, sy’n golygu bod y cyfanswm tua £8 miliwn. Mae hynny’n gost anhygoel o £84 y teithiwr, yn ôl ffigurau a ryddhawyd gan y Llywodraeth, o’i chymharu â dim ond £6.30 ar gyfer y daith reilffordd gyfatebol. Yn yr amgylchedd ariannol heriol y cewch eich hun ynddo, Weinidog, rhaid imi gwestiynu cost uchel y cyswllt hwnnw, yn enwedig yn absenoldeb strategaeth ehangach ar gyfer hedfan yn ei gyfanrwydd ar sail tystiolaeth i’w roi mewn rhyw fath o gyd-destun. Credaf fod y cymhorthdal yn anghynaladwy, yn ariannol ac yn amgylcheddol, o’i gymharu â mathau eraill o drafnidiaeth. Os ydym am ddefnyddio cymorthdaliadau, dylid eu defnyddio fel arian ysgogi, ac nid i roi cymhorthdal ar gyfer llwybrau ar sail hirdymor. Ceir hefyd rywfaint o dystiolaeth y bydd cwmnïau hedfan, os credant ein bod yn rhoi cymhorthdal ar gyfer llwybrau, yn mynnu cael cymorthdaliadau cyn dod â llwybrau i Gymru. Mae’r arfer hwnnw’n mynd yn groes i fuddiannau ein meysydd awyr a Chymru gyfan. Yn hytrach, gofynnaf i’r Llywodraeth ganolbwyntio ar gysylltiadau rhwng y gogledd a’r de drwy wella trafnidiaeth rheilffyrdd—nodaf fod hynny yn y cynllun—a datblygu strategaeth ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, gan fuddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen i’w wneud yn safle mwy hyfyw ar gyfer cwmnïau hedfan.

Turning now to rail transport issues, it is really good to see investment in additional rail services, including more frequent services on the Holyhead to Cardiff line and the Cardiff to Barry line. New and extended stations in Pontypridd and Ebbw Vale will be valued by commuters on those lines, which suffer from overcrowding. I am disappointed that there is only one mention of rural rail services—namely, an appraisal of more frequent services on the Heart of Wales line.

Trof yn awr at faterion trafnidiaeth rheilffyrdd. Mae’n wirioneddol dda gweld buddsoddiad mewn gwasanaethau rheilffyrdd ychwanegol, gan gynnwys gwasanaethau amlach ar y rheilffordd rhwng Caergybi a Chaerdydd a rhwng Caerdydd a’r Barri. Bydd gorsafoedd newydd ac estynedig ym Mhontypridd a Glynebwy yn cael eu gwerthfawrogi gan gymudwyr ar y llinellau hynny, a oedd wedi’u gorlenwi. Rwy’n siomedig mai dim ond unwaith y ceir sôn am

There is no mention of potential new stations at Carno or Bow Street. While I recognise that you were not looking to introduce new projects into the plan, Minister, perhaps there is a potential opportunity to look at scoping exercises for new projects, which could be possible in two words planning period. The connectivity of rural Wales is vital in driving social mobility in really isolated areas, so I hope that, in the longer term, some consideration will be given to this.

wasanaethau rheilffyrdd gwledig—sef gwerthusiad o wasanaethau amlach ar reilffordd Calon Cymru. Nid oes unrhyw sôn am orsafoedd newydd posibl yng Ngharno neu Bow Street. Er fy mod yn cydnabod nad oeddech yn bwriadu cyflwyno prosiectau newydd i'r cynllun, Weinidog, efallai bod cyfle posibl i ystyried ymarferion cwmpasu ar gyfer prosiectau newydd a allai fod yn bosibl yn y cyfnod cynllunio nesaf. Mae cysylltedd cefn gwlad Cymru yn hanfodol er mwyn ysgogi symudedd cymdeithasol mewn ardaloedd anghysbell iawn, felly rwy'n gobeithio, yn y tymor hwy, y caiff hyn ei ystyried.

There is no mention of electrification of the Valleys lines either, despite the fact that I would hope that that would be a strong priority. Towards the end of last term, Minister, as you will know, the Chamber gave its overwhelming support for the establishment of a south-Wales metro system. The electrification of Valleys lines is crucial to that. I recognise that it is a reserved issue, and is a new priority, but I ask the Minister to make a statement on what progress has been achieved with regard to liaison with the Westminster Government. I note that a scoping exercise has already been undertaken by Network Rail, and the potential electrification of the Valleys lines is included in its long-term plan as a potential project. I hope that you will work closely with the UK Government and Members on all sides of the Chamber to help push that up the priority list, to put pressure on the UK Government to see the relevance of that as an infrastructure plan. In a broader transport plan, we might be able to include the lobbying and liaison that we want to see, and the aims and achievements that we would like to see, working in partnership with others.

Nid oes unrhyw sôn am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ychwaith, er gwaethaf y ffaith y buaswn yn gobeithio y byddai hynny'n flaenoriaeth gref. Ar ddiwedd y tymor diwethaf, Weinidog, fel y gwyddoch, rhoddodd y Siambr gefnogaeth lwyr i sefydlu system metro yn ne Cymru. Mae trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn hanfodol i hynny. Rwy'n cydnabod ei fod yn fater a gadwyd yn ôl ac yn flaenoriaeth newydd, ond gofynnaf i'r Gweinidog wneud datganiad ar ba gynnydd a fu o ran y cyswllt â Llywodraeth San Steffan. Nodaf fod ymarfer cwmpasu eisoes wedi cael ei gynnal gan Network Rail, ac mae'r cynllun posibl i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn cael ei gynnwys yn y cynllun hirdymor fel prosiect posibl. Gobeithiaf y byddwch yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ac Aelodau ar bob ochr y Siambr i helpu i roi mwy o flaenoriaeth i hynny, gan roi pwysau ar Lywodraeth y DU i weld perthnasedd hynny fel cynllun isadeiledd. Mewn cynllun trafnidiaeth ehangach, efallai y gallem gynnwys y lobïo a'r cyswllt rydym am ei weld, a'r amcanion a'r cyflawniadau yr hoffem eu gweld, gan weithio mewn partneriaeth gydag eraill.

I am also a little disappointed that there is no mention of improving rail freight services west of Cardiff, which would play an important role in moving traffic off the M4 and stimulating ports in Swansea and, eventually, Fishguard, Milford Haven and Pembroke Dock. In 2010, the Enterprise and Learning Committee estimated that, with the right investment, rail freight could be doubled by 2030. However, the rail freight

Rwyf hefyd ychydig yn siomedig nad oes unrhyw sôn am wella gwasanaethau cludo nwyddau rheilffordd i'r gorllewin o Gaerdydd, a fyddai'n chwarae rhan bwysig yn y broses o symud traffig oddi ar yr M4 ac yn ysgogi porthladdoedd Abertawe ac, yn y pen draw, Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro. Yn 2010, amcangyfrifodd y Pwyllgor Menter a Dysgu, gyda'r buddsoddiad cywir, y gellid dyblu faint o

group criticised the original plan as lacking a coherent strategy for freight movement. That has not been improved upon.

nwyddau a gaiff eu cludo ar y rheilffyrdd erbyn 2030. Fodd bynnag, beirniadodd y grŵp cludo nwyddau ar y rheilffyrdd y cynllun gwreiddiol am ei ddiffyg strategaeth gydlynol ar gyfer symud nwyddau. Ni wellwyd hynny.

I thank the Minister for the debate and for his support on amendment 6. I would like to invite the Minister to meet with me and community transport operators to discuss the issues that they have.

Diolch i'r Gweinidog am y ddadl hon ac am ei gefnogaeth ar welliant 6. Hoffwn ei wahodd i gyfarfod â mi a chwmnïau cludiant cymunedol i drafod y materion sydd o bwys iddynt.

**Julie Morgan:** A key ongoing commitment of the national transport plan is to encourage walking and cycling, as the Minister said in his introductory speech. I would like to focus first on the success that can be achieved by sustained efforts to shift people from cars to healthier, more sustainable forms of transport. Sustrans worked for a three-year period with two hospitals in my constituency of Cardiff North—the University Hospital of Wales in the Heath and Velindre hospital. It worked closely with each local health board to encourage staff and visitors to leave their cars at home. At the Heath, there was a drop of 8% in staff coming to work by car, and a drop of 15% at Velindre. Staff cycling to work increased by 267% and 100% respectively. That was a great success—a big increase in the number of staff cycling and a drop in the use of private cars. That project has now ended. One of the issues with projects is that their success will be seen in how we sustain their achievements. That is one of the things that I would like the Minister to address.

**Julie Morgan:** Mae annog cerdded a beicio yn ymrwymiad parhaus allweddol yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei araith agoriadol. Hoffwn ganolbwyntio yn gyntaf ar y llwyddiant y gellir ei sicrhau drwy ymdrechion parhaus i symud pobl o geir i ddefnyddio dulliau teithio iachach a mwy cynaliadwy. Gweithiodd Sustrans am gyfnod o dair blynedd gyda dau ysbyty yn fy etholaeth, Gogledd Caerdydd, sef Ysbyty Athrofaol Cymru yn y Mynydd Bychan ac ysbyty Felindre. Gweithiodd yn agos gyda phob bwrdd iechyd lleol i annog staff ac ymwelwyr i adael eu ceir gartref. Yn y Mynydd Bychan, bu gostyngiad o 8% yn nifer y staff a oedd yn dod i'r gwaith mewn car, a bu gostyngiad o 15% yn Felindre. Cynyddodd nifer y staff a oedd yn beicio i'r gwaith 267% a 100% yn y drefn honno. Roedd hynny'n llwyddiant mawr—cynnydd mawr yn nifer y staff a oedd yn beicio a gostyngiad yn y defnydd o geir preifat. Mae'r prosiect hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn. Un o'r problemau gyda phrosiectau yw y profir eu llwyddiant ar sail y ffordd rydym yn cynnal eu cyflawniadau. Dyna un o'r pethau yr hoffwn i'r Gweinidog fynd i'r afael â hwy.

The other initiative launched in Cardiff North was personalised travel planning. It was successfully launched by the Minister at Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd in Whitchurch. It is funded by the Welsh Government and led by Sustrans, working with the local council. It is about taking very small steps to reduce car usage, perhaps replacing one car journey a week with a more sustainable alternative. We all know about the huge peak in the use of cars at travel-to-school times. If a family could reduce that by just one journey a week, it could make a huge

Y fenter arall a lansiwyd yng Ngogledd Caerdydd oedd cynllunio teithio personol. Fe'i lansiwyd yn llwyddiannus gan y Gweinidog yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd. Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac fe'i harweinir gan Sustrans, gan weithio gyda'r cyngor lleol. Mae'n ymwneud â chymryd camau bach iawn i leihau'r defnydd o geir, efallai drwy ddisodli un siwrne car yr wythnos a dewis dull amgen a mwy cynaliadwy o deithio. Mae pawb yn gwybod am y cynnydd enfawr yn y defnydd o geir

overall difference. That is how personalised travel planning works. The scheme stresses providing information on a door-to-door basis. In other parts of the UK, it has reduced car use by 10%. It is too early to measure its success, but it is hoped that personalised travel planning will lead to achievements. Also, at target schools, Bike It has tripled daily cycling levels.

pan fo pobl yn teithio i'r ysgol. Pe gallai teulu wneud un daith yr wythnos yn llai yn unig, gallai wneud gwahaniaeth mawr yn gyffredinol. Dyna sut mae cynllunio teithio personol yn gweithio. Mae'r cynllun yn pwysleisio y dylid darparu gwybodaeth ar sail o ddrws i ddrws. Mewn rhannau eraill o'r DU, mae wedi lleihau defnydd o geir 10%. Mae'n rhy gynnar i fesur ei lwyddiant, ond gobeithir y bydd cynllunio teithio personol yn arwain at gyflawniadau. Yn ogystal, mewn ysgolion targed, mae Bike It wedi treblu lefelau beicio beunyddiol.

There have been successes in one of the key aims of the national transport plan. However, the personalised travel planning documents sent out in Cardiff sadly did not include details of OYBike. That bike hire scheme has folded in Cardiff after two years, despite having 2,000 registered users and thousands of people taking short rides on those bikes. There were a number of bike racks across the city—not enough, but they were well used—but after two years, the scheme has sadly folded. Can the Welsh Government ensure that a wider scheme is introduced in Cardiff as soon as possible, with a greater spread of bikes throughout the city? The capital city of Wales, which is a sustainable travel centre, should have a widespread bike scheme. I hope that the Minister will be able to address that in his response.

Cafwyd llwyddiannau mewn perthynas ag un o amcanion allweddol y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Fodd bynnag, yn anffodus, nid oedd y dogfennau teithio cynllunio personol a anfonwyd allan yng Nghaerdydd yn cynnwys manylion am OYBike. Daeth y cynllun llogi beiciau hwnnw i ben yng Nghaerdydd ar ôl dwy flynedd, er bod 2,000 o ddefnyddwyr cofrestredig a miloedd o bobl yn gwneud teithiau byr ar y beiciau hynny. Roedd sawl rhesel o feiciau ledled y ddinas—nid oeddynt yn ddigon, ond cawsant ddefnydd dda—ond ar ôl dwy flynedd, yn anffodus, mae'r cynllun wedi dod i ben. A all Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun ehangach yn cael ei gyflwyno yng Nghaerdydd cyn gynted ag y bo modd, gyda mwy o feiciau ar gael ledled y ddinas? Dylai fod gan brifddinas Cymru, sy'n ganolfan teithio cynaliadwy, gynllun beicio eang. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu mynd i'r afael â hynny yn ei ymateb.

Finally, I want to raise the issue of the redevelopment of Cardiff bus station. The present council has recently come forward with ambitious plans to redevelop the area around the central train station. There has been a lot of publicity in the local press about that recently. Those plans depend on the sale of the land immediately in front of the train station to a private company, which, if all went well, would help retain and possibly increase jobs in Cardiff. However, what assurances can the Minister give, and what can the Welsh Government do, to ensure that there is a first-class bus station immediately next to the train station? The glory of Cardiff is the fact that it has a train and bus station next to each other. We want to build on that to create an integrated transport centre. What assurances can the Government give that a

Yn olaf, hoffwn gyfeirio at ailddatblygu gorsaf fysiau Caerdydd. Yn ddiweddar, cyflwynodd y cyngor presennol gynlluniau uchelgeisiol i ailddatblygu'r ardal o amgylch yr orsaf drenau ganolog. Bu llawer o gyhoeddusrwydd yn y wasg leol am hynny yn ddiweddar. Mae'r cynlluniau hynny yn dibynnu ar werthu'r tir sydd yn union o flaen yr orsaf drenau i gwmni preifat, a fyddai, pe byddai'n llwyddo, yn helpu i gadw nifer o swyddi yng Nghaerdydd ac, o bosibl, i'w cynyddu. Fodd bynnag, pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi, a beth all Llywodraeth Cymru ei wneud, i sicrhau y bydd gorsaf fysiau o'r radd flaenaf wedi'i lleoli drws nesaf yn union i'r orsaf drenau? Gogoniant Caerdydd yw'r ffaith bod ganddi orsaf drenau a gorsaf fysiau sydd drws nesaf i'w gilydd. Rydym eisiau adeiladu ar hynny er mwyn

first-class bus station will be delivered for the public? Cardiff bus station has been a dreary place for many years. It needs a big input and a big change. There is an opportunity to do that, and I am anxious that the Welsh Government keeps its eye on the ball and ensures that the public get the bus station they deserve.

creu canolfan drafnidiaeth integreiddiedig. Pa sicrwydd y gall y Llywodraeth ei roi y darperir gorsaf fysiau o'r radd flaenaf i'r cyhoedd? Bu gorsaf fysiau Caerdydd yn lle diflas am flynyddoedd lawer. Mae angen mewnbwn mawr a newid mawr arni. Mae cyfle i wneud hynny, ac rwy'n awyddus bod Llywodraeth Cymru yn cadw llygad ar hyn ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael yr orsaf fysiau y maent yn ei haeddu.

**Mark Isherwood:** Towards the end of the second Assembly, I attended a north Wales economic forum. Bangor University academics gave a presentation on the feasibility of an Anglesey-Cardiff air link. They said that it might be feasible and that it merited a short-term subsidy, provided that a business plan was in place to ensure that it was sustainable and self-funding beyond the first period. That would be on the basis of extended air links—to Dublin initially, then to UK cities, and then to the continent of Europe. However, a political decision was taken. There was an election on 3 May 2007, and, lo and behold, the first flight was on 8 May 2007. We saw a four-year contract launched in December 2010, with a further £1.2 million subsidy.

**Mark Isherwood:** Tuag at ddiwedd yr ail Gynulliad, mynychais fforwm economaidd yng ngogledd Cymru. Gwnaeth academyddion Prifysgol Bangor gyflwyniad ar y posibilrwydd o gael cyswllt awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd. Roeddynt yn dweud y gallai fod yn ymarferol a'i fod yn haeddu cymhorthdal tymor byr, ar yr amod bod cynllun busnes ar waith i sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn ariannu ei hun y tu hwnt i'r cyfnod cyntaf. Byddai hynny ar sail ymestyn cysylltiadau awyr—i Ddulyn i ddechrau, yna i ddinasoedd y DU, ac yna i gyfandir Ewrop. Fodd bynnag, gwnaed penderfyniad gwleidyddol. Cafwyd etholiad ar 3 Mai 2007, ac, wele, cafwyd y daith gyntaf ar 8 Mai 2007. Lansiwyd cytundeb pedair blynedd ym mis Rhagfyr 2010, gyda chymhorthdal pellach o £1.2 filiwn.

5.00 p.m.

In terms of other links, we have the two north Wales express trains running from Holyhead to Cardiff. When the first one, Gerallt 1, was launched, it did not have a stop in Wrexham, the largest town in north Wales; it still does not. Wrexham County Borough Council wrote to the then Welsh Government first with a proposed alternative route and then with a request for a meeting. It tells me that it never received a response. Gerallt 2 was then launched. I questioned the First Minister about this last term and asked why his Government was subsidising a second premier express train service leaving Holyhead just 15 minutes before the general service in the morning. When that was first launched, it did not stop in Denbighshire, Flintshire or Wrexham. Only after an outcry was one stop in Wrexham included, but that was at the cost of a service to Birmingham, which meant that people travelling to work in Birmingham from Clwyd South lost out. That

Mewn perthynas â chysylltiadau eraill, mae gennym ddau drên cyflym yng ngogledd Cymru sy'n rhedeg o Gaergybi i Gaerdydd. Pan lansiwyd yr un cyntaf, Gerallt 1, nid oedd yn aros yn Wrecsam, y dref fwyaf yng ngogledd Cymru; nid yw'n aros yno o hyd. Ysgrifennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam at Lywodraeth Cymru ar y pryd, yn gyntaf i gynnig llwybr amgen ac yna i wneud cais am gyfarfod. Dywedodd y cyngor wrthyf na chafodd ymateb. Yna, lansiwyd Gerallt 2. Holais y Prif Weinidog am y mater hwn y tymor diwethaf, a gofynnais iddo pam fod ei Lywodraeth yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer ail wasanaeth trên cyflym sy'n gadael Caergybi dim ond 15 munud cyn y gwasanaeth cyffredinol yn y bore. Pan gafodd ei lansio'n wreiddiol, nid oedd yn aros yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint na Wrecsam. Dim ond ar ôl protest y cafodd un stop ei gynnwys yn Wrecsam, ond roedd hynny ar draul gwasanaeth i Firmingham, a

second train received a subsidy from May to December last year of some £625,000 as a stopgap until the new 67 DVT train was ready in December, with, I believe, £3.5 million pledged. As the rail user groups that have e-mailed me have said, there is absolutely no need to run a first-class kitchen car. In real life, a café-restaurant would have gone bust with so few customers.

oedd yn golygu bod pobl a oedd yn teithio i'r gwaith ym Mirmingham o Dde Clwyd yn colli allan. Cafodd yr ail drên gymhorthdal o tua £625,000, rhwng mis Mai a mis Rhagfyr y llynedd, fel mesur dros dro hyd nes yr oedd y trên newydd 67 DVT yn barod ym mis Rhagfyr. Credaf fod £3.5 miliwn wedi'i addo yn hynny o beth. Fel y dywedodd grwpiau defnyddwyr trenau sydd wedi anfon negeseuon e-bost ataf, nid oes angen cael cerbyd bwyty dosbarth cyntaf ar drenau. Mewn bywyd go iawn, byddai bwyty o'r fath a oedd yn denu cyn lleied o gwsmeriaid wedi methu.

This is at a time when the Confederation of Passenger Transport Wales has written to every Assembly Member about changes made by the Welsh Government that will have a significant and detrimental impact on bus users. It says that the Welsh Government has only very recently—last week—informed bus operators that overnight, from 1 April, it intends to reduce the level of the bus service operators grant by some 25%, representing a 108% increase in net fuel duty paid. It adds that, while the impact will have a drastic effect on bus operators throughout Wales, the decision to reduce support for bus services will affect the hundreds of thousands of people across Wales who rely on bus services day in, day out, with increased fares, reductions in service levels and increased pressure on local authorities. The reduction in support will make it more expensive for local authorities to support socially necessary bus services and school services.

Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru wedi ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad ynghylch y newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael effaith sylweddol ac andwyol ar ddefnyddwyr bysiau. Yn ôl y cydffederasiwn, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth gwmnïau bysiau yn ddiweddar—yr wythnos diwethaf—ei bod yn bwriadu gostwng grant y gweithredwyr gwasanaethau bysiau dros nos, o 1 Ebrill, tua 25%, sy'n cynrychioli cynnydd o 108% yn y dreth danwydd net a delir. Yn ogystal, yn ôl y cydffederasiwn, er y bydd y newid hwn yn cael effaith ddifrifol ar weithredwyr bysiau ledled Cymru, bydd y penderfyniad i leihau'r cymorth i wasanaethau bysiau yn effeithio ar gannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru sy'n dibynnu ar wasanaethau bysiau bob dydd, gyda phris tocynnau uwch, gostyngiadau yn lefelau'r gwasanaeth a mwy o bwysau ar awdurdodau lleol. Bydd y gostyngiad mewn cymorth yn ei gwneud yn fwy costus i awdurdodau lleol gefnogi gwasanaethau bysiau sydd eu hangen ar y gymdeithas a gwasanaethau bysiau ar gyfer ysgolion.

Also last week, Wrexham council wrote to the Minister expressing concerns about the announcement the previous week of the Welsh Government's intention to cut the local transport services grant by 27% and about the inadequate notice given, meaning that the travelling public in Wrexham and across Wales could lose vital transport services without the benefit of adequate notice or consultation with users about the impact. It now faces additional cuts of £126,000 and says that the timing of the announcement does not give local authorities

Yn ogystal, ysgrifennodd cyngor Wrecsam at y Gweinidog yr wythnos diwethaf, gan fynegi pryderon am y cyhoeddiad a wnaed yn ystod yr wythnos flaenorol ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru i dorri'r grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol 27%, ac am y rhybudd annigonol a roddwyd. Mae hyn yn golygu y gallai teithwyr yn Wrecsam a ledled Cymru golli gwasanaethau trafnidiaeth hanfodol, a hynny heb iddynt gael rhybudd digonol na chyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ynghylch yr effaith ar ddefnyddwyr. Mae'r cyngor yn awr yn

proper time to examine options in detail, or to consult with the public and stakeholders. It says that the impact of this will be compounded by the related decision to significantly cut the bus service operators grant.

wynebu toriadau ychwanegol o £126,000 ac yn dweud nad yw amseriad y cyhoeddiad yn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol archwilio opsiynau’n fanwl, nac i ymgynghori â’r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae’n dweud y bydd effaith y cam hwn yn cael ei gymhlethu gan y penderfyniad cysylltiedig a wnaed i dorri grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yn sylweddol.

Therefore, alongside the subsidies that we heard about earlier for first-class travel, we have that and we also have cuts in the community transport concessionary fares initiative. As stated in an e-mail from the Community Transport Association, the scheme has shown itself to be so popular and successful that Carl Sargeant has decided to pull the plug entirely from 31 March this year. Earlier this month, speaking in the Chamber, I highlighted concerns regarding this scheme, which was set up in 2005 to find the best way to right an unfairness in the all-Wales concessionary travel scheme that discriminated against those very elderly and severely disabled people who are eligible for a bus pass but find it difficult to use ordinary bus services. Surely these areas, rather than subsidised first-class travel for the few, should be the Welsh Government’s transport priorities.

Felly, ochr yn ochr â’r cymorthdaliadau ar gyfer teithio dosbarth cyntaf y clywsom amdanynt eisoes, mae toriadau hefyd yn y fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol. Fel y nodwyd mewn e-bost gan y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol, bu’r cynllun yn ddigon poblogaidd a llwyddiannus fel bod Carl Sargeant wedi penderfynu rhoi diwedd arno o 31 Mawrth eleni. Wrth siarad yn y Siambr yn gynharach y mis hwn, tynnais sylw at y pryderon ynghylch y cynllun hwn, a sefydlwyd yn 2005 i ddod o hyd i’r ffordd orau o gywiro annhegwch yn y cynllun teithio rhatach ar gyfer Cymru gyfan, sef cynllun a oedd yn gwahaniaethu yn erbyn rhai pobl oedrannus iawn a phobl sydd ag anabledd difrifol sy’n gymwys i gael tocyn bws am ddim ond sy’n ei chael yn anodd defnyddio gwasanaethau bysiau arferol. Onid y meysydd hyn, yn hytrach na theithio dosbarth cyntaf cymorthdaledig i ychydig iawn o bobl, ddylai gael eu blaenoriaethu ym mholisïau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru?

**Bethan Jenkins:** I thank the Government for bringing this forward debate today. I especially liked the idea about smart cards, and I know that the former Minister, Ieuan Wyn Jones, raised it numerous times when he held that post. I am glad that the Welsh Government has committed to the A465 Heads of the Valleys road in this national transport plan. It is important for the economy of south Wales, including my particular region, in linking Wales to the midlands in England, and also in providing one of the main routes connecting Ireland, Wales and England. The history of improving this road has been a difficult one, as we all know. Serious road safety issues have made the need for the dualling of this road much more pressing, but, at the same time, dualling is difficult because of environmental concerns. I am, however, glad that the Welsh

**Bethan Jenkins:** Diolchaf i’r Llywodraeth am gyflwyno’r ddadl hon heddiw. Rwyf yn arbennig o hoff o’r syniad o gardiau call, a gwn fod Ieuan Wyn Jones, y cyn-Weinidog, wedi codi’r mater hwn nifer o weithiau pan fu’n gwneud y swydd honno. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ffordd yr A465, sef ffordd Blaenau’r Cymoedd, yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol hwn. Mae’n bwysig i economi de Cymru, gan gynnwys fy rhanbarth penodol i, o ran cysylltu Cymru â chanolbarth Lloegr, a hefyd o ran darparu un o’r prif lwybrau sy’n cysylltu Iwerddon, Cymru a Lloegr. Bu’r hanes o wella’r ffordd hon yn un anodd, fel y gwŷr pob un ohonom. Mae materion diogelwch difrifol ar y ffyrdd wedi gwneud yr angen am ffordd ddeuol yn llawer pwysicach, ond, ar yr un pryd, mae deuoli’n anodd oherwydd pryderon amgylcheddol.

Government has said that the entire A465 will be finished by 2020; it inherited that commitment from Plaid Cymru's time in power, of course.

Fodd bynnag, rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yr A465 yn ei chyfanrwydd yn cael ei chwblhau erbyn 2020; etifeddodd y Llywodraeth yr ymrwymiad hwnnw gan Blaid Cymru yn ystod ei chyfnod mewn grym, wrth gwrs.

Following previous Labour Governments' inability to provide a finish date for the entire project, the One Wales Government set a completion date of 2020. It was disappointing at that time that some Labour backbenchers repeatedly criticised the previous Minister for transport, Ieuan Wyn Jones, when he was responsible for the schemes. They suggested that, under his watch, the work had slipped. Later evidence showed that the slippage took place under a Labour-only Government. I assure the Minister that Plaid Cymru has no intention of using road casualty rates to make a political point in this regard, and that we will support you in making this project a success and in meeting the completion date of 2020. Our concern is that the Heads of the Valleys road be finished in an environmentally sustainable manner, and we hope that that will now be done.

Yn sgîl anallu Llywodraethau Llafur blaenorol i bennu dyddiad cwblhau ar gyfer y prosiect cyfan, pennodd Llywodraeth Cymru'n Un 2020 fel y dyddiad cwblhau. Bryd hynny, roedd yn siomedig gweld rhai o Aelodau meinciau cefn Llafur yn beirniadu Ieuan Wyn Jones, y cyn-Weinidog dros drafnidiaeth, dro ar ôl tro pan oedd yn gyfrifol am y cynlluniau hyn. Roeddent yn awgrymu bod y gwaith wedi llithro o dan ei oruchwyliaeth. Yn ddiweddarach, cafwyd tystiolaeth bod y llithriad wedi digwydd o dan y Llywodraeth Lafur yn unig. Rwyf yn sicrhau'r Gweinidog nad oes gan Blaid Cymru unrhyw fwriad i ddefnyddio cyfraddau anafiadau ar y ffyrdd i wneud pwynt gwleidyddol yn hyn o beth, ac y byddwn yn eich cefnogi wrth wneud y prosiect hwn yn llwyddiant ac o ran cwrdd â'r dyddiad cwblhau yn 2020. Rydym yn pryderu ynghylch a fydd ffordd Blaenau'r Cymoedd yn cael ei gwblhau mewn modd amgylcheddol gynaliadwy, a gobeithiwn y bydd hynny'n cael ei wneud yn awr.

While we were in Government, we also insisted on clauses in contracts with the construction companies that stipulated that people from the heads of the Valleys had to be trained and employed. It is pleasing to see that that is being continued by the present Government. We look forward to playing a constructive role in ensuring that the road dualling can be finished in time in order to alleviate road safety concerns and to ease congestion.

Yn ystod ein cyfnod mewn Llywodraeth, roeddem y mynnu cynnwys cymalau mewn contractau â chwmnïau adeiladu a oedd yn nodi bod yn rhaid hyfforddi a chyflogi pobl o Flaenau'r Cymoedd. Mae'n braf gweld bod y Llywodraeth bresennol yn parhau â'r arfer hwn. Rydym yn edrych ymlaen at chwarae rhan adeiladol o ran sicrhau y gall y ffordd ddeuol gael ei chwblhau mewn pryd i leddfu pryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd ac i leddfu tagfeydd.

The Minister will know that I have an obsession with lighting on these particular roads and with ensuring that, during bad weather conditions, we make our roads safe. The issue of the speed limit has come up in debate, and I hope that you can address that in future, Minister, if it is not emphasised as clearly as I would like in this particular transport plan. Last week, data were published on traffic accidents that showed the most fatalities in the past three years were on

Gwŷr y Gweinidog fod gennyf obsesiwn gyda goleuadau ar y ffyrdd penodol hyn a chyda sicrhau ein bod yn gwneud ein ffyrdd yn ddiogel mewn amodau tywydd gwael. Crybwyllwyd y terfyn cyflymder yn ystod y ddadl, a gobeithiaf y gallwch fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol, Weinidog, os nad yw wedi'i bwysleisio mor glir ag yr hoffwn iddo fod yn y cynllun trafnidiaeth hwn. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd data ar ddamweiniau traffig a oedd yn dangos mai

the A465. What worries me is that these figures are published at a time when the UK Government is looking at raising the speed limit to 80 mph. To my mind, that promotes the idea that the 70 mph limit is more of a nuisance than a sensible limit, and it will give people carte blanche to drive faster now that they know that driving 80 mph is, somehow, more acceptable.

ar yr A465 y bu'r nifer fwyaf o farwolaethau yn y tair blynedd diwethaf. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw'r ffaith bod y ffigurau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar adeg pan fo Llywodraeth y DU yn ystyried codi'r terfyn cyflymder i 80 mya. Yn fy marn i, bydd y cam hwn yn hyrwyddo'r syniad bod y terfyn cyflymder presennol, sef 70 mya, yn fwy o boendod na therfyn synhwyrol, a bydd yn rhoi rhyddid llwyr i bobl yrru'n gyflymach gan eu bod yn gwybod bod gyrru ar gyflymder o 80 mya bellach yn fwy derbyniol rywsut.

Given the challenging topography of Wales, many of our roads are difficult to negotiate at speed. When the Welsh Government has taken action in this regard, for example by reducing motorway speed limits to 50 mph when there are problems with visibility or bad weather, complaints have come my way, but I must say that I disagree with them. I would much rather have those speed limits put on our roads so that we can drive more safely. I therefore urge you to look at these issues in addition to what you have already given us today to ensure that the roads in Wales are safe to drive on when we have to drive and do not have an alternative such as cycling or travelling by train.

O ystyried topograffeg heriol Cymru, mae'n anodd rheoli cerbyd sy'n teithio'n gyflym ar nifer o'n ffyrdd. Rwyf wedi cael cwynion ar yr adegau pan fo Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau yn hynny o beth, er enghraifft drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder ar y draffordd i 50 mya pan fu problemau gyda gwelededd neu dywydd gwael. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn anghytuno â'r cwynion hynny. Byddai'n llawer gwell gennyf weld y cyfyngiadau cyflymder hynny ar ein ffyrdd er mwyn inni allu gyrru'n fwy diogel. Yn ogystal â'r hyn a roesoch inni eisoes heddiw, rwyf felly yn eich annog i ystyried y materion hyn er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel inni yrru ar y ffyrdd yng Nghymru pan fydd angen inni wneud hynny, a phan nad oes gennym opsiynau eraill fel beicio neu deithio ar drên.

**Kenneth Skates:** I welcome the opportunity to speak in this debate. I welcome the fact that the Minister has refocused the transport strategy in Wales. The Minister's decision to rebalance our nation's policy programme towards tackling poverty and growing the economy in the next few years is a vital plank in the delivery agenda of the Welsh Labour Government. This is a time of acute financial pressure, of significant belt-tightening and of scarce resources right across the board. The rescheduled delivery plan that the Minister has set out demonstrates that, while the Welsh Labour Government is committed to financial responsibility and tight fiscal discipline, it is still possible to be progressive and follow an expansionist social democratic policy agenda that will benefit our communities and our economy.

**Kenneth Skates:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi ailffocysu'r strategaeth drafnidiaeth yng Nghymru. Mae penderfyniad y Gweinidog i ail-gydbwyso rhaglen bolisi ein cenedl er mwyn mynd i'r afael â thlodi a thyfu'r economi yn y blynyddoedd nesaf yn elfen hanfodol o agenda cyflawni Llywodraeth Llafur Cymru. Mae hwn yn gyfnod o bwysau ariannol difrifol, o gynilo sylweddol ac o adnoddau prin yn gyffredinol. Mae'r cynllun cyflawni a ad-drefnwyd, sef y cynllun a amlinellwyd gan y Gweinidog, yn dangos ei bod dal yn bosibl bod yn flaengar a dilyn agenda polisi democrataidd cymdeithasol ymledol a fydd o fudd i'n cymunedau a'n heconomi, er bod Llywodraeth Llafur Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfrifoldeb ariannol a disgyblaeth ariannol dynn.

In particular, as a North Wales Assembly

Yn benodol, fel Aelod Cynulliad dros Ogledd

Member, I am very pleased, as are my constituents, with the reprioritisation of the east-west links in our transport planning framework. One of the important and problematic features of the previous plan, as it was constructed in 2010, was that infrastructure spending on transport was too heavily weighted in favour of political concerns about tying together north and south Wales, as opposed to the more pressing need to expand our important regional economies at a difficult time.

Cymru, rwyf yn falch iawn—fel y mae fy etholwyr—bod cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin wedi'u hail-flaenoriaethu yn ein fframwaith cynllunio trafnidiaeth. Un o nodweddion pwysig a phroblemus y cynllun blaenorol, fel y cafodd ei lunio yn 2010, oedd bod gormod o bwyslais ar ymdrin â phryderon gwleidyddol ynghylch cysylltu gogledd a de Cymru ynghlwm â gwariant ar seilwaith drafnidiaeth, yn hytrach na phwyslais ar yr angen mwy dybryd i ehangu ein heconomïau rhanbarthol pwysig ar adeg anodd.

**Bethan Jenkins:** Do you not see the benefit of having strong links between north and south Wales? We are only a small country.

**Bethan Jenkins:** Onid ydych yn gweld y budd o gael cysylltiadau cryf rhwng gogledd a de Cymru? Rydym yn wlad fach.

**Kenneth Skates:** They are not mutually exclusive, but, as I was saying, there has been too much of a focus on one and not enough on the other. Businesses in my area of Wales tell me time and again that east-west links matter just as much as north-south links in terms of business. In an area of sluggish growth, enabling our indigenous companies to engineer the sort of robust and private sector-led growth that we need to fuel our economic growth is vital, and this new schedule of works will, I believe, help us to achieve that. In an area such as north-east Wales, important east-west links that form part of wider cross-border transport paths are vital to driving local economic growth. That is being recognised by the Welsh Labour Government and I applaud it for that. High-quality connectivity with business markets in England and the EU matters to our economy in north-east Wales, and is essential to the export of manufactured goods, tourism growth, and boosting the commercial activities that will be central to redeveloping an industrial base to our economy once more. The busy east-west transport corridor over the coastal north forms part of the vital strategic trans-European transport network, and the rescheduling work seeks to identify the significant pinch points and lack of resilience in our road and rail networks in the north that currently hold us back. In particular, I welcome work being accelerated on phase 2 of the vital Wrexham industrial estate access road. That is a project long in gestation that my colleagues in Wrexham have wanted to see speeded up for many

**Kenneth Skates:** Nid yw'r amcanion hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Serch hynny, fel y dywedais, bu gormod o bwyslais ar un a dim digon ar y llall. Mae busnesau yn fy ardal i o Gymru yn dweud wrthyf dro ar ôl tro bod cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yr un mor bwysig â chysylltiadau rhwng y gogledd a'r de, o safbwynt busnes. Mewn ardal o dwf araf, bydd galluogi ein cwmnïau cynhenid i greu twf cadarn a arweinir gan y sector preifat, sef y twf sydd ei angen arnom i sbarduno twf economaidd, yn hanfodol. Credaf y bydd y rhestr newydd hon o waith yn ein helpu i gyflawni hynny. Mewn ardal fel gogledd-ddwyrain Cymru, mae cysylltiadau pwysig rhwng y dwyrain a'r gorllewin sy'n ffurfio rhan o lwybrau trafnidiaeth trawsffiniol ehangach yn hanfodol ar gyfer gyrru twf economaidd lleol. Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn cydnabod hyn, ac rwyf yn ei chymeradwyo am hynny. Mae cysylltiadau o ansawdd uchel â marchnadoedd busnes yn Lloegr a'r UE yn bwysig i'n heconomi yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ac yn hanfodol o ran allforio nwyddau gweithgynhyrchu, hyrwyddo twf yn y sector twristiaeth, a hybu'r gweithgareddau masnachol a fydd yn ganolog i ailddatblygu sylfaen ddiwydiannol ein heconomi unwaith eto. Mae'r coridor trafnidiaeth prysur sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin yn ardal arfordirol y gogledd yn rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd, sy'n rhwydwaith strategol a hanfodol. Mae'r gwaith a ad-drefnwyd yn ceisio nodi'r tagfeydd sylweddol a'r diffyg gwydnwch sy'n bodoli yn rhwydweithiau ffyrdd a

years. It will be pivotal in extending the Wrexham industrial estate as part of a wider economic regeneration strategy for the town.

rheilffyrdd y gogledd, sef yr elfennau hynny sy'n ein dal yn ôl ar hyn o bryd. Yn benodol, croesawaf y ffaith y bydd gwaith yn cael ei gyflymu ar gam 2 o'r ffordd fynediad hanfodol i ystâd ddiwydiannol Wrecsam. Mae'r prosiect hwnnw wedi cael ei ddatblygu dros gyfnod hir, a bu fy nghydweithwyr yn Wrecsam yn awyddus i'w gyflymu ers blynyddoedd lawer. Bydd yn ganolog i'r broses o ymestyn ystâd ddiwydiannol Wrecsam fel rhan o'r strategaeth ehangach ar gyfer adfywio economaidd yn y dref.

I also welcome the commitment in the plan to a report to address rail issues in the Wrexham-Chester-Deeside triangle. With regard to high-speed rail, Wales in general, and north-east Wales in particular, are vulnerable to dropping back as attractive places in which to do business if the profile and competitiveness of the region does not match those of areas in the midlands and Manchester, which will directly benefit from high-speed rail. Important thought has to be given to how we can use this major project to benefit north Wales with electrification of the main line. I also welcome the Government's commitment to further investment in improved facilities for walking and cycling, including the work to develop a Dee valley path linking Llangollen and Berwyn. It is an area of outstanding natural beauty, and the potential to increase tourism is great indeed. I look forward to seeing how that scheme develops.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad yn y cynllun i lunio adroddiad sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rheilffyrdd yn y triongl sy'n cwmpasu Wrecsam, Caer a Glannau Dyfrdwy. O ran rheilffyrdd cyflym, mae Cymru yn gyffredinol—a gogledd-ddwyrain Cymru yn benodol—mewn perygl o lithro yn ôl fel lleoedd deniadol i wneud busnes, os nad yw proffil a chystadleurwydd y rhanbarth yn cyfateb ag ardaloedd yng nghanolbarth Lloegr a Manceinion a fydd yn elwa'n uniongyrchol ar reilffyrdd cyflym. Mae angen rhoi ystyriaeth ddwys i sut y gallwn ddefnyddio'r prosiect mawr hwn er budd gogledd Cymru, a hynny drwy drydaneiddio'r brif reilffordd. Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i fuddsoddi ymhellach mewn cyfleusterau gwell ar gyfer cerdded a beicio, gan gynnwys gwneud gwaith i ddatblygu llwybr dyffryn Dyfrdwy, sy'n cysylltu Llangollen â'r Berwyn. Mae hon yn ardal o harddwch naturiol eithriadol, ac mae'r potensial i gynyddu twristiaeth yn wir yn enfawr. Rwyf yn edrych ymlaen at weld sut y bydd y cynllun hwnnw'n datblygu.

All this comes despite the Minister having to grapple with big cuts to the infrastructure budget. He is clear in his determination to ensure that we develop a transport system that is fit for purpose and responsive to the needs of the business community. Tempting and easy as it may be for opposition parties to call for them, this plan is not about fancy schemes or shiny new bridges to nowhere, but about the hard grind of government, and developing a transport infrastructure that helps to fuel the economic growth that we need.

Daw hyn i gyd er gwaethaf y ffaith bod y Gweinidog yn gorfod mynd i'r afael â thoriadau mawr i'r gyllideb isadeiledd. Mae'n amlwg ei fod yn benderfynol o sicrhau ein bod yn datblygu system drafnidiaeth sy'n addas at y diben ac sy'n diwallu anghenion y gymuned fusnes. Nid yw'r cynllun hwn yn ymwneud â chynlluniau ffansi neu bontydd newydd sbon nad ydynt yn mynd i unlle, er ei bod efallai'n hawdd i Aelodau'r gwrthbleidiau gael eu temtio i alw amdanynt. Yn hytrach, mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r gwaith caled o lywodraethu, a'r gwaith o ddatblygu seilwaith trafnidiaeth a fydd yn sbarduno'r twf economaidd sydd ei angen

arnom.

**Darren Millar:** I welcome the opportunity to participate in this debate. It gives us an opportunity to look at the transport priorities and policies of the Welsh Government, although I have to say that I am not that confident that all of these schemes will be delivered on time and to budget—particularly given the report of the Auditor General for Wales into the delivery of capital projects in the last Welsh Government under the leadership of Ieuan Wyn Jones.

**Darren Millar:** Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Mae'n rhoi cyfle inni edrych ar flaenoriaethau a pholisïau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Serch hynny, mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn hyderus y bydd pob un o'r cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb—yn enwedig o ystyried adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar sut y cafodd prosiectau cyfalaf eu cyflawni gan y Llywodraeth Cymru ddiwethaf, o dan arweiniad Ieuan Wyn Jones.

That said, there are four issues in particular that I want to touch on. The first is north-south links. It is right to enjoy the benefits of north-south links; I personally benefit from the improved train services that have been implemented over the past few years, for example. However, I also agree that the east-west links should not be disadvantaged as a result. One of the north-south links that should be axed is the Anglesey to Cardiff air link, which is costing the taxpayer £3,000 per day in subsidy. I think that that money would be far better spent on a more commercially viable route—perhaps from south Wales to Liverpool airport, as an international centre of commerce. That would be far more beneficial to the majority of people in north Wales because it would be much closer than the link in Anglesey. There is also a need for an aviation strategy for Wales from the Welsh Government. We need to attract the North American market into Cardiff in particular. Minister, would you tell us what work the Welsh Government is doing to establish a North American air link in order to bring business and tourism benefits to Wales?

Wedi dweud hynny, hoffwn ymdrin â phedwar mater yn benodol. Y cyntaf yw'r mater o gysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Mae'n iawn mwynhau manteision y cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de; er enghraifft, rwyf yn elwa'n bersonol ar y gwasanaethau trên gwell sydd wedi cael eu gweithredu dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cytuno na ddylai cysylltiadau o'r dwyrain i'r gorllewin fod o dan anfantais o ganlyniad i hyn. Un o'r cysylltiadau rhwng y gogledd â'r de y dylid ei ddiddymu yw'r cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, sy'n costio £3,000 y dydd i drethdalwyr ar ffurf cymorthdaliadau. Byddai'n llawer gwell gennyf wario'r arian hwnnw ar lwybr sy'n fwy hyfyw o ran masnach—efallai llwybr o dde Cymru i faes awyr Lerpwl, sy'n ganolfan fasnach ryngwladol. Byddai hynny'n llawer mwy buddiol i'r mwyafrif o bobl yng ngogledd Cymru, gan y byddai'n llawer agosach iddynt na'r maes awyr yn Ynys Môn. Mae hefyd angen strategaeth hedfan i Gymru gan Lywodraeth Cymru. Mae angen inni ddenu marchnad Gogledd America i Gaerdydd yn arbennig. Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthym pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sefydlu cyswllt awyr â Gogledd America er mwyn dod â buddion busnes a thwristiaeth i Gymru?

5.15 p.m.

One omission from the plan is any attempt to improve direct rail services between the metropolitan city of Liverpool and the north Wales coast. You will be aware that there is no direct rail link between the two areas at the moment, and that would be of benefit to

Un peth a hepgorwyd o'r cynllun yw unrhyw ymdrech i wella gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol rhwng dinas fetropolitan Lerpwl ac arfordir gogledd Cymru. Byddwch yn gwybod nad oes cyswllt rheilffordd uniongyrchol rhwng y ddwy ardal ar hyn o

the economy along the north Wales coast. Is that something that you are prepared to look at? There seemed to be resistance on the part of the previous Minister to this.

bryd, a byddai hynny o fudd i'r economi ar hyd arfordir gogledd Cymru. A yw hynny'n rhywbeth rydych yn barod i edrych arno? Roedd yn ymddangos bod y Gweinidog blaenorol yn gwrthwynebu'r syniad hwn.

In addition to that, you will be aware that I have petitioned the Government over the past few years to establish a new train station in Towyn and Kinmel Bay in my constituency. This is an area that is massively important to the north Wales tourism economy, given that it has over 50,000 beds, which are filled with tourists each week throughout the peak holiday season. Tourism is the bread and butter of the north Wales economy. Many people want easy access, and what better way for them to get access than using the sustainable transport rail infrastructure. I would appreciate it, Minister, if you could consider trying to move this forward. I accept that Taith has put it in its long-term plan for north Wales, but it would be good to see you putting some emphasis on that.

At hynny, byddwch yn gwybod fy mod wedi anfon ceisiadau at y Llywodraeth dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch sefydlu gorsaf drenau newydd yn Nhywyn a Bae Cinmel yn fy etholaeth i. Mae hwn yn faes sy'n aruthrol o bwysig i economi twristiaeth gogledd Cymru, o ystyried bod ganddo dros 50,000 o welyau, sy'n cael eu llenwi gan dwristiaid bob wythnos drwy gydol y tymor gwyliau prysur. Twristiaeth yw bara menyn economi gogledd Cymru. Mae nifer o bobl am gael mynediad hawdd, a pha ffordd well o gael mynediad na defnyddio'r seilwaith trafnidiaeth rheilffyrdd cynaliadwy. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe baech yn ystyried ceisio symud ymlaen mewn perthynas â'r mater hwn. Rwy'n derbyn bod Taith wedi ei roi yn ei gynllun tymor hir ar gyfer gogledd Cymru, ond byddai'n braf eich gweld chi'n rhoi rhywfaint o bwyslais ar hynny.

Finally, you will be aware that the Petitions Committee is currently considering a petition to give free bus passes to students under the age of 25 who are in full-time education. I know that you have given a commitment to the concessionary fares scheme, and I welcome that commitment, as it is something that this party has supported since its inception. However, will you look at the proposal that has been made by students from Llandrillo College in my constituency to see whether there is an opportunity to extend that concessionary fare scheme in some way to students, who would benefit greatly from improved access to their place of education?

Yn olaf, byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd yn ystyried deiseb ynghylch rhoi tocynnau bws am ddim i fyfyrwyr o dan 25 oed sydd mewn addysg amser llawn. Gwn eich bod wedi ymrwymo i gynllun teithio rhatach, ac rwy'n croesawu'r ymrwymiad hwnnw, gan ei fod yn rhywbeth y mae'r blaid hon wedi ei gefnogi ers y cychwyn. Fodd bynnag, a wnewch chi edrych ar y cynnig a wnaed gan fyfyrwyr o Goleg Llandrillo yn fy etholaeth i weld a oes cyfle i ymestyn y cynllun tocynnau mantais mewn rhyw ffordd i fyfyrwyr, a fyddai'n cael budd mawr o gael gwell mynediad at y lle y maent yn cael eu haddysg?

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am aware of the time constraints when it comes to replying to some of the points that have been raised by Members today, but I will certainly do my best to respond. There is a slight confusion in some Members' contributions, and pet projects that fall outside the NTP have, quite rightly, been raised today and I will try to address some of those issues as well.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwy'n ymwybodol o'r cyfyngiadau amser wrth ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau heddiw, ond byddaf yn sicr yn gwneud fy ngorau i'w hateb. Mae rhywfaint o ddryswch yng nghyfraniadau rhai o'r Aelodau, ac, yn gwbl briodol, codwyd rhai prosiectau sy'n bwysig i Aelodau ac sydd y tu allan i'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a byddaf yn ceisio ymdrin â

rhai o'r materion hynny hefyd.

I will respond first of all to the final contribution from the Member for Liverpool—I am sorry, Conwy; no, Clwyd West. [*Laughter.*] Wherever the Member is from, he has a very big interest in Liverpool. It might be worth having a rethink about the opposition to the air link. I know that you and Mark Isherwood have raised the matter of the investment that the Welsh Government makes to the vital service that connects north and south Wales, and I am aware that Members from your party have used the service. It is a very interesting proposal to stop that as well.

Byddaf yn ymateb yn gyntaf i'r cyfraniad olaf gan yr Aelod dros Lerpwl—mae'n ddrwg gennyf, dros Gonwy; na, Gorllewin Clwyd. [*Chwerthin.*] O ba le bynnag y daw'r Aelod, mae ganddo ddiddordeb mawr iawn yn Lerpwl. Efallai y byddai'n werth ailfeddwl ynghylch y gwrthwynebiad i'r cyswllt awyr. Rwy'n gwybod eich bod chi a Mark Isherwood wedi crybwyll buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y gwasanaeth hanfodol sy'n cysylltu gogledd a de Cymru, ac rwy'n ymwybodol bod Aelodau o'ch plaid wedi defnyddio'r gwasanaeth. Mae'n gynnig diddorol iawn i gael gwared ar y gwasanaeth hwnnw hefyd.

The Wrexham-Bidston line is not a part of the NTP, but we are working with Merseyrail to take that proposal forward. You mentioned station priorities, particularly in your area, and this matter was also raised by a Member from south Wales. This is a matter for the regional consortia in deciding their priorities, but I take that very seriously in relation to their bids for funding.

Nid yw llinell Wrecsam-Bidston yn rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, ond rydym yn gweithio gyda Merseyrail i symud y cynnig hwnnw yn ei flaen. Gwnaethoch sôn am flaenoriaethau gorsafoedd, yn enwedig yn eich ardal chi, a chafodd y mater hwn ei godi gan Aelod o dde Cymru hefyd. Mae hwn yn fater i'r consortia rhanbarthol wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau, ond rwy'n rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i hynny mewn perthynas â'u ceisiadau am arian.

The smart card technology that we are already piloting in Newport aims to target individuals with specific needs. We may consider extending it to students in the future and we might want to provide other target groups with a card, which would give them access to transport at certain times of day for specific journeys. It is something that the Welsh Government is committed to considering.

Bwriad y dechnoleg cardiau call yr ydym eisoes yn ei threialu yng Nghasnewydd yw targedu unigolion ag anghenion penodol. Efallai y byddwn yn ystyried ei hymestyn i fyfyrwyr yn y dyfodol ac efallai y byddwn eisiau cynnig cerdyn i grwpiau targed eraill. Byddai'n rhoi mynediad iddynt i drafnidiaeth ar adegau penodol o'r dydd ar gyfer teithiau penodol. Mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ystyried.

Julie Morgan raised the very important issues of cycling and walking, which she quite rightly supports in Cardiff, and sustainable travel centres. I have written to Cardiff Council regarding the travel centre and its funding, and have asked the council to clarify its intention regarding the redevelopment of the bus station. I will keep the Member informed regarding that matter.

Cododd Julie Morgan y materion pwysig iawn o feicio a cherdded, y mae hi'n eu cefnogi yng Nghaerdydd, sy'n hollol gywir, a chanolfannau teithio cynaliadwy. Rwyf wedi ysgrifennu at Gyngor Caerdydd am y ganolfan deithio a'i chyllid, ac rwyf wedi gofyn i'r cyngor egluro beth y mae'n bwriadu ei wneud ynghylch y gwaith o ailddatblygu'r orsaf fysiau. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod am y mater hwnnw.

I broadly welcome the comments made by Bethan Jenkins and her continued support for making the roads of Wales safe and reducing

Yn gyffredinol, rwy'n croesawu'r sylwadau a wnaed gan Bethan Jenkins a'i chefnogaeth barhaus ar gyfer gwneud ffyrdd Cymru yn

speed limits. Let me be clear: I am very supportive of the variable speed limits on the M4 and I do not support the principle of an 80mph speed limit in Wales. We are also investing in the Safe Routes in Communities programme around Wales; it is a popular idea that makes a huge difference to our communities.

ddiogel a lleihau cyfyngiadau cyflymder. Gadewch imi fod yn glir: rwy'n gefnogol iawn o'r cyfyngiadau cyflymder amrywiol ar yr M4 ac nid wyf yn cefnogi'r egwyddor o derfyn cyflymder o 80mya yng Nghymru. Rydym hefyd yn buddsoddi yn y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ledled Cymru; mae'n syniad poblogaidd sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i'n cymunedau.

Ken Skates raised the important issue of targeting the NTP at economic growth. We have targeted our reprioritised NTP at poverty, jobs and economic growth and will ensure that we can deliver on time and on budget. That is the proposal from this Government and that is certainly one of my priorities.

Cododd Ken Skates y mater pwysig o dargedu twf economaidd yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Rydym wedi targedu ein Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi'i ail-flaenoriaethu ar dlodi, swyddi a thwf economaidd a bydd yn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb. Dyna'r cynnig gan y Llywodraeth hon, ac, yn sicr, dyna un o'm prif flaenoriaethau.

**Darren Millar:** Thank you for taking the intervention. I have just a brief point, Minister, on the issue of speed limits. I welcome your recent announcement about your desire to reduce the number of road deaths across the country. I am also aware that the Welsh Government issued guidance in 2009 on speed limits, and encouraged local authorities to review speed limits in urban communities in particular. What progress is being made by local authorities on that? If insufficient progress is being made—as I believe it is in my constituency—what action will you take to ensure that local authorities take that responsibility seriously?

**Darren Millar:** Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Mae gennyf bwynt byr i'w wneud, Weinidog, ar y mater o derfynau cyflymder. Croesawaf eich cyhoeddiad diweddar ynghylch eich dymuniad i leihau nifer y marwolaethau ar y ffyrdd ledled y wlad. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau yn 2009 ar derfynau cyflymder, ac roedd yn annog awdurdodau lleol i adolygu cyfyngiadau cyflymder mewn cymunedau trefol yn arbennig. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol mewn perthynas â hynny? Os nad oes digon o gynnydd yn cael ei wneud—fel rwy'n credu sy'n wir o fy etholaeth i—pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif?

**Carl Sargeant:** I do not have the details to hand of the progress of all 22 local authorities in that regard, but I will provide a note for Members on the progress across Wales.

**Carl Sargeant:** Nid oes gennyf y manylion am gynnydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn hynny o beth, ond byddaf yn darparu nodyn ar gyfer yr Aelodau ar gynnydd ledled Cymru.

I have a few more points to make, if I have the time, Deputy Presiding Officer. I note that Members have been lobbied heavily on the bus service operator grant and I would just like to put on record where the Welsh Government currently stands on this issue. Since 2009, operators in Wales have enjoyed a more generous bus service operator grant rate for standard diesel than in England. The

Mae gennyf ychydig o bwyntiau pellach i'w gwneud, os oes gennyf amser, Ddirprwy Lywydd. Nodaf fod Aelodau wedi cael eu lobïo'n ddwys ar y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau a hoffwn nodi'n glir beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ar hyn o bryd. Ers 2009, mae gweithredwyr yng Nghymru wedi cael grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau mwy

current bus service operator grant rate is 47.05p per litre compared with 43.21p per litre in England. For next financial year, the bus service operator grant rate for standard diesel in Wales will be set at 35.28p per litre, while the equivalent figure in England will be 34.57p per litre, which, again, will be greater than the figure to be paid in England.

hael ar gyfer disel safonol nag yn Lloegr. Cyfradd bresennol y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yw 47.05c y litr o'i gymharu â 43.21c y litr yn Lloegr. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, bydd y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau ar gyfer disel safonol yng Nghymru yn 35.28c y litr, tra bydd y ffigur cyfatebol yn Lloegr yn 34.57c y litr, a fydd, unwaith eto, yn fwy na'r ffigur a gaiff ei dalu yn Lloegr.

The Welsh Government provides bus operators with a bus service operator grant of £21 million and local authorities provide an additional £11 million through the local transport service grant. This is much more than bus operators receive in England, and, quite frankly, we cannot afford that at the moment. However, if we can demonstrate that what we are offering is different to what is being offered in England by paying more bus service operator grant, which we are already doing, I am also happy to have a discussion with bus service operators to see how we can engage with them on a new deal for buses in Wales. I will be asking stakeholders for an urgent meeting to discuss this proposal this week.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau o £21 miliwn i weithredwyr bysiau, ac mae awdurdodau lleol yn darparu £11 miliwn ychwanegol drwy'r grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol. Mae hyn yn llawer mwy na mae gweithredwyr bysiau yn ei gael yn Lloegr, ac, i fod yn onest, ni allwn fforddio hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os gallwn ddangos bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn wahanol i'r hyn a gaiff ei gynnig yn Lloegr drwy dalu grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau mwy, fel rydym eisoes yn ei wneud, rwyf hefyd yn hapus i gael trafodaeth â gweithredwyr gwasanaethau bysiau i weld sut y gallwn ymgysylltu â nhw ar fargen newydd ar gyfer bysiau yng Nghymru. Byddaf yn gofyn i randdeiliaid am gyfarfod brys i drafod y cynnig hwn yr wythnos hon.

**Alun Ffred Jones:** Will you take an intervention?

**Alun Ffred Jones:** A wnewch chi gymryd ymyriad?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Carl Sargeant:** Gwnaf.

**The Deputy Presiding Officer:** The Minister is over time, but I will allow the intervention.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r Gweinidog wedi defnyddio ei holl amser, ond byddaf yn caniatáu'r ymyriad.

**Alun Ffred Jones:** You mentioned the difference between England and Wales in terms of support, but can you explain why you gave only 10 weeks' notice to bus operators about the change in the support arrangements?

**Alun Ffred Jones:** Rydych yn sôn am y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran cymorth, ond a allwch chi esbonio pam mai dim ond 10 wythnos o rybudd y gwnaethoch ei roi i weithredwyr bysiau ynghylch y newid yn y trefniadau cymorth?

**Carl Sargeant:** There is a huge issue with the budget in terms of trying to balance the books. I recognise that there are current pressures on bus service operators in terms of the transition period. As I have just said, I am happy to talk to the bus service operators; they are already better off as a result of being in Wales than in England. However, I am

**Carl Sargeant:** Mae problem enfawr â'r gyllideb o ran mantoli'r cyfrifon. Rwy'n cydnabod bod pwysau ar weithredwyr gwasanaethau bysiau o ran y cyfnod pontio ar hyn o bryd. Fel rwyf newydd ei ddweud, rwy'n hapus i siarad â'r gweithredwyr gwasanaethau bysiau; maent eisoes yn well eu byd o ganlyniad i fod yng Nghymru yn

happy to have a discussion about how we can move this forward, providing that bus operators can demonstrate that they are providing a better service in Wales than their counterparts in England.

hytrach nag yn Lloegr. Fodd bynnag, rwy'n hapus i gael trafodaeth ynglŷn â sut y gallwn symud ymlaen ar y mater hwn, ar yr amod y gall gweithredwyr bysiau ddangos eu bod yn darparu gwasanaeth gwell yng Nghymru na'u cymheiriaid yn Lloegr.

Many other questions were raised with me during the debate. I will read the Record and if I discover that I have not addressed them, I will seek to write to Members individually to answer them, if I feel that that would be pertinent.

Codwyd nifer o gwestiynau eraill yn ystod y drafodaeth. Byddaf yn darllen y Cofnod ac os byddaf yn canfod nad wyf wedi mynd i'r afael â'r holl gwestiynau, byddaf yn ceisio ysgrifennu at yr Aelodau'n unigol i'w hateb, os wyf yn teimlo y byddai hynny'n briodol.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Is there any objection? I see that there is, therefore I will defer all voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon hyd nes y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Y Strategaeth Microfusnesau
## The Microbusiness Strategy

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 3 a 4 yn enw William Graham a gwelliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies, amendments 3 and 4 in the name of William Graham and amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4903 Jane Hutt*

*Motion NDM4903 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn croesawu Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnes ac ymrwymiad y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i lunio cynllun ar gyfer gweithredu polisi a strategaeth Microfusnes.*

*Welcomes the Micro-Business Task and Finish Group Report and the commitment of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to draw up a plan for the implementation of a Micro-Business policy and strategy.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move the motion.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigiaf y cynnig.

As Members will be aware, the microbusiness task and finish group that I established in September 2011 published its report on 18 January. I place on record my thanks to the Chair, Robert Lloyd Griffiths, and the other members of the group for the

Fel y gŵyr Aelodau, cyhoeddodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnes a sefydlais ym mis Medi 2011 ei adroddiad ar 18 Ionawr. Hoffwn nodi fy niolch i'r Cadeirydd, Robert Lloyd Griffiths, ac aelodau eraill y grŵp am eu hymdrechion wrth gynhyrchu'r

effort that they put into producing the report that provides me with clear advice and recommendations on the development of a microbusiness strategy for Wales.

adroddiad. Mae'r adroddiad yn rhoi cyngor ac argymhellion clir imi ar ddatblygu strategaeth ar ficrofusnes i Gymru.

I welcome the analysis contained in the report, which draws on the group's expertise and experience, the views of microbusinesses and independent research. As the report states, the microbusiness sector is a vital, dynamic and integral part of Welsh society that has great potential to drive economic recovery. Microbusinesses accounted for 95% of all businesses in Wales in 2011 and are responsible for a third of private sector employment, which is proportionately more than in the United Kingdom as a whole.

Croesawaf y dadansoddiad a nodir yn yr adroddiad, sy'n defnyddio arbenigedd a phrofiad y grŵp, barn microfusnesau a gwaith ymchwil annibynnol. Fel y dywed yr adroddiad, mae'r sector microfusnes yn rhan hanfodol, deinamig ac annatod o gymdeithas Cymru sydd â photensial mawr i ysgogi adferiad economaidd. Mae microfusnesau'n cyfrif am 95% o'r holl fusnesau yng Nghymru yn 2011 ac maent yn gyfrifol am draean o'r gyflogaeth yn y sector preifat, sy'n fwy, yn gyfatebol, nag yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

The report sets its recommendations in the context of the current UK economic climate of rising unemployment and declining employment. However, it notes that the Welsh Government is committed to helping to position businesses in Wales to face the challenging economic conditions ahead, and states that it is possible for a microbusiness to grow and make money in spite of a poor economic climate. The report makes clear the role of the Welsh Government in supporting microbusinesses: it should be one of facilitation and enablement, rather than direct delivery, as the private sector has the expertise and is often better placed to advise and guide microbusinesses. However, the Welsh Government should play a role in influencing and encouraging joint working in matters that relate to microbusinesses.

Mae'r adroddiad yn gosod ei argymhellion yng nghyd-destun hinsawdd economaidd bresennol y DU o ddiweithdra cynyddol a chyflogaeth sy'n gostwng. Fodd bynnag, mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu i roi busnesau yng Nghymru mewn sefyllfa i wynebu'r amodau economaidd heriol sydd o'n blaenau, ac yn nodi ei bod yn bosibl i ficrofusnesau dyfu a gwneud arian er gwaethaf yr hinsawdd economaidd wael. Mae'r adroddiad yn gwneud rôl Llywodraeth Cymru yn glir o safbwynt cefnogi microfusnesau: dylai hwyluso a galluogi, yn hytrach na darparu'n uniongyrchol, oherwydd y sector preifat sydd â'r arbenigedd ac mae'n aml mewn gwell sefyllfa i gynghori ac arwain microfusnesau. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan o ran annog cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â microfusnesau a dylanwadu ar hynny.

Implementing this recommended role and approach will mean a change in the way that we have delivered services historically. The report recommends that the Welsh Government focuses on five primary priorities to sustain and grow microbusinesses: access to and awareness of business support services, access to finance, mentoring and coaching, public sector procurement and the regulatory burden. We need not only ensure that microbusinesses are aware of and have access to support, but that they are aware of and have access to the right support that reflects their requirements and

Bydd gweithredu'r rôl a'r ymagwedd a argymhellir yn golygu newid y ffordd rydym wedi darparu gwasanaethau yn hanesyddol. Mae'r adroddiad yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar bum prif flaenoriaeth i gynnal microfusnesau ac i sicrhau eu bod yn tyfu: mynediad at wasanaethau cymorth busnes ac ymwybyddiaeth ohonynt, mynediad at gyllid, gwasanaethau mentora a hyfforddiant, caffael y sector cyhoeddus a'r baich rheoleiddio. Mae angen inni sicrhau nid yn unig bod microfusnesau'n ymwybodol o'r gefnogaeth ac yn cael mynediad ati, ond hefyd eu bod yn

the stage of development that that business is at. In considering the recommendation of the development of one-stop shops, it will be important to work in partnership with all the key stakeholders.

ymwybodol o'r cymorth mwyaf priodol sy'n adlewyrchu eu hanghenion ac ar ba gam y mae eu busnesau yn y broses ddatblygu, a bod ganddynt fynediad at y cymorth hwnnw. Wrth ystyried argymhelliad i ddatblygu siopau un stop, bydd yn bwysig gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid allweddol.

Difficulties in accessing finance and, in particular, difficulties with the operation of banks on the ground have been identified in the report. Therefore, my officials will be exploring different models when considering the recommendation on the delivery of accessible finance for microbusinesses. The report rightly identifies that facing difficult challenges, new situations and decisions can be a lonely situation for microbusiness owners. Therefore, exploring the development of a pan-Wales mentoring and coaching scheme will be a key action in the implementation plan. The independent task and finish group has recommended a public procurement Bill. I will be asking officials to look into the issues raised in the report. There are probably alternatives to a Bill that we might also need to look at to address and deal with these issues.

Nodwyd anawsterau yn yr adroddiad o ran cael mynediad at gyllid ac, yn arbennig, anawsterau o ran sut y mae'r banciau'n gweithredu ar lawr gwlad. Felly, bydd fy swyddogion yn edrych ar fodelau gwahanol wrth ystyried yr argymhelliad ar ddarparu cyllid hygyrch ar gyfer microfusnesau. Mae'r adroddiad yn nodi, yn gywir, fod wynebu heriau, sefyllfaoedd a phenderfyniadau anodd yn gallu bod yn sefyllfa unig i berchnogion microfusnesau. Felly, bydd archwilio'r broses o ddatblygu cynllun mentora a hyfforddi i Gymru gyfan yn gam allweddol yn y cynllun gweithredu. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi argymell y dylid cyflwyno Bil caffael cyhoeddus. Byddaf yn gofyn i swyddogion ymchwilio i'r materion a godwyd yn yr adroddiad. Mae'n debyg bod dewisiadau eraill, yn hytrach na Bil, y gallai fod angen inni edrych arnynt er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Regulatory burdens overwhelm microbusinesses and I will consider a wider review of the regulation of business and what we can do, as a Government, to contribute to streamlining, simplifying and codifying existing Welsh Government legislation, including measuring the cumulative impact of Government policies on the Welsh economy. The group also considered, but were not able to fully explore, other important factors, including a pre-apprenticeship support scheme targeting young people not in employment, training or education. That is something that I hope that my colleague the Minister for Skills will be looking at. It also considered the need to support microbusinesses to become more innovative. However, importantly, this needs to look beyond research and development and focus on developing individual capability to innovate and embrace new challenges. It looked at support for microbusinesses to trade internationally, which is an important point that has been made to me by the

Mae beichiau rheoleiddio yn llethu microfusnesau a byddaf yn ystyried cynnal adolygiad ehangach o'r broses o reoleiddio busnes a beth y gallwn ei wneud, fel y Llywodraeth, i gyfrannu at symleiddio a chyfundrefnu deddfwriaeth bresennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mesur effaith gronnol polisïau'r Llywodraeth ar economi Cymru. Bu'r grŵp hefyd yn ystyried ffactorau pwysig eraill, gan gynnwys cynllun cymorth cyn-brentisiaeth sy'n targedu pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg, ond nid oedd yn gallu eu harchwilio'n llawn. Rwy'n gobeithio y bydd fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Sgiliau, yn edrych ar hynny. Mae hefyd yn ystyried yr angen i gefnogi microfusneau i fod yn fwy arloesol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod hyn yn edrych y tu hwnt i ymchwil a datblygu ac yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu unigolion i arloesi a chroesawu heriau newydd. Roedd yn edrych ar y gefnogaeth i ficrofusnesau i'w galluogi i fasnachu'n rhyngwladol, sydd yn bwynt

Chambers of Commerce, regarding the greater use that could be made of and the work that we could do with its members. The importance of a communications infrastructure fits nicely into the discussions that we had earlier about broadband, mobile phones and so on.

pwysig a wnaethpwyd imi gan y Siambrau Masnach, ynghylch y defnydd mwy y gellid ei wneud o'i aelodau a'r gwaith y gallem ei wneud gyda hwy. Mae pwysigrwydd seilwaith cyfathrebu yn cyd-fynd yn dda â'r trafodaethau a gawsom yn gynharach am fand eang, ffonau symudol ac yn y blaen.

I intend to consider fully the group's recommendations. It is clear to me that in order to fully implement this report, a whole-Government approach will be crucial. The report recommends strongly that effective and co-ordinated cross-departmental organisational work would be needed to deliver an overarching framework to ensure stability and focused support for microbusinesses. I have therefore made a commitment to draw up an implementation plan to take the recommendations forward. As part of the implementation process, my officials will be considering different options for the delivery of the recommendations. I am also pleased to say that the task and finish group will be involved in the production of the implementation plan. It will be the sounding board for my officials and will be key to ensuring that we have an implementation plan that reflects the outcomes that are suggested in the report. The group will monitor this on a quarterly basis.

Rwy'n bwriadu ystyried argymhellion y grŵp yn llawn. Mae'n amlwg imi, er mwyn gweithredu'r adroddiad hwn yn llawn, y bydd dull Llywodraeth gyfan yn hanfodol. Mae'r adroddiad yn argymell yn gryf y byddai angen gwaith traws-sefydliadol effeithiol a chydgysylltiedig i ddarparu fframwaith trosfwaol i sicrhau sefydlogrwydd a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar microfusnesau. Felly, rwyf hefyd wedi ymrwymo i lunio cynllun gweithredu i roi'r argymhellion ar waith. Fel rhan o'r broses weithredu, bydd fy swyddogion yn ystyried gwahanol ddewisiadau ar gyfer cyflwyno'r argymhellion. Rwyf hefyd yn falch o ddweud y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn rhan o'r broses o lunio'r cynllun gweithredu. Bydd yno i drafod syniadau gyda'm swyddogion a bydd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o sicrhau bod gennym gynllun gweithredu sy'n adlewyrchu'r canlyniadau sy'n cael eu hawgrymu yn yr adroddiad. Bydd y grŵp yn monitro hyn bob chwarter.

I am delighted to have the opportunity to debate this report in the Assembly Chamber today, because the report was excellent, well-delivered and quite frank and forceful in some of its conclusions. It is now up to Government to implement it.

Rwyf wrth fy modd imi gael y cyfle i drafod yr adroddiad hwn yn Siambr y Cynulliad heddiw, oherwydd mae'r adroddiad yn ardderchog ac wedi'i gyflwyno'n dda ac roedd rhai o'i gasgliadau'n agored iawn ac yn rymus. Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw ei weithredu bellach.

5.30 p.m.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Rhoi pwynt 1 newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point 1 at start of motion:*

*Yn nodi bod 331,400 o bobl yn gweithio i 193,010 microfusnes yng Nghymru ac yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer microfusnesau yn ei chyllideb.*

*Notes that 331,400 people work for 193,010 microbusinesses in Wales and regrets the Welsh Government's decision not to include extra help for micro-businesses in its budget.*

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:*

*'sy'n cynnwys mesurau i leihau baich ardrethi busnes'*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies.

Thank you for the opportunity to contribute to this debate on the microbusiness strategy and to propose amendments 1 and 2. The report confirms what Plaid has been calling on the Government to do for months. We certainly believe that the Welsh economy needs a comprehensive stimulus package with an enhanced rate relief scheme and extensive capital investment programme to help Welsh companies. I do not need to reiterate—although I will—that there is a crisis facing the Welsh economy, which highlights the need for urgent action. We are in difficult, indeed very dangerous, times. Britain's industrial sector suffered a tough quarter, with the Office for National Statistics reporting that factory output dropped by 0.9%. Activity in the construction industry also fell by 0.5%, while the UK's dominant services sector was flat.

Unfortunately, small business confidence plummeted in 2011 as businesses were hit by high inflation, rising utility bills and reduced consumer spending power, according to the latest findings from the Federation of Small Businesses 'Voice of Small Business' index. Wales will also be adversely affected by the significant drop in manufacturing orders during August, as reported by the Confederation of British Industry's industrial trends survey, and by the 10% fall in bank loans to small businesses for the first six months of 2011, as reported by the British Banking Association. This trend continued until the end of 2011. Microbusinesses, enterprises that employ up to nine people, account for 94.5% of all business in Wales and are responsible for one third of private sector employment, which means that a huge number of people are dependent on these small businesses. Plaid is calling for direct financial support for small businesses in order to safeguard as many of the jobs in these companies as possible.

*Insert at end of motion:*

*'which includes measures to alleviate the burden of business rates'.*

**Alun Ffred Jones:** I move amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies.

Diolch am gael y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon ar y strategaeth microfusnesau ac i gynnig gwelliannau 1 a 2. Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r hyn y bu Plaid Cymru yn galw ar y Llywodraeth i'w wneud ers misoedd. Yn sicr, rydym yn credu bod angen pecyn ysgogi cynhwysfawr ar economi Cymru gyda chynllun rhyddhad ardrethi wedi'i ehangu a rhaglen buddsoddi cyfalaf helaeth i helpu cwmnïau Cymru. Nid oes angen imi ailadrodd—er y gwnaf hynny—bod argyfwng yn wynebu economi Cymru, sy'n amlygu'r angen i weithredu ar frys. Rydym mewn cyfnod anodd a pheryglus iawn. Cafodd sector diwydiannol Prydain chwarter anodd, ac adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol bod allbwn ffatrïoedd wedi gostwng 0.9%. Bu gostyngiad o 0.5% hefyd mewn gweithgaredd yn y diwydiant adeiladu ac roedd sector prif wasanaethau'r DU yn wastad.

Yn anffodus, plymiodd hyder busnesau bach yn 2011 wrth i fusnesau gael eu taro gan chwyddiant uchel, biliau cyfleustodau yn codi a grym gwario defnyddwyr yn gostwng, yn ôl canfyddiadau diweddaraf mynegai 'Voice of Small Business' y Ffederasiwn Busnesau Bach. Bydd Cymru hefyd yn cael ei heffeithio'n andwyol gan y gostyngiad sylweddol mewn archebion gweithgynhyrchu yn ystod mis Awst, fel yr adroddwyd gan arolwg tueddiadau diwydiannol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, a chan y gostyngiad o 10% mewn benthyciadau banc i fusnesau bach ar gyfer chwe mis cyntaf 2011, fel yr adroddwyd gan Gymdeithas Bancio Prydain. Parhaodd y duedd hon hyd nes diwedd 2011. Mae microfusnesau, sef mentrau sy'n cyflogi hyd at naw o bobl, yn cyfrif am 94.5% o'r holl fusnesau yng Nghymru ac maent yn gyfrifol am draean o'r gyflogaeth yn y sector preifat, sy'n golygu bod nifer fawr o bobl yn dibynnu ar y busnesau bach hyn. Mae Plaid Cymru yn galw am gymorth ariannol uniongyrchol ar

gyfer busnesau bach, er mwyn diogelu cymaint o'r swyddi yn y cwmnïau hyn ag y bo modd.

The report recommends the promotion of business support services, access to finance and mentoring, cutting regulation and addressing the issue of public sector procurement as a matter of priority. There is no mention of business rates as such in this report, which is very surprising given that every microbusiness on the high street speaks of little else. Can the Minister address this issue or is that being covered by her other group, which is looking specifically at that issue? The report itself calls for much of what Plaid was calling for in the summer regarding public sector procurement. That is reflected by the group and the businesses it consulted. This vindicates a great deal of what we were saying.

Mae'r adroddiad yn argymell hyrwyddo gwasanaethau cymorth busnes, mynediad at gyllid a mentora, torri rheoliadau a mynd i'r afael â chaffael y sector cyhoeddus fel mater o flaenoriaeth. Nid oes dim sôn am ardrethi busnes fel y cyfryw yn yr adroddiad hwn, sy'n syndod o gofio bod pob microfusnes ar y stryd fawr yn siarad am fawr ddim arall. A all y Gweinidog roi sylw i'r mater hwn, neu a yw'n cael ei gwmpasu gan ei grŵp arall, sy'n edrych yn benodol ar y mater hwnnw? Mae'r adroddiad yn galw am lawer o'r hyn yr oedd Plaid Cymru yn galw amdano yn yr haf o ran caffael yn y sector cyhoeddus. Mae hynny'n cael ei adlewyrchu gan y grŵp a'r busnesau yr ymgynghorwyd â hwy. Mae hyn yn adlewyrchu llawer o'r hyn roeddem yn ei ddweud.

I particularly endorse the comment in the report that there should be a requirement on all public bodies to include in their annual reporting the percentage amount of locally sourced procurement in their region and in Wales. This could prove invaluable. This is a very difficult area, because it is a very sensitive one and there are no easy hits. I am not quite sure whether a Bill is what is needed because that is very time-consuming and I am not sure what could be achieved, particularly given the European context. However, this is an area we need to look at to see whether we can simplify the processes and place some of the tenders in such a way that microbusinesses and small businesses can access them. This is particularly important.

Rwy'n arbennig o gefnogol o'r sylw yn yr adroddiad y dylai fod yn ofynnol bod pob corff cyhoeddus yn cynnwys, yn eu hadroddiadau blynyddol, ganran yr hyn sy'n cael ei gaffael o ffynonellau lleol yn eu rhanbarth ac yng Nghymru. Gallai hyn fod yn amhrisiadwy. Mae hwn yn faes anodd iawn, oherwydd ei fod yn sensitif iawn ac nid oes atebion hawdd. Nid wyf yn siŵr ai Bil sydd ei angen, oherwydd y byddai hynny'n cymryd llawer o amser ac nid wyf yn siŵr beth y gellid ei gyflawni, yn enwedig o ystyried y cyd-destun Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae angen inni ystyried y maes hwn i weld a allwn symleiddio'r prosesau a sefydlu rhai o'r tendrau yn y fath fodd fel y gall microfusnesau a busnesau bach gael gafael arnynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig.

In closing, I would endorse much of what has been said. With regard to the ability of small businesses to access support and advice, this area has been chopped and changed regularly over the past 15 years. It almost resembles the NHS in the number of structural changes it has had. I would caution against overhauling the system again, but it is true that microbusinesses find it very difficult to know where to go for such advice. This is an area that should be looked at. The enhanced business rate relief for SMEs is vital. We

Wrth gloi, hoffwn gymeradwyo llawer o'r hyn a ddywedwyd. O ran gallu busnesau bach i gael gafael ar gymorth a chyngor, cafodd y maes hwn ei newid yn gyson dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae bron yn debyg i'r GIG o ran nifer y newidiadau strwythurol. Byddwn yn rhybuddio yn erbyn ailwampio'r system eto, ond mae'n wir bod microfusnesau yn ei chael hi'n anodd gwybod ble i fynd i gael cyngor o'r fath. Mae hwn yn faes y dylid ei ystyried. Mae ehangu rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer busnesau

believe that the department could do with greater financial backing, and we also believe that, even for small and microbusinesses, a Build4Wales scheme to secure adequate finance for capital projects as well as sourcing further funding to present a large-scale fiscal stimulus for the Welsh economy would benefit small and large businesses alike.

bach a chanolig yn hanfodol. Rydym yn credu y byddai mwy o gefnogaeth ariannol yn fuddiol i'r adran. Rydym hefyd yn credu y byddai cynllun Adeiladu dros Gymru, i sicrhau cyllid digonol ar gyfer prosiectau cyfalaf yn ogystal â dod o hyd i ragor o arian i gyflwyno ysgogiad cyllidol ar raddfa fawr ar gyfer economi Cymru, o fantais i fusnesau bach a mawr fel ei gilydd.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod yr adroddiad, 'Prynu'n Ddoethach ar Adegau Mwy Anodd', yn cynnwys amcangyfrif Llywodraeth Cymru ei fod yn costio £20m i fusnesau gwblhau'r cam cyn-gymhwyso er mwyn cyflwyno cais ar gyfer contractau caffael cyhoeddus, ac mae hynny'n atal microfusnesau rhag cystadlu.*

*Notes the report 'Buying Smarter in Tougher Times' specifies the Welsh Governments' estimate that it costs £20m for businesses to pre-qualify to bid for public procurement contracts, making it prohibitive for micro-businesses to compete.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi argymhelliad yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru greu un brand cyfarwydd i gael mynediad at gymorth i fusnesau.*

*Notes the recommendation of the report that the Welsh Government should 'create a single well recognised brand for access to business support'.*

**Nick Ramsay:** I move amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

**Nick Ramsay:** Rwy'n cynnig gwelliannau 3 a 4 yn enw William Graham.

I start by echoing the Minister's comments and thanking Robert Lloyd Griffiths and the group who worked hard to put this report together. For any Members who have not had a chance to look at the report, I would say that it is concise and easy to read, and it contains many interesting facts, figures and statistics that are well worth looking at.

Byddaf yn dechrau drwy adleisio sylwadau'r Gweinidog a thrwy ddiolch i Robert Lloyd Griffiths a'r grŵp a weithiodd yn galed i lunio'r adroddiad hwn. Os nad yw'r Aelodau wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad, byddwn yn dweud ei fod yn gryno ac yn hawdd i'w ddarllen, ac mae'n cynnwys nifer o ffeithiau, ffigurau ac ystadegau diddorol sy'n werth eu darllen.

Our amendments relate to two aspect of the report that we think are extremely important and which have already been mentioned by Alun Ffred Jones, namely procurement and brand. Amendment 4 notes the recommendation that the Government should create a single well-recognised brand for access to business support. Amendment 3 refers to the 'Buying Smarter in Tougher

Mae ein gwelliannau yn ymwneud â dwy agwedd ar yr adroddiad y credwn eu bod yn hynod o bwysig ac sydd eisoes wedi'u crybwyll gan Alun Ffred Jones, sef caffael a brand. Mae gwelliant 4 yn nodi'r argymhelliad y dylai'r Llywodraeth greu un brand cyfarwydd i gael mynediad at gymorth i fusnesau. Mae gwelliant 3 yn cyfeirio at yr adroddiad 'Prynu'n Ddoethach ar Adegau

Times' report, which concluded that it cost £20 million to businesses to prequalify for public procurement bids. Both of these issues need to be addressed.

Mwy Anodd', a ddaeth i'r casgliad ei fod yn costio £20 miliwn i fusnesau gwblhau'r cam cyn-gymhwyso ar gyfer ceisiadau caffael cyhoeddus. Rhaid mynd i'r afael â'r ddau fater hyn.

The report before us comes after many years of businesses making the case that they would like to see a much more simplified business support regime to stop crowding out the private sector. We are talking about the need to do this. We need procurement reform, and the key to all this is that this report, ultimately, leads to action. Too many times in the past, we have seen instances where reports have not always led to action, so we need this to do what it says on the tin. Therefore, I very much hope that the Welsh Government will take on board all of the recommendations made.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ôl blynyddoedd lawer o fusnesau'n dweud y byddent yn hoffi gweld cyfundrefn llawer symlach ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau i atal y sector preifat rhag cael ei hepgor. Rydym yn sôn am yr angen i wneud hyn. Mae angen diwygio'r broses gaffael, a'r hyn sy'n bwysig yw bod yr adroddiad hwn, yn y pen draw, yn arwaith at weithredu. Yn rhy aml yn y gorffennol, rydym wedi gweld achosion lle nad yw adroddiadau wedi arwain at weithredu, felly mae angen i hyn wneud yr hyn y mae'n addo ei wneud. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd sylw o'r holl argymhellion a wnaed.

Turning to some of the specifics in the report, access to finance is, understandably, a key priority. We refer to the need to facilitate simple, accessible finance solutions that are between £1,000 and £20,000 for microbusinesses. With regard to procurement, we need to simplify the public procurement process and introduce a public sector procurement Bill, which I know the Government is considering. Julie James, my colleague on the Enterprise and Business Committee, is currently chairing a task and finish group on the issue of procurement.

I droi at rai o'r manylion yn yr adroddiad, mae mynediad at gyllid, yn ddealladwy, yn brif flaenoriaeth. Rydym yn cyfeirio at yr angen i hwyluso atebion cyllid syml rhwng £1,000 a £20,000 ar gyfer microfusnesau. O ran caffael, mae angen inni symleiddio'r broses gaffael gyhoeddus a chyflwyno Bil caffael sector cyhoeddus—gwn fod y Llywodraeth yn ystyried hynny. Mae Julie James, fy nghyd-Aelod ar y Pwyllgor Menter a Busnes, ar hyn o bryd yn cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen ar gaffael.

In the microbusiness analysis section of the review, it is highlighted that the growth of microbusinesses in Wales from 2003-06 was similar to growth in the UK, but, since 2007, the growth of microbusinesses has fallen relative to UK levels. I have listened to what the Minister said in her opening remarks, and it is quite true that there is good news here in that the proportion—I always try to be optimistic—of the economy that is microbusiness based is 1% or 2% higher than the UK average. Nonetheless, that sits alongside the fact that, since 2007, the growth here has been small, even though we have a higher proportion of microbusinesses as a proportion of our economy compared with the UK.

Yn yr adran o'r adolygiad sy'n dadansoddi microfusnesau, nodir bod twf microfusnesau yng Nghymru rhwng 2003 a 2006 yn debyg i'r twf yn y DU, ond bod twf microfusnesau wedi gostwng o'i gymharu â lefelau'r DU ers 2007. Gwrandawais ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol, ac mae'n wir bod newyddion da yma, gan fod y gyfran—rwyf bob amser yn ceisio bod yn optimistaidd—o'r economi sy'n seiliedig microfusnesau yn 1% neu 2% yn uwch na chyfartaledd y DU. Serch hynny, ar yr un pryd, ers 2007, bu'r twf hwn yn isel, er bod gennym gyfran uwch o ficrofusnesau fel cyfran o'n heconomi o'i gymharu â'r DU.

Also of concern in the report is something we have known for a long time, which is that there is significant confusion among businesses in Wales regarding who offers business support, what is available and how to access it. I know that the Minister has listened closely to the views of the entrepreneurs group, which I have been chairing of late. I know that she has taken those views on board. Those concerns have been raised not just by microbusinesses, but across the board. However, they are particularly relevant to microbusinesses.

Rhywbeth arall yn yr adroddiad sy'n peri pryder—rydym wedi gwybod am hyn ers amser maith—yw bod cryn ddryswch ymhlith busnesau yng Nghymru o ran pwy sy'n darparu cymorth busnes, beth sydd ar gael a sut i gael gafael arno. Gwn fod y Gweinidog wedi gwrando'n ofalus ar sylwadau'r grŵp entrepreneuriaid, a gadeiriwyd gennyf yn ddiweddar. Gwn ei bod yn ystyried y sylwadau hynny. Codwyd y pryderon hynny nid yn unig gan ficrofusnesau ond yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn arbennig o berthnasol i ficrofusnesau.

There is also a problem in many instances where the public sector is seen to be delivering a duplicate of what is happening in the private sector. This can displace other business advisory services that are accessed by Welsh professionals. Therefore, avoiding some of the duplication will have efficiency benefits.

Mewn nifer o achosion, mae problem hefyd lle ystyrir bod y sector cyhoeddus yn dyblygu'r hyn sy'n digwydd yn y sector preifat. Gall hyn ddisodli gwasanaethau cynghori busnes eraill sy'n cael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol Cymru. Felly, bydd osgoi peth o'r dyblygu hwn yn sicrhau manteision effeithlonrwydd.

The task and finish group recommends that a single brand is created in order to assist business support, which relates to amendment 4. It is also recommended that a network of one-stop shops is developed, which the Minister spoke about in her opening remarks. The one-stop shop model is usually successful where it is employed and is easily understood by the business sector and by people in general. Therefore, any moves towards developing that one-stop shop model in the case of microbusinesses are to be welcomed.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn argymell y dylid creu un brand er mwyn cynorthwyo'r broses o gefnogi busnesau, a nodir yng ngwelliant 4. Argymhellir hefyd bod rhwydwaith o siopau un stop yn cael ei datblygu, a siaradodd y Gweinidog am hyn yn ei sylwadau agoriadol. Mae'r model siop un stop fel arfer yn llwyddiannus pan gaiff ei ddefnyddio gan y sector busnes a phan gaiff ei ddeall yn hawdd gan y sector a chan bobl yn gyffredinol. Felly, mae unrhyw gam a gymerir tuag at ddatblygu model siop un stop ar gyfer microfusnesau i'w groesawu.

Finally, regulatory burden is a key aspect of this report. There is too much regulation, but it was interesting that the report says that as well as, or instead of, reducing regulatory burden, it may be helpful to assist businesses with their costs. That means introducing some form of compensation for the regulatory burden they have. It was interesting to read that we should compensate businesses, rather than just constantly talking about reducing regulation in areas where it might be less possible. I think that that would be a good thing.

Yn olaf, mae'r baich rheoleiddio yn agwedd allweddol ar yr adroddiad hwn. Mae gormod o reoleiddio, ond roedd yn ddiddorol nodi bod yr adroddiad yn dweud ei bod yn bosibl y byddai cynorthwyo busnesau gyda'u costau yn ddefnyddiol—yn ogystal â lleihau'r baich rheoleiddio neu yn lle hynny. Mae hynny'n golygu cyflwyno rhyw fath o iawndal am y baich rheoleiddio sydd ganddynt. Roedd yn ddiddorol darllen y dylem ddigolledu busnesau, yn hytrach na siarad o hyd am leihau rheoleiddio mewn meysydd lle gallai hynny fod yn llai posibl. Credaf y byddai hynny'n beth da.

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu argymhelliad yr adroddiad i leihau'r baich rheoleiddio ar ficrofusnesau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*Welcomes the report's recommendation to reduce the regulatory burden on micro-businesses and calls on the Welsh Government to:*

*a) gyflwyno polisi 'un i mewn ac un allan' ar gyfer rheoliadau sy'n effeithio ar ficrofusnesau; a*

*a) introduce a 'one in, one out' policy for regulations affecting micro-business; and*

*b) cyflwyno cymal machlud ar gyfer yr holl reoliadau newydd sy'n effeithio ar ficrofusnesau er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd.*

*b) introduce a sunset clause for all new regulations affecting micro-businesses in order to assess their effectiveness.*

*Gwelliant 6 Peter Black*

*Amendment 6 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Strategaeth Microfusnes yn cynnwys darpariaeth i fynd i'r afael â mannau gwan ar gyfer derbyn band eang fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod gan bob microfusnes fynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that its Micro-Business Strategy includes provision to tackle broadband 'not-spots' as a matter of priority in order to ensure that all micro-businesses have reliable access to the internet.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

I am a firm believer in evidence-based policy making, therefore I thank the Minister for commissioning this report and for bringing this debate to us today. I would also like to join in thanking the writers of the report, which I am sure we would all admit is extremely helpful, practical and positive in seeing a vision for a way forward for microbusinesses in Wales. The report also highlights the role of microbusinesses for Wales's future. Some of the statistics have already been mentioned, but it is interesting that if just 10% of microbusinesses employed one more person, more than 19,000 new jobs could be created across Wales. Therefore, finding ways to support and nurture our microbusinesses gives us a wonderful opportunity to grow sustainable local jobs—jobs that are loyal to the communities in which they were created.

Rwy'n credu'n gryf mewn llunio polisi ar sail tystiolaeth, felly rwy'n diolch i'r Gweinidog am gomisiynu'r adroddiad hwn ac am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Hoffwn hefyd ddiolch i awduron yr adroddiad—rwy'n siŵr y byddai pob un yn cyfaddef bod yr adroddiad yn hynod ddefnyddiol, ymarferol a chadarnhaol wrth osod gweledigaeth ar gyfer y ffordd ymlaen ar gyfer microfusnesau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rôl microfusnesau ar gyfer dyfodol Cymru. Mae rhai o'r ystadegau eisoes wedi cael eu crybwyll, ond mae'n ddiddorol nodi y gallai mwy na 19,000 o swyddi gael eu creu ledled Cymru pe bai 10% o ficrofusnesau yn cyflogi un person yn rhagor. Felly, mae canfod ffyrdd o gefnogi a meithrin ein microfusnesau yn rhoi cyfle gwych inni greu swyddi lleol cynaliadwy sy'n ffyddlon i'r cymunedau y cawsant eu creu ynddynt.

One of the major issues identified in the report is that of managing the burden of

Un o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad yw rheoli baich rheoleiddio a

regulation and a perceived lack of clarity, stability and advice. The situation is that microbusinesses rarely have access to the kind of detailed legal and financial support that bigger companies do, therefore the issue hits them disproportionately hard. I welcome the report's recommendation to reduce the regulatory burden on businesses and, for that reason, we have put forward our amendment 5, which calls on the Welsh Government to introduce a one-in-one-out policy for regulations affecting business. As new regulations are introduced, many of the older ones stay on the books and give businesses this growing mountain of legislation to climb. Therefore, the idea of adopting a one-in-one-out guiding principle gives businesses a clear signal that we too want to stop that trend and that we want to help them. We also suggest introducing a sunset clause for all new regulations affecting business, so that, after a fixed period of time, we can revisit the issues and assess their effectiveness. The regulatory environment has become overgrown and we need to clip it back.

diffyg eglurder, sefydlogrwydd, a chyngor canfyddedig. Yn anaml iawn y gall microfusnesau gael gafael ar y math o gymorth cyfreithiol ac ariannol manwl sydd ar gael i gwmnïau mwy o faint, felly mae'r broblem yn effeithio arnynt yn arbennig o galed. Rwy'n croesawu argymhelliad yr adroddiad y dylid lleihau'r baich rheoleiddio ar fusnesau ac, am y rheswm hwnnw, rydym wedi cyflwyno ein gwelliant 5, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno polisi 'un i mewn ac un allan' ar gyfer rheoliadau sy'n effeithio ar fusnesau. Wrth i reoliadau newydd gael eu cyflwyno, mae llawer o'r rhai hŷn yn parhau sy'n golygu bod mynydd cynyddol o ddeddfwriaeth yn wynebu busnesau. Felly, mae'r syniad o fabwysiadu egwyddor arweiniol ar sail un i mewn ac un allan yn dangos yn glir i fusnesau ein bod am atal y cynnydd a'n bod am eu helpu. Rydym hefyd yn awgrymu cyflwyno cymal machlud ar gyfer yr holl reoliadau newydd sy'n effeithio ar fusnesau fel y gallwn, ar ôl cyfnod penodol o amser, ailystyried y materion hyn ac asesu eu heffeithiolrwydd. Mae'r amgylchedd rheoleiddio wedi gordyfu ac mae angen ei docio.

Business rates are a big issue for microbusinesses, therefore I am surprised that it was not included in the report. We seek to avoid the scenario, for example, where improvements to business premises increase their value and therefore their business rateable value. I have submitted a few notes to the business rates review you that you are currently undertaking, Minister, which I very much welcome. I assume that the review will feed into the development of the microbusiness strategy that is under consideration.

Mae ardrethi busnes yn broblem fawr i ficrofusnesau, felly rwy'n synnu na chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad. Rydym yn ceisio osgoi'r sefyllfa, er enghraifft, lle bydd gwelliannau i adeiladau busnes yn cynyddu eu gwerth ac felly'n cynyddu eu gwerth ardrethol. Rwyf wedi cyflwyno ychydig o nodiadau i'r adolygiad o ardrethi busnes rydych yn ei gynnal ar hyn o bryd, Weinidog, ac rwy'n croesawu'r adolygiad hwnnw. Rwy'n cymryd yn ganiataol y bydd yr adolygiad yn cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth microfusnesau sy'n cael ei hystyried.

Turning to our amendment 6, we all recognise that the internet provides huge opportunities for small businesses, and that will only increase in future. We are therefore calling on the Welsh Government to ensure that broadband not spots are tackled as a matter of real priority to ensure that all businesses have reliable access to the internet. A recent Google figure shows that up to 40% of small Welsh firms have no website. Of small businesses in Wales, 84% said that they used the internet in some way,

I droi at ein gwelliant 6, rydym i gyd yn cydnabod bod y rhyngrwyd yn cynnig cyfleoedd enfawr ar gyfer busnesau bach, a bydd hynny'n cynyddu yn y dyfodol. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod mannau gwan band eang yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth i sicrhau bod gan bob busnes fynediad dibynadwy at y rhyngrwyd. Mae ffigur diweddar gan gwmni Google yn dangos nad oes gwefan gan hyd at 40% o gwmnïau bach yng Nghymru. O blith busnesau bach yng Nghymru, dywedodd 84%

but the comparable figure in the UK is more than 90%. A lack of access means that, potentially, they are not just losing direct sales, but the chance to search for procurement contracts and access to advice. The report notes that Iceland is held up as a good example of best practice for light regulatory burden, and one of the things that it was praised for is the fact that the practical requirements for small and medium-sized enterprises are simplified, accessible and online. The key word there, of course, is 'online'. If the internet connection is too slow or not there at all, internet solutions to developing those advisory services become less viable.

eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd mewn rhyw ffordd, ond mae'r ffigur cymharol yn y DU yn fwy na 90%. Mae diffyg mynediad yn golygu, o bosibl, eu bod nid yn unig yn colli gwerthiant uniongyrchol, ond hefyd y cyfle i chwilio am gontractau caffael ac i gael gafael ar gyngor. Mae'r adroddiad yn nodi bod Gwlad yr Iâ yn cael ei nodi yn enghraifft o arfer gorau o ran baich rheoleiddio ysgafn, ac un o'r pethau y caiff ei chanmol yn ei gylch yw'r ffaith bod y gofynion ymarferol ar gyfer busnesau bach a chanolig yn syml, yn hygyrch ac ar-lein. Y gair pwysig yma, wrth gwrs, yw 'ar-lein'. Os yw'r cysylltiad rhyngrwyd yn rhy araf neu os nad oes cysylltiad o gwbl, bydd yn llai ymarferol datblygu'r gwasanaethau cynghori hynny.

We will be supporting the Conservative amendments today. I often meet small, medium and microbusinesses, and they nearly always ask me what grants are available in their area. Therefore, something is clearly amiss. A clear brand and a streamlined service would help on that issue. Overall, the report gives us a clear picture of the priorities of a critical group in our economic health. I look forward to seeing the recommendations becoming first a strategy and then action.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr heddiw. Rwy'n aml yn cwrdd â busnesau bach a chanolig a microfusnesau ac maent bron bob amser yn gofyn imi ba grantiau sydd ar gael yn eu hardal. Felly, mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le. Byddai brand clir a gwasanaeth symlach yn helpu o ran y mater hwnnw. At ei gilydd, mae'r adroddiad yn rhoi darlun clir o flaenoriaethau grŵp sy'n allweddol ar gyfer ein hiechyd economaidd. Rwy'n edrych ymlaen at weld yr argymhellion yn arwain at strategaeth yn gyntaf ac yna gweithredu.

5.45 p.m.

**Christine Chapman:** Today's debate is a good opportunity to underline the importance of microbusinesses to the Welsh economy. Some commentators have gone so far as to suggest that the growth of the microbusiness sector is the clearest and most efficient way to stimulate flagging economies. I welcome the task and finish report. I particularly like the terminology, talking about championing and cherishing microbusinesses. That is vital to unlocking the can-do culture in Welsh businesses.

**Christine Chapman:** Mae'r ddadl heddiw yn gyfle da i danlinellu pwysigrwydd microfusnesau i economi Cymru. Mae rhai sylwebyddion wedi mynd cyn belled ag awgrymu mai tyfu'r sector microfusnesau yw'r ffordd gliriaf a mwyaf effeithiol i ysgogi economïau sy'n diffygio. Rwy'n croesawu'r adroddiad gorchwyl a gorffen. Rwy'n arbennig o hoff o'r derminoleg, sy'n sôn am hyrwyddo microfusnesau a'u meithrin. Mae hynny'n hanfodol o ran ysgogi diwylliant o hyder ym musnesau Cymru.

There is a lot to consider in the report but I will focus particularly on the recommendations relating to business support and mentoring. Ensuring that Welsh microbusinesses have access to the very best advice and support should be one of our

Mae llawer i'w ystyried yn yr adroddiad ond byddaf yn canolbwyntio'n benodol ar yr argymhellion sy'n ymwneud â chefnogi busnesau a mentora. Dylai sicrhau bod microfusnesau yng Nghymru yn cael y cyngor a'r gefnogaeth gorau fod yn un o'n

highest priorities. I know from speaking to small businesses in my constituency and elsewhere that many feel that they cannot always get access to the support that would allow them to take their businesses to the next level. That is reflected in the report. The system may be there, but if there is a perception that there are barriers, that is an issue. It is vital that our businesses know exactly where they need to turn for advice or, possibly, specialist services that would allow them to do just that. Therefore, I believe that the recommendations relating to a one-stop shop are particularly useful here.

blaenoriaethau uchaf. O siarad â busnesau bach yn fy etholaeth ac mewn mannau eraill, rwy'n gwybod bod llawer yn teimlo nad ydynt bob amser yn cael y gefnogaeth a fyddai'n eu galluogi i fynd â'u busnesau i'r lefel nesaf. Adlewyrchir hynny yn yr adroddiad. Efallai fod y system yno, ond os oes canfyddiad bod yna rwystrau, mae hynny'n broblem. Mae'n hanfodol bod ein busnesau yn gwybod yn union lle y mae angen iddynt droi am gyngor neu, o bosibl, am y gwasanaethau arbenigol a fyddai'n eu galluogi i wneud hynny. Felly, rwy'n credu bod yr argymhellion yn ymwneud â siop-un-stop yn arbennig o ddefnyddiol yn y cyswllt hwn.

As I mentioned in questions to the First Minister recently, an equally important part of this is ensuring that businesses get good-quality feedback—for example, after they bid for public sector funding or contracts. It is a two-way process. Businesses have told me that they feel that the absence of such feedback has held them back. They would like to have that feedback and a road to follow, so that they know what they need to do to be successful and what they could do differently next time. I think that that would make a considerable difference. We know that there are many incredibly hard-working and innovative people across Wales, and while many are naturally entrepreneurial, we cannot afford to waste the talents of those who may have a good idea, but are not confident enough to turn it into a business. Good mentoring and coaching make sound business sense.

Fel y soniais mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog yn ddiweddar, rhan o hyn sydd yr un mor bwysig yw sicrhau bod busnesau yn cael adborth o safon dda—er enghraifft, ar ôl iddynt wneud cais am gyllid neu gontractau yn y sector cyhoeddus. Mae'n broses ddwyffordd. Mae busnesau wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo bod diffyg adborth o'r fath wedi eu dal yn ôl. Byddent yn hoffi cael yr adborth hwnnw a llwybr i'w ddilyn, er mwyn iddynt wybod yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo a'r hyn y gallent ei wneud yn wahanol y tro nesaf. Byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth sylweddol. Rydym yn gwybod bod llawer o bobl hynod weithgar ac arloesol ledled Cymru, ac er bod llawer yn entrepreneuriaid naturiol, ni allwn fforddio gwastraffu talent y rheini sydd efallai â syniad da, ond nad oes ganddynt yr hyder i'w droi i mewn i fusnes . Mae mentora a hyfforddi da yn gwneud synnwyr busnes cadarn.

I am a little disappointed by the figures contained in the annex to the report, regarding the number of microbusinesses in each local authority. I am grateful that the report has reminded us of this. For example, Rhondda Cynon Taf, the second largest local authority, has only the eighth highest number of microbusiness enterprises. There seem to be a similarly low number of microbusinesses in many other parts of the former industrial communities of the south Wales Valleys. We need to know what else we can do to nurture microbusinesses in these areas, where they offer particular opportunities for economic regeneration.

Rwyf ychydig yn siomedig am y ffigurau yn yr atodiad i'r adroddiad, ynghylch nifer y microfusnesau ym mhob awdurdod lleol. Rwy'n ddiolchgar bod yr adroddiad wedi ein hatgoffa o hyn. Er enghraifft, mae Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod lleol mwyaf ond un, yn yr wythfed safle yn unig o ran nifer y mentrau sy'n ficrofusnesau. Ymddengys bod nifer yr un mor isel o ficrofusnesau mewn sawl rhan arall o hen gymunedau diwydiannol Cymoedd y de. Mae angen inni wybod beth arall y gallwn ei wneud i feithrin microfusnesau yn yr ardaloedd hyn, lle y maent yn cynnig cyfleoedd arbennig ar gyfer adfywio economaidd.

I have one final point, Deputy Presiding Officer. I was a little disappointed that there was no mention in the report of the links to higher education, bearing in mind the findings of the third Assembly's Enterprise and Learning Committee, on which I sat. It is important that there should be collaboration between academia and business, which is vital to generating economic success. There were calls in the report for the higher education sector to work more closely with smaller businesses. Having said that, it is an excellent report. I commend the group that worked on this, and I welcome the Minister's commitment to taking it forward.

Mae gennyf un pwynt terfynol, Ddirprwy Lywydd. Roeddwn ychydig yn siomedig nad oedd unrhyw sôn yn yr adroddiad am y cysylltiadau ag addysg uwch, gan gadw mewn cof ganfyddiadau Pwyllgor Menter a Dysgu'r trydydd Cynulliad, yr oeddwn yn aelod ohono. Mae'n bwysig bod cydweithredu rhwng y byd academaidd a busnes, gan fod hynny'n hanfodol o ran llwyddo'n economaidd. Galwodd yr adroddiad ar y sector addysg uwch i weithio'n agosach gyda busnesau llai. Wedi dweud hynny, mae'n adroddiad ardderchog. Cymeradwyaf y grŵp sydd wedi bod yn gweithio ar hyn, a chroesawaf ymrwymiad y Gweinidog i'w roi ar waith.

**Suzy Davies:** We all accept the importance of small and medium-sized enterprises to the Welsh economy and it has been refreshing to have a working paper to examine. However, it is a shame that the task and finish group did not look further at the issue of business rates and their effect on cashflow—one of the main barriers to the success of microbusinesses—and the mutual benefits of meaningful work experience and work-based learning—which Christine Chapman has just spoken about—for NEETs and microbusinesses could have been explored in detail. At least some of us would have liked to have seen an independent report commissioned by the Labour Welsh Government possibly endorsing policies being successfully introduced by the UK Government, or supported by the Welsh Conservatives in the Assembly. Judging by some of the other opposition amendments, we are not the only party to recognise that the UK Government's policies on regulation would be valuable for small businesses in Wales. As Alun Ffred said, 94.5% of Welsh businesses are designated microbusinesses, so I hope that a responsible Welsh Government will not reject those ideas just because they were suggested by someone else. I welcome, with some reservations, the recommendations that have been made, and I too congratulate the task and finish group on its work.

**Suzy Davies:** Rydym i gyd yn derbyn pwysigrwydd mentrau bach a chanolig i economi Cymru, ac mae wedi bod yn chwa o awyr iach cael papur gwaith i'w archwilio. Fodd bynnag, mae'n drueni na wnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen ystyried ardrethi busnes yn fanylach a'u heffaith ar lif arian—sef un o'r prif rwystrau i lwyddiant microfusnesau—nac y manteision i'r ddwy ochr o brofiad gwaith ystyrlon a dysgu seiliedig ar waith—mae Christine Chapman newydd siarad am hyn—i bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a microfusnesau. Byddai o leiaf rai ohonom wedi hoffi gweld adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru o bosibl yn cymeradwyo polisïau sy'n cael eu cyflwyno yn llwyddiannus gan Lywodraeth y DU, neu a gefnogir gan y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad. Ar sail rhai o welliannau'r gwrthbleidiau eraill, nid ni yw'r unig blaid i gydnabod y byddai polisïau Llywodraeth y DU ar reoleiddio yn werthfawr i fusnesau bach yng Nghymru. Fel y dywedodd Alun Ffred, dynodir 94.5% o fusnesau Cymru yn ficrofusnesau; felly, gobeithiaf na fydd Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn gwrthod y syniadau hynny dim ond oherwydd y gwnaeth rhywun arall eu hawgrymu. Rwy'n croesawu'r argymhellion a wnaed, ac eithrio rhai agweddau, ac rwyf hefyd yn llongyfarch y grŵp gorchwyl a gorffen ar ei waith.

The need for simplification of regulations, reporting methods and the pre-procurement process is clearly desirable. That is not news

Mae'r angen i symleiddio'r rheoliadau, dulliau adrodd a'r broses gyn-gaffael yn amlwg yn ddymunol. Nid yw hynny'n

to anyone. However, the comments by the Forum of Private Business that 40% of small businesses found it difficult to identify which regulations could be dispensed with means that it is not an area for cavalier action. A one-stop shop for business advice may be great, but one-size-fits-all is not the same as simplification. Easier processes must go side-by-side with one-to-one engagement. I endorse Christine Chapman's remarks on mentoring.

newyddion i neb. Fodd bynnag, mae sylwadau'r Fforwm Busnesau Preifat, sef bod 40% o fusnesau bach yn ei chael yn anodd nodi pa reoliadau y gellid eu hepgor, yn golygu nad yw hwn yn faes lle y dylid gweithredu'n ddi-hid. Gall siop-un-stop ar gyfer cyngor busnes fod yn wych, ond nid yw cael gwasanaeth sydd yr un fath i bawb yr un fath â symleiddio. Mae'n rhaid sicrhau bod prosesau haws ar waith ochr yn ochr ag ymgysylltu un-i-un. Rwy'n cymeradwyo sylwadau Christine Chapman ar fentora.

From my experience with Prime Cymru, bespoke support for engagement in economic activity makes a real difference. Development support for an established business hoping to expand is not the same as support for someone who has decided that they might be able to become self-employed, or someone who wants to work with difficult-to-place individuals, or entrepreneurs who may not be qualified but certainly have the savvy.

Fy mhrofiad gyda Prime Cymru oedd bod cymorth pwrpasol ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch economaidd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Nid yw cymorth datblygu i fusnes sefydledig sy'n gobeithio ehangu yr un fath â chymorth i rywun sydd wedi penderfynu y gallent fod yn hunangyflogedig, neu rywun sydd am weithio gydag unigolion sy'n anodd eu lleoli, neu entrepreneuriaid nad oes ganddynt gymwysterau efallai ond sydd yn sicr â digon o glem.

The crux of this report is a call for the Government to help create an environment in which microbusinesses can be sustainable at the same time as contributing safely to the delivery of public services. One third of the Assembly's budget is spent on procurement. Local authorities, the NHS and the Welsh Government spend around 80% of the public sector procurement budget, but only 50% of that spend is with suppliers based in Wales. The Assembly's stationery is procured from an international firm with UK offices in Airdrie and Telford. The contracts given to Welsh suppliers are worth less than £10 million. Over that amount, only 18.5% of contracts go to Welsh suppliers.

Wrth wraidd yr adroddiad hwn y mae galwad ar y Llywodraeth i helpu i greu amgylchedd lle y gall microfusnesau fod yn gynaliadwy gan gyfrannu ar yr un pryd at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Cynulliad yn gwario traean o'i gyllid ar gaffael. Mae awdurdodau lleol, y GIG a Llywodraeth Cymru yn gwario tua 80% o gyllideb caffael y sector cyhoeddus, ond 50% yn unig o hynny sy'n cael ei wario wrth gaffael o gyflenwyr yng Nghymru. Mae deunydd ysgrifennu'r Cynulliad yn cael ei gaffael gan gwmni rhyngwladol sydd â swyddfeydd yn y DU yn Airdrie a Telford. Mae'r contractau a roddir i gyflenwyr o Gymru yn werth llai na £10 miliwn. Uwchlaw'r swm hwnnw, 18.5% o gontractau yn unig a roddir i gyflenwyr Cymreig.

Of course, the Welsh Government is not permitted to make policy just on the basis of using Welsh suppliers. However, it can make it easier for Welsh suppliers to compete, by breaking down larger contracts and looking favourably at bids by consortia of small businesses. Contracts with big suppliers can be cheaper, but cheaper is not always the same as value for money. The Welsh Government can take into account the social

Wrth gwrs, ni chaniateir i Lywodraeth Cymru wneud polisi wedi'i seilio'n unig ar ddefnyddio cyflenwyr o Gymru. Fodd bynnag, gall ei gwneud yn haws i gyflenwyr o Gymru gystadlu, drwy dorri contractau mwy yn rhai llai ac ystyried yn ffafriol geisiadau gan gonsortia o fusnesau bach. Gall contractau gyda chyflenwyr mawr fod yn rhatach, ond nid yw bod yn rhatach bob amser yr un fath â chynnig gwerth am arian.

consequences of accepting one bid over another. Although the report talked about local sourcing, it was silent on the specific opportunities that social enterprise can offer. The efficiency and innovation group report last February stated that we must

Gall Llywodraeth Cymru ystyried canlyniadau cymdeithasol derbyn y naill gynnig yn lle'r llall. Er y soniodd yr adroddiad am ffynonellau lleol, roedd yn fud am y cyfleoedd penodol y mae mentrau cymdeithasol yn gallu eu cynnig. Roedd adroddiad y grŵp effeithlonrwydd ac arloesi fis Chwefror diwethaf yn datgan bod yn rhaid inni

'foster strong and competitive Welsh supply chains in both the private and third sector. We have evidence that where procurement has focused on delivering local benefits 30% more of the capital expenditure has been re-invested in local employment.'

feithrin cadwyni cyflenwi cadarn a chystadleuol Cymreig yn y sector preifat a'r trydydd sector. Mae gennym dystiolaeth bod 30% yn fwy o'r gwariant cyfalaf wedi cael ei ailfuddsoddi mewn cyflogaeth leol lle y mae'r broses gaffael wedi canolbwyntio ar greu budd yn lleol.

The task and finish report also remarks that the Welsh Government should be an enabler and a facilitator rather than a deliverer. It also needs to be an effective monitor. I raised the treatment of one small publishing business on Sell2Wales in the Chamber on 2 November last year. It was part of a longer story of dismissiveness and opaque behaviour on the part of Cadw. Yesterday, we heard that this unjustifiable treatment on the part of Cadw continues. Competitors feel that they are being frozen out and decisions are made behind closed doors. Where has the Welsh Government been over that last three months? Only last week we discussed Government failings in monitoring Communities First. AWEMA is the subject of three investigations. The Minister for Health and Social Service's default setting on how NHS money is spent within local health boards is that it is nothing to do with her.

Mae'r adroddiad gorchwyl a gorffen hefyd yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru alluogi a hwyluso yn hytrach na darparu. Mae angen hefyd iddi fonitro yn effeithiol. Soniais yn y Siambr ar 2 Tachwedd y llynedd am y modd y cafodd un busnes cyhoeddi bach ei drin ar GwerthwchiGymru. Roedd yn rhan o stori hwy o ddiystyru ac ymddygiad anrhyloyw gan Cadw. Ddoe, clywsom fod y driniaeth anghyfiawn hon gan Cadw yn parhau. Mae cystadleuwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud y tu ôl i ddrysau caeedig. Ble y mae Llywodraeth Cymru wedi bod dros y tri mis diwethaf? Dim ond yr wythnos diwethaf, buom yn trafod methiannau'r Llywodraeth wrth fonitro Cymunedau yn Gyntaf. Mae AWEMA yn destun tri ymchwiliad. Ateb arferol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran sut y mae arian y GIG yn cael ei wario mewn byrddau iechyd lleol yw nad oes a wnelo ddim â hi.

The report reminds us that regulation is made nationally and by Europe, not just by the Welsh Government. That is true, but whatever steps the Welsh Government takes as a result of this report, it must monitor them effectively. Microbusinesses do not need micromanagement, but the buck does stop with the Welsh Government when it comes to how public money is spent.

Mae'r adroddiad yn ein hatgoffa y gwneir rheoliadau yn genedlaethol a chan Ewrop, nid yn unig gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n wir, ond pa gamau bynnag y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i'r adroddiad hwn, mae'n rhaid iddi eu monitro'n effeithiol. Nid oes angen microreolaeth ar ficrofusnesau, ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sut y caiff arian cyhoeddus ei wario.

**Janet Finch-Saunders:** I am pleased to be taking part in this debate. It is an essential debate that is important for businesses in

**Janet Finch-Saunders:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon. Mae'n ddadl hanfodol sy'n bwysig i fusnesau yng

Wales. As has been mentioned, according to figures in 2011, microbusinesses account for 94.5% of Wales's businesses and are responsible for 33.2% of private sector employment—331,400 jobs. Despite that presence, many feel isolated and out of the loop in terms of business support. While the term 'microbusiness' describes a business with up to nine employees, there are many successful microbusinesses with only three or four full-time employees and, of course, there are the sole traders, for whom I must fly the flag. They also need to feel valued and supported by the Welsh Government.

Nghymru. Fel y soniwyd eisoes, yn ôl ffigurau yn 2011, mae 94.5% o fusnesau Cymru yn ficrofusnesau, ac mae 33.2% o weithwyr yn y sector preifat yn gweithio i ficrobusnes—331,400 o swyddi. Er gwaethaf y presenoldeb hwnnw, mae llawer yn teimlo'n ynysig ac nad ydynt yn cael eu cynnwys o ran cymorth busnes. Er bod y term 'microfusnes' yn disgrifio busnes sydd â hyd at naw o weithwyr, mae llawer o ficrofusnesau llwyddiannus nad oes ganddynt ond tri neu bedwar o weithwyr llawn amser ac, wrth gwrs, ceir y masnachwyr unigol, y mae'n rhaid imi dynnu sylw atynt. Mae angen iddynt hwythau deimlo bod Llywodraeth Cymru yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Welsh Labour's 2011 manifesto largely ignored small businesses, according to the Federation of Small Businesses Wales. It has criticised the Welsh Government for being slow to get off the ground since the elections last year. The report of the microbusinesses task and finish group states that

Yn ôl Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, gwnaeth maniffesto Llafur Cymru 2011 anwybyddu busnesau bach, ar y cyfan. Mae wedi beirniadu Llywodraeth Cymru am fod yn araf i fwrw ati ers etholiadau'r llynedd. Mae adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar microfusnesau yn datgan bod

'there is significant confusion among businesses in Wales as to who offers business support, what is available and how to access relevant support'.

'cryn ddryswch ymhlith busnesau yng Nghymru o ran pwy sy'n cynnig cymorth busnes, beth sydd ar gael a sut i gael gafael ar y cymorth perthnasol'.

An example is the lack of consultation prior to the amendment to section 66 of the Local Government Finance Act 1992, which has now left many holiday-home owners who had previously registered as a microbusiness facing huge council tax bills as a result of being unable to let their homes for the required 70 days. We must provide support, not punishment when small businesses are under this immense pressure.

Un enghraifft yw'r diffyg ymgynghori a fu cyn diwygio adran 66 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, sydd bellach wedi golygu bod llawer o berchnogion cartrefi gwyliau a oedd wedi cofrestru yn flaenorol fel microfusnesau yn wynebu biliau treth gyngor enfawr gan na allant osod eu cartrefi am 70 diwrnod, fel sy'n ofynnol. Mae'n rhaid inni ddarparu cymorth, nid cosb, pan fo busnesau bach o dan y pwysau aruthrol hwn.

A survey by the Forum of Private Business showed that the top four areas that small and medium-sized enterprises felt that elected representatives could help in were reducing red tape, having a realistic assessment of what SMEs can do, simplifying current employment law and business regulations, and being supportive, as opposed to the perception of their being anti-business. I support the recommendation of the report of the task and finish group that the Welsh Government should create a single well-recognised brand for access to business

Dangosodd arolwg gan y Fforwm Busnesau Preifat mai'r pedwar prif faes lle y gallai cynrychiolwyr etholedig helpu busnesau bach a chanolig, ym marn y busnesau hynny, oedd lleihau biwrocratiaeth, asesu mewn modd realistig yr hyn y gall busnesau bach a chanolig ei wneud, symleiddio cyfraith cyflogaeth a rheoliadau busnes cyfredol, a bod yn gefnogol, yn hytrach na'r canfyddiad eu bod yn gwrthwynebu busnes. Rwy'n cefnogi argymhelliad adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen y dylai Llywodraeth Cymru greu un brand adnabyddus ar gyfer

support, to streamline and simplify the system. The Confederation of British Industry Wales has said that

cymorth busnes, er mwyn rhesymoli'r system a'i symleiddio. Dywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru:

'Wales has a growing reputation as one of the worst places in the UK for public procurement'.

Mae Cymru yn gynyddol yn ennill enw fel un o'r llefydd gwaethaf yn y DU ar gyfer caffael cyhoeddus.

My own engagement and experience with the local business community in Aberconwy has led me to realise there is much despair and frustration in terms of procurement exercises, and I know that my colleagues can bear witness to comments coming from the business sector on Friday. It has also been mentioned that there is little advice or support for microbusinesses to enter into the export market.

O ymgysylltu â'r gymuned fusnes leol yn Aberconwy, ac o'm profiad gyda'r gymuned fusnes yno, rwyf wedi sylweddoli bod llawer o anobaith a rhwystredigaeth ynglŷn ag ymarferion caffael, ac rwy'n gwybod bod fy nghyd-Aelodau yn dystion i sylwadau a wnaeth y sector busnes ddydd Gwener. Mae hefyd wedi cael ei grybwyll nad oes llawer o gyngor na chymorth i ficrofusnesau ynglŷn â mynd i'r farchnad allforio.

The Royal Institution of Chartered Surveyors Wales has said that the system of bidding for Government contracts is overly bureaucratic and cumbersome, especially for small businesses. The 'Buying Smarter in Tougher Times' report estimates that the Welsh Government's inconsistent and complex approach to procurement has meant that the cost for businesses across Wales to prequalify for public procurement contracts is in the region of £20 million. It has highlighted a need to create more opportunities for small businesses, such as splitting contracts into smaller bundles for which microbusinesses could apply.

Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru wedi dweud bod y system o wneud cais am gontractau'r Llywodraeth yn rhy fiwrocrataidd a beichus, yn arbennig ar gyfer busnesau bach. Mae'r adroddiad 'Buying Smarter in Tougher Times' yn amcangyfrif bod ymagwedd anghyson a chymhleth Llywodraeth Cymru tuag at gaffael wedi golygu mai'r gost i fusnesau ledled Cymru o gyn-gymhwyso ar gyfer contractau caffael cyhoeddus yw tua £20 miliwn. Mae wedi tynnu sylw at yr angen i greu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach, er enghraifft drwy rannu contractau yn fwndeli llai y gallai microfusnesau wneud cais amdanynt.

